

Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Rhagfyr 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDCC

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddDCC](https://twitter.com/SeneddDCC)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Rhagfyr 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.

Ceir ei gylch gwaith yn www.senedd.cymru/SeneddDCC

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Huw Irranca-Davies AS
Llafur Cymru



Alun Davies AS
Llafur Cymru



James Evans AS
Ceidwadwyr Cymreig



Peredur Owen Griffiths AS *
Plaid Cymru

*Nid oedd Peredur Owen Griffiths AS yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod gwaith craffu ar y Bil.

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod gwaith craffu ar y Bil.



Rhys ab Owen AS
Aelod Annibynnol Plaid Cymru

Cynnwys

Argymhellion ac Chasgliadau	7
1. Cyflwyniad.....	10
Diben y Bil	10
Cylch gwaith y Pwyllgor a'i ddull craffu.....	11
2. Bil Cydgrynhoi cyntaf Cymru	13
Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.....	13
Gweithdrefnau'r Senedd ar gyfer ystyried Biliau Cydgrynhoi Cymru	13
Cefndir	13
Rheol Sefydlog 26C, y Pwyllgor Cyfrifol, a rôl pwyllgorau eraill y Senedd	13
Ystyriaeth y Senedd o'n hadroddiad	14
Dyfodol cyfraith Cymru – rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–2026.....	15
Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) fel Bil Cydgrynhoi cyntaf Cymru	15
Ein barn ni	24
3. Sylwadau cyffredinol.....	26
Cymhwysedd deddfwriaethol	26
Hawliau dynol	27
Ein barn ni	28
4. A yw cwmpas y Bil yn briodol?.....	29
Cefndir	29
Effaith datganoli ar y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi.....	31
Newidiadau a wnaed ar argymhelliad Comisiwn y Gyfraith yn unol â Rheol Sefydlog 26C.2(v).....	33
Cymhwyso a deall y gyfraith bresennol a rhesymeg a chyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros wneud newidiadau.....	36
Adran 2(3): Ystyr "heneb" a "safle heneb"	36
Adran 39(2)(c): Apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi.....	38

Adran 151(2): Gweinidogion Cymru yn derbyn gwaddol ar gyfer cynnal adeilad	40
Adran 152(9): Pwerau i fynd ar dir.....	41
Adran 163(1)(c)(i) a (2)(d): Cymhwyso Rhan 3 i ardaloedd cadwraeth.....	43
Adran 201: Gwneud hawliadau am ddigollediad.....	44
Adran 208(3): Tir Eglwys Loegr.....	46
Newidiadau i ddarpariaethau a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.....	48
Deddfwriaeth sydd wedi'i heithrio o'r ymarfer cydgrynhai a'r Bil	55
Ein barn ni	63

5. A yw'r Bil yn cydgrynhai'r deddfiadau yn gywir neu a yw'n newid eu heffaith gyfreithiol o ran sylwedd i'r graddau a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2 yn unig?.....67

Egluro cymhwysiad neu effaith y gyfraith bresennol	67
Ymgorffori cyfraith gwlad.....	67
Adran 20: Addasu a dirymu cydsyniad	69
Ystyr "cyflogi fel/employed as"	70
Diogelu o gymharu â chadwraeth.....	70
Adran 76(5): Dyletswydd i gynnal a chyhoeddi rhestr o adeiladau.....	75
Adran 90(4): Gwneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig	77
Adran 97(5): Pŵer i roi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau	79
Ystyr "dymchwel"	82
Dileu neu hepgor darpariaethau anarferedig, darfodedig neu rai nad ydynt yn ymarferol ddefnyddiol neu'n ymarferol effeithiol bellach	83
Cyffredinol.....	83
Dileu pwerau gweithredol	85
Gwneud mân newidiadau i'r gyfraith bresennol at ddibenion cyflawni cydgrynhai boddhaol.	86
Disodli termau	87

Atodlen 7: Diwedd gwarchodaeth interim neu restriad dros dro ar gyfer adeiladau	89
Atodlen 8: Y weithdrefn ar gyfer gorchmynion sy'n addasu neu'n dirymu cydsyniad adeilad rhestredig ac Atodlen 10: Y weithdrefn ar gyfer gorchmynion sy'n terfynu cytundebau partneriaethau adeiladau rhestredig.....	90
Adran 147: Camau ar gyfer diogelu adeiladau rhestredig sydd mewn cyflwr gwael.....	92
Adran 155(5): Darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad	94
Adran 156(1): Adeiladau crefyddol esempt	95
Section 207: Diffiniadau sy'n ymwneud â'r Goron	96
Newidiadau i'r gweithdrefnau sydd ynghlwm wrth wneud is-ddeddfwriaeth, symud darpariaethau rhwng is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth sylfaenol, a phwerau gwneud rheoliadau newydd a roddir i Weinidogion Cymru.....	97
Gorchmynion v rheoliadau.....	97
Newidiadau i weithdrefnau is-ddeddfwriaeth	97
Symud darpariaethau rhwng is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth sylfaenol	98
Darparu pwerau newidd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau.....	104
Ein barn ni	109
6. A yw'r Bil yn cydgrynhoi'r gyfraith yn glir ac yn gyson?.....	114
Cyffredinol.....	114
Effaith Deddf Dehongli 1978 a Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ar y Bil.....	118
Statws is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau sy'n cael eu cydgrynhoi.....	120
Ein barn ni	121
7. Gweithredu, codau cyfraith Cymru, gwerthuso llwyddiant a phrosiectau cydgrynhoi yn y dyfodol.....	123
Gweithredu	123
Amserlenni ac adnoddau.....	123
Yr is-ddeddfwriaeth y bydd ei hangen	126
Ymgysylltu â'r system gyfiawnder	127

Codau Cyfraith Cymru, a newidiadau posibl i Reolau Sefydlog y Senedd yn y dyfodol	128
Codau cyfraith Cymru	128
Newidiadau i Reolau Sefydlog y Senedd yn y dyfodol	133
Gwerthuso llwyddiant a phrosiectau cydgrynhoi yn y dyfodol	136
Ein barn ni	137
Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.....	141
Atodiad B: Gohebiaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol yn dilyn ein cyfarfod ar 11 Gorffennaf 2022	142
Atodiad C: Gohebiaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar faterion yn ymwneud yn bennaf â Nodiadau'r Drafftwyd.....	159
Atodiad D: Gohebiaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar eithrio cyfraith forol.....	214
Atodiad E: Gohebiaeth gan randdeiliaid	219

Argymhellion ac Chasgliadau

Argymhelliad 1. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddefnyddio'r ddadl ar yr Ystyriaeth Gychwynnol i gadarnhau i'r Senedd a yw'r cydsyniad gofynnol gan Lywodraeth y DU mewn perthynas ag Atodlen 13 (o'i darllenir gydag adrannau 178 a 201) wedi dod i law. Tudalen 28

Argymhelliad 2. Yn ein barn ni, dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi. Tudalen 63

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru (ac unrhyw gorff hyd braich perthnasol arall) wneud unrhyw waith cyn cyflwyno Bil Cydgrynhoi i'r Senedd gyda'r amcan a'r disgwyliad y bydd y manylion llawn yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd ag y caiff y Bil ei osod gerbron y Senedd. Tudalen 64

Argymhelliad 4. Pan fo Bil Cydgrynhoi yn ceisio newid darpariaethau a gyflwynwyd i'r maes perthnasol o'r gyfraith sy'n cael ei gydgrynhoi gan Fesur neu Ddeddf y Senedd, dylai'r deunydd esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil dynnu sylw at bob newid penodol a rhoi esboniad trylwyr o hynny. Tudalen 65

Argymhelliad 5. Pan fo Llywodraeth Cymru wedi penderfynu eithrio cyfraith berthnasol yn fwiadol o Fil Cydgrynhoi, dylid darparu sail resymegol lawn a manwl yn y deunydd esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, gan gynnwys unrhyw gyfiawnhad yn seiliedig ar gymhwysedd deddfwriaethol a lle y byddai'r weithred o gydgrynhoi yn golygu mwy na'r hyn a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C. Tudalen 65

Argymhelliad 6. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol a Llywodraeth Cymru adolygu cyfraith amgylchedd hanesyddol morol fel y mae'n gymwys yng Nghymru a gwneud y diwygiadau angenrheidiol ar y cyfle cyntaf. Tudalen 66

Argymhelliad 7. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol a Llywodraeth Cymru adolygu'r gweithdrefnau a nodir yn Atodlenni 8 a 10 i'r Bil ac asesu a yw'r sylfaen dystiolaeth yn cefnogi newid yn y gyfraith i ganiatáu ar gyfer sylwadau ysgrifenedig yn lle gwrandawladau personol ac, os felly, dylid ystyried y ffordd fwyaf priodol i gyflawni'r amcan hwn. Tudalen 111

Argymhelliad 8. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol a Llywodraeth Cymru adolygu'r gyfraith bresennol ac asesu'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi newid yn y gyfraith fel bod darpariaeth ar gyfer hysbysiadau diogelu yn cael ei dileu, a dylai ystyried y ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r amcan hwn. Tudalen 112

Argymhelliad 9. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol, wrth gyflwyno gwelliannau i'r Bil, roi esboniad llawn a manwl ynghylch sut, yn ei farn ef, y mae pob gwelliant yn bodloni'r meini prawf a nodir yn Rheol Sefydlog 26C.82. Tudalen 112

Argymhelliad 10. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol egluro, cyn y ddadl berthnasol yn y Senedd ynghylch a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhai, a fyddai adran 2(3) o'r Bil yn dal i gydymffurfio â hawliau dynol heb y pŵer newydd i wneud rheoliadau ac a fyddai cynnwys pŵer sy'n caniatáu i eithriadau i'r sefyllfa gyffredinol gael eu pennu gan reoliadau yn gyfystyr â newid bach i'r gyfraith bresennol..... Tudalen 113

Argymhelliad 11. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol egluro sut y mae Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Adolygu Penderfyniadau Cofrestru) (Cymru) 2017 wedi'u cymhwyso'n ymarferol a chadarnhau a yw ein dealltwriaeth o'r sefyllfa, fel y nodir ym mharagraff 345 o'n hadroddiad, yn gywir..... Tudalen 122

Argymhelliad 12. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu, cyn gynted â phosibl, gynllun manwl yn ymwneud â'r amserlenni tebygol a maint yr is-ddeddfwriaeth a fydd yn ofynnol fel rhan o weithrediad llawn yr ymarfer cydgrynhai hwn o gyfraith yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Tudalen 137

Argymhelliad 13. Dylai'r Pwyllgor Busnes, wrth gynnal unrhyw adolygiad o Reolau Sefydlog y Senedd sy'n ymwneud â gofynion neu gyfyngiadau newydd ar y ffordd y mae'r Senedd yn ystyried cynigion deddfwriaethol yng nghyd-destun maes cyfun o'r gyfraith, ymgynghori ag Aelodau'r Senedd, Pwyllgorau'r Senedd a Chomisiwn y Senedd..... Tudalen 139

Argymhelliad 14. Dylai'r Pwyllgor Busnes adolygu Rheol Sefydlog 26C ar ôl i'r ddau Fil Cydgrynhai arfaethedig cyntaf gael eu hystyried gan y Senedd..... Tudalen 139

Casgliad 1. Rydym yn fodlon ar y cyfan â chwmpas y Bil fel Bil Cydgrynhai, gan gynnwys y newidiadau a wnaed ar argymhelliad Comisiwn y Gyfraith yn unol â Rheol Sefydlog 26C.2(v). Tudalen 63

Casgliad 2. Rydym yn derbyn ac yn cydnabod mai dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth Cymru baratoi deunydd esboniadol i gyd-fynd â chyflwyno Bil Cydgrynhai. Er ein bod yn cydnabod ac yn croesawu'r manylion ychwanegol a roddwyd inni wedyn ar gais drwy ohebiaeth ac yn ystod sesiynau tystiolaeth ffurfiol, credwn y gellid gwella'r wybodaeth a nodir yn y deunydd esboniadol gofynnol wrth gyflwyno'r Bil (gan gynnwys Nodiadau'r Drafftwyd)..... Tudalen 64

Casgliad 3. Rydym yn fodlon yn gyffredinol bod y Bil yn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol yn gywir, neu'n newid ei effaith gyfreithiol o ran sylwedd yn gywir, dim ond i'r graddau a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2.....Tudalen 109

Casgliad 4. Rydym yn fodlon ar y cyfan bod y Bil yn cydgrynhoi deddfwriaeth bresennol yn gywir ac yn gyson, yn unol â Rheol Sefydlog 26C.17(iv). Tudalen 121

Casgliad 5. Er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl o'r ymarfer cydgrynhoi hwn, dylai Llywodraeth Cymru a Cadw sicrhau bod cyfathrebu ac ymgysylltu llawn a phriodol yn digwydd gyda rhanddeiliaid perthnasol a defnyddwyr allweddol y ddeddfwriaeth.Tudalen 138

1. Cyflwyniad

Ar 4 Gorffennaf 2022 cyflwynodd Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad (y Cwnsler Cyffredinol) Fil Cydgrynhai cyntaf Cymru, Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (y Bil) i'r Senedd¹, a Memorandwm Esboniadol cysylltiedig².

1. Ochr yn ochr â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol, gosododd y Cwnsler Cyffredinol hefyd Nodiadau Esboniadol³, dogfen yn cynnwys Tabl Tarddiadau⁴, dogfen yn cynnwys Tabl Trawsleoli⁵, esboniad o'r newidiadau a wnaed i'r darpariaethau presennol (a elwir yn Nodiadau'r Drafftwyd)⁶ a gohebiaeth oddi wrth Gomisiwn y Gyfraith⁷.

2. Ar 4 Gorffennaf 2022, cyfeiriwyd y Bil at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor) gan Bwyllgor Busnes y Senedd, gan bennu 16 Rhagfyr 2022 fel dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad ar ei ystyriaethau cychwynnol.⁸ Wedi hynny, diwygiwyd y dyddiad cau ar gyfer adrodd i 23 Rhagfyr 2022.⁹

Diben y Bil

3. Teitl hir y Bil yw:

"Deddf gan Senedd Cymru i gydgrynhoi deddfiadau penodol sy'n ymwneud â chadwraeth amgylchedd hanesyddol Cymru."

4. Dywed y Cwnsler Cyffredinol yn y Memorandwm Esboniadol:

¹ Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Gorffennaf 2022

³ Llywodraeth Cymru, Nodiadau Esboniadol, Gorffennaf 2022

⁴ Llywodraeth Cymru, Tabl Tarddiadau, Gorffennaf 2022

⁵ Llywodraeth Cymru, Tabl Trawsleoli, Gorffennaf 2022

⁶ Llywodraeth Cymru, Eglurhad o newidiadau a wnaed i ddarpariaethau presennol o fewn Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (Nodiadau'r Drafftwyd), Gorffennaf 2022

⁷ Gohebiaeth gan Gomisiwn y Gyfraith at y Prif Weinidog, 13 Mai 2022

⁸ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Gorffennaf 2022

⁹ Llythyr gan y Pwyllgor Busnes, 23 Medi 2022; Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 30 Medi 2022; Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig i'w hystyried: Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Hydref 2022

"Diben Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ('y Bil') yw cydgrynhoi deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

Yr hyn a olygir wrth gydgrynhoi yw dwyn ynghyd y cyfan neu'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth (sylfaenol, gan amlaf) ar bwnc penodol fel ei bod yn hawdd dod o hyd iddi, a moderneiddio ffurf y gyfraith a'r modd y caiff ei drafftio er mwyn ei gwneud yn haws ei deall a'i chymhwyso. Yn aml, wrth gydgrynhoi deddfwriaeth, mae nifer o Ddeddfau sy'n bodoli eisoes ar bwnc yn cael eu dwyn ynghyd, gan ddiweddarau a chysoni'r darpariaethau, er mwyn creu Un Ddeddf newydd yn y pen draw.¹⁰

5. Mae'r Bil yn cynnwys 213 o adrannau ac 14 o Atodlenni, ac mae iddo saith rhan:

- Rhan 1 – Trosolwg
- Rhan 2 – Henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig
- Rhan 3 – Adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig
- Rhan 4 – Ardaloedd cadwraeth
- Rhan 5 – Darpariaeth atodol ynghylch adeiladau o ddiddordeb arbennig ac ardaloedd cadwraeth
- Rhan 6 – Asedau treftadaeth eraill a chofnodion
- Rhan 7 – Darpariaethau cyffredinol

Cylch gwaith y Pwyllgor a'i ddull craffu

6. Cylch gwaith y Pwyllgor yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Gallwn hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder, a materion allanol, o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru neu sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

7. Mae rôl y Pwyllgor o ran Biliau Cydgrynhoi, yn benodol o ran Ystyriaeth Gychwynnol, wedi'i nodi yn Rheol Sefydlog 26C.16, sef ystyried a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi a chyflwyno adroddiad ar hynny.

¹⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 1 a 2

8. Wrth ystyried a ddylai Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi ai peidio, mae Rheol Sefydlog 26C.17 yn nodi y caiff y pwyllgor cyfrifol ystyried:

- a yw'n fodlon bod cwmplas y cydgrynhoi yn briodol;
- a yw'n fodlon bod y deddfiadau perthnasol wedi'u cynnwys wrth gydgrynhoi;
- a yw'r Bil yn cydgrynhoi'r deddfiadau yn gywir neu a yw'n newid eu heffaith gyfreithiol o ran sylwedd i'r graddau a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2 yn unig;
- a yw'r Bil yn cydgrynhoi'r gyfraith yn glir ac yn gyson;
- unrhyw faterion eraill y mae'n barnu eu bod yn berthnasol i Reol Sefydlog 26C.

9. Ar 4 Gorffennaf 2022¹¹, ystyriwyd ein dull o ymdrin â'r Ystyriaeth Gychwynnol a chytunwyd i graffu ar y Bil yn unol â Rheol Sefydlog 26C.17.

10. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Mae'r rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar wedi'i chynnwys yn Atodiad A. Yn ogystal ag ymddangos ger ein bron ar ddau achlysur, bu gohebiaeth fanwl rhyngom a'r Cwnsler Cyffredinol. Oherwydd ei arwyddocâd yn ein hystyriaeth o'r Bil, rydym wedi penderfynu cynnwys yr ohebiaeth â'r Cwnsler Cyffredinol yn llawn yn Atodiadau B i D i'r adroddiad hwn. Fe wnaethom hefyd ysgrifennu at randdeiliaid perthnasol i ofyn eu barn ar yr ymarfer cydgrynhoi. Mae rhestr o'r sefydliadau a'r unigolion y cafwyd ymatebion ganddynt, a dolenni i'r dystiolaeth gyhoeddedig honno, wedi'i chynnwys yn Atodiad E.

11. Yn yr adroddiad hwn rydym yn canolbwyntio ar faterion sydd, yn ein barn ni, yn allweddol i'n rôl wrth argymhell i'r Senedd a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi.

12. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith ac wedi helpu i lywio ein hystyriaeth o'r Bil.

13. Yn benodol, hoffem ddiolch i'r Cwnsler Cyffredinol, Cwnsleriaid Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru a swyddogion eraill am eu cyfraniad at y broses graffu ac am eu hatebion trylwyr i'n cwestiynau.

¹¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Gorffennaf 2022

2. Bil Cydgrynhoi cyntaf Cymru

Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

14. Ym mis Mehefin 2016 argymhellodd Comisiwn y Gyfraith¹² y dylid cydgrynhoi a chodeiddio meysydd sylweddol o gyfraith Cymru. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhellion hyn, a chyflwynodd y **Bil Deddfwriaeth (Cymru)**, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddi barhau i adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru.

15. Bu'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn y Pumed Senedd yn craffu ar y Bil Deddfwriaeth (Cymru) (yn unol â Rheol Sefydlog 26), cyn iddo gael ei ddeddfu fel **Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019** (Deddf 2019) ym mis Medi 2019. Roedd hefyd yn gyfrifol am ystyried, yn ehangach, faterion yn ymwneud â **chydgrynhoi a chodeiddio** cyfraith Cymru.

Gweithdrefnau'r Senedd ar gyfer ystyried Biliau Cydgrynhoi Cymru

Cefndir

16. Wrth adrodd ar y Bil Deddfwriaeth (Cymru), argymhellodd y Pwyllgor â'n rhagflaenodd y dylai'r **Pwyllgor Busnes** ofyn ei farn pan fydd y Pwyllgor Busnes yn paratoi Rheolau Sefydlog newydd ar gyfer Biliau Cydgrynhoi. Cytunodd y Pwyllgor Busnes, a llwyddodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd i roi sylwadau ar y Rheolau Sefydlog drafft cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Senedd yn y pen draw.¹³

Rheol Sefydlog 26C, y Pwyllgor Cyfrifol, a rôl pwyllgorau eraill y Senedd

17. Cymeradwywyd Rheol Sefydlog 26C gan y Bumed Senedd ar 24 Mawrth 2021.¹⁴ Fel y crybwyllwyd ym Mhennod 1, ein Pwyllgor ni yw'r pwyllgor cyfrifol at ddiben Rheol Sefydlog 26C ar gyfer Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd.

18. Nid oes unrhyw ofynion penodol yn y Rheolau Sefydlog sy'n llywodraethu'r ffordd y dylem graffu ar y Bil yn ystod yr Ystyriaeth Gychwynnol. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd ym Mhennod 1, cytunwyd i graffu ar y Bil yn unol â Rheol Sefydlog 26C.¹⁷

19. Nid oes gofyniad ychwaith i'r Senedd ystyried penderfyniad ariannol ar gyfer Bil Cydgrynhoi. Nid yw hyn yn golygu na all Bil Cydgrynhoi achosi rhywfaint o wariant ychwanegol,

¹² Comisiwn y Gyfraith, **Ffur a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru**, Hydref 2016

¹³ Gweler Llythyrau Pwyllgor Busnes y Bumed Senedd, **10 Gorffennaf 2019** a **3 Mawrth 2021**; a llythyrau at Bwyllgor Busnes y Bumed Senedd, **11 Hydref 2019** a **4 Rhagfyr 2019**

¹⁴ Y Cyfarfod Llawn, **24 Mawrth 2021**. Cofnod y Trafodion

a dylai unrhyw gynnydd o'r fath gael ei ystyried gan y pwyllgor cyfrifol (yn unol â Rheol Sefydlog 26C.17(v)).

20. O dan Reol Sefydlog 26C.9(vii), rhaid i'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil Cydgrynhoi gadarnhau nad yw darpariaethau'r Bil yn arwain at unrhyw wariant sylweddol ychwanegol sy'n daladwy o Gronfa Gyfunol Cymru, a phan fo hynny'n arwain at rywfaent o wariant ychwanegol sylweddol, nodi'r amcangyfrifon gorau ar gyfer hyn.

21. Ar yr achlysur hwn, mae Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys dadansoddiad o wariant ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Bil, ac yn cadarnhau nad oes unrhyw ddarpariaethau yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

22. Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar 11 Gorffennaf¹⁵, fe wnaethom ysgrifennu ato i ofyn am eglurhad ynghylch costau trosiannol y Bil.¹⁶ Ymatebodd y Cwnsler Cyffredinol ar 17 Awst ac mae ei atebion i'n cwestiynau ynghylch costau trosiannol wedi'u hamlinellu ym mharagraffau 45 i 48 o'r llythyr.¹⁷

23. O ystyried nad yw'r Bil yn arwain at gostau sylweddol, cytunodd Pwyllgor Cyllid y Senedd ei bod yn briodol inni ystyried goblygiadau ariannol y Bil hwn fel rhan o'n gwaith craffu.¹⁸

24. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a roddodd y Cwnsler Cyffredinol inni, cadarnhaodd y Pwyllgor Cyllid ei fod yn "fodlon â'r manylion a ddarparwyd ac yn credu bod yr amcangyfrifon yn drylwyr ac yn gadarn".¹⁹

Ystyriaeth y Senedd o'n hadroddiad

25. Fel y nodwyd gennym yn y Bennod gyntaf, ein rôl yn yr Ystyriaeth Gychwynnol yw ystyried a chyflwyno adroddiad i'r Senedd ynghylch a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi.

26. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, rydym yn rhagweld y bydd dadl yn cael ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn, yn dilyn cynnig gan y Cwnsler Cyffredinol fel yr Aelod Cyfrifol bod y Senedd yn cytuno y dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi. Os cytunir, bydd y Bil yn symud ymlaen i'r cam Ystyriaeth Fanwl gan y Pwyllgor, sy'n golygu bod y Pwyllgor yn ystyried gwelliannau ac yn penderfynu arnynt.

¹⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022

¹⁶ Gohebiaeth i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Gorffennaf 2022

¹⁷ Gohebiaeth i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 17 Awst 2022

¹⁸ Gohebiaeth oddi wrth y Pwyllgor Cyllid, 18 Gorffennaf 2022

¹⁹ Gohebiaeth oddi wrth y Pwyllgor Cyllid, 13 Hydref 2022

Dyfodol cyfraith Cymru – rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–2026

- 27.** O dan Ddeddf 2019, rhaid i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol baratoi a gosod gerbron y Senedd raglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.
- 28.** Rhaid i bob rhaglen wneud darpariaeth i gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, cynnal cyfraith wedi'i chodeiddio, hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru, a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.
- 29.** Ym mis Medi 2021 cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol y rhaglen gyntaf i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.²⁰
- 30.** Yn y Rhagair i'r Rhaglen, dywed y Cwnsler Cyffredinol:

*"Gwyddom nad tasg hawdd sydd o'n blaenau, ac na fydd hyn yn digwydd dros nos, ond rhaid inni gychwyn yn rhywle, a chychwyn fel y bwriadwn barhau."*²¹

- 31.** Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi dweud y bydd cydgrynhoi sawl deddf sy'n bodoli eisoes yn "un Ddeddf sydd wedi'i drafftio'n dda ac yn ddwyieithog yn un o'n dulliau mwyaf effeithiol o wella hygyrchedd cyfraith Cymru".²²
- 32.** Mae'r Bil wedi'i restru fel un prosiect yn Rhaglen 2021-2026, ynghyd â Bil Cydgrynhoi ar gynllunio, a phrosiectau i weithredu'r is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol i gefnogi cydgrynhoi cyfraith yr amgylchedd hanesyddol a chyfraith cynllunio.²³

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) fel Bil Cydgrynhoi cyntaf Cymru

- 33.** Yn y Memorandwm Esboniadol, dywed Llywodraeth Cymru:

"Os yw'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd gwerthfawr, mae hefyd yn un bregus. Rhaid ei warchod fel y bo cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru a phobl sy'n ymweld â'n gwlad yn parhau i gael eu hysbrydoli ganddo, i ddysgu oddi wrtho ac i fwynhau'r holl fanteision y mae'n eu cynnig. Ond wedi dweud hynny, ni ellir ei rewi yn ei unfan. Mae newid yn anochel, oherwydd y bydd treigl y blynyddoedd yn dweud ar hyd yn oed yr henebion

²⁰ Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026, Medi 2021

²¹ Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026, Rhagair

²² Cyfarfod Llawn, 21 Medi 2021, Cofnod y Trafodion [216]

²³ Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026, Crynodeb

neu'r adeiladau mwyaf cadarn, ac weithiau mae angen newid hefyd fel y bo modd cadw a rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd ofalus a chynaliadwy."²⁴

34. Yn y Memorandwm Esboniadol, nodir bod Cadw, ar ran Gweinidogion Cymru, wedi cyhoeddi **Egwyddorion cadwraeth ar gyfer rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru yn gynaliadwy (2011)**, a bod yr egwyddorion hyn ar gyfer diogelu a chadwraeth yn cael eu hategu gan y ddeddfwriaeth a nodir yn y Bil.²⁵ Nodir hefyd fod dogfennau cyngor a chanllawiau yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth bresennol, yn benodol **Nodyn Cyngor Technegol 24: yr Amgylchedd Hanesyddol (2017)**.²⁶

35. Yn y Memorandwm Esboniadol, dywed Llywodraeth Cymru:

*"Gyda'i gilydd, mae'r ddeddfwriaeth, y dogfennau cyngor a'r canllawiau hyn yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwarchod a chadw'r amgylchedd hanesyddol, ac ar gyfer rheoli newid sy'n effeithio ar leoedd hanesyddol yng Nghymru."*²⁷

36. Ym mharagraffau 8 a 9 o'r Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn crynhoi hanes y fframwaith ar gyfer diogelu a chadwraeth, gan nodi:

"Sefydlwyd y gofrestr gyntaf un o henebion y DU o dan Ddeddf Diogelu Henebion 1882 ac roedd y gofrestr honno'n cynnwys tair heneb - 11 - gynhanesyddol yng Nghymru. Ym 1947, ymunodd 'rhestr' o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig â'r 'gofrestr' o henebion ac erbyn hyn, mae mwy na 30,000 o adeiladau rhestredig a mwy na 4,000 o henebion cofrestredig yng Nghymru. Cafodd y gofrestr a'r rhestr eu hategu wedyn gan ardaloedd cadwraeth ym 1967 ac yn fwyaf diweddar, yn sgil Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016'), gan gofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol a rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol.

Fodd bynnag, mae'r hanes hir iawn hwnnw, a'r angen i fynd ati'n aml i ddiweddarau ac i gryfhau'r ddeddfwriaeth, yn golygu bod y gyfraith sy'n ymdrin â'r amgylchedd hanesyddol yn arbennig o gymhleth. Mae

²⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraff 4

²⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 4 a 5

²⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraff 6

²⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 6

diwygiadau a wnaed i ddarpariaethau penodol gan wledydd gwahanol y Deyrnas Unedig wedi ychwanegu at y cymhlethdod hwnnw."

37. Mae rhesymau ac amcanion Llywodraeth Cymru dros gyflwyno'r Bil, fel y'u nodir yn y Memorandwm Esboniadol, fel a ganlyn:

- Ceir pryderon am gymhlethdod y gyfraith yn y Deyrnas Unedig (lle mae bellach yn gyffredin i'r gyfraith fod yn wahanol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) sy'n broblem a achoswyd gan yr holl ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd a'r holl led-ddeddfwriaeth a'r anghysondeb wrth fynd ati i ddiwygio, ailddiwygio ac ail-wneud y ddeddfwriaeth honno dros amser. Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod deddfwriaeth amgylchedd hanesyddol yn eithriad.²⁸
- Yr amcan yw ei gwneud yn haws deall a dod o hyd i ddeddfwriaeth ar yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru drwy ddarparu un Ddeddf fodern, ddwyieithog i Gymru er mwyn hyrwyddo cysondeb o ran iaith, ffurf a gweithrediad y ddeddfwriaeth, gan helpu i warchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd hyn yn sicrhau y gall yr amgylchedd hanesyddol barhau i gyfrannu at les Cymru a'i phobl.²⁹
- Bydd y Bil (os a phryd y caiff ei ddeddfu), ynghyd ag is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tano, yn ffurfio cod cyfraith Cymru ar yr Amgylchedd Hanesyddol (gweler Pennod 7 am ragor o sylwadau). Yn ehangach, dywed Llywodraeth Cymru mai'r Bil yw'r cyntaf mewn cyfres o brosiectau arfaethedig i gydgrynhoi'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru a bod prosiectau o'r fath yn rhan o raglen Dyfodol Cyfraith Cymru ac yn ganolog i'r gwaith o wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch.³⁰

38. Daeth y Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion i'n cyfarfod ar 11 Gorffennaf i drafod y Bil am y tro cyntaf.³¹

39. Gofynnwyd iddo sut yr oedd ef a'i dîm yn Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'r ymarfer cydgrynhoi. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol ei fod yn falch o gyflwyno'r Bil cydgrynhoi cyntaf hwn. Dywedodd wrthym:

"Although we've taken the opportunity on a few occasions in the past to restate existing law alongside reform, this is really the first of our Bills that's

²⁸ Memorandwm Esboniadol, paragraff 10

²⁹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 22

³⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 22 a 23

³¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022

*purely designed to make the law more accessible. It's taken a lot of work and I'm very grateful to the team of people that have worked so hard on this to get us to this point. I suppose it's fair to say that the process of preparing this Bill has been quite different from the usual process for preparing a Bill. As you know, policy reform Bills normally begin with an idea for a new policy that requires a change in the law, but the purpose to this legislation is to take all the existing law in a particular area that would benefit from consolidation to bring it together in a new form of legislation, a new piece of legislation."*³²

40. Ychwanegodd y Cwnsler Cyffredinol:

*"Traditionally, when some of this has been done in Westminster in the past, it's normally adopted quite a conservative approach and has often been just a renumbering, a rescheduling. This, I think, goes far deeper; I think it is a far more genuine form of consolidation, because it also has to not only bring the bits of legislation together, but it has to make them understandable in a modern workable piece of legislation. So, it has to reflect devolution and other changes that have taken place since past Acts have gone. The language has to be updated and made more consistent. We've had to rearrange materials so that the structure of the provisions about each topic is more logical and more consistent. There had to be a movement about of certain materials from subordinate legislation to the consolidation Bill and vice versa. There are some provisions that have either never been used or have just become unnecessary for a variety of reasons, and so they've been removed from the legislation. All of this results, hopefully, in a consolidation Bill that sets out the law in a way that is much clearer and much more logical than in the past."*³³

41. Daeth Dylan Hughes, Prif Gwnsler Deddfwriaethol Cymru yn Swyddfa Cwnsler Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru i'r cyfarfod gyda'r Cwnsler Cyffredinol. Dywedodd Mr Dylan Hughes wrthym:

"As the Counsel General mentioned, we've taken an approach here where we have involved far more people. James and one of our colleagues has been leading on the drafting, but it's been much more than that. We've been involving officials from the legal services department and from Cadw, and their input in particular has been important. You can do a consolidation as a technical exercise whereby legislative counsel like us look at the legislation,

³² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [9]

³³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [10]

replicate what we see are the words on the page, renumber it, tidy it up, reproduce it bilingually, but there is a limit to how valuable that can be, because the older the legislation is, the more difficult it is, as I say, to understand it. What is crucial is to have an understanding of how the law is applied in practice, and this is where Cadw and other people come in. The end result that we have, we hope, is something that reflects reality, as well as being a legal exercise, and that's particularly important to make the law accessible."³⁴

42. Dywed y Memorandwm Esboniadol fod prosiectau cydgrynhoi yn ganolog i'r dasg o wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch. Mewn tystiolaeth ym mis Tachwedd 2021³⁵, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym mai nod Llywodraeth Cymru oedd i ddinasyddion Cymru allu cyrchu a dehongli deddfwriaeth Cymru. Gofynasom i'r Cwnsler Cyffredinol sut y bydd pobl yn gallu cael mynediad at y Bil hwn, os a phryd y caiff ei ddeddfu, ac a oedd yn disgwyl i bobl allu ei ddehongli eu hunain. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

"This really goes to the core, I think, of what the purpose behind consolidation actually is. It is about accessibility (...)

At the end of the day, this is about whoever needs to access the law for whatever purpose being able to find a law in one place, that they will be able to read that and it will be in as clear English and as open English, and Welsh indeed, as is possible—that it'll be as understandable, I think, as is appropriate to do.

So, if you take the situation now, that if you are, for example, the owner of a listed building or a scheduled monument, or you had a historic monument or artefact on your property, and you wanted to know what the law was with regard to that, what can you do, what can't you do, well, without consolidation, what you have is really quite a confusing jumble of legislation that I suspect even professionals will have considerable difficulty in understanding. (...) So, the purpose of this Bill, the Historic Environment (Wales) Bill, is about pulling that together in a way that people can use, can be understandable, so those who need to access the law will know where it is. It's in one place, you don't have to look all over the place for it.

³⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [13]

³⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 29 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [14]

The thing that follows on from it as well, though, that I think is important is that it then means that the various help sites that you would have, Cyfraith Cymru and other sites, would be updated and they would be able to direct people to just one single piece of legislation, one single code that would enable them to go through it and know where the law is. So, that's really my understanding of what the purpose is in terms of accessibility, and that will probably be the measure of success, that if we achieve if we achieve that through this legislation, this will be the first step of, hopefully, many over the years to making Welsh law a lot clearer."³⁶

43. Gofynnwyd hefyd i'r Cwnsler Cyffredinol pa Ddeddfau neu godau eraill y bydd yn rhaid i bobl edrych arnynt er mwyn deall yr holl gyfraith sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Rhoesom enghraifft i'r Cwnsler Cyffredinol yn adran 79(2) o'r Bil, lle mae'n dweud bod *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990* (Deddf Cynllunio 1990) yn gymwys i adeiladau sydd wedi'u cwmpasu gan y Bil. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym fod hwn yn bwynt dilys oherwydd:

"There are one or two areas where it is necessary to make reference to other legislation. I think the intention has been to try to keep this to a minimum, to keep the consolidation Bill as self-contained as is possible. But you did refer specifically to section 79, and, of course, that's one that has specifically been addressed and is referred to in the legislation."³⁷

44. Ychwanegodd Dr James George, Uwch Gwnsler Deddfwriaethol yn Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol:

"I think on the specific issue of links to the planning legislation, we've reduced that a lot in the Bill because it's particularly an issue for listed buildings in conservation areas that the legislation actually all originates from the same Act. (...) But as part of doing that, there were various general provisions left behind in the Town and Country Planning Act that then applied across to the other Acts. So, if you read those other Acts, you still need to read the Town and Country Planning Act as well. We've got rid of that as far as we can so that rather than having to refer you to the Town and Country Planning Act, we've just set things out in full in the Bill. So, it should be a lot more self-contained than it was previously.

³⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [46] i [49]

³⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [51]

On the specific issue about section 79 of the Bill, the issue there is that it's about buildings that are treated as being listed due to various proposals to list them, and that has consequences under the planning legislation that somebody making a decision about whether to give planning permission has to take into account the importance of preserving listed buildings. So, it's a duty that's specifically about functions in the planning legislation, so we couldn't really put that entirely in our Bill, but we've got to reference across. That duty in the planning legislation currently sits in the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990, which is a bit odd, because it's all about decisions about things under the Town and Country Planning Act. So, we are in our consequential amendments moving that duty to take account of the importance of listed buildings into the Town and Country Planning Act. So, we're also making the Town and Country Planning Act slightly more self-contained than it is at the moment. So, I think the whole exercise has been an opportunity to rethink how we divide things up. So, we have moved a few things around in that way."³⁸

45. Ychwanegodd Mr Dylan Hughes ei farn hefyd, gan ddweud er bod Llywodraeth Cymru yn ceisio rhannu'r gyfraith fesul pwnc, nid yw bob amser yn bosibl gwneud hynny'n gwbl daclus. Dywedodd wrthym y bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y ddeddfwriaeth yn anochel a bod Llywodraeth Cymru yn ceisio lleihau i'r eithaf yr angen i groesgyfeirio. Dywedodd mai'r gwir amdani yw nad yw bob amser yn bosibl dileu hynny'n gyfan gwbl.³⁹

46. Yn benodol o ran ardaloedd cadwraeth, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion wrthym eu bod wedi anelu at ailddatgan y ddeddfwriaeth bresennol er mwyn 'adrodd y stori' yn y modd cliraf a mwyaf sicr posibl, gan ychwanegu:

*"Wrth wneud hynny, gwnaed dyfarniadau ynghylch pa faterion y mae angen eu nodi'n benodol a pha rai y gellir eu tybio. Mewn rhai achosion, mae dyfarniadau gwahanol wedi'u gwneud i ddrafftwy'r y ddeddfwriaeth bresennol, er enghraifft oherwydd nad yw darpariaethau presennol yn adlewyrchu arfer drafftio modern. Fodd bynnag, cadwyd y dull o gymhwyso darpariaethau adeiladau rhestredig gydag addasiadau er mwyn osgoi ailadrodd a niweidio hygyrchedd cyffredinol y ddeddfwriaeth."*⁴⁰

³⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [52] a [56]

³⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [56]

⁴⁰ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraff 120

47. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym yr ymgysylltwyd â grwpiau ac unigolion arbenigol, yn enwedig Cadw a sefydlodd grŵp gorchwyl a gorffen i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Bil. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a fyddai'r ymgynghoriad cyn cyflwyno'r Bil a'r gwaith gyda rhanddeiliaid yn cael eu cyhoeddi. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

*"Gweithiodd Cadw gyda grŵp gorchwyl a gorffen yn cynnwys unigolion o bob rhan o'r sector amgylchedd hanesyddol. Natur y rhyngweithio oedd bod cwestiynau penodol neu'r drafftio yn cael eu rhannu gyda'r grŵp i bwyso dealltwriaeth o sut roedd y darpariaethau'n gweithio'n ymarferol neu i ba raddau yr oedd effaith y gyfraith yn aros heb ei newid. Ni fwriadwyd i'r cyfnewidiadau gael eu cyhoeddi erioed."*⁴¹

48. Rydym yn trafod y mater hwn yn ddiweddarach yn yr Adroddiad ym Mhennod 4.

49. Fel y nodwyd gennym ym Mhennod 1, fe wnaethom ysgrifennu at randdeiliaid perthnasol i ofyn eu barn am yr ymarfer cydgrynhoi. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd gennym yn seiliedig ar gwmpas y cydgrynhoi, a yw'r gyfraith wedi'i chydgrynhoi'n glir ac yn gyson, ac a yw'r newidiadau o fewn y rhai a ganiateir o dan Reol Sefydlog 26C.2.

50. Roedd pob un o'r ymatebion a ddaeth i law yn croesawu'r ymarfer cydgrynhoi, a chyfeiriwyd yn eang at wella hygyrchedd cyfraith Cymru fel mantais allweddol.

51. Dywedodd Swyddogion Archaeolegol y Gymdeithas Llywodraeth Leol (ALGAO:Cymru), Tai Hanesyddol (Cymru), a Cyfoeth Naturiol Cymru oll eu bod yn fodlon â chwmpas y cydgrynhoi, a bod y Bil wedi dilyn yr hyn a ganiateir o dan Reol Sefydlog 26C.2.⁴²

52. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru a Tai Hanesyddol (Cymru) ill dau fod y Bil yn cydgrynhoi'r gyfraith yn glir ac yn gyson, a dywedodd ALGAO:Cymru ei fod yn cefnogi'r cydgrynhoi arfaethedig ac yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y broses hon.⁴³

53. Rhestrodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI Cymru) derminoleg haws, darpariaethau clir a diamwys, nodi darpariaethau diangen a galluogi cyfieithiad Cymraeg cynhwysfawr o ddeddfwriaeth sengl fel manteision penodol a fyddai'n cael eu croesawu gan ei aelodau.⁴⁴

⁴¹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 82

⁴² Llythyr gan Swyddogion Archaeolegol y Gymdeithas Llywodraeth Leol (ALGAO: Cymru), Llythyr gan Dai Hanesyddol (Cymru), a Llythyr gan Gyfoeth Naturiol Cymru

⁴³ Swyddogion Archaeolegol y Gymdeithas Llywodraeth Leol (ALGAO: Cymru), Tai Hanesyddol (Cymru), a Chyfoeth Naturiol Cymru

⁴⁴ Llythyr gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI Cymru)

54. Wrth groesawu'r Bil a'r nod cyffredinol o sicrhau bod cyfraith Cymru yn fwy hygrych, yn gliriach ac yn haws ei defnyddio yn nwy iaith swyddogol Cymru, dywedodd Gwenith Price, Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg, wrthym:

*"Mae'r ymarferiad cydgrynhai hwn yn digwydd yng nghyd-destun deddfwriaethol lle mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfeiriad at y Gymraeg yn y Bil fel y'i cyflwynwyd. Yn wir, mae'r cyfeiriadau at y Gymraeg yn brin yn neddfau'r Senedd yn gyffredinol, fel yr amlygwyd yn Adroddiad 5 mlynedd y Comisiynydd (gweler t.29), a gallai'r prosiect cydgrynhai cenedlaethol hwn fod yn gyfle i unioni'r cam hwnnw."*⁴⁵

55. Clywsom gan gynrychiolwyr Comisiwn y Gyfraith ar 26 Medi. Siaradodd y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Green â ni fel Cadeirydd Comisiwn y Gyfraith. Yn ymuno ag ef roedd Nicholas Paines CB, y Comisiynydd sy'n gyfrifol am gyfraith Cymru, a Dr Charles Mynors, uwch gyfreithiwr y Comisiwn sy'n gweithio ar yr ymarfer cydgrynhai cyfraith cynllunio ac arbenigwr yn y gyfraith sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol.⁴⁶

56. Gwnaeth Syr Nicholas Green rai sylwadau cyffredinol ar y Bil a dywedodd eu bod, fel unigolion, yn meddwl ei fod yn ddarn trawiadol o waith o ansawdd uchel iawn.⁴⁷

57. Disgrifiodd Dr Mynors y gwaith ar ddrafftio'r Bil fel 'rhagorol', ac ychwanegodd ei fod, yn gyffredinol, yn falch mai dyma'r cam cyntaf tuag at gydgrynhau'r meysydd cynllunio a'r amgylchedd hanesyddol a'i fod wedi'i blesio'n fawr ag ansawdd yr hyn sy'n cael ei wneud.⁴⁸

58. Mae nifer o newidiadau a gyflwynwyd yn y Bil yn deillio o argymhellion adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru (2018)⁴⁹ a oedd yn ymwneud â Deddf Cynllunio 1990. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud newidiadau o ran *Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990* (Deddf Adeiladau Rhestredig 1990) yn lle hynny. Gofynnwyd i gynrychiolwyr Comisiwn y Gyfraith a oedd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch y dull hwn. Dywedodd Mr Paines CB:

"...we recommended merger of the regimes. Welsh Government rejected that recommendation, but they are making all our technical reforms in this Bill,

⁴⁵ Llythyr gan Ddirprwy Gomisiynydd y Gymraeg, 17 Hydref 2022

⁴⁶ Cadarnhawyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth fod Dr Mynors ar seondiad i Lywodraeth Cymru, o Gomisiwn y Gyfraith, i helpu i frw ymlaen â'r Bil cydgrynhai arfaethedig yn y maes cynllunio. Gweler Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [128] a [129]

⁴⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [96]

⁴⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [98]

⁴⁹ Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr, Cyfraith Cynllunio yng Nghymru (2018)

and in due course will make them in the planning Bill as well. So, from the point of view of the adequacy of the law, we have no concerns. Obviously, we still feel, having favoured it, that merging the regimes would have saved a lot of legislation, saved a lot of duplication of paperwork, but there were counter-arguments, which the Welsh Government found more compelling."⁵⁰

59. Ychwanegodd Dr Mynors:

*"The listed buildings Act is near as... or, actually, totally identical, and so it would be wholly illogical not to make the same amendment, and so that's why that change has been made. In practice, in a number of cases, I'm aware of all, or I've looked through all of them in detail, and also on a number of cases where I was actually asked personally, 'Are you satisfied with what we've done with your recommendation 1, 2, 3, 4, 5?' So, yes, I have absolutely no problem at all."*⁵¹

Ein barn ni

60. Rydym yn cydnabod, ac yn dymuno tynnu sylw at, bwysigrwydd y Bil fel y cyntaf o'i fath i'r Senedd ac i gyfraith Cymru. Rydym yn cydnabod yn llawn y pwysigrwydd a roddir i gydgrynhoi cyfraith Cymru, nid lleiaf oherwydd yr effaith ymarferol y bydd yn ei chael ar sicrhau bod cyfraith o'r fath ar gael yn y ddwy iaith swyddogol. Ar yr un pryd, mae cydgrynhoi cyfraith Cymru yn cynnig potensial i wella'n sylweddol hygyrchedd i'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. At hynny, yn sgil gwybod pa gyfraith sy'n berthnasol, a gwella'r ffordd y caiff y gyfraith honno ei chanfod a'i chyflwyno, daw'r fantais ychwanegol o gyfrannu at well mynediad at gyfiawnder yng Nghymru.

61. Felly mae ein rôl yn ystyriaeth y Senedd o'r Bil Cydgrynhoi cyntaf hwn wedi ystyried y manteision posibl hyn a gobeithiwn fod ein dull gweithredu yn dangos y pwys a roddwn i'r dasg hon.

62. Rydym yn croesawu'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'r Bil, ac yn cydnabod y swm sylweddol o waith ac amser y mae wedi'i dreulio'n paratoi'r Bil.

63. Mae'r Bil yn ddechrau cynlluniau uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer cydgrynhoi cyfraith Cymru. Mae'n ymdrech y dylid ei chroesawu'n fawr, fel y dangoswyd gan y sylwadau cadarnhaol a chefnogol a wnaed gan randdeiliaid sydd â diddordeb yn y Bil.

⁵⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [124]

⁵¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [126]

64. Mae'r Penodau a ganlyn yn mynd i'r afael â materion penodol yr ydym wedi'u hasesu ac wedi canolbwyntio arnynt yn ystod ein hystyriaeth gychwynnol o'r Bil.

65. Yn y Bennod olaf - Pennod 7 - rydym yn edrych ar gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r Bil (os caiff ei ddeddfu) a chynlluniau ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer codau cyfraith Cymru. Rydym hefyd yn ystyried y ffordd orau i Lywodraeth Cymru werthuso llwyddiant y Bil Cydgrynhoi cyntaf hwn yng nghyd-destun ei chynlluniau tymor hwy i gydgrynhoi meysydd eraill o gyfraith Cymru.

3. Sylwadau cyffredinol

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.⁵²

Cymhwysedd deddfwriaethol

66. Fe wnaethom ystyried y Bil hwn o dan y model cymhwysedd deddfwriaethol sy'n ymwneud â chadw pwerau, fel y nodir yn adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).

67. Yn ei datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol, dywedodd y Llywydd, Elin Jones AS:

"Byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), a gyflwynwyd ar 4 Gorffennaf 2022, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

I'r graddau y mae Atodlen 13 i'r Bil, o'i darllen gydag adrannau 178 a 201, yn dileu swyddogaethau Gweinidog y Goron yn Neddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 a swyddogaethau'r Arglwydd Ganghellor yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, ni fyddai'r darpariaethau hynny yn y Bil o fewn cymhwysedd y Senedd. Y rheswm am hyn yw bod angen cydsyniad Llywodraeth y DU er mwyn iddynt fod o fewn cymhwysedd y Senedd ac nid yw'r cydsyniad angenrheidiol hwnnw wedi'i sicrhau ar hyn o bryd."⁵³

68. Yn ein sesiwn dystiolaeth gyntaf gyda'r Cwnsler Cyffredinol, dywedodd wrthym:

"...bringing a piece of legislation together raises a number of contradictions in terms of previously existing ministerial consents, and so on, and the need to update those. There are a number of areas where I've had to write to the Secretary of State for Wales—on 13 May this year, in fact—seeking consents over these. We're awaiting a response."⁵⁴

69. Ar 14 Tachwedd gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol am y sefyllfa ddiweddaraf. Dywedodd:

⁵² Memorandwm Esboniadol, Datganiad yr Aelod, tudalen 5

⁵³ Datganiad y Llywydd am Gymhwysedd Deddfwriaethol, 4 Gorffennaf 2022

⁵⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [26]

*"...disappointingly we've still not received a response. I will be writing again. I think my letter was on 13 May 2022, so I'll be following that through with the new Secretary of Wales, the Rt Hon David Davies MP, on this matter. I don't anticipate that there should be any issues. The two areas where consent is involved, one relates to civil sanctions, which is a concurrent function and has never been used in that area, and the other one is the national security issues, which are now redundant in any event. Maybe because of events in Westminster it's taken longer to get it than might have been the case, but I will press on with that."*⁵⁵

Hawliau dynol

70. Mae un o'r gofynion y mae'n rhaid ei fodloni er mwyn i Fil fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd wedi'i nodi yn adran 108A(2)(e) o Ddeddf 2006 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i holl ddarpariaethau Bil fod yn gydnaws â hawliau dynol.

71. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil yn disgrifio asesiadau a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch y Gymraeg, cydraddoldeb, plant a chyfiawnder wrth baratoi i gyflwyno'r Bil.

72. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd wedi cynnal asesiad eang o'r goblygiadau i hawliau dynol, yn enwedig o ran y newidiadau y mae'r Bil yn eu gwneud i'r gyfraith bresennol. Dywedodd wrthym:

*"The answer is 'yes'. In respect of all legislation, it's necessary for me to give a statement of competence, and competence obviously requires compliance with the convention on human rights and any other international obligations that there are. So, we've given the same level of care, and I am content that the provisions in the Bill have been assessed adequately to ensure that they are convention compliant."*⁵⁶

73. Mae adran 152 o'r Bil yn nodi'r amgylchiadau gwahanol pan gaiff person a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio fynd ar dir mewn cysylltiad â Rhan 3 (Adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig) a Rhan 4 (ardaloedd cadwraeth) o'r Bil.⁵⁷

⁵⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [8]

⁵⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [13]

⁵⁷ Ceir rhagor o sylwadau ar adran 152 o'r Bil ym Mhennod 4 o'r Adroddiad.

74. Mae pŵer mynediad newydd wedi'i greu yn isadran (4). Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd wedi ystyried y goblygiadau i hawliau dynol yn sgil creu'r pŵer mynediad newydd hwn. Dywedodd:

*"Yes. I've had a look at section 152 and it has the effect, doesn't it, of adding a power to enter land to determine whether a temporary stop notice should be issued. We consider the matter to be very minor because there's already a power to enter land to assess whether unauthorised works are taking place, so its only effect is that the person entering the land can also assess whether the work should be made to stop immediately. And I'm satisfied that, within that context, it's justified and convention compliant. It is also the equivalent of provisions that already exist in the provisions about planning control and scheduled monuments."*⁵⁸

Ein barn ni

75. Nodwn y dystiolaeth a gafwyd gan y Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas â materion cymhwysedd deddfwriaethol. Rydym hefyd yn nodi datganiad y Llywydd sy'n dweud, yn ei barn hi, er y byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, i'r graddau y mae Atodlen 13 o'r Bil (o'i darllen gydag adrannau 178 a 201) yn dileu swyddogaethau Gweinidog y Goron a'r Arglwydd Ganghellor yn *Neddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau 2008* (Deddf 2008), Deddf Cynllunio 1990 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, ni fyddai'r darpariaethau hynny yn y Bil o fewn cymhwysedd y Senedd.

Argymhelliad 1. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddefnyddio'r ddadl ar yr Ystyriaeth Gychwynnol i gadarnhau i'r Senedd a yw'r cydsyniad gofynnol gan Lywodraeth y DU mewn perthynas ag Atodlen 13 (o'i darllenir gydag adrannau 178 a 201) wedi dod i law.

76. Rydym hefyd yn nodi'r dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol ar faterion sy'n ymwneud ag unrhyw oblygiadau i hawliau dynol sy'n deillio o'r Bil.

⁵⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [15]

4. A yw cwmpas y Bil yn briodol?

Yn unol â Rheol Sefydlog 26C.17 mae ein hystyriaeth o'r Bil wedi cynnwys asesu a ydym yn fodlon bod cwmpas y cydgrynhoi yn briodol.

Cefndir

77. Fel yr eglurir yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Bil yn dwyn ynghyd y ddeddfwriaeth a nodir ar hyn o bryd mewn nifer o Ddeddfau, gan gynnwys:

- *Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953* (Deddf 1953);
- Rhannau 1 a 3 o *Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979* (Deddf 1979);
- Deddf Adeiladau Rhestredig 1990;
- Rhan 4 o Ddeddf 2016.

78. Mae'r Bil hefyd yn ailddatgan rhywfaint o ddeddfwriaeth gynllunio:

- darpariaethau yn Rhannau 14 a 15 o Ddeddf Cynllunio 1990 a gymhwysir i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 gan adrannau 89(1) a 91(2) o'r Ddeddf honno;
- Rhan 5 o *Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004* (Deddf 2004), i'r graddau y mae'n gymwys i benderfyniadau o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990.

79. Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, roedd Deddf 1979 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 eu hunain yn ymarferion cydgrynhoi. Dywed y Memorandwm Esboniadol:

"a. Deddfau blaenorol Senedd y DU ar warchod henebion oedd Deddf Gwarchod Henebion 1882; Deddf Cydgrynhoi a Diwygio Henebion 1913; Deddf Henebion 1931; a Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953.

b. Yr hyn a wnaeth Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn bennaf oedd ailddatgan y darpariaethau ar adeiladau hanesyddol ac adeiladau rhestredig yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971 ('TCPA 1971'), fel y'i diwygiwyd gan

Ddeddfau diweddarach.⁵⁹ Roedd TCPA 1971 wedi cydgrynhai Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1962 ("TCPA 1962") a Ddeddfau diweddarach. Roedd TCPA 1962 yn ei thro wedi cydgrynhai Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947 a Ddeddfau eraill.

Mae Rhan 1 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn cynnwys darpariaethau a basiwyd gyntaf ar wahanol adegau o 1947 ymlaen. Er enghraifft, cafodd y gofyniad i greu rhestr o adeiladau ei ddeddfu gyntaf yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947. O Ddeddf Amwynderau Sifil 1967 y tarddodd y drosedd o ddifrodi adeilad rhestredig yn fwriadol a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968 gyflwynodd y gofyniad i gael cydsyniad adeilad rhestredig a'r pŵer i gyhoeddi hysbysiadau gorfodi.

Mae Rhan 1 wedi ei diwygio gan nifer o Ddeddfau diweddarach. Cafodd y prif ddiwygiadau sy'n gymwys i Gymru eu gwneud gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Deddf 2004 a Deddf 2016. Gwnaed diwygiadau hefyd sy'n gymwys i Loegr yn unig, yn benodol gan Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.⁶⁰

80. Ym marn Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i'r hanes hwn, mae gwahaniaethau ac anghysondebau rhwng darpariaethau wedi datblygu dros amser ac ychydig iawn o newidiadau a wnaed i iaith mewn ymarferion cydgrynhai blaenorol, felly mae gwahaniaethau wedi'u cadw.⁶¹

81. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y canlynol mewn perthynas â drafftio'r Bil:

"...ymdrechwyd i nodi ac i ddileu cynifer o anghysondebau ag y bo modd, oni bai bod rhesymau dros eu cadw.

O ystyried oedran nifer o'r Deddfau hyn, nid ydynt mor glir a hawdd eu deall ag y gallent fod. Mae rhai o'r darpariaethau'n amwys neu wedi achosi problemau wrth iddynt gael eu harfer. Gellid dadlau hefyd nad oes angen rhai ohonynt erbyn hyn, ac mae rhai ohonynt wedi dyddio. Byddent felly yn elwa ar gael eu moderneiddio. Er enghraifft, mae'r Bil wedi symleiddio'r darpariaethau ar gyhoeddi'r rhestr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol

⁵⁹ Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod gweddill TCPA 1971 wedi'i chydgrynhau yn y Ddeddf Cynllunio 1990 a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990.

⁶⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraff 13

⁶¹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 14

neu hanesyddol arbennig er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod gwasanaethau digidol ar gael."⁶²

82. Yn ogystal â chydgrynhoi deddfwriaeth sylfaenol, mae'r Bil hefyd yn ymgorffori rhai darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau sy'n cael eu cydgrynhoi, a "rywfaint o gyfraith achosion ac arferion cyfraith, sy'n bwysig o ran deall sut y mae'r Deddfau hynny'n gweithredu".⁶³

Effaith datganoli ar y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi

83. Mae'r rhan fwyaf o'r Deddfau sy'n cael eu cydgrynhoi yn rhagflaenu'r setliad datganoli yng Nghymru. Yn y Memorandwm Esboniadol, nodir:

*"Mae hynny'n golygu nad yw rhai o'r rheolau, y gofynion a'r diffiniadau a ddefnyddir yn berthnasol i gyfraith sy'n gymwys i Gymru yn unig. Er enghraifft, mae rhai darpariaethau yn Neddf 1979 sy'n gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban, rhai sy'n gymwys i Gymru yn unig, a rhai sy'n gymwys i Loegr yn unig ac i'r Alban yn unig. Hefyd, nid yw rhai o'r cyrff y cyfeirir atynt yn y ddeddfwriaeth yn adlewyrchu'r trefniadau sefydliadol a chyfansoddiadol sy'n gymwys yng Nghymru Mae'r Bil yn ailddatgan y darpariaethau sy'n gymwys i Gymru yn unig, ac yn diweddarau'r derminoleg a'r cyfeiriadau, gan ei gwneud yn llawer haws i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth ddeall y gyfraith fel y mae'n berthnasol iddynt hwy."*⁶⁴

84. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi tynnu sylw at bryder bod y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n weddill sy'n cael ei chydgrynhoi gan y Bil, ac eithrio Deddf 2016, i'w gweld mewn Deddfau gan Senedd y DU ac, o'r herwydd, wedi'i deddfu yn Saesneg yn unig. Yn y Memorandwm Esboniadol, dywed Llywodraeth Cymru:

*"At ei gilydd, prin yw'r ddeddfwriaeth ddwyieithog sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, sy'n golygu nad yw'r gyfraith mor hygyrch ag y dylai fod. Mae hynny hefyd yn rhwystro i'r rheini sy'n ceisio defnyddio'r Gymraeg fel iaith y gyfraith."*⁶⁵

85. Dywed Nodiadau'r Drafftwyd sy'n cyd-fynd â'r Bil:

⁶² Memorandwm Esboniadol, paragraffau 14 i 15. Gweler hefyd Lythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 20

⁶³ Memorandwm Esboniadol, paragraff 18. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn dweud bod Atodiad C i'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio lle mae deunydd o'r math hwn wedi'i gynnwys.

⁶⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraff 16

⁶⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 17

"Mae'r rhan fwyaf o'r Deddfau sy'n cael eu cydgrynhoi yn rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu mewn ambell achos i Weinidogion eraill y Goron. Trosglwyddwyd bron pob un o'r swyddogaethau hynny gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('DLIC 2006').

Gwnaeth Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("Deddf 2004") ddiwygiadau amrywiol i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 a deddfwriaeth arall ym maes cynllunio, gan gynnwys diwygiadau a fynegwyd fel eu bod yn rhoi swyddogaethau ychwanegol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Darparodd adran 118(3) o Ddeddf 2004 fod y cyfeiriadau at y Deddfau hynny yn OS 1999/672 i'w trin fel pe baent yn cyfeirio at y Deddfau fel y'u diwygiwyd, sy'n golygu bod unrhyw swyddogaethau newydd neu ddiwygiedig yn arferadwy gan y Cynulliad a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mynegwyd Rhan 5 o Ddeddf 2004 (sy'n cael ei hailddatgan yn rhannol yn y Bil hwn) fel ei bod yn rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol, ond darparodd adran 59(9) fod y cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Cymru i'w darllen fel pe baent yn cyfeirio at y Cynulliad. Trosglwyddwyd yr holl swyddogaethau hyn o'r Cynulliad i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

*Mae'r Bil yn adlewyrchu effaith y newidiadau hyn drwy ailddatgan y swyddogaethau a drosglwyddwyd fel swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Nid yw'r nodiadau hyn yn nodi'r holl newidiadau hynny ar wahân ond maent yn nodi newidiadau a wneir i sicrhau bod effaith trosglwyddo swyddogaethau o ran Cymru yn fwy eglur."*⁶⁶

86. Pan ymddangosodd y Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion ger ein bron ym mis Gorffennaf, rhoddodd Mr Dylan Hughes ragor o wybodaeth am sut yr oedd Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i gydgrynhoi deddfwriaeth sy'n rhagflaenu datganoli yng Nghymru, a chadarnhaodd fod dwyn ynghyd ddeddfwriaeth sy'n rhagflaenu datganoli yng Nghymru wedi golygu gwneud yn siŵr bod y Bil a'i ddarpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.⁶⁷

⁶⁶ Nodiadau'r Drafftwyd, paragraffau 10 i 12

⁶⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [13]

Newidiadau a wnaed ar argymhelliad Comisiwn y Gyfraith yn unol â Rheol Sefydlog 26C.2(v)

87. Mae'r Bil yn gweithredu nifer o argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad terfynol ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, mae rhai o argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn ymwneud yn benodol â darpariaethau sy'n cael eu hailddatgan yn y Bil, tra bod eraill yn ymwneud â darpariaethau deddfwriaeth gynllunio sy'n "union yr un fath â'r darpariaethau yn y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi yn y Bil, neu sy'n debyg iawn iddynt".⁶⁸

88. Yn ogystal â hynny, ac yn unol â Rheol Sefydlog 26C.2(v), mae Comisiwn y Gyfraith wedi gwneud argymhellion pellach i Lywodraeth Cymru ynghylch materion penodol y mae'n ystyried y byddai'n briodol eu cynnwys yn y Bil. Nodir barn Comisiwn y Gyfraith mewn llythyr at y Prif Weinidog gan Gadeirydd Comisiwn y Gyfraith, Syr Nicholas Green, ac mae wedi'i chynnwys yn Atodiad D i'r Memorandwm Esboniadol a osodwyd gerbron y Senedd.⁶⁹

89. Yn y Memorandwm Esboniadol, dywed Llywodraeth Cymru:

*"Nid yw'r ffaith bod adroddiad Comisiwn y Gyfraith wedi argymhell newid yn golygu o reidrwydd ein bod yn dibynnu ar baragraff (v) o Reol Sefydlog 26C.2, sy'n caniatáu i Fil cydgrynhoi wneud newidiadau sydd, yn ôl argymhelliad Comisiwn y Gyfraith, 'yn briodol i'w cynnwys yn y Bil cydgrynhoi'. Yr unig bryd y ceisiwyd argymhelliad o dan baragraff (v) oedd pan oedd Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn debygol na ellid newid y Bil o dan unrhyw baragraff arall yn Rheol Sefydlog 26C.2 heb argymhelliad o'r fath. Mae'r nodiadau a ddarperir yn Atodiad C yn nodi'r newidiadau yn y Bil sy'n dibynnu ar argymhelliad o dan baragraff (v)."*⁷⁰

90. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith fod pedwar mater yn briodol i'w cynnwys yn y Bil, yn ymwneud â'r canlynol:

- pwerau i benodi aseswyr;
- hysbysiad o hysbysiadau prynu;
- ceisiadau gan awdurdodau cynllunio am gydsyniad ardal gadwraeth;

⁶⁸ Memorandwm Esboniadol, paragraff 19

⁶⁹ Memorandwm Esboniadol: Atodiad D – Gohebiaeth gan Gomisiwn y Gyfraith

⁷⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraff 21. Gweler hefyd Nodiadau'r Drafftwyd, paragraffau 7 i 9

- hysbysu perchnogion am geisiadau am gydsyniad.

91. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol i ba raddau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Chomisiwn y Gyfraith a'r pedwar mater yr argymhellodd eu cynnwys yn y Bil. Dywedodd wrthym:

"...we've had a lot of engagement with the Law Commission in a number of areas, and, of course, one of the future areas of consolidation that we'd hope to bring in the future will obviously be in respect of planning, and that's something again I think is an extremely important area to bring at some stage in the future. There is, of course, some overlap between this consolidation Bill and aspects of planning law in Wales that were covered by the Law Commission's report. So, what was felt necessary was that those areas where there might be minor changes forming part of the consolidation Bill—. It was necessary, I think—again following from the guidance from the Standing Orders that the Llywydd has provided—to ensure that the Law Commission was satisfied that those minor changes that we were making were—. Well, I think it's set out in the letter, which I hope you may have before you; if not, we can make a copy available. There's a letter where they said:

'We therefore recommend that such a change would be beneficial, would not represent a significant new policy, and would not be controversial.'

*So, it's ensuring that they were satisfied that these were things that it was appropriate to do within a consolidation Bill. So, I think their guidance and their assistance in this has been important."*⁷¹

92. Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, clywsom gan gynrychiolwyr Comisiwn y Gyfraith ar 26 Medi.

93. Disgrifiodd Mr Paines CB ymgysylltiad Comisiwn y Gyfraith â Llywodraeth Cymru ar gydgrynhoi cyfraith Cymru yn ei chyfanrwydd fel a ganlyn:

"...our formal engagement I think takes three forms: first of all, in our report on planning law, we made a couple of recommendations about aspects of other historic environment law, to which planning law cross refers. We recommend tightening up a definition and abandoning some unused

⁷¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [39] i [41]

provisions. That's the first category. Secondly, we made, obviously, a number of technical reform recommendations in relation to planning control. In tandem with that, we recommended that the system of listed building consent be merged with planning control. What we proposed was that what is currently regulated as an alteration to a listed building would become a form of controlled development. The protection would be identical, but taking these recommendations together, the various technical reforms that we were making, we envisaged would apply to listed building control as well. In the event, the Welsh Government didn't accept the recommendation to merge the regimes. I'll accept at once that it was controversial. It wouldn't have changed the substance of the protection, it would have got rid of duplicative law, but a lot of people felt it was diminishing the importance of listed buildings as an aspect of our history and that the regime should be kept for that reason. Anyway, the Welsh Government didn't adopt that merger recommendation; instead, what they have done in the Bill is to implement, as aspects of new historic environment protection, those technical reforms that we recommended would apply across the board. (...)

And then, thirdly, there's the letter that Sir Nick wrote to the Counsel General in May of this year, recommending four additional technical reforms, which the Welsh Government had asked us to consider."⁷²

94. Gofynnwyd am farn Dr Mynors ynghylch a oedd darpariaethau'r Bil yn adlewyrchiad cywir o'r pedwar mater yr argymhellodd Comisiwn y Gyfraith eu bod yn addas i'w cynnwys yn y Bil cydgrynhoi hwn. O ran pob un o'r pedwar mater, roedd Dr Mynors yn fodlon a dywedodd eu bod wedi'u hymgorffori'n briodol.⁷³

95. Yn benodol o ran ceisiadau gan awdurdodau cynllunio am gydsyniad ardal gadwraeth, dywedodd Dr Mynors:

"I think, oddly, that's an example where the change has been made by not including what was a previously rather confusing provision, and so you're not looking for a needle in the haystack, you're looking for the bit of the haystack where the needle has been removed. (...) It basically just applies to conservation area consent the listed building consent regime, and that includes amongst many, many other things, the application by planning authorities, which was always an oddity. It was an oddity for which there was

⁷² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [91] a [93]

⁷³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [104]

no obvious point. I've no idea why it crept in whenever it did. It has now just vanished in this, and that's fine."⁷⁴

96. O ran darpariaethau sy'n ymwneud â phwerau i benodi aseswyr, dywedodd Dr Mynors wrthym:

*"That is an example of a proposal that we made in relation to the planning Bill, and we basically were saying that when the planning legislation started out, every decision was made by the Secretary of State. Of course, now, 99 per cent of decisions are made by inspectors, and it seems tiresome that the Secretary—or, of course, in the Welsh context, Welsh Ministers—that they should have the power to appoint assessors but not inspectors. So, we said, 'Just do that.' That was the sort of sensible tidying up that was incorporated into our report on planning. If it applies to planning, then logically it applies to listed building consent as well, and so that has been done. That's an example of where we made a recommendation in relation to the planning code. Also, alongside that, at that time, we were making a recommendation that that would apply to listed buildings anyway, and therefore the inevitable logical consequence of that is that what applies to one applies to the other, and that has in fact come through and that's fine."*⁷⁵

Cymhwyso a deall y gyfraith bresennol a rhesymeg a chyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros wneud newidiadau

97. Drwy gydol ein hystyriaeth o'r Bil rydym wedi bod yn ymwybodol o'r hyn y dylai ac na ddylai Bil Cydgrynhoi geisio'i wneud a, lle mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud newidiadau yn unol â'r hyn a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C, rydym wedi mynd ati i ymchwilio'n llawn i'r sail resymegol a'r cyfiawnhad dros hynny.

98. Rydym wedi herio Llywodraeth Cymru ac wedi ceisio eglurder pellach ar yr esboniadau a gawsom mewn perthynas â nifer o'r darpariaethau yn y Bil.

Adran 2(3): Ystyr "heneb" a "safle heneb"

99. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn disgrifio'r newid a gynigir yn adran 2(3) o'r Bil fel "Ailfframio [yr] esemptiad ar gyfer adeiladau eglwysig" ac yn nodi bod pŵer newydd wedi'i ychwanegu i wneud rheoliadau (yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft) i bennu esemptiadau.⁷⁶

⁷⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [110]

⁷⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [112]

⁷⁶ Nodiadau'r Drafftwy'r, tudalen 13

Dywed Nodiadau'r Drafftwyd hefyd fod "effaith bresennol y ddarpariaeth yn ansicr" a bod y pŵer i wneud rheoliadau yno i ddarparu hyblygrwydd rhag ofn y bydd angen eglurhad pellach yn y dyfodol. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion pam mae effaith y ddarpariaeth bresennol yn Neddf 1979 yn ansicr. Mewn ymateb i hynny, dywedwyd wrthym:

"Mae pŵer yn adran 2(3) o'r Bil yn ganlyniad i'r newid a wnaed wrth ailddatgan geiriau agoriadol adran 61(8) Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (Deddf 1979), sy'n ymddangos yng ngeiriau agoriadol adran 2(3) o'r Bil.

Rydym yn ansicr a yw 'eglwysig' yn adran 61(8) yn gymwys mewn perthynas ag Eglwys Loegr yn unig. Gallai fod ag ystyr ehangach fel bod adran 61(8) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw adeilad crefyddol a ddefnyddir at ddibenion crefyddol.

Mae 'Eglwysig' yn fynegiant a ddefnyddir mewn mannau eraill yn Neddf 1979 mewn cyd-destun lle mae'n ymddangos yn glir ei fod wedi'i gyfyngu i Eglwys Loegr – gweler adran 51, sy'n ymdrin ag eiddo eglwysig. Ond rydym o'r farn nad yw hyn yn bendant o ran ailddatgan adran 61(8) yn gywir mewn cyd-destun lle mae'n rhaid darllen y ddeddfwriaeth hyd y gellir mewn modd sy'n gydnaws â'r hawliau a geir yn yr ECHR. Mae'n wir hefyd bod adran 60 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (Deddf Adeiladau Rhestredig 1990) yn defnyddio'r mynegiant mewn ffordd sy'n ymddangos yn glir ei fod wedi ei fwriadu i fynd y tu hwnt i Eglwys Loegr.

Mae adran 2(3) o'r Bil yn ailddatgan adran 61(8) yn y ffordd yr ydym o'r farn ei bod yn fwyaf tebygol o fod yn cydymffurfio â'r Confensiwn (er mwyn osgoi potensial gwahaniaethu na ellir ei gyfiawnhau), yn amodol ar bŵer ar gyfer eithriadau i'r sefyllfa gyffredinol gael eu pennu gan reoliadau. Ni ddaethom o hyd i gyfraith achos perthnasol ar y pwynt penodol hwn, felly roedd y sefyllfa a gyrhaeddwyd yn y Bil yn cynnwys rhywfaint o ddyfalu ar ein rhan. Yn AG ex rēl Cyngor Sir Swydd Bedford v Howard United Reformed Church Trustees (1976) (a oedd yn ymwneud ag adeiladau rhestredig), canfu Tŷ'r Arglwyddi ei fod yn ddiangen ac yn annoeth penderfynu a oedd 'adeiladau eglwysig' wedi'i gyfyngu i adeiladau Cristnogol. Yn ymarferol, mae adeiladau a allai fod wedi'u rhestru fel arall ond nad ydynt ar ôl ystyried adran 61 o Ddeddf 1979 i gyd yn rhai Cristnogol. Mae angen cael hyblygrwydd i wneud darpariaeth er mwyn sicrhau bod adeiladau a ddylai gael eu gwarchod yn gallu parhau i gael eu gwarchod, os yw hynny'n briodol.

Mae Rheol Sefydlog (RhS) 26C.2(iv) yn caniatáu ychwanegu'r math hwn o fesurau diogelu: mae canllawiau'r Llywydd ar RhS 26C yn crybwyll yn benodol yr ECHR yng nghyd-destun y math o newidiadau i'r gyfraith y gallai fod angen eu gwneud mewn Bil cydgrynhoi."⁷⁷

100. Mae'r ymateb yn cynnwys ymadroddion fel "ymddangos" a "mwyaf tebygol", a bod y safbwynt yn y Bil "yn cynnwys rhywfaint o ddyfalu". Aethom ar drywydd hyn ymhellach a gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd yn pryderu nad yw datganiadau fel y rhain yn rhoi tystiolaeth ddigon cadarn i ni fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am argymhell i'r Senedd a all y Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym ei bod yn amlwg bod yn rhaid gwneud penderfyniadau ar hyd y ffordd. Ychwanegodd at yr hyn a ddywedwyd wrthym mewn gohebiaeth gan ddweud:

*"...one of the classic areas, and it's not an area I'd been familiar with until we started looking, was between the concept of the word 'ecclesiastical' as opposed to 'religious', and, of course, there is some case law on it. Case law isn't necessarily definitive in these areas, so you have to make a judgment, particularly if you're ensuring that the legislation is human rights compliant, and, of course, if 'ecclesiastical' might possibly be construed legally as referring to the Church of England as opposed to 'religious', which then becomes inclusive, well you have to opt for the term 'religious' on the basis that otherwise the legislation you're consolidating then becomes discriminatory."*⁷⁸

Adran 39(2)(c): Apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi

101. Mewn perthynas ag adran 39(2)(c), dywed Nodiadau'r Drafftwyd fod darpariaeth ynghylch sicrhau diogelwch neu iechyd drwy waith atgyweirio neu waith sy'n rhoi cymorth neu loches dros dro wedi'i hepgor. Dywed Nodiadau'r Drafftwyd fod sail yr apêl yn adran 9ZE(3)(c) o Ddeddf 1979 yn dyblygu darpariaeth gyfatebol ar gyfer adeiladau rhestredig ond "mae'n ymddangos ei bod wedi'i chynnwys drwy gamgymeriad yn adran 9ZE".⁷⁹ Gofynnodd y Pwyllgor am eglurder ynghylch y sail resymegol a gynigir yn Nodiadau'r Drafftwyd ei bod yn ymddangos bod darpariaeth yn Neddf 1979 "wedi'i chynnwys drwy gamgymeriad", yn enwedig gan inni nodi bod adran 9ZE wedi'i mewnosod yn Neddf 1979 gan Ddeddf 2016. Mewn ymateb i hynny dywedwyd wrthym:

⁷⁷ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 1 i 5

⁷⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [37]. Gweler hefyd Gofnod y Trafodion [38]

⁷⁹ Nodiadau'r Drafftwyd, tudalen 27

"Mae adran 9ZE(3)(c)(i) o Ddeddf 1979 yn groes i'r gwaharddiad yn adran 2 ar wneud gwaith sy'n effeithio ar heneb gofrestredig (mae hyn yn gwahardd gwaith atgyweirio neu addasu). Mae hynny oherwydd ei fod yn awgrymu y byddai gwaith atgyweirio neu ddarparu cymorth dros dro yn cael ei ganiatáu heb ganiatâd. Er bod amddiffyniad yn adran 2(9) sy'n ymwneud â gwaith a wneir ar gyfer iechyd a diogelwch sy'n torri adran 2(1) neu (6), nid yw hyn yn cyfeirio at y posibilrwydd o wneud atgyweiriadau neu gymorth dros dro. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa o dan adran 8 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 mewn perthynas ag adeiladau rhestredig. Credwn fod y ddarpariaeth a gynhwyswyd yn adran 9ZE(3) wedi ailadrodd y sefyllfa ar gyfer adeiladau rhestredig ar gam.

*Nid yw'r llinell rannu rhwng y gwahanol gategorïau o newid a ganiateir gan RhS 26C bob amser yn glir. Yn yr achos hwn, mae RhS 26C.2(iv) yn berthnasol oherwydd bod y Bil yn cywiro'r hyn sy'n ymddangos yn anomaledd/camgymeriad clir yn y ddarpariaeth sy'n cael ei hailddatgan."*⁸⁰

102. O ystyried bod yr ymateb yn cynnwys cyfeiriad at 'feddylfryd' Llywodraeth Cymru bod darpariaeth wedi'i hychwanegu at Ddeddf 1979 drwy Ddeddf 2016 drwy gamgymeriad, gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion gadarnhau sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn gwybod bod camgymeriad wedi'i wneud ac a oedd sicrwydd nad oedd y weithred yn fwriadol. Dywedodd Dr George wrthym:

"We know there is a mistake because the section 9ZE(3) that was inserted in 2016 has a reference to 'works of repair or...support' that doesn't really make any sense, because it assumes that it would have been okay and permissible to do works of repair without needing scheduled monument consent, whereas, actually, that's not the case... because the list of things that require scheduled monument consent specifically includes repairs, so they definitely do need consent. So, really, that ground of appeal, and that bit of it, doesn't really make much sense. We don't know quite how that mistake came about, and I think, in the previous correspondence, it was suggested that it might have been because the provisions about listed buildings might have been copied, because, in that context, you can do repairs to a listed building without needing consent, so that's possibly how it came about. But I think,

⁸⁰ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 20 a 21

*and I hope the committee would agree, that it doesn't really matter so much how it happened, but it's just the fact that we've identified it and we fix it."*⁸¹

Adran 151(2): Gweinidogion Cymru yn derbyn gwaddol ar gyfer cynnal adeilad

103. Mae cyfeiriad at adeilad o ddiddordeb 'eithriadol' wedi'i newid i gyfeirio at 'ddiddordeb arbennig' ym mharagraff (a) o'r diffiniad o "adeilad perthnasol" yn adran 151(2). Dywed Nodiadau'r Drafftwyd fod y newid hwn wedi'i wneud er "cysondeb ac eglurder" ac nad yw'r "profion o ddiddordeb 'arbennig' ac 'eithriadol' yn wahanol yn ymarferol".⁸² Gofynnwyd am eglurder a chadarnhad ynghylch pwy yr ymgynghorwyd â nhw o ran a yw'r ddau derm yn gyfystyr yn ymarferol, ac a oedd cytundeb unfrydol ynghylch hynny. Dywedwyd wrthym fod y gwaith drafftio wedi'i rannu â grŵp gorchwyl a gorffen Cadw ac na chodwyd unrhyw faterion.⁸³

104. Fe wnaethom hefyd ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a fyddai gwaith ymgynghori Llywodraeth Cymru gyda rhanddeiliaid cyn cyflwyno'r Bil yn cael ei gyhoeddi a dywedwyd wrthym "ni fwriadwyd i'r cyfnewidiadau gael eu cyhoeddi erioed".⁸⁴

105. Er tryloywder, ac o ystyried bod barn y grŵp gorchwyl a gorffen yn bwysig i gefnogi'r newid o ddiddordeb "eithriadol" i "ddiddordeb arbennig", aethom ar drywydd y materion hyn a gofyn pwy oedd wedi cymryd rhan yn y grŵp gorchwyl a gorffen ac a fyddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cadw i sicrhau y gallai'r gwaith gyda rhanddeiliaid cyn cyflwyno'r Bil gael ei gyhoeddi. Dywedodd Mr Gwilym Hughes, Pennaeth Cadw a Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraeth Cymru wrthym:

"This is unusual. There wasn't a formal consultation prior to the introduction of the Bill, and the task and finish group actually didn't comprise of organisations; it comprised of expert individuals—trusted individual experts, effectively, in particular bits of heritage practices, who were invited to consider particular elements of it and just to say was this going to change the practice. So, they were there as individuals rather than representing organisations. However, the majority of those people did work for professional organisations and stakeholder groups, such as local planning authorities, national parks, the Welsh archaeological trusts, the royal commission, the two UK-based archaeological organisations, CLA Cymru, the Church in Wales, the National Trust and Glandŵr Cymru. (...)

⁸¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [52] i [56]

⁸² Nodiadau'r Drafftwyd, tudalen 56

⁸³ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraff 103

⁸⁴ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 82

*But they effectively acted as an informal sounding board, a panel of experts, if you like, so we could understand how the current legislation was interpreted and applied in practice. They were there, really, to provide expertise, but also it was informal and in confidence. So, there weren't any formal meetings of this group; we were writing to individuals to ask them if they felt that this legislation was appropriate and suitable. There were no formal meetings, and so it was never intended that they'd be public, because of that confidential nature. But just to follow up on what you've just said there, there's no doubt in my mind that, as a consequence of those interactions and the participation of some of those individuals, that has clearly helped some of the very helpful responses you've received, for example from the Country Land and Business Association and from the Association of Local Government Archaeological Officers Cymru. It's obviously been informed by their engagement with this exercise. So, I think it's been a successful exercise."*⁸⁵

106. Ychwanegodd y Cwnsler Cyffredinol:

*"I think the problem is, if it's gone out to people in that particular way, unless you specifically said, 'We intend to—', et cetera, I think it's inappropriate retrospectively, probably, to do so."*⁸⁶

Adran 152(9): Pwerau i fynd ar dir

107. Dywed Nodiadau'r Drafftwy'r fod darpariaeth newydd wedi'i mewnosod yn adran 152(9) i'r perwyl bod y pŵer i gynnal arolwg o dir yn cynnwys penderfynu a oes mwynau'n bresennol. Dywed Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd fod y newid yn cysoni'r sefyllfa â'r sefyllfa ar gyfer henebion o dan adran 43(3) o Ddeddf 1979 a "chywiro anghysondeb". Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn ychwanegu bod "adran 88(6) [o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990] yn cyfeirio at fwynau ond diddymwyd y cyfeiriad gan *Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991* [Deddf 1991]. Mae'n aneglur pam, gan y gallai presenoldeb mwynau fod yn berthnasol i ddigollediad o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990".⁸⁷

108. Gofynnwyd am esboniad pellach ac eglurder ynghylch y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iv), yn enwedig sut y mae'n briodol defnyddio Bil Cydgrynhoi i ail-fewnosod darpariaeth a ddiddymwyd gan Senedd y DU pan basiodd Ddeddf 1991, a sut y mae hyn yn gyfystyr â newid bach i'r gyfraith bresennol. Mewn ymateb i hynny, dywedwyd wrthym:

⁸⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [116]

⁸⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [118]

⁸⁷ Nodiadau'r Drafftwy'r, tudalen 57

"Fel yr eglurwyd yn Nodiadau'r Drafftwyd, arweiniodd y diddymiad a wnaed gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991 at wahaniaeth rhwng y pwerau i fynd ar dir yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 (nad ydynt yn cynnwys pŵer i gloddio i bennu presenoldeb mwynau) a'r rhai yn y Deddfau cynllunio eraill a Deddf 1979 (sy'n gwneud hynny). Ymddengys mai anghysondeb yw'r gwahaniaeth ac nid ydym wedi gallu nodi unrhyw reswm drosto.

Diwygiodd Atodlen 3 i Ddeddf 1991 Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 drwy fewnosod darpariaethau manylach ynghylch arfer pwerau mynediad, yn ogystal â diddymu'r cyfeiriad at fwynau yn adran 88(6). Ychwanegwyd yr Atodlen honno at y Bil Cynllunio ac Iawndal heb unrhyw ddadl yn y Senedd.

Nid ydym yn meddwl bod adfer y cyfeiriad at fwynau yn estyniad sylweddol i'r pwerau yn adran 88 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, sydd eisoes yn cynnwys tyllu i bennu natur yr isbridd."⁸⁸

109. Mae'n hysbys bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gan seneddau heb drafodaeth, ac y gall hynny ddigwydd yn aml. Am y rheswm hwnnw, aethom ar drywydd y mater hwn ymhellach pan ymddangosodd y Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion ger ein bron ym mis Tachwedd a gofyn iddynt egluro pam mae'n briodol cynnwys y ddarpariaeth yn adran 152(9) pan nad yw'r polisi y mae'n ei gwmpasu wedi bod yn rhan o'r gyfraith ers dros 30 mlynedd. Dywedodd Dr George wrthym:

"I should say, on the point about it not having been debated in Parliament, obviously we accept that lots of sentences in Bills have not been debated, and I think the only reason that that was mentioned in the annex to the Council General's response was just to explain that we haven't identified any public explanation of what the reason was for the change that was made 30 years ago. And I think, because we don't know what the reason was, we've really just approached it by looking first of all at whether we can see any reason for this difference, because the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979 and the Town and Country Planning Act 1990 have powers of entry that do include the power to bore the land to see if there are minerals there. So, the question was: well, why would that not be the case for the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990? We just can't think of any rationale there might be for that. We also looked at just what's the effect of this, and this is all about really going onto land to assess claims for

⁸⁸ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 107 i 109

compensation, and we think if there isn't a power to check for the presence of minerals under the listed buildings provisions, that potentially puts somebody who is claiming compensation at a disadvantage, because their land might be undervalued, because the minerals are ignored as part of valuing the land. So, I think, on that basis, we think this is an anomaly. We can't identify any reason for it, so we thought it was appropriate to put the position back to how it was before."⁸⁹

Adran 163(1)(c)(i) a (2)(d): Cymhwyso Rhan 3 i ardaloedd cadwraeth

110. Dywed Nodiadau'r Drafftwyd fod darpariaethau wedi'u hychwanegu yn adran 163(1)(c)(i) a (2)(d) sy'n cymhwyso pwerau mynediad at ddibenion cydsyniad ardal gadwraeth, yn ddarostyngedig i eithriadau. Dywed Nodiadau'r Drafftwyd hefyd fod hyn yn egluro bod yn rhaid i rai pwerau mynediad yn adrannau 152 i 155 fod yn gymwys at ddibenion cydsyniad ardal gadwraeth (gan eithrio eraill sy'n amherthnasol) i adlewyrchu sut y deallir y mae'r pwerau presennol yn gymwys, yn ogystal â chywiro'r hyn sy'n ymddangos yn amryfusedd.⁹⁰ Gofynnwyd am eglurder ynghylch yr esboniad yn Nodiadau'r Drafftwyd o ran 'cywiro'r hyn sy'n ymddangos yn amryfusedd' ac, o ystyried bod pwerau mynediad yn ymwithol ac yn debygol o ymwneud â hawliau dynol, gofynnwyd hefyd pam mae'n briodol ymestyn y math hwn o bŵer ar ffurf Bil Cydgrynhoi. Dywedwyd wrthym:

*"Nid oes unrhyw fwriad i roi pwerau mynediad newydd. Yn hytrach, y bwriad yw datgan yn gliriach y pwerau mynediad y credwn fod yn rhaid iddynt fod yn gymwys eisoes mewn perthynas â chaniatâd ardal gadwraeth. Ni allwn feddwl am reswm pam y byddai gan y Senedd bwerau mynediad arfaethedig i fod yn gymwys yng nghyd-destun y drefn caniatâd adeilad rhestredig ond nid y drefn caniatâd ardal gadwraeth; a chredwn y byddai'r cyfeiriadau yn adran 88 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 at adrannau eraill o'r Ddeddf honno yn cael eu darllen fel pe baent yn cynnwys cyfeiriadau at yr adrannau hynny fel y'u cymhwysir gan adran 74(3). Ond byddai crybwyll adrannau 88 i 88C yn adran 74(3) wedi ei gwneud yn gliriach y bwriedir iddynt fod yn gymwys mewn perthynas â chaniatâd ardal gadwraeth. Dyna'r pwynt sydd bellach wedi'i egluro yn adran 163(1)(c)(i) a (2)(d) o'r Bil."*⁹¹

⁸⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [127]

⁹⁰ Nodiadau'r Drafftwyd, tudalen 64

⁹¹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraff 129

111. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol sut y gallai fod yn hyderus nad oedd Senedd y DU yn bwriadu i bwerau mynediad gwahanol fod yn berthnasol i'r cyfundrefnau gwahanol, ond tebyg, hyn. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

"...what we're trying to do is to, I suppose, restate the position more clearly. And I think it would be, perhaps, a curious anomaly if powers of entry were not available in relation to conservation area consent in the same way as they are available in relation to listed building consent. I think also it puts us in conflict with some of the earlier legislation. (...)

*And we're not creating new powers of entry. I think what we're doing is clarifying and restating what those powers actually are, within a consolidated piece of legislation."*⁹²

112. Ychwanegodd Dr George:

*"It's all because of the way that conservation area legislation works at the moment, which is mostly by applying provisions about listed buildings, and then you get into issues about exactly which provisions you need to mention. There's also a problem about the structure of the current legislation, in that some of the provisions that need to be applied come after the bit about conservation areas, so do they apply? And some come before. There are, throughout the legislation, lists of provisions that are applied to other things and, sometimes, the lists aren't quite right or sometimes maybe different approaches have been taken to whether you need to spell out that you're not talking just about section x, but that you're also talking about section x as it's been applied to conservation areas as well. So, it's all quite tricky interpretation. But, our interpretation is that we haven't changed anything here, that these provisions do apply to conservation areas as well."*⁹³

Adran 201: Gwneud hawliadau am ddigollediad

113. Mae adran 201 yn darparu ar gyfer cymhwyso sancsiynau sifil i droseddau a gyflawnir o dan y Bil.

114. Dywed Nodiadau'r Drafftwyd fod pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer sancsiynau sifil sy'n cyfateb i'r hyn a ganiateir gan Ran 3 o Ddeddf 2008 wedi'i ymestyn i gwmpasu pob trosedd o dan y Bil. Dywed Nodiadau'r Drafftwyd hefyd fod y pwerau yn Rhan 3 o Ddeddf 2008 yn

⁹² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [138]

⁹³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [139]

gymwys i “droseddau perthnasol” a oedd yn bodoli yn union cyn y diwrnod y pasiwyd y Ddeddf honno (gweler Deddf 2008, adrannau 37(2) a 38(2)).

115. Mae adran 201 yn cadw effaith Rhan 3 o Ddeddf 2008 mewn perthynas â throseddau perthnasol a ailddatgenir yn y Bil, ond hefyd yn cynnwys troseddau a ychwanegwyd at Ddeddf 1979 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 gan Ddeddf 2016, ynghyd â rhai troseddau o Ddeddf Cynllunio 1990 a Deddf 1972 sydd wedi eu cynnwys yn yr ailddatganiad. Dywed Nodiadau'r Drafftwyd:

“Ystyrir bod hyn yn briodol i osgoi bylchau a sicrhau cysondeb. Mae'r troseddau a ychwanegir i gyd yn debyg iawn i droseddau a oedd eisoes yn droseddau perthnasol at ddibenion Deddf 2008. Diwygiad canlyniadol a gollwyd oedd y methiant i estyn Deddf 2008 i droseddau a fewnosodwyd gan Ddeddf 2016.”⁹⁴

116. Gofynnwyd am esboniad pellach ynghylch dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar Reolau Sefydlog 26C.2(ii) a (iv), yn enwedig o ran cymhwyso'r gyfundrefn sancsiynau sifil i fwy o droseddau nag sy'n bodoli eisoes. Mewn ymateb i hynny dywedwyd wrthym:

“Y troseddau newydd a fewnosodwyd i Ddeddfau presennol gan Ddeddf 2016 oedd y troseddau o dorri hysbysiad gorfodi heneb gofrestredig a thorri hysbysiad stop dros dro (mewn perthynas â heneb gofrestredig neu adeilad rhestredig). Roedd y drosedd o dorri hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig eisoes wedi'i chynnwys yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 ac felly roedd yn 'drosedd berthnasol/relevant offence' at ddibenion Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (Deddf 2008), fel pob un arall o'r troseddau sy'n ymwneud â gwaith anawdurdodedig ac achosi difrod i henebion cofrestredig neu adeiladau rhestredig. Fel yr eglurwyd yn y Nodiadau i Ddrafftwyd, methwyd yr angen i gymhwyso Rhan 3 o Ddeddf 2008 i'r troseddau newydd a fewnosodwyd gan Ddeddf 2016 yn ystod drafftio Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2015.

Y troseddau eraill yn y Bil presennol nad yw Rhan 3 o Ddeddf 2008 eisoes yn gymwys iddynt yw'r rheini yn adrannau 177 a 197 a pharagraff 2 o Atodlen 6 sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth. Unwaith eto, byddai'n ymddangos yn afreolaidd eithrio'r troseddau hynny o adran 201 o ystyried bod yr holl droseddau eraill a ailddatgenir yn y Bil, gan gynnwys troseddau sy'n

⁹⁴ Nodiadau'r Drafftwyd, tudalen 77

ymwneud â darparu gwybodaeth gyda cheisiadau am gydsyniad, yn 'droseddau perthnasol/relevant offences' at ddibenion Rhan 3 o Ddeddf 2008.

Gwneir y newidiadau hyn at ddibenion cyflawni cydgrynhoad boddhaol o dan RhS 26C.2(iv). O ystyried ymhellach, nid yw RhS 26C.2(ii) yn berthnasol a bydd y Nodiadau Drafftwyd yn cael eu diweddaru maes o law.”⁹⁵

117. Gofynnwyd eto i'r Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion sut y gallent fod yn sicr nad oedd yr hepgoriad mewn perthynas â throseddau yn fwriadol. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym mai ei ddealltwriaeth ef oedd bod y rhan fwyaf o'r swyddogion a fu'n ymwneud â pharatoi Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn 2015 yn dal i weithio gyda Llywodraeth Cymru, a'u bod wedi ceisio eu cyngor a gofyn iddynt beth yr oeddent yn gall ei ddwyn i gof.⁹⁶

Adran 208(3): Tir Eglwys Loegr

118. Mae adran 208 yn gwneud darpariaeth i gymhwyso'r Bil i dir sy'n perthyn i Eglwys Loegr. Mae nifer bach o eglwysi yng Nghymru sy'n eiddo i Eglwys Loegr. Os yw'r eglwysi o fewn awdurdodaeth Eglwys Loegr maent yn dod o fewn rheolau ei chyfadran. Ymhlith pethau eraill, mae'r adran yn darparu, pan fo hysbysiad neu ddogfen yn cael ei chyflwyno o dan y Bil neu reoliadau yn cael eu gwneud o dan y Bil i Eglwys Loegr fel perchennog tir, bod yn rhaid cyflwyno hysbysiad neu ddogfen gyfatebol i Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth ar gyfer yr ardal dan sylw. Mae isadran (3) yn darparu ei bod yn rhaid i unrhyw ddigollediad sy'n daladwy i Eglwys Loegr o dan y Bil gael ei dalu i'r Bwrdd Cyllid priodol.

119. Drwy adran 208(3), mae'r ddarpariaeth ynghylch talu a defnyddio digollediad wedi'i hymestyn i fod yn gymwys i bob digollediad o dan y Bil. Dywed Nodiadau'r Drafftwyd fod hyn yn "Dileu bylchau" ac "Ar hyn o bryd, nid yw Adran 86(3) o Ddeddf 1990 [Adeiladau Rhestredig] yn gymwys i bob digollediad sy'n daladwy o dan y Ddeddf, ond mae'n ymddangos mai gwall yw hynny". Gofynnwyd am eglurder o ran yr esboniad yn Nodiadau'r Drafftwyd ynghylch cael gwared ar fylchau yn y gyfraith bresennol ac ymestyn y darpariaethau ynghylch digollediad. Dywedwyd wrthym:

"Mae adran 208(3) o'r Bil yn ailddatgan adran 51(3) o Ddeddf 1979 ac adran 86(3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Mae adran 51(3) yn gymwys i bob iawndal o dan Ddeddf 1979. Mae adran 86(3) yn gymwys i iawndal am golled a achosir gan hysbysiad cadw adeilad (hynny yw, rhestru dros dro) neu derfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Nid yw'n gymwys i iawndal

⁹⁵ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 145 i 147

⁹⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [147]. Gweler hefyd Gofnod y Trafodion [148]

am golledion a achosir gan warchodaeth dros dro, dirymiad neu addasu cydsyniad, hysbysiad stop dros dro neu arfer pŵer mynediad, er bod adran 51(3) o Ddeddf 1979 yn gymwys i'r iawndal am y colledion cyfatebol o dan y Ddeddf honno.

Ni allwn nodi unrhyw reswm dros y gwahaniaethau hyn. Diwygiodd Deddf 2016 adran 51(3) o Ddeddf 1979 i gynnwys iawndal yn ymwneud ag amddiffyniad dros dro a hysbysiadau stop dros dro, ac roedd y methiant i wneud diwygiadau cyfatebol i adran 86(3) o Ddeddf 1990 yn amryfusedd. Credwn y dylai Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991 hefyd fod wedi cymhwyso adran 86(3) o Ddeddf 1990 i iawndal o dan adran 88B(7) sy'n ymwneud â phwerau mynediad. Mae'r ffaith nad yw adran 86(3) yn gymwys i iawndal am ddirymu neu addasu caniatâd yn deillio o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968, a gyflwynodd ganiatâd adeilad rhestredig gyntaf. Ni allwn ddweud a oedd hynny'n ddewis bwriadol neu'n amryfusedd, ond mae'n anghysondeb arall y dylid ei gywiro at ddibenion cyflawni cydgrynhoi boddhaol."⁹⁷

120. Yn debyg i'n cwestiynau ynghylch adran 2(3) o'r Bil, pan ymddangosodd y Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion ger ein bron ym mis Tachwedd gofynnwyd iddynt ymhelaethu ymhellach ar yr esboniad a'r cyfiawnhad a roddwyd ganddynt mewn gohebiaeth. Dywedodd Dr George:

"...the issue is that the freehold in Church of England property rests in the incumbent of the benefice, which is like the vicar or the rector, which can cause problems for quite convoluted legal reasons where legislation is referring to the owners of land, particularly if there's a vacancy in a benefice. So, to kind of overcome these problems, the legislation treats the diocesan board of finance as being the owner of the land. We are confident that the inconsistency, the fact that section 86 of the 1990 Act doesn't do this for all the compensation in the Act is an anomaly, because we just can't identify any reason why the board of finance should be treated as the owner for the purposes of some compensation but not other types of compensation. There's no logical reason for any different position. Also, there's no reason why the legislation about scheduled monuments, which does treat the board

⁹⁷ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 155 a 156

of finance as being the owner for all purposes, should be different from the legislation for listed buildings that has these gaps in it."⁹⁸

121. Dywedodd Dr George hefyd:

*"So, again, going back to your point about the 2016 Act, having consulted our records and officials, we do think it was just an oversight not to add the new types of compensation created by the 2016 Act into this provision about the board of finance. We're not sure for the other ones, because they were created, I think, in 1968 and 1991, but, again, we just can't see any reason why the legislation wouldn't have dealt with everything in the same way, and it's the kind of thing that's probably quite easy to miss, because this is a technical provision right at the end of the legislation and you might miss the need to change."*⁹⁹

Newidiadau i ddarpariaethau a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

122. Mae'r Bil yn gwneud nifer o newidiadau i gyfraith bresennol yr amgylchedd hanesyddol a gyflwynwyd i'r llyfr statud ddim ond chwe blynedd yn ôl fel rhan o Ddeddf 2016.

123. Y newid mwyaf nodedig yw hepgor adrannau 38 a 39 o Ddeddf 2016 o'r ailddatganiad, sy'n darparu ar gyfer sefydlu Panel Cyngori ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru.

124. Yn y Memorandwm Esboniadol, dywed Llywodraeth Cymru:

"Nid yw darpariaethau Deddf 2016 mewn perthynas â'r Panel Cyngori wedi cael eu gweithredu erioed. Yn ystod y blynyddoedd ar ôl y Ddeddf honno, gwelwyd newidiadau o ran sut y mae Cadw'n cael ei lywodraethu a sefydlwyd Bwrdd Cadw, sy'n cynnwys aelodau allanol a gaiff eu recriwtio drwy broses sy'n cyfateb i'r broses penodiadau cyhoeddus. Os gofynnir i'r Bwrdd wneud hynny, caiff roi'r math o gyngor annibynnol y rhagwelwyd y byddai'r Panel Cyngori yn ei ddarparu i'r Gweinidogion. Mae Grŵp Amgylchedd Hanesyddol wedi'i sefydlu ers tro hefyd ac arno gynrychiolwyr ar ran ystod eang o randdeiliaid ym maes treftadaeth. Unwaith eto, mae'r Grŵp hwnnw yn aml yn gweithredu fel fforwm ar gyfer rhoi cyngor i Weinidogion.

⁹⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [155]

⁹⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [156]

*Gan fod y ddau gorff hyn yn bod, nid oes unrhyw ddisgwyliad realistig y bydd y Panel Cyngori yn cael ei sefydlu.*¹⁰⁰

125. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru egluro pam y penderfynwyd peidio ag ailddatgan adrannau 38 a 39 o Ddeddf 2016 yn y Bil o ystyried mai dim ond chwe blynedd yn ôl y cytunwyd ar y darpariaethau hyn gan y Senedd a'u rhoi ar y llyfr statud. Gofynnwyd hefyd am eglurder ynghylch sut y mae'r penderfyniad hwn yn bodloni gofyniad y Rheolau Sefydlog o ystyried y gellid ei ystyried yn gam sy'n diwygio'r gyfraith a ddylai fod angen cymeradwyaeth y Senedd yn yr un modd drwy Fil sy'n ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26. Ymatebodd y Cwnsler Cyffredinol drwy ddweud:

"I think, as you say, the panel has never been set up. I suppose the question is whether there was any realistic prospect that it ever would be set up, and I think the view that's been taken is that there was no realistic prospect that that would happen. So, it therefore fits within the prospect of legislation that is now remote or obsolete, or unlikely ever to be implemented. It really doesn't serve a purpose to incorporate within the consolidation Bill. And the main reason now is that, although Cadw is part of the Welsh Government, its board includes external members who are appointed through a public appointments process, and they provide that level of independent advice if the need arises.

This was considered by the Welsh language and culture committee some while back, and I think this was the sort of point that was considered by them, some time ago. And they made recommendations that have been accepted, which is, basically, that, if there was not likely to be a need for such a panel now for those very reasons, then there should be a change to the current law. So, in many ways, what we are doing is acting on the recommendation from the committee that basically said that we should change the law.¹⁰¹ And I think the Welsh Government's position at the time was that, well, when an opportunity arose, we would do so, and I think this is such an opportunity. That recommendation then was accepted. But equally so, this is one of those areas for the committee to scrutinise. I'd be very happy

¹⁰⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraff 30

¹⁰¹ Gweler Adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Bumed Senedd 'Ddoe a Heddiw: Ymchwiliad i'r Amgylchedd Hanesyddol', Ebrill 2018; ac Ymateb Llywodraeth Cymru

to see what the views of the committee are on this, and, obviously, it's one of those areas to be explored."¹⁰²

126. Mae adran 5 o'r Bil yn ymdrin ag ymgynghori cyn ychwanegu heneb at y gofrestr neu ddileu heneb o'r gofrestr. Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i hepgor pŵer i wneud rheoliadau i ychwanegu at y rhestr o ymgynghoreion yn berthnasol i'r adran hon. Dywed Nodiadau'r Drafftwyd fod y profiad o weithredu diwygiadau a wnaed gan Ddeddf 2016 wedi dangos bod y pŵer yn ddiangen, a bod Cadw yn ystyried bod y rhestr o ymgynghoreion yn yr adran yn gynhwysfawr.¹⁰³

127. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol roi rhagor o eglurder ynghylch y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iii) a chadarnhau a oedd pŵer dirprwyedig arall ar gael i Weinidogion Cymru y gellid ei ddefnyddio yn y dyfodol i ychwanegu at y rhestr o ymgynghoreion. Mewn ymateb i hynny dywedwyd wrthym:

"Rydym wedi dewis peidio ag ailddatgan adran 1AA(6) o Ddeddf 1979 i osgoi cynnwys darpariaeth na fyddai byth yn cael ei defnyddio. Caniateir y math hwn o hepgor gan RhS 26C.2(iii) ar y sail nad yw'r ddarpariaeth o unrhyw gyfleustod neu effaith ymarferol. Nid ydym yn credu bod yr asesiad hwn yn cael ei effeithio gan y ffaith bod adran 1AA(6) wedi'i hychwanegu at Ddeddf 1979 trwy welliant yn 2016.

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw bŵer arall i ddiwygio'r rhestr o ymgynghorwyr.

Nid oes gan Cadw gofnodion o unrhyw gwynion gan bobl sy'n dweud y dylen nhw fod wedi ymgynghori ynglŷn â threfnu neu restru arfaethedig. Mae hysbysiadau o ymgynghori ar restru a rhestrau arfaethedig yn cael eu rhoi ar wefan Cadw."¹⁰⁴

128. Mae adran 21 o'r Bil yn ymdrin â digollediad am wrthod cydsyniad heneb gofrestredig neu roi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau. Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i hepgor pŵer i bennu eithriadau drwy reoliadau yn berthnasol i'r adran hon. Ychwanegwyd y pŵer i bennu eithriadau at Ddeddf 1979 gan Ddeddf 2016. Dywed Nodiadau'r Drafftwyd nad yw adran 7(4A) o Ddeddf 1979 mewn grym eto ac mae'r profiad ers 2016 yn awgrymu na fyddai'r pŵer byth yn cael ei ddefnyddio.¹⁰⁵

¹⁰² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [108] a [109]

¹⁰³ Nodiadau'r Drafftwyd, tudalen 15

¹⁰⁴ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 7 i 9

¹⁰⁵ Nodiadau'r Drafftwyd, tudalen 23

129. Gofynnwyd eto i'r Cwnsler Cyffredinol roi rhagor o eglurder ynghylch y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iii) a'r esboniad a ddarparwyd yn Nodiadau'r Drafftwy'r. Mewn ymateb i hynny dywedwyd wrthym:

"Mae Adran 7 Deddf 1979 yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu iawndal ar wrthod caniatâd heneb gofrestredig o dan amgylchiadau penodol. Darparodd Adran 7(4) Deddf 1979 yn wreiddiol y byddai person â'r hawl i dderbyn iawndal am wrthod caniatâd heneb gofrestredig, hyd yn oed pe byddai'r gweithiau arfaethedig yn cynnwys dinistr llwyr neu rannol o heneb, pe bai'r gweithiau hynny at ddefnydd heneb at ddibenion amaethyddiaeth neu goedwigaeth. Cyflwynwyd Adran 7(4A) gan Ddeddf 2016 gan na chafwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi triniaeth ffafriol ar gyfer amaethyddiaeth neu goedwigaeth o dan Adran 7(4). Nid oes unrhyw gofnod yng Nghymru o unrhyw hawliadau o'r fath am iawndal yn gysylltiedig â gweithiau amaethyddol neu goedwigaeth. Cynigiwyd y pŵer yn adran 7(4A) i gymryd lle adran 7(4) yng Nghymru rhag ofn y byddai sail i wahaniaethu rhwng yr hawl i iawndal at unrhyw ddiben. Yn y cyfnod cyfamserol, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi dod i law i nodi gwrthod caniatâd heneb gofrestredig ar gyfer dinistr o heneb yn llwyr neu'n rhannol o dan yr amgylchiadau a amlinellir yn adran 21(3)(b) neu (c) y Bil sy'n gwarantu iawndal.

*Nid oes golwg y bydd adran 10 y Ddeddf 2016, sy'n cynnwys diwygiad arfaethedig i adran 7 o'r Ddeddf 1979 yn cael ei dwyn i rym am y rhesymau a amlinellir uchod. Mae'r amgylchiadau hyn yn golygu ei fod yn newid a ganiateir gan RhS 26C.2(iii), ac nid yw adran 7(4A) wedi'i hailddatgan ar y sail honno."*¹⁰⁶

130. Mae adran 30 o'r Bil yn ymdrin â throeddau sy'n ymwneud â gwaith anawdurdodedig neu dorri amodau cydsyniad. Mewn perthynas ag adran 30(7)(b), dywed Nodiadau'r Drafftwy'r fod y gofyniad i wybodaeth fodoli cyn i waith gael ei gyflawni wedi'i hepgor. Dywed Nodiadau'r Drafftwy'r fod yr hepgoriad hwn yn cywiro gwall wrth ddrafftio adran 2(8A) o Ddeddf 1979. Diwygiwyd y ddarpariaeth hon gan Ddeddf 2016. Fe wnaethom nodi ei bod yn ymddangos bod yr hepgoriad yn newid yr elfennau o amddiffyniad troseddol mewn rhai achosion troseddol. Gofynnwyd felly i'r Cwnsler Cyffredinol gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried y newidiadau i'r amddiffyniad yn ofalus. Dywedwyd wrthym:

¹⁰⁶ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 14 a 15

*"Wrth ailymweld ag adran 2(8A) Deddf 1979 ac wrth ddrafftio ei rhagflaenydd – adran 2(8) – daeth yn amlwg bod y newidiadau a wnaed gan Ddeddf 2016 wedi newid effaith yr amddiffyniad gwreiddiol yn anfwriadol. Yng nghydestun adran 2, a'r amddiffyniad penodol hwn, dim ond mewn perthynas â gorfod profi bod camau wedi'u cymryd gyda'r bwriad o ganfod a oedd tir yn cynnwys heneb gofrestredig y mae gwybodaeth person cyn i waith gael ei wneud yn berthnasol. Dylai cwestiwn ar wahân am wybodaeth neu gred person fod yn ffactor perthnasol drwy gydol y broses o gynllunio a gwneud gwaith at ddibenion argaeledd yr amddiffyniad (fel yr oedd yn glir cyn i adran 2(8) gael ei diwygio). Mae'r safbwynt arall yn groes i'r buddiant polisi cyhoeddus a ddiogelir gan y troseddau yn adran 2, oherwydd y gallai o bosibl gynnig amddiffyniad i berson a gafodd wybodaeth am safle heneb gofrestredig ar ôl i'r gwaith a ddifrododd yr heneb ddechrau."*¹⁰⁷

131. Mae adran 31 o'r Bil yn ymdrin â hysbysiadau stop dros dro. Mewn perthynas ag adran 31(5), dywed Nodiadau'r Drafftwy'r ychwanegwyd cyfeiriadau at bersonau sy'n caniatáu i waith gael ei gyflawni a meddianwyr fel rhai a allai gael hysbysiad stop dros dro. Dywed Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd fod yr ychwanegiad yn sicrhau y bydd hysbysiad yn cael ei gyflwyno i bawb a fydd yn gyfrifol am dorri'r hysbysiad o dan adran 33, a'r bwriad drwy ychwanegu meddianwyr yw egluro effaith y gyfraith bresennol, fel yr argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith ar gyfer y ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf Cynllunio 1990.¹⁰⁸ Mewnosododd Deddf 2016 ddarpariaethau yn ymwneud â hysbysiadau stop dros dro yn Neddf 1979 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol roi mwy o eglurder ynghylch yr esboniad yn Nodiadau'r Drafftwy'r. Mewn ymateb i hynny dywedwyd wrthym:

"Mae adran 171E(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Deddf Cynllunio 1990), sy'n ymwneud â hysbysiadau stop dros dro mewn perthynas â thorri rheolaeth gynllunio, yn darparu ar gyfer cyflwyno hysbysiadau i feddiannydd yn ogystal ag i berson â buddiant yn y tir. Nid yw'r darpariaethau a fewnosodwyd gan Ddeddf 2016 yn Neddf 1979 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer gwasanaeth i feddianwyr. Y rheswm am hynny oedd y credid bod cyfeiriadau at feddianwyr yn ddiangen, yn hytrach nag adlewyrchu bwriad na ddylai meddianwyr gael eu gwasanaethu. Am y rhesymau a roddir uchod, rydym bellach o'r farn y dylid bod wedi cynnwys cyfeiriadau penodol at feddianwyr."

¹⁰⁷ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraff 16

¹⁰⁸ Nodiadau'r Drafftwy'r, tudalen 25

Mae RhS 26C.2.(ii) yn berthnasol yn y cyd-destun hwn, oherwydd ei fod yn caniatáu eglurhad o'r ffordd y mae'r gyfraith yn gweithredu'n ymarferol. Hefyd yn berthnasol yw sicrhau cysondeb ar draws y Bil rhwng darpariaethau cyfatebol, gan gynnwys darpariaeth a fydd yn cael ei hailddatgan yn y prosiect cydgrynhoi cynllunio sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae adran 206 o'r Bil (ynghlŷn â chyflwyno dogfennau) yn gwahaniaethu rhwng meddianwyr a phersonau sydd â buddiant mewn henebion, adeiladau neu dir arall."¹⁰⁹

132. Dywed adran 194 o'r Bil ei bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gadw cofnod amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol.

133. Cododd ALGAO:Cymru bryderon am yr adran hon a dywedodd wrthym:

"Section 194(1) The Welsh Ministers must maintain a historic environment record for every local authority area replaces Section 35(1) of the Historic Environment (Wales) Act 2016, The Welsh Ministers must compile and keep up to date a historic environment record for each local authority area in Wales.

The explanatory notes state that this alteration to wording has been made because 'records have already been compiled, and the requirement to maintain is consistent with other provisions of the Bill (the duty to maintain a schedule of monuments, for example)'. However, the proposed provisions for scheduled monuments, listed buildings, registered historic parks and gardens, and historic place-names all include the requirement to maintain and publish the up-to-date schedule, list or register. Omission of this phrase is therefore inconsistent with the duties applicable to other assets.

More importantly, however, Historic Environment Records (HERs) are complex information management systems with thousands of new entries added each year. They need active management, not only to incorporate new data, but to curate existing digital and archive material, and to advise enquirers on its usage. The requirement in existing legislation to 'keep up to date records' is crucial in securing the resources for HER staff and ensuring that the HERs are fit for purpose as the statutory evidence base for planning decisions and other activities by public bodies. Simplifying wording to 'maintain' – particularly set against the phrasing used elsewhere in the Bill – could be

¹⁰⁹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 18 ac 19

interpreted as meaning that the HERs are complete, or a static archive. With continuing pressure on public funds, this perception could result in HERs being mothballed or under-funded, causing potential loss of HER staff with associated expertise, and an inadequate evidence base for heritage management advice: this in turn would lead to increased threat to undesignated archaeology and increased risk to development through unforeseen discovery.

ALGAO:Cymru would therefore urge the new Bill to retain the specific requirement to keep HERs up to date."¹¹⁰

134. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion ymateb i'r pryderon hyn. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

*"...it's one of those areas, again, where we've had to look very, very carefully at what previous legislation has had, what it says, what it actually means. It's the difference between 'compiling and keeping up to date' and then 'maintaining'; what does 'maintaining' actually mean? So, I think the approach that we've taken is, really, that a duty to maintain a list or register is a duty to keep it going and to keep it up to date. And I think the reality is I don't think you could say you were maintaining it if you just compiled it once and then you let it go out of date..."*¹¹¹

135. Ychwanegodd Mr Gwilym Hughes nad oedd yn rhannu'r pryderon y mae ALGAO:Cymru wedi'u mynegi ini. Dywedodd:

*"'Maintain' is a very active word. It does mean you're still working on it; you're managing that record and making sure that records are added as and when they become available, and in fact, it is supported by the statutory guidance for public bodies on how a historic environment record should be compiled and maintained and kept current, effectively."*¹¹²

136. Rydym yn ymchwilio ymhellach i newidiadau y bwriedir i'r Bil eu gwneud yn unol â Rheol Sefydlog 26C.2(iii) yn y Bennod nesaf.

¹¹⁰ Llythyr gan ALGAO:Cymru

¹¹¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [144]

¹¹² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [145]

Deddfwriaeth sydd wedi'i heithrio o'r ymarfer cydgrynhoi a'r Bil

137. Yn ystod ei ymddangosiad cyntaf ger ein bron ym mis Gorffennaf, fe wnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion a oedd penderfyniadau wedi'u gwneud i eithrio deddfwriaeth amgylchedd hanesyddol berthnasol o'r ymarfer cydgrynhoi, ac i roi manylion am hynny. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

*"It's one of the things that, during the preparations of the consolidation Bill, we had to discuss from time for time. For example, there is a very small Act, it's only four sections long, that deals with a very specific issue of protecting certain wrecks that are thought to be historically, archaeologically or in other ways important. It was passed many years ago as stop-gap legislation, creating what was meant to be a temporary mechanism for the designation and management of sites of historic wrecks. And so, once a site is designated, a licence is required in order to dive or undertake activities on it. Despite there being thousands of wrecks around the UK, there have only been six that have been so designated [in Welsh waters]. So, effectively, the legislation has been used very little, and it hasn't been used for quite some time. So, things like that, I think, were not really considered to be a priority. They created certain complications that really would have, I think, created difficulties for the consolidation Bill, and also because of their territorial scope. There were some others. The Redundant Churches and Other Religious Buildings Act 1969 was one of those."*¹¹³

138. Ychwanegodd Mr Dylan Hughes:

*"I think the Protection of Wrecks Act 1973 that the Counsel General mentioned was probably the most difficult decision. It was probably the one that made us pause the most, because it could easily have been incorporated. I think, in respect of a few other provisions, the Redundant Churches and Other Religious Buildings Act 1969, and the Protection of Military Remains Act 1986 (...) generally speaking, we just felt that the subject matter—. Although it may appear as though it was relevant, once we dug into it, it was felt that it wasn't actually directly applicable to the protection of the historic environment, so it was decided not to incorporate it."*¹¹⁴

¹¹³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [15]

¹¹⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [16]

139. Gofynnwyd iddynt hefyd a oedd unrhyw benderfyniadau i eithrio deddfwriaeth o ganlyniad i bryderon ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol. Dywedodd Mr Dylan Hughes wrthym:

*"I think, generally speaking, the subject matter hasn't been particularly problematic, but competence, of course, has a wider meaning. Convention rights have been considered in some detail and the territorial application, so there have been a couple of issues in that regard."*¹¹⁵

140. Aethom ar drywydd y materion hyn pan wnaethom ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol ddiwedd mis Gorffennaf. O ystyried y cyfeiriwyd at *Ddeddf Diogelu Llongddrylliadau 1973* (Deddf 1973), *Deddf Eglwysi Segur ac Adeiladau Crefyddol Segur Eraill 1969* (Deddf 1969) a *Deddf Diogelu Olion Milwrol* (Deddf 1986) fel enghreifftiau o Ddeddfau nad ydynt wedi'u cydgrynhoi yn y Bil, gofynnwyd am y rhesymau llawn pam mae darpariaethau yn y Deddfau hyn wedi'u heithrio, ynghyd â manylion unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall sydd wedi'i heithrio'n fwriadol o'r Bil.

141. Mae paragraffau 1 i 10 o lythyr y Cwnsler Cyffredinol atom ar 17 Awst yn rhoi tystiolaeth fanwl. I grynhoi:

- Deddf 1979 – Mae Llywodraeth Cymru wedi hepgor darpariaethau o adran 53 am resymau'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol. Nid yw Rhan 2 o'r Ddeddf yn cael ei hailddatgan oherwydd ei bod yn gwneud darpariaeth ynghylch ardaloedd archaeolegol ac nid yw wedi'i defnyddio i ddynodi ardaloedd yng Nghymru erioed.
- Deddf 2004 – Mae Adran 54 o Ddeddf 2004 yn galluogi gorchymyn datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 1990 i bennu achosion lle mae'n ofynnol i berson yr ymgynghorwyd ag ef ynghylch cais o dan y Deddfau cynllunio ddarparu ymateb. Byddai hyn yn cynnwys ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardaloedd cadwraeth. Ni ddefnyddiwyd y pŵer hwnnw erioed mewn perthynas â'r ceisiadau hynny ac mae Cadw yn ystyried na fydd yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol, ac felly nid yw'r Bil yn diwygio adran 54 i gwmpasu ceisiadau o dan y Bil. Mae'r llythyr yn nodi bod y ddarpariaeth hon wedi'i hepgor drwy amryfusedd o Nodiadau'r Drafftwyd, a fydd yn cael eu diweddarau pan fydd cyfle priodol i wneud hynny.

¹¹⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [16]. Gweler hefyd Gofnod y Trafodion [19]

- Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 – Nid yw Nodiadau'r Drafftswyr yn cyfeirio at adran 49 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, gan y bydd yr adran honno'n parhau i fod yn berthnasol i Gymru ar ôl y cydgrynhoi. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n fwy priodol i adran 49 fod gyda'r gyfraith gyffredinol am ddigollediad ar gyfer prynu tir yn orfodol, yn hytrach na gyda'r gyfraith ar ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol.
- Deddf 1969 – Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei fod yn "ymylol i bwnc y cydgrynhoi" gan fod y prif ddarpariaethau sy'n dal mewn grym yn ymwneud â phwerau elusennau a'r Comisiwn Elusennau mewn cysylltiad â gwerthu tir, yn hytrach na diogelu'r amgylchedd hanesyddol.
- Deddf 1986 – Unwaith eto, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn "ymylol i bwnc y cydgrynhoi" oherwydd bod Deddf 1986 yn ymwneud ag atal ymyriadau ag awyrennau milwrol sydd wedi cwmpo a llongau sydd wedi suddo. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai cynnwys darpariaethau'r Ddeddf hon yn y Bil wedi cael effaith negyddol ar hygyrchedd y ddeddfwriaeth a ailddatganwyd.
- Deddf 1973 – Mae Llywodraeth Cymru yn credu mai "yr unig un arall a allai'n realistig gael ei gynnwys yn y Bil oedd y ddarpariaeth am longau drylliedig yn Neddf 1973". Fodd bynnag, mae o'r farn y byddai ymgorffori'r Ddeddf yn y Bil wedi gofyn am nifer o ddarpariaethau newydd i'w chysoni ag arferion modern. O ystyried nad yw'r ddeddfwriaeth wedi'i defnyddio ers 20 mlynedd, dim ond chwe safle sydd erioed wedi'u dynodi mewn perthynas â Chymru, a'i bod yn berthnasol i safleoedd ar y môr yn hytrach nag ar y tir, nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried ei chydgrynhoi yn flaenoriaeth, yn rhannol oherwydd "nad yw'n rhan arwyddocaol o'r system ar gyfer gwarchod yr amgylchedd hanesyddol".¹¹⁶

142. Pan wnaethom ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol ym mis Medi, fe wnaethom ofyn cwestiwn dilynol ynghylch Deddf Adeiladau Rhestredig 1990. Gofynnwyd am ragor o eglurder ac eglurhad ynghylch pam nad yw adran 49 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 wedi'i hailddatgan yn y Bil. Fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod adran 50 o'r Ddeddf honno, sydd hefyd yn ymwneud â swm y digollediad mewn perthynas â phrynu gorfodol, wedi'i chynnwys yn y Bil yn adrannau 140 a 141. O'r herwydd, fe wnaethom hefyd ofyn am ragor o fanylion ynghylch pam y tynnwyd y llinell rhwng adrannau 49 a 50. Mewn ymateb i hynny dywedwyd wrthym:

¹¹⁶ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Awst 2022

*"Mae adran 50 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn ymwneud yn benodol â chaffaeliadau gorfodol a wneir o dan adran 47 o'r Ddeddf honno. Mae adran 47 o Ddeddf 1990 wedi'i hailddatgan yn y Bil (yn adran 137) ac felly mae adran 50 wedi'i hailddatgan hefyd. Mae cwmpas adran 50 yn wahanol i adran 49, sy'n ymwneud ag unrhyw gaffaeliad gorfodol o dir, nid yn unig y caffaeliadau hynny y darperir ar eu cyfer o dan y Bil. Rydym wedi dod i'r farn na fyddai ei ailddatgan yn y Bil hwn, nad yw'n ymdrin â phob caffaeliad gorfodol o'r fath, yn gwella hygyrchedd."*¹¹⁷

143. Cododd Dr Hayley Roberts ac RTPI Cymru bryderon wrthym am gyfraith amgylchedd hanesyddol berthnasol nad yw'n rhan o'r ymarfer cydgrynhoi hwn a'r Bil.

144. Cyfeiriodd Dr Roberts yn benodol at Ddeddf 1973 (Diogelu Llongddrylliadau neu PWA), Deddf 1986 (Diogelu Olion Milwrol neu PMRA) a Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (MCAA). Dywedodd Dr Roberts wrthym mai ychydig iawn o gydgrynhoi a geir yn y gyfraith sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol morol ac, felly, bod hygyrchedd yn parhau i fod yn broblem.¹¹⁸ Ychwanegodd Dr Roberts:

"For example, if a person wants to engage in an activity that involves a shipwreck, they will still need to look at the PWA if it is a protected or dangerous wreck, consult the PMRA if it is a military wreck, and check the MCAA to see if a marine license is needed for the activity."

There is a separate but related argument to be made about whether Section 1 of the PWA should be repealed and the six Welsh protected wrecks re-designated, or rather, re-scheduled. (...)

*Scotland has already taken action by repealing Section 1 PWA and re-designating its protected wrecks as Historic Marine Protected Areas under the Marine (Scotland) Act 2010."*¹¹⁹

145. O ran Deddf 1973, aeth Dr Roberts ymlaen i ddweud:

"If the PWA has been excluded from the Bill due to the small number of wrecks in question and the likelihood that the PWA would not be utilised in future (i.e., if Welsh policy going forward will be to schedule subtidal monuments), then the need to retain that statute needs to be considered. If it

¹¹⁷ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraff 165

¹¹⁸ Llythyr oddi wrth Dr Hayley Roberts

¹¹⁹ Llythyr gan Dr Hayley Roberts

can be shown that re-scheduling the protected wrecks can offer comparable protection and access as appropriate, it would be worth considering the repeal of Section 1 PWA. This could also remove any confusion between designation and scheduling, further improving accessibility of the law.

However, if there is no appetite to repeal Section 1 PWA, or it is determined that it offers greater benefits than scheduling for these wrecks, then it should be included in the Bill, and it could easily be incorporated.

*It should also be noted that Section 2 of the PWA deals with the designation of wrecks as dangerous, which includes the SS Castilian off the coast of Anglesey as it contains munitions. This should be included in the Bill and again, could easily be incorporated. Scotland has not repealed Section 2 PWA.*¹²⁰

146. Yn benodol o ran Deddf 1986, dywedodd Dr Roberts:

"The PMRA is also a key statute. While the protection of human remains and wrecked warships may be separate but related issues, remains should also be considered cultural heritage. This is clear from the 2001 UNESCO Convention on the Protection of the Underwater Cultural Heritage, which makes it clear in Article 1(a)(i) that human remains, together with their archaeological and natural context, can constitute underwater cultural heritage where they have been submerged for at least 100 years.

While the UK has not yet ratified the UNESCO Convention, the rules in its Annex on activities directed at underwater heritage are internationally considered to constitute best practice. Much of the wreckage to which the PMRA applies is very likely to constitute underwater cultural heritage, so the Act is directly applicable to the protection of the marine historic environment. For example, HMS H5 is a First World War submarine that lies off the coast of Anglesey and is designated as a controlled site under the PMRA. Further, the PMRA also applies to any aircraft which has crashed while in military service."¹²¹

147. I gloi, dywedodd Dr Roberts:

¹²⁰ Llythyr gan Dr Hayley Roberts

¹²¹ Llythyr gan Dr Hayley Roberts

*"To aid accessibility of law relating to the marine historic environment, the Bill could include a specific part on the marine historic environment that consolidates the points above."*¹²²

148. Trafodwyd y mater hwn pan roddodd cynrychiolwyr Comisiwn y Gyfraith dystiolaeth inni ym mis Medi. Cynigiodd Syr Nicholas Green rai sylwadau eang ynghylch sut yr oedd Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i benderfynu a chytuno ar yr hyn i'w gynnwys yn y Bil. Dywedodd:

*"The long and the short of it is that it's a complex judgment matter for Government, and, whilst there are invariably arguments on both sides of these sorts of issues, we absolutely understand why the Government have chosen to do what they've done".*¹²³

149. O ran y gyfraith amgylchedd hanesyddol morol, dywedodd Mr Paines CB:

*"...it's a matter of judgment, and if somebody wants to know what the law on wrecks in Wales is, whether they go to the historic environment Act or whether they go to the separate wrecks legislation is, at the end of the day, not a huge issue. (...) the less frequently used the piece of legislation is, the stronger the arguments for not cluttering up with it a piece of legislation that is likely to be quite frequently used, because it means the reader has got additional pages to turn or scroll through."*¹²⁴

150. Dywedodd Dr Mynors wrthym hefyd:

*"...it's noticeable that, when the matter was looked at in Scotland, the Protection of Wrecks Act has been repealed in Scotland and has been rolled up in not the Historic Environment Scotland Act or equivalent, but in the Marine (Scotland) Act 2010... they decided that it's something that is actually more appropriately dealt with in that way. Because it's not just wrecks, it's also other things that you find in odd places in the sea and there is a thing called a 'marine protection area'... under the Marine (Scotland) Act, which deals with, apparently, wrecks and other things. So, they made a judgment; they actually did think about it and they decided that they would go down that route."*¹²⁵

¹²² Llythyr gan Dr Hayley Roberts

¹²³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [163]

¹²⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [162]

¹²⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [164]

151. Cytunodd y Pwyllgor i dynnu sylw'r Cwnsler Cyffredinol at farn Dr Roberts a gofyn iddo adolygu'n benodol y pwyntiau ynghylch eithrio'r amgylchedd morol o'r Bil. Mewn ymateb, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym "nid oes unrhyw raniadau absoliwt rhwng y pynciau yn y gyfraith a bydd cysylltiadau rhwng materion a gynhwysir mewn Bil cydgrynhoi ac eraill lle nad oes".¹²⁶

152. Yn ogystal â'r sylwadau yr oedd ef a'i swyddogion wedi'u rhoi inni mewn gohebiaeth gynharach, rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol safbwyntiau pellach ynghylch Deddfau 1973 a 1979. Dywedodd wrthym:

"Mae adran 1 o Ddeddf 1973 yn darparu amddiffyniad i longddrylliadau a ddynodwyd ar sail eu pwysigrwydd hanesyddol, archaeolegol neu artistig, neu ar sail unrhyw wrthrychau sydd (neu a fu) ynddynt. Gwaherddir deifio mewn safleoedd llongddrylliadau dynodedig yng Nghymru oni bai bod Cadw wedi rhoi trwydded briodol.

Mae adran 2 o Ddeddf 1973 yn darparu amddiffyniad i longddrylliadau sydd wedi'u dynodi'n beryglus oherwydd eu cynnwys. Mae pwnc adran 2 yn fater a gedwir yn ôl o dan baragraff 120 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 felly ni fyddai'n bosibl ei gynnwys yn y Bil.

Mae Dr Roberts yn codi'r cwestiwn a fyddai modd diogelu llongddrylliadau drwy eu cofrestru o dan Ddeddf 1979 yn hytrach na Deddf 1973, a bod y Bil yn hytrach yn diddymu adran 1 o Ddeddf 1973 i Gymru. Mae'n bosibl cofrestru llongddrylliadau a safleoedd tanddwr eraill o fewn terfyn 12 milltir forwrol o ddyfroedd tiriogaethol yn ogystal â'r rhai hyd at y penllanw ac uwchlaw hynny. Fodd bynnag, mae'r systemau diogelu a gynigir gan y ddwy Ddeddf yn wahanol. Os yw llongddrylliad wedi'i gofrestru, nid oes gofyniad i gael trwydded i ddeifio ar safle; caniateir mynediad i'r cyhoedd ar sail 'edrych ond dim cyffwrdd'. Mae yna adegau pan na fyddai amserlennu yn briodol. Er enghraifft, gallai safle llongddrylliad anghysbell, sy'n agored i achub neu chwilio am drysor heb reolaeth, neu sy'n arbennig o fregus, gael ei ddiogelu'n well trwy ei ddynodi fel llongddrylliad gwarchodedig. Mae hyn yn golygu bod cyn lleied o darfu â phosibl yn digwydd ar y safle, gan leihau'r risg o ddifrod. Er gwaethaf diffygion cydnabyddedig Deddf 1973, byddai Cadw yn amharod i

¹²⁶ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2022

*golli'r gallu i ddynodi llongddrylliad o dan Ddeddf 1973 pe bai hynny'n cael ei ystyried fel yr amddiffyniad mwyaf priodol."*¹²⁷

153. Ychwanegodd y Cwnsler Cyffredinol:

*"Fel yr eglurwyd yn fy llythyr ar 17 Awst, byddai ymgorffori adran 1 o Ddeddf 1973 yn y Bil yn gofyn am nifer o ddarpariaethau newydd i'w gwneud yn gyson ag arferion modern. Er enghraifft, nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal proses ffurfiol o ymgynghori cyn dynodi neu gyfle i adolygu penderfyniadau i ddynodi neu wrthod trwydded i ddeifio. Os cymharir y darpariaethau â'r rheini, er enghraifft, yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf 1979, mae'r diffyg manylder yn y gweithdrefnau'n amlwg. Byddai llenwi'r bylchau hyn yn golygu cyflwyno mwy na mân newidiadau i ddeddfwriaeth."*¹²⁸

154. Darparodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd fanylion pellach am Ddeddf 2009, Deddf 1986, a Deddf Llongau Masnach 1995 (Deddf 1995).

155. O ran Deddf 2009, dywedodd mai dim ond un o lawer o faterion sy'n cael eu trin yn Neddf 2009 yw'r amgylchedd hanesyddol morol ac felly "ni fyddai'n briodol ei gynnwys yn y Bil".¹²⁹

156. O ran Deddf 1986, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym nad oes yr un o swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y Ddeddf wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru ac nad yw dibenion y Ddeddf yn gyfyngedig i'r amgylchedd hanesyddol. O'r herwydd, unwaith eto nid yw'r Cwnsler Cyffredinol yn teimlo bod y Ddeddf yn "briodol ar gyfer y Bil cydgrynhoi hwn".¹³⁰

157. O ran Deddf 1995, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod ei phwnc yn fater a gadwyd yn ôl o dan baragraff 120 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006.¹³¹

158. I gloi, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

"Er bod hygyrchedd y gyfraith ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol morol yn broblem heb os, mae dadleuon da y dylai cysylltiad priodol Deddf 1973 fod gyda deddfwriaeth ar gyfer yr amgylchedd morol, lle gellid trin rheoli ac

¹²⁷ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2022

¹²⁸ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2022

¹²⁹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2022

¹³⁰ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2022

¹³¹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2022

amddiffyniad yn fwy cyfannol. Daeth y pwynt hwn i'r amlwg yn nhystiolaeth Comisiwn y Gyfraith i'r Pwyllgor hefyd."¹³²

159. O ystyried y sylwadau hyn, pan ymddangosodd y Cwnsler Cyffredinol ger ein bron ym mis Tachwedd fe wnaethom ofyn, os yw'n amhriodol mynd ati i gydgrynhoi deddfwriaeth amgylchedd hanesyddol morol yn y Bil hwn, pryd y bydd ef a Llywodraeth Cymru yn pwyso am ddiwygiadau i'r maes hwn o'r gyfraith, ac a fydd yn gwneud hynny cyn gynted â phosibl. Yn ei ymateb, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

*"Yes. It's an important part, because these are areas that I know have been considered very, very carefully because of potential overlaps with the legislation. You have to be careful in terms of areas that go into the marine area, areas that go into the planning area, and of course part of the purpose of consolidation and also the process of codification is to actually create workable units within which legislation can actually take place. I think it's one of those things we're going to have to think about further. Obviously, I can't make any hard-and-fast promises now as to when it will be done, because obviously we want to concentrate on this particular piece of legislation, but you're right that there are those particular areas."*¹³³

Ein barn ni

160. Mae ein hystyriaeth a'r drafodaeth uchod, gan gynnwys ar adrannau penodol o'r Bil, yn ein harwain at y casgliadau a'r argymhellion a ganlyn.

Casgliad 1. Rydym yn fodlon ar y cyfan â chwmpas y Bil fel Bil Cydgrynhoi, gan gynnwys y newidiadau a wnaed ar argymhelliad Comisiwn y Gyfraith yn unol â Rheol Sefydlog 26C.2(v).

Argymhelliad 2. Yn ein barn ni, dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi.

161. Wrth inni ystyried y Bil, rydym wedi bod yn ymwybodol o'n rôl fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar Fil Cydgrynhoi am y tro cyntaf yn y Senedd. Mae hon wedi bod yn broses ddysgu i ni yn y ddeddfwrfa, wrth inni addasu i weithdrefnau a phrosesau newydd. Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar yr holl Filiau Cydgrynhoi y gellir eu cyflwyno i'r Senedd, byddwn yn defnyddio'r profiad hwn pan fyddwn yn cael y dasg o ystyried Biliau Cydgrynhoi yn y dyfodol.

162. Yn yr un modd, rydym yn disgwyl bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi gorfod mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio ac yn debygol o fod yn ystyried y ffordd orau i ddysgu o'i chynnig

¹³² Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 28 Hydref 2022

¹³³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [28]

cyntaf ar gyfer Bil Cydgrynhoi. Yn hyn o beth, mae dau bwynt cyffredinol yr hoffem eu hamlygu, ac rydym yn annog y Cwnsler Cyffredinol a Llywodraeth Cymru i fabwysiadu ein hawgrymiadau mewn pryd ar gyfer y Bil Cydgrynhoi nesaf.

163. Yn gyntaf, bu Llywodraeth Cymru a Cadw yn gweithio'n benodol gyda rhanddeiliaid i brofi a mireinio'r darpariaethau yn y Bil cyn ei gyflwyno i'r Senedd. Mae'n anffodus bod y gwaith cyn cyflwyno hwn wedi'i wneud ar delerau a oedd yn golygu nad yw'r Cwnsler Cyffredinol yn ystyried ei bod yn briodol cyhoeddi'r manylion llawn yn awr. Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru a Cadw wedi cynnal ymgynghoriad cyn cyflwyno'r Bil. Fodd bynnag, credwn y gellid gwneud gwelliannau i'r broses hon er mwyn sicrhau mwy o dryloywder ac y gellir darparu tystiolaeth lawnach ac felly dystiolaeth fwy cadarn i'r Senedd.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru (ac unrhyw gorff hyd braich perthnasol arall) wneud unrhyw waith cyn cyflwyno Bil Cydgrynhoi i'r Senedd gyda'r amcan a'r disgwyliad y bydd y manylion llawn yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd ag y caiff y Bil ei osod gerbron y Senedd.

164. Yn ail, rydym wedi meddwl bod angen herio Llywodraeth Cymru ynghylch yr esboniadau a roddwyd inni ynghylch pam mae nifer o ddarpariaethau yn y Bil (neu yn wir hepgoriadau o'r Bil) wedi'u drafftio yn y ffordd y maent.

Casgliad 2. Rydym yn derbyn ac yn cydnabod mai dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth Cymru baratoi deunydd esboniadol i gyd-fynd â chyflwyno Bil Cydgrynhoi. Er ein bod yn cydnabod ac yn croesawu'r manylion ychwanegol a roddwyd inni wedyn ar gais drwy ohebiaeth ac yn ystod sesiynau tystiolaeth ffurfiol, credwn y gellid gwella'r wybodaeth a nodir yn y deunydd esboniadol gofynnol wrth gyflwyno'r Bil (gan gynnwys Nodiadau'r Drafftwy'r).

165. Yn ogystal â hynny, mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn cynnwys sawl cyfeiriad at farn Cadw, ac mae hyn yn rhan o'r cyfiawnhad dros sut y mae'r darpariaethau yn y Bil wedi'u drafftio (gweler er enghraifft mewn perthynas ag adran 5). Unwaith eto, yn y dyfodol byddem yn croesawu sail resymegol fwy cadarn ac eang i gefnogi casgliadau o'r fath ac i gyfiawnhau'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru.

166. Yn benodol o ran y wybodaeth a ddarparwyd yn Nodiadau'r Drafftwy'r mewn perthynas ag adran 54, rydym yn cydnabod datganiad Llywodraeth Cymru ei bod drwy amryfusedd wedi methu â chynnwys hepgoriad, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn diweddarau Nodiadau'r Drafftwy'r pan fydd cyfle i wneud hynny.

167. O ran adran 201, rydym hefyd yn cydnabod y bydd Llywodraeth Cymru yn diweddarau Nodiadau'r Drafftwy'r i gadarnhau ei safbwynt diwygiedig nad yw bellach yn credu bod angen dibynnu ar Reol Sefydlog 26C.2(ii) ar gyfer y newidiadau a wneir drwy adran 201.

168. Yn y Bennod hon, rydym hefyd wedi tynnu sylw at ddau fater arall y credwn eu bod yn bwysig i'n hystyriaeth ynghylch a yw cwrmpas y Bil yn briodol: mae'r cyntaf yn ymwneud â newidiadau i ddarpariaethau yng nghyfraith yr amgylchedd hanesyddol a gyflwynwyd gan Ddeddf 2016, a'r ail yn ymwneud â chyfraith amgylchedd hanesyddol berthnasol sydd wedi'i heithrio o'r ymarfer cydgrynhai hwn.

169. Nodwyd yn gynharach yn yr Adroddiad mai Deddf 2016 yw'r unig Ddeddf sy'n cael ei chydgrynhau drwy'r Bil nad yw'n rhagddyddio datganoli yng Nghymru. Dim ond chwe blynedd yn ôl y gwnaeth y Senedd ei hun graffu ar y Ddeddf hon a'i phasio. Credwn fod hyn yn bwysig oherwydd mai'r Senedd a gytunodd yn ddiweddar iawn, drwy weithdrefnau Rheol Sefydlog 26, i ddiwygio cyfraith yr amgylchedd hanesyddol.

170. Er nad ydym yn codi unrhyw wrthwynebiadau i'r hyn y mae'r Bil yn ei gynnig o ran newidiadau i ddarpariaethau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2016 neu hepgoriadau ohonynt, credwn y dylai newidiadau o'r fath gael eu hamlygu i'r Senedd mewn ffordd fwy tryloyw.

Argymhelliad 4. Pan fo Bil Cydgrynhai yn ceisio newid darpariaethau a gyflwynwyd i'r maes perthnasol o'r gyfraith sy'n cael ei gydgrynhau gan Fesur neu Ddeddf y Senedd, dylai'r deunydd esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil dynnu sylw at bob newid penodol a rhoi esboniad trylwyr o hynny.

171. Nododd y Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion fod rhai newidiadau'n cael eu gwneud i ddarpariaethau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2016 oherwydd ei fod wedi sylweddoli ers hynny bod gwallau wedi'u gwneud wrth ddrafftio'r Bil hwnnw cyn iddo gael ei ddeddfu. Credwn fod hyn yn ein hatgoffa o bwysigrwydd:

- Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod polisi yn cael ei ystyried yn llawn cyn cynnig deddfwriaeth (gan gynnwys drwy ddiwygiad), a
- y Senedd yn cynnal gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol amserol ar Filiau y mae wedi'u pasio.

172. Yn ogystal â rhoi sylw manwl i'r hyn sydd yn y Bil, roedd gennym hefyd ddiddordeb mawr mewn yn y penderfyniad i eithrio cyfraith berthnasol o'r Bil Cydgrynhai hwn, yn enwedig eithrio cyfraith amgylchedd hanesyddol morol. Er ein bod yn fodlon ar yr esboniadau a ddarparwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion, rydym yn dymuno gwneud dau argymhelliad penodol.

Argymhelliad 5. Pan fo Llywodraeth Cymru wedi penderfynu eithrio cyfraith berthnasol yn fwiadol o Fil Cydgrynhai, dylid darparu sail resymegol lawn a manwl yn y deunydd esboniadol

sy'n cyd-fynd â'r Bil, gan gynnwys unrhyw gyfiawnhad yn seiliedig ar gymhwysedd deddfwriaethol a lle y byddai'r weithred o gydgrynhoi yn golygu mwy na'r hyn a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.

Argymhelliad 6. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol a Llywodraeth Cymru adolygu cyfraith amgylchedd hanesyddol morol fel y mae'n gymwys yng Nghymru a gwneud y diwygiadau angenrheidiol ar y cyfle cyntaf.

173. Fel yr amlygwyd ar ddechrau'r Bennod hon, mae'r rhan fwyaf o'r Deddfau a oedd yn cael eu cydgrynhoi drwy'r Bil yn dyddio o'r cyfnod cyn datganoli yng Nghymru. Rydym yn cydnabod sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion ynghylch sut yr effeithiodd hyn ar y gwaith o ddrafftio'r Bil. Ymhellach, nodwn, ac eithrio Deddf 2016, fod yr holl Ddeddfau eraill sy'n cael eu cydgrynhoi – fel Deddfau Senedd y DU – wedi'u deddfu yn Saesneg yn unig. Fe wnaethom sylwadau ym Mhennod 2 ar sut y byddai'r Bil felly yn ychwanegu at argaeledd cyfraith Cymru yn y ddwy iaith swyddogol ac felly mae hyn i'w groesawu.

5. A yw'r Bil yn cydgrynhoi'r deddfiadau yn gywir neu a yw'n newid eu heffaith gyfreithiol o ran sylwedd i'r graddau a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2 yn unig?

Yn unol â Rheol Sefydlog 26C.17, mae ein hystyriaeth o'r Bil wedi cynnwys asesiad o a yw'n cydgrynhoi'r deddfiadau yn gywir neu a yw'n newid eu heffaith gyfreithiol o ran sylwedd i'r graddau a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2 yn unig.

Egluro cymhwysiad neu effaith y gyfraith bresennol

174. Dywed Rheol Sefydlog 26C.2(ii) y gall Bil Cydgrynhoi egluro sut y cymhwysir y gyfraith bresennol neu ei heffaith.

Ymgorffori cyfraith gwlad

175. Mae Rheol Sefydlog 26C.1 yn nodi y gellir cynnwys cyfraith gwlad mewn ymarfer Bil cydgrynhoi.

176. Er enghraifft, yn ôl Nodiadau'r Drafftwy, mae adran 76(5) yn cynnwys geiriad ychwanegol i'r hyn sy'n ymddangos yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 i bennu dyddiad ar gyfer penderfynu pa wrthrychau o fewn cwrtil adeilad rhestredig sydd wedi'u cynnwys yn y rhestriad. Dywed Nodiadau'r Drafftwy mai bwriad yr eglurhad hwn yw adlewyrchu sut y mae'r gyfraith yn gweithredu, yn seiliedig ar gyfraith achosion.¹³⁴

177. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion sut y mae cyfraith gwlad wedi dylanwadu ar y darpariaethau yn y Bil. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

"I think there are a number of areas where there's been interpretation of legislation, which then is appropriate to incorporate into the actual legislation itself. And I think this is probably something that's going to emerge in

¹³⁴ Nodiadau'r Drafftwy, tudalen 35

subsequent consolidation Bills—maybe planning being one of those, for example.”¹³⁵

178. Ychwanegodd Dr George:

“...we have incorporated case law in some places where there were cases about the interpretation of the legislation or how it applies. We've put in case law, really, because, without it, the restatement of the provisions wouldn't really be complete, or potentially could be misleading in some cases.”¹³⁶

179. O ran adran 76(5) fel enghraifft, dywedodd Dr George:

“So, one example is section 76(5), which is the first section in Part 3 about listed buildings, and that defines a listed building, and the definition currently in the listed buildings Act includes the building itself and then objects that are within the curtilage of the building, which is a horrible technical term, but it's things like outbuildings in the garden, or possibly other features in the grounds of the building. We've included additional wording there that isn't in the current legislation to explain when you assess what was in the curtilage of the building to determine what counts as part of the listing. And there's case law about that that says that the question is decided at the time when you list the building. So, it's not whether it's there now, it's whether it was there whenever it was listed, which might be, obviously, 20 or 50, or however many years ago. That particular change was one that was recommended by the Law Commission. So, they looked at the case law, and I think it's not at all contentious what the effect of that case law is, in the sense that we should reflect it in the provisions. So, that's what we've done because, really, it fills in a gap that would otherwise be unclear if we hadn't done that.”¹³⁷

180. Cyfeiriodd Dr George hefyd at enghreifftiau eraill. Dywedodd wrthym:

“If you look later on in that part of the Bill, there are provisions for things called 'purchase notices', which is where, if somebody's refused listed building consent, or has their consent revoked, and their land becomes unusable as a result, they can force the council that refused the consent to buy the land off them, and there were quite a few cases that have changed how those provisions operate that wouldn't be obvious from the face of the legislation.

¹³⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [103]

¹³⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [104]

¹³⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [105]

*There are cases saying that certain words actually don't do anything and should be ignored. There are cases setting out additional tests for what land is unusable. There are cases about whether you can withdraw and amend these notices requiring the council to purchase your land. So, we've incorporated a number of bits of case law in that set of provisions because, otherwise, you wouldn't really get the full sense of how the system works."*¹³⁸

Adran 20: Addasu a ddirymu cydsyniad

181. Mae adran 20 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddirymu neu addasu cydsyniad heneb gofrestredig drwy orchymyn. Mae'r Atodlen 4 gysylltiedig yn sefydlu'r weithdrefn y mae'n rhaid ei dilyn wrth wneud y gorchmynion hyn, ac mae Atodlen 6 yn nodi gweithdrefnau ychwanegol ynghylch tystiolaeth mewn ymchwiliadau lleol a chostau achosion o'r fath.

182. Dywedodd Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru wrthym fod addasu neu ddirymu Cydsyniad Heneb Gofrestredig o bosibl yn fater difrifol iawn – gellid treulio misoedd neu flynyddoedd a miloedd o bunnoedd yn cael cydsyniad, dim ond iddo gael ei ddirymu'n sydyn. Dywedodd:

*"A vital practical check on that is compensation. There is compensation, but this section and the two accompanying schedules are unintentionally misleading because, detached from the compensation provision, they give the impression that SMC can be modified or revoked without compensation."*¹³⁹

183. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd yn fodlon â'r sefyllfa fel y mae'n cael ei hailddatgan ar hyn o bryd a gofynnwyd iddo ymateb i bryderon y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad. Dywedodd wrthym ei fod yn fodlon â'r sefyllfa ac ychwanegodd:

"...the Bill doesn't change the position with regard to when compensation is available and where scheduled monument consent is revoked or modified, as long as the relevant conditions are satisfied.

With regard to the concerns of the CLA that the drafting of the Bill is misleading, I think the provisions on compensation are clearly identifiable. I understand the point they're making; I don't agree with them, because if you read through—if you look at section 20 and then you follow through, immediately after you've got section 21 there, which is compensation for the refusal of scheduled monument consent, et cetera, and then it continues to

¹³⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [106]

¹³⁹ Llythyr gan y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (Saesneg yn unig)

follow through sections 23 and 24—I think it is there, and I think anyone who is referring to that—. I think the compensation provisions there are clear. I don't think they do mislead at all."¹⁴⁰

Ystyr “cyflogi fel/employed as”

184. Yn adran 46(3) ac adran 62(6), mae cyfeiriad at ‘cyflogi fel/employed as’ gofalwr wedi'i hepgor o'r ailddatganiad o ddarpariaethau o Ddeddf 1979. Yn y ddau achos, dywed Nodiadau'r Drafftwy'r ei bod yn ansicr beth yw ystyr ‘cyflogi/employed’ yn y cyd-destun ac, felly, mae'r hepgoriad yn osgoi amwysedd.¹⁴¹ Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion roi esboniad pellach a rhagor o eglurder. Mewn ymateb i hynny, dywedwyd wrthym:

"Nid yw'n glir ar unwaith o Ddeddf 1979 a yw'r ymadrodd 'cyflogi fel/employed as' yn cyfeirio at y sail gytundebol y mae person yn gweithredu fel gofalwr arni, neu a yw'n gyfystyr â 'wedi cysylltu fel/engaged as' neu 'gweithredu fel/acting as'.

Yr hyn sy'n ymddangos yn bwysig at ddibenion Deddf 1979 yw a yw person yn meddiannu heneb yn rhinwedd ei swydd fel gofalwr, nid a yw'n gwneud hynny o dan drefniant cytundebol penodol. Mae hyn yn cyd-fynd â'n dealltwriaeth o sut mae'r ddarpariaeth hon wedi'i deall yn ymarferol (lle mae'r trefniadau ar gyfer gofalwyr yn amrywio). Nid ydym yn meddwl bod hepgor y geiriad yn ehangu'r ddarpariaeth.

Credwn fod y newid yn egluro cymhwysiad y gyfraith bresennol drwy ddileu amwysedd a dyna pam yr ydym wedi dibynnu ar RhS 26C.2(ii) a (iv)."¹⁴²

Diogelu o gymharu â chadwraeth

185. Mae Tai Hanesyddol (Cymru) a'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad wedi tynnu sylw at y ffaith bod y Bil yn parhau i ddefnyddio'r gair “diogelu” er bod polisi amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ‘gadwraeth’.

186. Dywedodd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad wrthym fod gwrthdaro sylfaenol, hyd yn oed os yw hynny'n anfwriadol, rhwng polisi Llywodraeth Cymru a'r Bil. Dywedodd:

"11. Since 2011, Welsh Government historic environment policy has been based on 'conservation', defined in its Conservation Principles as "the careful

¹⁴⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [46] a [47]

¹⁴¹ Nodiadau'r Drafftwy'r, tudalennau 28 a 31

¹⁴² Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 22 i 24

management of change". That policy was adopted after extensive public consultation, and has been followed through ever since, notably in the major suite of Cadw guidance published in 2016-18.

12. The problem is that although the consolidation Bill adopts this 'conservation' approach initially in its Overview, all subsequent sections (especially the core "duties to preserve") still use a legacy term from the decades-old Westminster legislation, 'preservation'. That term is emphasised, and seemingly endorsed, because it occurs repeatedly in the Bill.

13. This is a fundamental problem, not a semantic point, because these two terms represent wholly different approaches to heritage. (...)

15. The conflict between the two terms would also of course be likely to confuse everyone using the new Act.

16. We have been told by the Counsel General and Minister for the Constitution that Welsh Government's policy of 'conservation' has not changed, but also that standing order 26C prevents the new Bill's terminology being updated to align with it.

17. If that is correct, it is clearly important that Welsh Government (i) uses a clause in a subsequent policy Bill to make this change as soon as possible, so that the new Act will from then use the term 'conservation'; and (ii) in the meantime, mitigates the problem by clarifying, in Bill communications and in the key policy document TAN 24, firstly that 'conservation' remains Welsh Government policy, and secondly that where the term 'preservation' is used in the legislation it should be interpreted as not conflicting with that 'conservation' approach.

18. We suggest therefore that your Committee should make those recommendations to Welsh Government. It would be regrettable if, after all the hard work put into the consolidation Bill, the resulting legislation is fundamentally incompatible with long established Welsh Government policy. Making it compatible would as above not involve any change in approach or policy: 'conservation' is well-established policy, set out extensively in Welsh Government guidance, on which there were about 10 public consultations between 2010 and 2018."¹⁴³

¹⁴³ Llythyr gan y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad

187. Dywedodd Tai Hanesyddol (Cymru) wrthym eu bod yn cytuno â barn y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, gan ychwanegu:

*"It seems a shame that this change cannot be made now, as the alternative is to either insert a new clause when the opportunity arises or it will need to be consistently explained that the words 'preservation' and 'conservation' hold the same and interchangeable meaning. However, complications such as this are what has gradually given rise to the need for simplification and consolidation, which is why this Bill has been drawn forward."*¹⁴⁴

188. Yn achos *Apelyddion Cyngor Dosbarth De Lakeland v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd*¹⁴⁵, cyfeiriodd Tŷ'r Arglwyddi, ar ôl cael cymeradwyaeth i wneud hynny, at y canlynol:

"The ordinary meaning of 'preserve' as a transitive verb is 'to keep safe from harm or injury; to keep in safety, save, take care of, guard': Oxford English Dictionary... In my judgment, character or appearance can be said to be preserved where they are not harmed. Cases may be envisaged where development would itself make a positive contribution to preservation of character or appearance... The statutorily desirable object of preserving the character or appearance of an area is achieved either by a positive contribution to preservation or by development which leaves character or appearance unharmed, that is to say, preserved."

189. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gyfraith achosion ynghylch ystyr 'cadwraeth' yng nghyd-destun cynllunio.

190. Gofynnwyd nifer o gwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion ar y mater hwn.

191. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol yn gyntaf gadarnhau'r datganiad gan Gymdeithas y Tir a Busnesau Cefn Gwlad fod Llywodraeth Cymru wedi dweud bod Rheol Sefydlog 26C yn atal terminoleg y Bil newydd rhag cael ei diweddarau i gyd-fynd â pholisi'r Llywodraeth. Yn ei ymateb, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol.¹⁴⁶

192. Yna gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol gadarnhau ei ddealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng 'diogelu' a 'chadwraeth' ac, os oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y ddau derm, i egluro pam

¹⁴⁴ Llythyr gan Tai Hanesyddol (Cymru)

¹⁴⁵ Cyfraith achosion berthnasol: *Apelyddion Cyngor Dosbarth De Lakeland v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd* [1992] 2 AC 141

¹⁴⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [66]

mae canllawiau a pholisi Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at 'gadwraeth' pan fo'r gyfraith yn cyfeirio at 'ddiogelu'. Dywedodd Mr Gwilym Hughes wrthym:

"We've done a lot of thinking and discussion, as you can imagine, on this, and, indeed, we've had conversations with the country landowners association, and I suppose I have a certain amount of sympathy for what they say, but what they're asking for is actually very difficult in the context of consolidation. The dictionary definitions of the two terms are actually very similar. The Concise Oxford English Dictionary describes 'conserve' as to protect from harm or destruction, whereas 'preserve' is to keep safe from harm or injury. That sounds, actually, very similar, but, in reality, in practice—and that's why I am responding to this—in the historic environment sector, they have come to mean different things. 'Preserve' and 'preservation' have come to mean maintain in its original existing state. Consequently, 'preservation' is regarded as a requirement to keep a building or a historic asset unchanged, frozen in time, unresponsive to the changing demands of modern life. 'Conservation', on the other hand, is now understood as the careful management of change. Back in 2011, Cadw published 'Conservation Principles', which forms the basis for our subsequent guidance and policy for managing the historic environment. But that guidance I've referred to does still use the term 'preservation' when making specific reference to the legislative provisions."¹⁴⁷

193. Ychwanegodd Mr Gwilym Hughes:

"When treating the routine management of historic assets, our guidance uses conservation terminology, particularly in terms of the use of the term 'significance', because it reflects the current philosophy and practice as embedded in those conservation principles. So, the aim of conservation is, effectively, through the careful management of change, to preserve the significance of a historic asset, if that makes sense, and still allow change to take place for the future. For example, with reference to listed buildings, the intention is to preserve the special interest of that historic building. That doesn't preclude change from taking place to preserve the special interest. The supporting guidance that we've prepared sets this out and sets out how this can be achieved. In this way, what we're able to do, and what we've done since 'Conservation Principles' was published, is maintain this current system

¹⁴⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [69]

where the policy of conservation can be achieved through the existing legislative structure that employs that language of preservation. (...)

...to go back to that dictionary definition and, indeed, case law, it doesn't mean that preservation doesn't allow change. Preservation can allow change. It's just that, over the decades, it's come to mean something that has this different connotation within the sector, as demonstrated, actually, by the comments of the Country Land and Business Association and the Historic Houses Association. But, again, I would stress that the supporting guidance and how we set it out sets out how preservation of the significance of historic assets can be achieved through conservation. (...)

...the explanatory note makes it very clear, I think, that the distinction and the intent is not to change. And, indeed, we will be restating the current arrangement, should this Bill proceed, within the guidance and the planning advice."¹⁴⁸

194. Cadarnhaodd Dr George eu bod, wrth ddrafftio'r Bil, wedi ystyried ymarfer a chyfraith achosion. Ychwanegodd:

*"I think, also, if you look at the context in which the legislation uses the word 'preservation'—. Well, 'conservation' is used to describe the overall aims of the management of heritage. 'Carefully managed changed' I think is how Gwilym described it. 'Preservation', when it's used in the legislation, is not talking about the aims of the entire system, it's used in particular contexts."*¹⁴⁹

195. Dywedodd Dr George hefyd:

"...as drafters of legislation who aren't heritage specialists, we were not at all sure what difference it would make if we changed 'preservation' to 'conservation' in the legislation, given that the dictionary definitions are similar. There's case law about preservation, but there isn't case law about conservation in the context of what effect it would have if we changed the words. We just were not at all sure what difference it would make. And although we have changed some of terminology to reflect the language that people use in the field when they're talking about listing buildings and so on, we didn't think it was safe to do it here, because we just weren't sure what

¹⁴⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [71], [73] a [81]

¹⁴⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [77]. Gweler hefyd Gofnod y Trafodion [78]

effect it would have. If it did have a major, dramatic effect, then it would definitely be outside a consolidation Bill. If it didn't, there probably wouldn't be any point."¹⁵⁰

Adran 76(5): Dyletswydd i gynnal a chyhoeddi rhestr o adeiladau

196. Mae adran 76(1) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gadw rhestr o adeiladau yng Nghymru ac i gyhoeddi'r rhestr gyfredol. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnwys yn y rhestr bob adeilad yng Nghymru y maent yn ystyried ei fod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Dywed y Nodiadau Esboniadol, yn ymarferol, wrth benderfynu a yw adeilad, yn eu barn hwy, o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw i'r **meini prawf anstatudol a gyhoeddwyd** ar gyfer rhestru.¹⁵¹

197. Dywed y Nodiadau Esboniadol i'r Bil fod adran 76(5)(a) yn egluro bod "adeilad rhestredig" yn golygu adeilad sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr ac sy'n cynnwys unrhyw strwythur neu wrthrych artiffisial sy'n sownd wrth yr adeilad; mae hyn yn cynnwys strwythurau atodol sydd ynghlwm wrth adeilad a gosodiadau mewnol ac allanol. Ar y llaw arall, nid yw dodrefn symudol, hyd yn oed y rhai o bwysigrwydd hanesyddol, yn rhan o'r adeilad rhestredig. Er enghraifft, byddai isadran (5)(a) yn gymwys i allor gwaith maen canoloesol sefydlog mewn eglwys restredig, ond nid i fwrdd allor o'r cyfnod ar ôl y Diwygiad (mae ystyr gosodiad wedi bod yn destun cyfraith achosion).¹⁵²

198. Dywed y Nodiadau Esboniadol i'r Bil bod isadran (5)(b) yn darparu bod rhestru adeilad yn ymestyn i gynnwys strwythurau atodol ar wahân neu wrthrychau artiffisial os bodlonir amodau penodol.¹⁵³

199. Dywedodd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad wrthym:

"We welcome the Bill's clarification and solution in section 76(5) of what was the '1969 problem', though this is only a problem in small minority of cases.

The Bill text should also address a greater problem, the vagueness of 1990 Act section 1(5), which is misleading in implying that non-ancillary structures can be covered by listing when it is clear from 35 years of case law that they are not. The case law establishes that an attached structure, or an unattached structure within the curtilage of a listed building, is only covered

¹⁵⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [79]

¹⁵¹ Nodiadau Esboniadol, paragraff 311

¹⁵² Nodiadau Esboniadol, paragraff 319

¹⁵³ Nodiadau Esboniadol, paragraff 321

by its listing if it is ancillary to it. This goes back at least to Debenhams in the House of Lords in 1987, and has been endorsed consistently and repeatedly in numerous subsequent cases, including most recently by the Court of Appeal in 2021 in Blackbushe Airport ('...in order to be treated as if it were part of the listed building, a freestanding structure within the curtilage must also be ancillary to that building' [paragraph 110]). This is long established case law, set in the House of Lords (now the Supreme Court) and endorsed repeatedly by courts including the Court of Appeal, and thus most unlikely to change.

This point has already been clarified in the Bill's Explanatory Notes, but it would reduce confusion if the clarification was also brought into the text of the Bill itself. That simply requires the word 'ancillary' to be inserted before the word 'structure' in section 76 (5) (a), and in 76 (5) (b). That is not a change of policy; its effect is just, in the words of Standing Order 26C, to 'clarify the application or effect of the existing law'. Historic England uses similar wording in its 2021 Advice note on Listed Building Consent (paragraph 26): 'The listing of a building applies protection not only to the building, both inside and out, but also to pre-1948 ancillary structures within its curtilage, and to ancillary objects or structures fixed to the building.'"¹⁵⁴

200. Y gyfraith achosion y cyfeirir ati gan y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad yw achos Tŷ'r Arglwyddi, *Debenhams v Cyngor Dinas San Steffan* [1987] AC 396 ac achos y Llys Apêl *R (Cyngor Sir Hampshire) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig* [2021] EWCA Civ 398 (achos Maes Awyr Blackbushe). Roedd achos Debenhams yn pennu'r egwyddor mai dim ond strwythurau sy'n atodol i adeilad rhestredig sy'n cael eu cynnwys yn y rhestriad yn rhinwedd yr hyn sydd bellach yn adran 1(5) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Mae achos Maes Awyr Blackbushe yn gadarnhad diweddar o'r egwyddor hon. Adran 1(5) yw tarddiad darpariaeth adran 76(5) o'r Bil.

201. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd yn ystyried cynnwys y gair 'atodol' cyn y gair 'strwythur' yn adran 76(5)(a) a (b) er mwyn egluro effaith y gyfraith ar wyneb y Bil. Ymatebodd gan ddweud:

"This is an area that we've given some thought. Of course, the evidence from the CLA, I think, is very, very welcome. I think the detailed input that they've put has actually been very constructive and very useful. So, I suppose, just as a matter of record, I probably ought to formally be thanking them and the

¹⁵⁴ Llythyr gan y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad

stakeholders who've actually taken the trouble to go through this and to look at those details, because it expresses there, I think, their concern and the importance of this particular exercise that we're going through on consolidation. I'm just looking at section 76(5)(a). What I can say is that I think, in terms of the need to represent the case law that exists, that you've already mentioned, it is logical that the definition should also reflect that and for objects and structures to be ancillary. So I think this is an area that—. I suppose I can confirm now that it is an area I'm going to look at with regard to bringing forward an amendment with a view to inserting the word 'ancillary' into that particular part of section 76."¹⁵⁵

Adran 90(4): Gwneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig

202. Mae adran 90 yn darparu ar gyfer y weithdrefn gwneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig. Fel arfer gwneir ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig i'r awdurdod cynllunio yn yr ardal y mae'r adeilad rhestredig wedi'i leoli ynddi. Fodd bynnag, gwneir ceisiadau penodol, a bennir yn adran 90(1), i Weinidogion Cymru.

203. Mae isadran (4) yn darparu ei bod yn rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i ymgeisydd gynnwys gyda'r cais ddatganiad am effaith y gwaith arfaethedig ar gymeriad yr adeilad rhestredig ac, yn dibynnu ar natur y cais, yr egwyddorion dylunio sydd wedi'u cymhwyso neu sut yr ymdriniwyd â materion sy'n ymwneud â mynediad, neu'r ddau. Darperir ar gyfer datganiad o'r fath, a elwir yn ddatganiad o'r effaith ar dreftadaeth, gan reoliad 6 o Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 (OS 2012/793 (W. 108)) ("OS 2012/793").

204. Dywedodd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad wrthym:

"26. During the Historic Environment Review, its External Review Group had a careful policy discussion about information requirements. It was then decided that (i) applicants should be required to produce proper analysis of heritage significance and impact, to be called Heritage Impact Assessments, and (ii) in recognition of the resource implications of that for applicants, the requirement for Design & Access Statements (D&ASs) added little and should be scrapped for LBC applications (except for major development). That was implemented via Regulations, but was not reflected in the 1990 Act, and is

¹⁵⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [87]

not yet fully reflected in the Bill, which uses the term 'statement', and implies that D&As are required though they usually are not.

27. This suggests two logistically-small but important tweaks to the Bill. Firstly, the words 'statement about' in 90(4) (and in 90(5)(a)) should be replaced by 'assessment of...'. That would be consistent with the term 'Heritage Impact Assessment', which is what the Regulations require. Much more importantly, the term 'assessment' was deliberately chosen so as to make it clearer that the applicant needs to provide genuine analysis of the building's significance, and of the impact of the proposals on that significance, because evidence suggested that the term 'statement' led most applicants to provide flannel which merely described the building and/or its history and/or the proposals, and did not substantively consider significance or impact.

28. This is not a minor point, because an applicant needs to understand significance and impact to develop a competent application. If the applicant has not done that, the proposals and application are unlikely to be competent. Local planning authorities do not have the resource to do this themselves, and even if they did, that would come undesirably late in the process, after the proposals have been fixed by the applicant. Given that there are thousands of LBC applications each year, the local authority (and private) resource wasted by less-than-competent proposals and applications is damaging. This word change, in addition to making the statute consistent with current policy, therefore has substantial real-world benefits.

29. Secondly, 90 4(b) needs slight change because it does not apply to all LBC applications, only to the minority which still require D&As (and in those cases this will not be 'either or both')."¹⁵⁶

205. Fe wnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol ymateb i'r pryderon hyn gan ofyn iddo a fydd angen gwneud newidiadau i'r Bil er mwyn mynd i'r afael â hyn. Dywdodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym nad yw Llywodraeth Cymru yn cytuno nad yw adran 90(4) yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.¹⁵⁷

206. Ychwanegodd Mr Gwilym Hughes:

¹⁵⁶ Llythyr gan y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad

¹⁵⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [89]

*"It's the distinction between an assessment and a statement. The regulations currently require a historic impact statement to be submitted in support of a consent application. A heritage impact assessment is really the process of getting to that statement, and, indeed, we explain this in quite a lot of detail in Cadw's supporting guidance on heritage impact assessments in Wales. It is actually all set out there quite clearly. So, we don't think it is needed, this change, because it's already there in regulations. It's the statement that is the important part, not just simply doing the assessment, if you see what I mean. I think that we're confident that paragraph (a) is based on the wording currently found in the regulations. It has been added to give a sense of what a heritage impact statement is all about, but it's not the full story, of course, and further detail on what a statement must contain continues to be set out in regulations."*¹⁵⁸

Adran 97(5): Pŵer i roi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau

207. Mae adran 97 yn caniatáu i gydsyniad adeilad rhestredig gael ei roi yn ddarostyngedig i amodau.

208. O dan isadran (5), rhaid i gydsyniad i ddymchwel adeilad rhestredig gynnwys amod sy'n caniatáu i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (y Comisiwn Brenhinol) gofnodi'r adeilad. O dan delerau ei Warrant Frenhinol, mae gan y Comisiwn Brenhinol gyfrifoldeb i arolygu a chofnodi adeiladau, safleoedd a henebion o ddiddordeb archeolegol, pensaernïol a hanesyddol yng Nghymru a'r môr tiriogaethol cyfagos. Rhaid i'r Comisiwn Brenhinol hefyd lunio a churadu Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru fel y cofnod cenedlaethol sylfaenol o'r amgylchedd archeolegol a hanesyddol; **Coflein** yw cronfa ddata ar-lein Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.

209. Dywedodd ALGAO:Cymru wrthym:

"Section 97 (5) carries forward the legal right of the RCAHMW [Royal Commission] to be given the opportunity to record a listed building proposed for demolition, currently provided by Section 8(2) of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990, but proposed to be enshrined as an obligatory condition. Whilst this may initially appear to be a strengthening of provision, there is a potential for conflict or duplication with current planning practice."

¹⁵⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [90]

The principle of allowing access for archaeological recording in advance of development predates the inclusion of archaeology as a material planning consideration and the establishment of structured procedures for archaeological work in a development context. These procedures are set out clearly in both local and national policies, and include the ability for local authorities to require archaeological work at all stages of the planning process. In members' experience it has been relatively uncommon for the RCAHMW to undertake emergency recording through the planning and listed building consent process in recent years. It is however commonplace for conditions requiring archaeological building recording to be attached to consents, which would normally be undertaken by an archaeological contractor, commissioned by the applicant. This can often be more comprehensive and analytical than the RCAHMW emergency recording, where limited resources necessitate the prioritisation of high quality survey and images.

The explanatory notes for the change draw a parallel with the scheduled monument consent process (Section 18 Power to grant consent subject to conditions). The two are not directly comparable, because scheduled monument consent is independent of planning, and administered by Cadw rather than local authorities. In addition, the wording of the proposed Section 18 is more flexible, discussing what conditions may be applied and does not name a specific organisation. In practice, archaeological mitigation undertaken as a condition of scheduled monument consent is comparable to planning-led work, generally undertaken by archaeological contractors to an agreed programme and monitored by Cadw. It is not clear if an equivalent process would be followed for a listed building consent condition allowing access for recording by the RCAHMW. The scope of such work can vary considerably, and submission of a detailed project specification for prior approval by the local authority is normally required in order to meet the test of precision.

ALGAO:Cymru is concerned that including the right of access for the RCAHMW as a condition could prevent local authorities from attaching separate conditions for archaeological building recording, because this could be regarded as duplication and thus fail the test of necessity. Without this ability, were the RCAHMW to decline to record a threatened building, there would be no means of securing proportionate mitigation. The resulting loss to

built heritage and archaeological evidence would conflict with objectives to manage the historic environment as a public resource for the benefit of current and future generations.

ALGAO:Cymru would therefore recommend that this matter is reviewed to ensure that there would be no reduction in powers to secure archaeological mitigation."¹⁵⁹

210. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan ALGAO:Cymru. Dywedodd Dr George wrthym:

"This one is quite a subtle point of statutory interpretation, and we think it probably is one that ought to be addressed in the Bill, if it proceeds. At the moment, the listed buildings Act has a provision that says the royal commission have to be given a chance to make a record of a building before it's demolished and the works are not authorised unless that happens. In the Bill, we've changed it slightly, and provided for that requirement to be included as a condition of the listed building consent and said it's got to be done that way. That's not meant to change the legal effect at all, but the way it's presented is then more consistent with how other requirements that apply to demolition are set out in the Bill.

But the question the association have asked is whether making it a mandatory condition of the consent might create an unhelpful implication that it's limiting the ability to impose other conditions in the consent as well, possibly limiting the ability of a planning authority to include conditions about recording by somebody else apart from the royal commission. We do feel they have a fair point there, that you might read that implication in, and there might be a risk that having this mandatory condition could limit other conditions, which is definitely not the intention at all. We're not trying to change anything about what conditions can be imposed otherwise. Felly, rydyn ni'n meddwl y byddai'n fwy diogel rhoi rhywbeth yn y Bil i egluro nad yw'r ddarpariaeth honno'n cyfyngu ar unrhyw beth arall y gellid ei wneud yn y caniatâd."¹⁶⁰

¹⁵⁹ Llythyr gan ALGAO:Cymru

¹⁶⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [95] a [96]

Ystyr “dymchwel”

211. Dywedodd ALGAO:Cymru wrthym y gallai fod yn fuddiol egluro a yw cyfeiriadau yn y Bil at ddymchwel yn cynnwys dymchwel yn rhannol.¹⁶¹

212. Ceir cyfeiriadau at “ddymchwel” drwy’r Bil cyfan. Mae geiriau ychwanegol yn cyd-fynd â’r mwyafrif o’r rhain megis “neu at unrhyw ddifrod i”, “addasiadau” neu “ychwanegiadau” (adran 11(2)), “dymchwel neu ddinistrio’r heneb yn gyfan gwbl neu’n rhannol” (adran 21(5)) ac “addasu neu estyn” (adran 88(2)). Defnyddir y gair “dymchwel” ar ei ben ei hun yn adran 161, mewn perthynas â’r gofyniad am gydsyniad ardal gadwraeth.

213. Credwn fod pryder ALGAO:Cymru yn ymwneud ag adran 161. Yn ôl cyfraith achosion¹⁶², ystyr ‘dymchwel’ yw tynnu adeilad i lawr a’i ddinistrio’n llwyr. Hyd y gwyddom, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod angen tynnu pob rhan o’r adeilad i lawr a gallai gynnwys, er enghraifft, cadw’r ffasâd tra’n clirio gweddill y safle i’w ailddatblygu. Mae’r Llysoedd wedi dyfarnu bod p’un a yw gwaith yn gyfystyr â dymchwel ai peidio yn gwestiwn o ffaith a graddau, i’w benderfynu ym mhob achos unigol. Mae TAN 24 yn rhoi arweiniad ym mharagraff 6.10 ar ystyr dymchwel mewn perthynas â chydsyniad ardal gadwraeth o dan y gyfraith bresennol.

214. Gofynnwyd i’r Cwnsler Cyffredinol a oedd Llywodraeth Cymru yn ystyried egluro ystyr ‘dymchwel’ fel y’i nodir mewn cyfraith achosion ar wyneb y Bil, ac a fydd ystyr ‘dymchwel’ yn cael ei nodi’n glir mewn canllawiau. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

“In the case law on it, really the question as to whether the demolition of a building is partial or whole is a matter of fact and degree, so that’s really the court saying, ‘Well, to be honest, unless we can look at the actual facts of what actually happened, we can’t define it one way or the other.’ You have to interpret it on the basis of what has actually happened. Our intention in the legislation is not to change what demolishing a building means or how the conservation area consent system operates in practice.”¹⁶³

215. Ychwanegodd Dr George:

“...we couldn’t really think of any way that you could add wording that would really make things much clearer, because what the courts have said, as the Counsel General has said, is effectively it’s a common-sense judgment.”

¹⁶¹ Llythyr gan ALGAO:Cymru

¹⁶² Cyfraith achosion berthnasol: Shimizu (UK) Ltd v Cyngor Dinas San Steffan [1997] 1 WLR 168 a Walter Lily & Co Ltd v Clin [2021] EWCA Civ 136

¹⁶³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [132]. Gweler hefyd Gofnod y Trafodion [133]

*They've said, 'Well, it's a question of has something been substantially demolished?' So, you can't say that, just because there are a few bricks left it's not totally demolished. And it's a question of fact and degree. But, I think that's really just saying that you look at the word 'demolition' and interpret it sensibly. So, that's why we haven't tried to say any more in the Bill.*¹⁶⁴

Dileu neu hepgor darpariaethau anarferedig, darfodedig neu rai nad ydynt yn ymarferol ddefnyddiol neu'n ymarferol effeithiol bellach

216. Mae Rheol Sefydlog 26C.2(iii) yn nodi y caiff Bil Cydgrynhai ddileu neu hepgor darpariaethau anarferedig, darfodedig neu rai nad ydynt yn ymarferol ddefnyddiol neu'n ymarferol effeithiol bellach.

Cyffredinol

217. Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r ymarfer cydgrynhai ar gyfer y Bil wedi cynnwys dileu neu hepgor darpariaethau o'r ddeddfwriaeth bresennol lle maent yn anarferedig, yn ddarfodedig neu nad ydynt yn ymarferol ddefnyddiol neu'n ymarferol effeithiol bellach. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn datgan, ar y cyfan, mai mân ddarpariaethau diangen yw'r rhain a nodir manylion y newidiadau hyn yn Nodiadau'r Drafftwy'r.¹⁶⁵ Yn fwy arwyddocaol, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod dau faes wedi'u dileu gan y bernir nad ydynt yn ymarferol ddefnyddio neu'n ymarferol effeithiol bellach:

- Rhan II o Ddeddf 1979, sy'n darparu ar gyfer creu ardaloedd archeolegol, ac
- adrannau 38 a 39 o Ddeddf 2016, sy'n darparu ar gyfer sefydlu Panel Cyngori ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru.¹⁶⁶

218. O ran Rhan II o Ddeddf 1979, yn y Memorandwm Esboniadol dywed Llywodraeth Cymru:

*"Nid yw Rhan II o Ddeddf 1979 wedi cael ei defnyddio yng Nghymru erioed ac nid yw'n debygol o gael ei defnyddio yn y dyfodol ychwaith oherwydd, yn ymarferol, fod polisiâu cynllunio yn rhoi mwy o warchodaeth i dreftadaeth archaeolegol. Yn rhannol oherwydd hynny, mae Comisiwn y Gyfraith wedi argymhell y dylid diwygio Deddf 1979 i ddirymu Rhan II yng Nghymru.*¹⁶⁷

¹⁶⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [135]

¹⁶⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 28

¹⁶⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraff 28

¹⁶⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 29

219. Rydym wedi gwneud sylwadau ar hepgor adrannau 38 a 39 o Ddeddf 2016 yn y Bennod flaenorol.

220. Mae enghreifftiau o hepgoriadau eraill yn cynnwys:

- Adran 22: Hepgor y gofyniad i hawliad fod yn fwy na £20 – Mae'r trothwy £20 a nodir yn adran 8(2)(a) o Ddeddf 1979 ar hyn o bryd wedi'i hepgor o'r ailddatganiad o ddarpariaethau'r Ddeddf honno oherwydd, yn ôl Nodiadau'r Drafftwy, "Mae'r swm mor isel fel ei fod yn ddiystyr yn ymarferol."¹⁶⁸
- Adran 47: Hepgor y diffiniad o "maintenance" a "maintain" – Mae'r diffiniad a nodir yn adran 13(7) o Ddeddf 1979 ar hyn o bryd wedi'i hepgor o'r ailddatganiad o ddarpariaethau'r Ddeddf honno oherwydd, yn ôl Nodiadau'r Drafftwy, nid yw'r diffiniad yn ychwanegu dim at ystyr arferol yr ymadroddion.¹⁶⁹
- Adran 61(3)(a): Hepgor cyfeiriad at orchmynion digolledu o dan *Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000* – Mae'r cyfeiriad a nodir yn adran 5(1) o Ddeddf 1979 ar hyn o bryd wedi'i hepgor o'r ailddatganiad o ddarpariaethau'r Ddeddf honno oherwydd, yn ôl Nodiadau'r Drafftwy, mae'r cyfeiriad wedi ei ddisbyddu gan fod Deddf 2000 wedi'i diddymu gan *Ddeddf Dedfrydu 2020* o 1 Rhagfyr 2020.¹⁷⁰

221. Mae Nodiadau'r Drafftwy yn cynnwys tabl sy'n nodi darpariaethau sydd wedi'u hepgor o'r Bil gan ddibynnu ar baragraff (iii) o Reol Sefydlog 26C.2 oherwydd eu bod yn anarferedig, yn ddarfodedig neu nad ydynt bellach yn ymarferol ddefnyddiol neu'n ymarferol effeithiol. Dywed Nodiadau'r Drafftwy:

*"Mae'r tabl hwn yn ymdrin â hepgoriadau nad ydynt yn ymwneud â darpariaethau a ailddatgenir yn y Bil, gan gynnwys nifer o hepgoriadau o adrannau neu Atodlenni cyfan."*¹⁷¹

222. Er enghraifft, mae pŵer cyfredol yn adran 5 o Ddeddf 1953 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gaffael adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol drwy gytundeb wedi'i hepgor o'r ymarfer cydgrynhoi. Dywed Nodiadau'r Drafftwy na ddefnyddir y pŵer hwn ac nad yw'n ychwanegu dim at bwerau cyffredinol Gweinidogion Cymru o dan Ran 2 o Ddeddf 2006.¹⁷²

¹⁶⁸ Nodiadau'r Drafftwy, tudalen 23

¹⁶⁹ Nodiadau'r Drafftwy, tudalen 29

¹⁷⁰ Nodiadau'r Drafftwy, tudalen 31

¹⁷¹ Nodiadau'r Drafftwy, paragraff 33

¹⁷² Nodiadau'r Drafftwy, tudalen 85

Dileu pwerau gweithredol

223. Wrth gydgrynhoi'r gyfraith bresennol ac ailddatgan darpariaethau mewn Deddfau presennol, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ildio pwerau gweithredol presennol i wneud is-ddeddfwriaeth. Fe wnaethom holi'r Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion am nifer o enghreifftiau.

224. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y Bil yn arwain at golli neu leihau pwerau. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol fod Llywodraeth Cymru yn fodlon ar effaith y Bil yn hyn o beth.¹⁷³

225. Yn benodol mewn perthynas ag adran 64(1) i (3), mae Nodiadau'r Drafftwyd yn datgan bod pwerau presennol sydd ar gael i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwariant gan awdurdodau lleol ar ymchwiliadau archaeolegol wedi'u hepgor. Dywed Nodiadau'r Drafftwyd hefyd mai'r arferiad yw defnyddio pwerau cyffredinol sydd ar gael o dan Ddeddf 2006.¹⁷⁴

226. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol roi rhagor o eglurder ynghylch sut y penderfynodd Llywodraeth Cymru pa bwerau i'w cynnwys yn y Bil a pha rai i'w hepgor oherwydd y gellid ymdrin â hwy o dan Ddeddf 2006. Mewn ymateb i hynny dywedwyd wrthym:

"Mae Deddf 1979 yn rhagflaenu datganoli yng Nghymru, ac mae pwerau ar gael ar hyn o bryd i Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf sy'n gorgyffwrdd yn gyfan gwbl â'r pwerau cyffredinol sydd ar gael i Weinidogion o dan Ran 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ein dull o ailddatgan adran 45 oedd hepgor unrhyw bwerau lle'r oedd y gorgyffwrdd hwnnw'n bodoli. Mae hyn yn gyson â RhS 26C.2(iii) – gan hepgor darpariaeth ddiangen.

Ein hymagwedd gyffredinol at bwerau Gweinidogion Cymru yw hepgor darpariaeth o'r ailddatganiad dim ond lle y gellid cyflawni'r un effaith drwy ddefnyddio pwerau cyffredinol, gan ystyried unrhyw reolaethau dros y ffordd y mae'r pwerau yn Neddf 1979 yn arferadwy. Pan fo arfer pwerau yn amodol ar fodloni rhai profion penodol neu'n amodol ar gyfyngiadau penodol eraill, caiff y pwerau yn y Bil eu hailddatgan yn hytrach na dibynnu ar y swyddogaethau a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006."¹⁷⁵

227. Gofynnwyd hefyd gwestiwn penodol am adran 207(3). Yma, mae'r pŵer i nodi buddiannau ychwanegol fel buddiannau'r Goron wedi'u hepgor o'r ailddatganiad. Dywed Nodiadau'r Drafftwyd nad oes unrhyw bŵer cyfatebol yn Neddf 1979 ac nad yw'r pŵer yn adran

¹⁷³ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, tudalen 1

¹⁷⁴ Nodiadau'r Drafftwyd, tudalen 31

¹⁷⁵ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 33 i 34

82C(3)(c) wedi'i ddefnyddio mewn perthynas ag unrhyw dir yng Nghymru ac nad yw Cadw yn credu bod ei angen.¹⁷⁶

228. Gofynnwyd am eglurder ynghylch dileu'r pŵer presennol, a gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol fynd i'r afael â senario 'beth os', os darganfyddir yn ddiweddarach bod angen y pŵer. Mewn ymateb i hynny, dywedwyd wrthym:

"Ni allwn ragweld unrhyw sefyllfa lle byddai angen diwygio diffiniad 'buddiant y Goron' yn y Bil. Mae buddiannau'r Goron a'r Ddugaeth mewn tir a gwmpesir gan adran 207(3) a (4) o'r Bil yr un fath â'r rhai a gwmpesir gan ddiffiniadau mewn llawer o Ddeddfau eraill (gweler, er enghraifft, adran 10(2) o Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt a Sycasau (Cymru) 2020). Nid ydym yn credu bod unrhyw fuddiannau eraill y Goron mewn tir y gellid eu hychwanegu.

Yr unig orchymyn a wneir o dan adran 82C(3)(c) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yw OS 2006/1469, sy'n ymwneud â dau Dŷ'r Senedd ac nad yw'n berthnasol i Gymru. Ymdrinnir â'r Senedd yn wahanol, mewn gorchymyn o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 y mae ei heffaith wedi'i hymgorffori yn adran 207 o'r Bil.

*Yn yr achos annhebygol y byddai'n angenrheidiol diwygio'r diffiniad o 'buddiant y Goron' oherwydd newid deddfwriaethol, byddem yn disgwyl i'r ddeddfwriaeth berthnasol wneud unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i adran 207. Pe bai angen gwelliant am ryw reswm arall, mae'n debygol y byddai angen Bil Senedd."*¹⁷⁷

229. Mae newidiadau i'r gweithdrefnau sydd ynghlwm wrth wneud is-ddeddfwriaeth, symud darpariaethau rhwng is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth sylfaenol, a phwerau gwneud rheoliadau newydd a roddir i Weinidogion Cymru yn cael eu trafod yn ddiweddarach yn y Bennod hon.

Gwneud mân newidiadau i'r gyfraith bresennol at ddibenion cyflawni cydgrynhoi boddhaol.

230. Dywed Rheol Sefydlog 26C.2(iv) y caiff Bil Cydgrynhoi wneud mân newidiadau i'r gyfraith bresennol at ddibenion sicrhau bod y gwaith o gydgrynhoi'r gyfraith yn foddhaol.

¹⁷⁶ Nodiadau'r Drafftwyd, tudalen 81

¹⁷⁷ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 150 i 152

Disodli termau

231. Dywed Nodiadau'r Drafftwyd fod y Bil yn defnyddio nifer o'r un termau â'r ddeddfwriaeth y mae'n ei chydgrynhoi, ac yn parhau i gyfeirio at henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. Fodd bynnag, mae'r Bil yn rhoi termau newydd yn lle rhai arwyddocaol sy'n cael eu defnyddio yn y ddeddfwriaeth bresennol. Dywed Nodiadau'r Drafftwyd nad yw'r newidiadau hyn "yn cael unrhyw effaith o sylwedd a'r bwriad yw sicrhau bod y derminoleg yn fwy cywir neu ddefnyddiol".¹⁷⁸

232. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion egluro pam eu bod yn credu bod y termau newydd a ddefnyddir yn y Bil yn fwy cywir a defnyddiol, a pha waith ymgynghori a wnaed gyda rhanddeiliaid.

233. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

*"Language changes incredibly quickly—words that have been used and descriptions that have been used over the years—and when you're going back over legislation over quite some decades, sometimes even further, over centuries, when you're bringing together a consolidation Bill, certainly the approach taken with this, that if you're trying to clarify the language, make it clearer, more understandable and modernise it, you've actually got to look at the use of some of the terms that are there. So, it is very much a matter of, I think, judgment in doing that, and, of course, one of the functions, of course, of your scrutiny, would be to look at where that judgment has been exercised and if it is the case that the committee thinks that some of the terminologies are not appropriate or that you have views on that—well, of course, as I say, this is a learning curve for all of us."*¹⁷⁹

234. Cyfeiriodd y Cwnsler Cyffredinol yn benodol at ddisodli 'heneb' â 'heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig', a ddisgrifiodd fel rhywbeth llawer cliriach a mwy modern. Dywedodd hefyd:

*"There was some concern, for example, over 'ecclesiastical buildings' and whether that is a specific reference to an older use of the term 'ecclesiastic' to refer to, for example, the Church of England, the Church in Wales. But that has been replaced by the term 'religious buildings'."*¹⁸⁰

¹⁷⁸ Nodiadau'r Drafftwyd, tudalen 6

¹⁷⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [58]

¹⁸⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [59] a [60]

235. Ychwanegodd Dr George:

*"The 'ecclesiastical' one is an interesting one, because the existing legislation uses it in different ways in different places. We have 'ecclesiastical land', which does just mean the Church of England, and we have references to 'ecclesiastical buildings', which actually, probably, means any religion. It was actually unhelpful the way things were worded at the moment, so we've made the distinction clearer by talking about Church of England land or religious buildings."*¹⁸¹

236. Dywedodd Mr Dylan Hughes wrthym mai un mater arwyddocaol yw'r defnydd o'r geiriau 'rhestredig' a 'cofrestredig', a dywedodd eu bod yn dermau sy'n deillio o dechneg ddrafftio. Dywedodd:

*"...in the original legislation, there was a list of buildings. That's how it was referred to in the Act of Parliament. And then, similarly, there was a schedule of monuments. We considered whether it would be appropriate to change those terms, because it's an accident of history, really, as to how those expressions have come about and, arguably, you could say that they're not particularly helpful as a description of what they are. But I think Cadw, in their discussion with their stakeholders, took the view that, strangely, despite the etymology, if you like, despite the history of these terms, they had become part of the common parlance. 'Listed building' is probably a very good example of something that people understand and, therefore, they were very reluctant to change that term, despite the fact that our instincts, or my instinct, perhaps, more accurately, was to change it to something that was actually more reflective of what it meant. So, I think that's just an example of how it really does depend on the circumstances and depends on how people use these words in real life, as well as the technical aspect of it as well."*¹⁸²

237. Wrth ymgynghori â rhanddeiliaid, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol:

"...there has been engagement with the specialist groups and individuals that are involved, particularly Cadw, who set up a task and finish group. That was composed of members drawn from across the sector who had a good knowledge of the legislation. They were able to test some of the changes in terminology with the task and finish group and feed back any concerns into

¹⁸¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [61]

¹⁸² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [63]

*the drafting process, which I think is reflected either in the legislation itself or in the explanatory notes. I think it was also tested on Cadw staff, those who actually have to make regular use of the legislation itself. My understanding is that that's been really quite a productive exercise...*¹⁸³

Atodlen 7: Diwedd gwarchodaeth interim neu restriad dros dro ar gyfer adeiladau

238. Mewn perthynas â pharagraff 2 o Atodlen 7, dywed Nodiadau'r Drafftwy'r fod y darpariaethau presennol ym mharagraff 2 o Atodlen 1A a pharagraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, sy'n parhau ag atebolrwydd troseddol ar ôl diwedd gwarchodaeth interim neu restru dros dro, wedi'u hymestyn i gwmpasu'r drosedd o ddifrodi adeilad rhestredig yn fwriadol o dan adran 118 o'r Bil. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn dweud bod hyn yn dileu anghysondeb gan y dylai'r darpariaethau fod yn berthnasol i bob trosedd sy'n ymwneud ag adeilad rhestredig.¹⁸⁴

239. O ystyried difrifoldeb collfarnau troseddol a chosbau, gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol am esboniad pellach ynghylch y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iv), a gofynnwyd yn benodol am resymau pellach ynghylch pam y gellid ystyried hyn yn newid bach i'r gyfraith. Fe wnaethom nodi hefyd ei bod yn ymddangos bod adrannau 79(2) ac 83(4) o'r Bil yn eithrio'n benodol y modd y cymhwysir y drosedd adran 118 mewn perthynas ag adeiladau sy'n destun gwarchodaeth dros dro neu restru dros dro. O ran hynny, gofynnwyd hefyd am eglurder ynghylch sut y bydd paragraff 2 o Atodlen 7 yn dod i rym.

240. Mewn ymateb i hynny, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol ei fod yn ddiolchgar inni am dynnu ei sylw at gamgymeriad ym mharagraff 2 o Atodlen 7. Dywedodd:

*"Mae hyn yn cadw unrhyw atebolrwydd troseddol sy'n codi o dan adrannau penodol o'r Bil tra bod adeilad yn destun rhestru dros dro neu amddiffyniad dros dro. Ni ddylai paragraff 2 Atodlen 7 grybwyll atebolrwydd o dan adran 118, oherwydd nid yw adran 118 yn gymwys i adeilad sy'n amodol ar restru dros dro neu amddiffyniad dros dro. Mae hwn yn fater y byddaf yn ceisio mynd i'r afael ag ef yn Ystyriaeth y Pwyllgor Manwl os bydd y Bil yn cyrraedd y pwynt hwnnw."*¹⁸⁵

¹⁸³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [62]

¹⁸⁴ Nodiadau'r Drafftwy'r, tudalen 36

¹⁸⁵ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, tudalen 1

Atodlen 8: Y weithdrefn ar gyfer gorchmynion sy'n addasu neu'n dirymu cydsyniad adeilad rhestredig ac Atodlen 10: Y weithdrefn ar gyfer gorchmynion sy'n terfynu cytundebau partneriaethau adeiladau rhestredig

241. Mae Atodlen 8 yn nodi gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn cyn i orchymyn a wneir gan awdurdod cynllunio (Rhan 1), neu orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru (Rhan 2), ddod i rym.

242. Mae Atodlen 10 yn cyflwyno'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud gorchmynion terfynu. Mae'r gweithdrefnau hyn yn deillio o'r rhai ar gyfer gwneud gorchmyn i addasu neu ddirymu cydsyniad adeilad rhestredig yn Atodlen 8.

243. Awgrymodd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad newid posibl i'r Bil a dywedodd wrthym:

*"35. In both these schedules, it would be highly desirable to include written representations as an option as well as a hearing, as elsewhere. While some aggrieved owners may want public hearings, others will feel intimidated by them, and (because there is usually a feeling that they require barristers and solicitors to be instructed) the costs for all parties are usually considerably higher."*¹⁸⁶

244. Roedd y Cwnsler Cyffredinol yn gefnogol i'r awgrym hwn a dywedodd wrthym ei fod yn meddwl ei fod yn gwneud synnwyr perffaith.¹⁸⁷

245. Ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol atom yn ddiweddarach ynglŷn â'r mater hwn a dywedodd:

"Yn ddelfrydol, pe baem yn diwygio deddfwriaeth yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, mae hwn yn fater y byddem wedi ystyried ei gynnwys.

*Fodd bynnag, gan mai Bil cydgrynhoi yw hwn, rwy'n cydnabod y byddai'n golygu newid o'r sefyllfa gyfreithiol bresennol ac yn un y gallai rhai ystyried yn fwy na mân newid technegol. Felly, byddwn yn croesawu barn y Pwyllgor ar hyn ac a fyddai'n briodol i'r broses o gydgrynhoi cyfraith yr amgylchedd hanesyddol gynnwys y newid hwn."*¹⁸⁸

¹⁸⁶ Llythyr gan y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad

¹⁸⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [99]

¹⁸⁸ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 25 Hydref 2022

Adran 147: Camau ar gyfer diogelu adeiladau rhestredig sydd mewn cyflwr gwael

246. Mae adran 147 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i roi pŵer i awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru i gymryd camau i ddiogelu'n briodol adeiladau rhestredig sydd mewn cyflwr gwael. Yn benodol, caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno "hysbysiad diogelu" i berchennog adeilad rhestredig.

247. Dywedodd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad wrthym:

"30. 'Preservation notices' have been carried forward from the 2016 Act, but have never been implemented. They are unlikely to be implemented because they would be very harmful to listed building protection, and it would be better if – like Areas of Archaeological Importance – they were removed from the Bill.

31. Cadw's guidance Managing listed buildings at risk in Wales correctly diagnoses the problem of heritage at risk as one primarily of use and economics, and in some cases ownership. As it says, the solution is a viable long-term use, because a building which is not used, viable, and relevant is unlikely to be put (or kept) in repair.

32. In contrast, the traditional approach to heritage at risk mis-diagnosed the problem as one solely of disrepair, soluble merely by telling local authorities to use a toolkit of aggressive statutory repair powers. That has not worked, because those powers are complex, ineffective, and often disproportionate, so LPAs do not use them, or focus them on the wrong targets, or fail. Even if the building was somehow repaired, without a viable use it would inevitably fall back into disrepair. Either a failure to act, or poorly targeted action, damage both individual historic assets and the reputation of the whole heritage protection system. 'Preservation notices' would make this worse, by making it even riskier for any rescuing purchaser to acquire a building at risk, a dangerous change. A report for Welsh Government concluded that there were extremely few cases where 'preservation notices' might make any effective contribution, and that other approaches were preferable (Advice to inform the development of preservation notices for listed buildings, Arcadis and Holland Heritage, 2017, section 4.7).

33. The solution is thus in two parts. The first, good advice based on a correct diagnosis of the problem, already largely exists in the Cadw guidance. Properly used, this provides solutions for heritage already at risk, and (more

importantly) encourages prevention through viable use, so that buildings do not become at risk.

34. Secondly, in a small minority of often-prominent cases it is clear that there is a use and a viable solution, and repairing purchasers, but the owner is refusing to implement this. In these specific situations, the power to change ownership may need to be used, more assertively and effectively than now. It is not realistic to expect local authority staff to do that, and it needs to be organised centrally, potentially by a specific expert attached to Cadw. This would require only limited resource, and a few successful cases, effectively publicised, would much reduce the problem. If Welsh Government wishes to solve this, it should act on these lines. 'Preservation notices' would make the situation worse, have not been implemented, for that reason, and should – like Areas of Archaeological Importance – be removed from the Bill.¹⁸⁹

248. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol am ei farn ar yr hyn yr oedd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad wedi'i ddweud wrthym. Dywedodd:

*"The inclusion of the preservation notices was a late amendment to the Historic Environment (Wales) Act 2016. I think that, as an organisation, they have consistently argued against the introduction of preservation notices. They made it clear that they would—and I think they always have—welcome legislation that would change that. Of course, the removal of section 147 is what they are seeking. (...) I'd very much welcome getting this committee's views on that, and I think if your inclination or the conclusion that you come to is that that is a sensible recommendation, it is something that we could consider at the next stage."*¹⁹⁰

249. Ychwanegodd Mr Gwilym Hughes:

"When we were developing the Historic Environment (Wales) Act, or Bill as it was then, back in 2015-16, we tried to be very proactive about undertaking detailed research¹⁹¹ about what the potential implications of particular measures might be. Because this was quite a late amendment, the research was rather retrospective, and it certainly highlighted, that research, a number of the unintended consequences accompanying the introduction of

¹⁸⁹ Llythyr gan y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad

¹⁹⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [107]

¹⁹¹ Advice to inform the development of preservation notices for listed buildings – Final report – Medi 2017

preservation notices, not least the potential for the active discouragement of individuals and organisations taking on listed buildings at risk, because there'd be the potential possibility of preservation notices and penalties if they did so. And that view was certainly endorsed by the Country Land and Business Association at the time, and other organisations representing owners of historic buildings. So, the research does offer quite a lot of support for their view and the potential impact on listed buildings at risk. Obviously, this provision, as they rightly say, hasn't been commenced and could potentially be repealed, so as the Counsel General has said, we'd welcome the committee's views on this."¹⁹²

Adran 155(5): Darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad

250. Mae adran 155 o'r Bil yn gwneud darpariaethau atodol sy'n gysylltiedig â defnyddio'r pwerau mynediad a roddir o dan adran 152 neu â gwarant o dan adran 154.

251. Mewn perthynas ag adran 155(5), dywed Nodiadau'r Drafftwy'r fod y Bil bellach wedi ychwanegu terfyn amser ar gyfer hawlio digollediad am ddifrod. Dywed Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd fod hyn yn cywiro bwlch ac yn gwneud y sefyllfa'n gyson â'r sefyllfa ar gyfer henebion (yn seiliedig ar OS 2017/641, rheoliad 2(1)(e)).¹⁹³

252. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol gadarnhau'r terfyn amser presennol, a gofynnwyd am esboniad pellach ynghylch y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iv), yn benodol sut nad yw'r newid hwn yn gyfystyr â newid i bolisi. Mewn ymateb i hynny dywedwyd wrthym:

"Nid oes terfyn amser wedi'i bennu ar gyfer hawlio iawndal o dan adran 88B(7), gan adael y sefyllfa'n aneglur, ond ni all fod yn wir fod yr hawl i wneud hawliad yn para am byth. Rhaid gwneud hawliadau iawndal am ddifrod sy'n gysylltiedig ag arfer pwerau mynediad mewn modd amserol fel y gellir cyflwyno tystiolaeth o ddifrod.

Mae adran 9 o Ddeddf Cyfyngiadau 1980 yn gosod cyfnod cyfyngu o 6 blynedd ar gyfer hawlio unrhyw 'swm adenilladwy yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad'. Gall y cyfnod cyfyngu hwnnw fod yn gymwys i iawndal o dan adran 88B(7) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, ac mae'n amlwg yn

¹⁹² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [108]. Gweler hefyd Gofnod y Trafodion [110]

¹⁹³ Nodiadau'r Drafftwy'r, tudalen 58

wahanol iawn i'r cyfnodau cyfyngiad o 6 mis ar gyfer pob hawliad arall am iawndal o dan y ddeddfwriaeth a gydgrynhoir yn y Bil.

Mae methiant Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 i ddarparu ar gyfer terfyn amser ar gyfer hawlio iawndal o dan adran 88B(7) yn amlwg yn anghysondeb – ac mae'n ddiddorol nodi nad oes gan Cadw unrhyw gofnodion o hawliad yn cael ei wneud. Roedd terfyn amser o 6 mis wedi'i gynnwys yn adran 155(5) o'r Bil er cysondeb â'r darpariaethau iawndal eraill, er mwyn sicrhau cydgrynhoiad boddhaol. Nid yw hyn yn newid polisi ond mae'n ymwneud â chywiro anghysondeb drwy ddwyn hawliadau o dan adran 155(5) o fewn yr un polisi cyffredinol sy'n berthnasol i bob terfyn amser ar gyfer hawliadau iawndal o dan y Bil."¹⁹⁴

Adran 156(1): Adeiladau crefyddol esempt

253. Mae adran 156(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i gydnabod adeilad crefyddol a ddefnyddir at ddibenion crefyddol fel "adeilad crefyddol esempt".

254. Dywed Nodiadau'r Drafftwyf fod y sefyllfa ddiofyn yn y gyfraith bresennol wedi'i gwrthdroi, fel na fydd adeiladau crefyddol yn esempt ond i'r graddau a ddarperir mewn rheoliadau, yn hytrach na bod yn esempt oni bai bod rheoliadau yn cyfyngu ar yr esemptiad neu'n ei eithrio. Dywed Nodiadau'r Drafftwyf hefyd fod hyn yn adlewyrchu'n well y sefyllfa bresennol o dan Orchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018¹⁹⁵ sy'n dileu'r esemptiad yn llwyr ond wedyn yn ailesemptio rhai adeiladau.

255. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol gadarnhau gyda phwy yr ymgynghorwyd ynghylch y newid arfaethedig hwn, a sut y mae gwrthdroi'r sefyllfa ddiofyn bresennol yn gyfystyr ag eglurhad. Dywedwyd wrthym fod y gwaith drafftio wedi'i rannu â grŵp gorchwyl a gorffen Cadw ac na chodwyd unrhyw faterion. Dywedwyd wrthym hefyd:

"Mae'r sefyllfa gyfreithiol bresennol, a nodir yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 ac OS 2018/1087, wedi'i beirniadu gan ddefnyddwyr fel un cymhleth a dryslyd.

Mae adran 60 o'r Ddeddf yn rhoi'r camargraff bod pob adeilad eglwysig a ddefnyddir at ddibenion eglwysig wedi'i eithrio, pan mai effaith OS 2018/1087 yw eithriad cymharol gyfyng. Os caiff y sefyllfa ddiofyn mewn deddfwriaeth sylfaenol ei gwrthdroi a bod rheoliadau'n cael eu gwneud sy'n rhoi'r un

¹⁹⁴ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 110 i 112

¹⁹⁵ OS 2018/1087

eithriad â OS 2018/1087, y canlyniad fydd deddfwriaeth gliriach a symlach. Yn hynny o beth, mae adran 156 o'r Bil yn helpu i egluro'r gyfraith o dan RhS 26C.2(ii).

Gellid ystyried bod y newid dull yn adran 156 hefyd yn symud y ddarpariaeth gyffredinol nad yw adeiladau eglwysig wedi'u heithrio, a nodir ar hyn o bryd yn erthygl 3 o OS 2018/1087, i wyneb y Bil. Gellid disgrifio symud y ddarpariaeth o isddeddfwriaeth i ddeddfwriaeth sylfaenol fel newid bach sy'n briodol i'w wneud at ddibenion cydgrynhoi'n foddhaol o dan RhS 26C.2(iv).¹⁹⁶

Section 207: Diffiniadau sy'n ymwneud â'r Goron

256. Mae adran 207 yn diffinio termau allweddol a ddefnyddir yn y Bil sy'n ymwneud â'r Goron, gan gynnwys "awdurdod priodol y Goron" a "tir y Goron".

257. O ran adran 207(3), (6)(c) a (9)(a), dywed Nodiadau'r Drafftwy'r fod y cyfeiriadau at fuddiant yn hawl ystadau preifat Ei Mawrhydi¹⁹⁷ yn Neddf 1979 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 wedi'u cymhwyso i henebion. Dywed Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd fod y newid wedi'i wneud er cysondeb ag adeiladau rhestredig ac nad yw adran 50(4) o Ddeddf 1979 yn dweud dim ar y pwynt hwn ar hyn o bryd ond nad oes rheswm dros hynny.¹⁹⁸

258. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar faterion yn ymwneud â'r Goron, a gofynnwyd am esboniad pellach ar effaith y newid, gan gynnwys cadarnhad o'r ystadau preifat a fydd yn cael eu cwmpasu gan adran 207. Mewn ymateb i hynny dywedwyd wrthym nad oes unrhyw drafodaethau wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU yn benodol ar dir sy'n ymwneud â'r Goron. Dywedwyd wrthym hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi:

"...cysylltu â Llywodraeth y DU ar y Bil yn fwy cyffredinol ac nid oes unrhyw bryderon wedi'u codi mewn perthynas â thir sy'n ymwneud â'r Goron.

Mae'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer y buddiannau hyn yn golygu y gallai tir y mae'r buddiannau hyn yn bodoli ynddo fod yn amodol ar Ran 2 o'r Bil, fel y'i cymhwysir gan adran 74. Nid ydym yn meddwl bod hyn yn arwyddocaol oherwydd bod adran 74 yn caniatáu ymyrraeth â'r tir hwnnw dim ond i'r graddau nad yw buddiannau'r Goron yn cael eu heffeithio, ac nid yw'n

¹⁹⁶ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 113 i 115

¹⁹⁷ Mae'r cyfeiriad hwn yn ymwneud â Nodiadau'r Drafftwy'r a osodwyd gerbron y Senedd ym mis Gorffennaf 2022, a chyn marwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II.

¹⁹⁸ Nodiadau'r Drafftwy'r, tudalen 81

effeithio ar bethau a wneir gan neu ar ran y Goron. Ac fel yr awgrymir yn Nodiadau'r Drafftwy, nid ymddengys fod cyfiawnhad dros ailddatgan yr anghysondeb presennol rhwng y ddwy brif Ddeddf. Byddai'r drafftio'n cynnwys unrhyw fuddiannau mewn tir a ddelir yn hawl ystadau preifat Ei Fawrhydi."¹⁹⁹

Newidiadau i'r gweithdrefnau sydd ynghlwm wrth wneud is-ddeddfwriaeth, symud darpariaethau rhwng is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth sylfaenol, a phwerau gwneud rheoliadau newydd a roddir i Weinidogion Cymru.

Gorchmynion v rheoliadau

259. Dywed Nodiadau'r Drafftwy:

*"Mae'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi yn cynnwys amryw o bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf gorchmyn a wneir drwy offeryn statudol. Ers 2014 arfer Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol fu i bwerau i wneud isddeddfwriaeth drwy offeryn statudol fel arfer fod ar ffurf pwerau i wneud rheoliadau (gweler Drafftio Deddfau i Gymru: Canllaw, paragraff 9.2). Mae'r Bil felly yn ailddatgan holl bwerau Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion drwy offeryn statudol fel pwerau i wneud rheoliadau."*²⁰⁰

Newidiadau i weithdrefnau is-ddeddfwriaeth

260. Mae adran 209 o'r Bil yn ymwneud â rheoliadau y caniateir eu gwneud o dan y Bil, os a phan gaiff ei ddeddfu.

261. Mae adran 209(6) yn darparu ar gyfer israddio gweithdrefnau craffu – o'r weithdrefn gadarnhaol i'r weithdrefn negyddol – sydd ynghlwm wrth rai pwerau gwneud rheoliadau presennol sy'n ymwneud â chytundebau partneriaeth. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol egluro sut yr oedd hyn yn cyd-fynd â Rheol Sefydlog 26C.2(iv). Ymatebodd y Cwnsler Cyffredinol i'r pwynt penodol hwn ond gwnaeth sylwadau ehangach hefyd ar y dull a fabwysiadwyd yn y Bil. Dywedodd:

¹⁹⁹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 153 a 154

²⁰⁰ Nodiadau'r Drafftwy, paragraff 13

"Cyflwynwyd y newid hwn yng nghyd-destun newid yn y dull a fabwysiadwyd gan y Bil i'r hyn sy'n cael ei gwmpasu ar wyneb y ddeddfwriaeth sylfaenol. Rydym wedi ailddatgan llawer mwy ar wyneb y Bil am faterion allweddol sy'n berthnasol i gytundebau partneriaeth na'r hyn sy'n ymddangos ar hyn o bryd ar wyneb Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Er enghraifft, mae darpariaeth am derfynu cytundebau partneriaeth wedi'i chwmpasu'n gyfan gwbl gan y Bil ac nid gan reoliadau (fel yw'r achos ar hyn o bryd).

Mae'r gwahaniaeth hwn mewn dull yn cyfiawnhau gweithdrefn wahanol yn ein barn ni, ac rydym yn credu bod hyn wedi'i ganiatáu gan Reol Sefydlog 26C.2. Y materion rydym yn eu gadael i reoliadau yn amodol ar weithdrefn negyddol yw'r mathau o faterion gweithdrefnol sydd hefyd yn cael eu gadael i reoliadau negyddol mewn mannau eraill o'r Bil; er enghraifft, yn y ddarpariaeth ar gyfer ceisiadau am gydsyniad heneb restredig.

Mae'n werth nodi y byddai unrhyw reoliadau sy'n addasu effaith Rhan 2 o'r Bil i gytundebau partneriaeth yn dal i fod yn destun y weithdrefn gadarnhaol. Mae hyn yn gyson â pholisi'r Llywodraeth ar benderfynu ar y weithdrefn addas i'w defnyddio gydag is-ddeddfwriaeth."²⁰¹

Symud darpariaethau rhwng is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth sylfaenol

Cyffredinol

262. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion gadarnhau a disgrifio pa ddarpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth sy'n cael eu cydgrynhoi yn y Bil, h.y. beth sy'n cael ei symud o reoliadau i wyneb y ddeddfwriaeth sylfaenol. Dywedodd Mr Dylan Hughes wrthym:

"Generally speaking, we have moved provisions from subordinate legislation into primary legislation. So, in that respect, it's a good thing, shall we say? The reason we felt able to do that is because, often, the reason the power is taken and provision is made in subordinate legislation is because it's felt that we need flexibility and an ability to change the law quickly, as and when required. But sometimes it doesn't turn out like that, and some of the examples are examples of situations where the law hasn't been changed after

²⁰¹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Awst 2022, paragraffau 28 i 30

the event, and it's felt, therefore, that it is established, and in consequence that it should be in the primary legislation."²⁰²

263. Ychwanegodd Dr George:

"One example is that, if you look at Schedule 3 to the Bill, that sets out what are called class consents, so cases where a scheduled monument consent is given for a whole category of works, without anybody needing to apply for it. Now, that's currently set out in an Order that was made under the 1979 Act, in 1994; it's not been amended since it was made nearly 30 years ago. And we took the view that, because it's an important part of the system, it would be more accessible to describe all those classes of works in the Bill so you can just see it all in one piece of legislation, and not have to go off to a separate Order. Another example would be that both the 1979 Act and 1990 Act have a lot of provisions under which people can claim compensation for various things that are done. They currently leave it to regulations to set out how long you've got to claim compensation, but it's a set six-month period in every case that's been set out in subordinate legislation that has never changed in many, many decades. So, we took the view, again, that it would be more helpful to just say this in the Bill, but keep flexibility for regulations to amend the time limits, if that proved necessary in the future."²⁰³

264. Pan roddodd cynrychiolwyr Comisiwn y Gyfraith dystiolaeth inni ym mis Medi, dywedodd Dr Mynors wrthym:

"In terms of the ancient monuments legislation, as it has been until now—monuments of special interest, as it will be—it's noticeable that the principal secondary legislation has been incorporated as a schedule of the new Bill—that is, the classes for which consent is automatically granted. And that is sensible, because that hasn't actually been changed much or at all since about 1980, so that makes sense to bring that into the primary legislation."²⁰⁴

265. Yn adran 100(4) o'r Bil mae enghraifft o ddarpariaeth sydd ar wyneb Deddf Cynllunio 1990 ar hyn o bryd sy'n cael ei symud i bŵer i wneud rheoliadau. Gofynnwyd pam mae hynny wedi digwydd ac a oedd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod hyn yn unol â'r Rheol Sefydlog sy'n dweud mai dim ond mân newidiadau y dylid eu gwneud. Dywedodd Dr George wrthym:

²⁰² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [116]

²⁰³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [117]

²⁰⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [197]

*"...it's really about consistency. This is about cases where somebody applies for consent and doesn't get a decision, and, after a certain amount of time, if they hear nothing they can appeal, as if the application had been refused. So, there are three cases. In two of them, the period you have to wait is set in regulations, but in one of them, for no reason that we could really tell, it's set out in section 20 of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990, but the period is eight weeks in every case. We think it would be clearer just to have that set out in one place, rather than partly in the Act and partly in regulations. And we think it makes more sense for this to be dealt with in regulations along with other procedural matters and time limits and so on, in case it needs to change in the future."*²⁰⁵

266. Rydym eisoes wedi edrych ar rai o'r materion hyn yn gynharach yn yr Adroddiad, ac wedi ystyried rhai enghreifftiau pellach isod.

Adran 81: Adolygu penderfyniad i restru adeilad

267. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol, pan fo Gweinidogion Cymru yn rhestru adeilad, mae adran 81 yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi cyfle i unrhyw berchennog neu feddiannydd yr adeilad ofyn am adolygiad o'u penderfyniad restru.

268. O ran adran 81(2) a (6), dywed Nodiadau'r Drafftwyd fod y sail bresennol ar gyfer adolygu wedi'i symud o Reoliadau Adeiladau Rhestredig (Adolygu Penderfyniadau Rhestru) (Cymru) 2017 (OS 2017/644)²⁰⁶ i'r Bil "gan symleiddio'r geiriad" a bod hwn yn destun pŵer newydd i ddiwygio'r sail ar gyfer adolygu. Dywed Nodiadau'r Drafftwyd hefyd fod y newid yn sicrhau bod yr adran yn ymdrin â'r mater pwysig hwn, gan gadw hyblygrwydd ar gyfer unrhyw newidiadau yn y dyfodol.²⁰⁷ Yn flaenorol, roedd adran 2D(6)(a) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi seiliau mewn rheoliadau. Yn y Bil, mae'r seiliau wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth sylfaenol gyda phŵer Harri VIII i ddiwygio'r rhestr honno (drwy'r weithdrefn gadarnhaol).

269. Gofynnwyd am eglurder ynghylch sut y mae'r pŵer newydd hwn i wneud rheoliadau yn dod o fewn cwpas Rheol Sefydlog 26C.2(iv). Mewn ymateb i hynny dywedwyd wrthym:

"Y prif newid yma yw symud y seiliau dros adolygiadau o reoliadau i'r Bil, i adlewyrchu pwysigrwydd y darpariaethau. Mae cadw'r pŵer i'w diwygio (gyda gweithdrefn Senedd uwch oherwydd y byddai unrhyw reoliadau

²⁰⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [120]

²⁰⁶ [OS 2017/644](#)

²⁰⁷ Nodiadau'r Drafftwyd, tudalen 37

*bellach yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) yn cadw'r hyblygrwydd sydd eisoes yn bodoli. Effaith gyfunol y newidiadau hyn yw gwneud y darpariaethau yn fwy cydlynol a hygyrch heb newid eu heffaith ymarferol yn sylweddol. Mae'n briodol gwneud y newidiadau at ddibenion cyflawni cydgrynhoi boddhaol."*²⁰⁸

270. O ran adran 81(3) a (4), mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y gofyniad i gynnal adolygiadau a gwneud penderfyniadau yn adran 2D(3)(a) a (b) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 wedi'i ailddatgan i adlewyrchu'r gofyniad mewn rheoliadau (OS 2017/644, rheoliad 3) i bob adolygiad gael ei gynnal gan bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru, ond gan gadw'r pŵer presennol i reoliadau bennu eithriadau. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan na ddisgwylir i'r sefyllfa o dan y rheoliadau presennol newid ac y gall "adran 2D(3) fod yn gamarweiniol".²⁰⁹

271. O dan adran 2D o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 y sefyllfa ddiofyn yw bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gynnal yr adolygiad, yn amodol ar eithriadau a nodir mewn rheoliadau. Er bod OS 2017/644 yn ymarferol yn ei gwneud yn ofynnol i bob cais gael ei drin fel eithriad, gofynnwyd am esboniad pellach ynghylch sut y mae gwrthdroi'r sefyllfa bresennol mewn deddfwriaeth sylfaenol yn gyfystyr â mân newid yn y gyfraith. Gofynnwyd hefyd am esboniad pellach ynghylch pam na ddisgwylir i'r sefyllfa newid. Dywedwyd wrthym:

"Mae adran 81 o'r Bil yn adlewyrchu effaith rheoliad 3 o OS 2017/644, gyda phŵer i wneud eithriadau sy'n deillio o baragraff 1(2) o Atodlen 1B i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Nid yw hyn yn newid y gyfraith sylwedd ond mae'n adlewyrchu effaith bresennol paragraff 1 Atodlen 1B a rheoliad 3. Yr unig newid yw statws y ddarpariaeth i bob adolygiad gael ei gynnal gan bersonau penodedig, sydd wedi'i symud o isddeddfwriaeth i ddeddfwriaeth sylfaenol. Ystyrir bod hyn yn briodol i gyflawni darn mwy cydlynol o ddeddfwriaeth.

*Gan mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am restru adeiladau, mae defnyddio person penodedig mewn adolygiadau o ddynodiadau yn sicrhau rhywfaint o annibyniaeth a thryloywder, ac nid yw'r angen yn debygol o newid yn y dyfodol."*²¹⁰

²⁰⁸ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraff 43

²⁰⁹ Nodiadau'r Drafftwy'r, tudalen 37

²¹⁰ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 44 a 45

Adran 130: Gorchymyn i ganiatáu camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi

272. Mae adran 130 yn caniatáu i berchennog tir wneud cais am orchymyn gan lys ynadon yn ei gwneud yn ofynnol i berson arall a chanddo fuddiant yn y tir ganiatáu i'r perchennog gymryd y camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi. Caiff y llys wneud gorchymyn o'r fath os yw wedi ei fodloni bod y person arall yn atal y perchennog rhag cymryd camau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad gorfodi.

273. Mewn perthynas ag adran 130, mae'r Bil yn hepgor pwerau i gymhwyso adran 289 o *Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936* (Deddf 1936) gydag addasiadau, ac mae'r Bil yn hytrach yn ailddatgan effaith adran 289 fel y'i haddaswyd. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y darpariaethau wedi'u cynnig oherwydd pwysigrwydd y ddarpariaeth a chan nad yw sut y mae adran 289 yn gymwys wedi newid ers amser hir iawn (ers o leiaf Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Adeiladau mewn Ardaloedd Cadwraeth) 1972²¹¹). Dywed Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd fod y newid hwn wedi'i argymhell gan Gomisiwn y Gyfraith ar gyfer y pwerau cyfatebol yn Neddf Cynllunio 1990.²¹²

274. Gofynnwyd am ragor o eglurder ynghylch yr hepgoriadau a'r addasiadau, a gofynnwyd am esboniad pellach ynghylch y penderfyniad i gymhwyso argymhellion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â Deddf Cynllunio 1990 i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Mewn ymateb i hynny, dywedwyd wrthym:

"Mae adran 42(3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn rhoi pŵer i gymhwyso adrannau penodol o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 (Deddf 1936) gydag addasiadau. Gwneir hynny ar hyn o bryd gan reoliad 15 o OS 2012/793. Er mwyn deall y sefyllfa, rhaid i ddarlennydd felly ymgynghori ag adran 42, rheoliad 15 a Deddf 1936. Yn y Bil, mae adran 130 yn ailddatgan effaith y darpariaethau hynny mewn un lle, at ddibenion cyflawni cydgrynhoi boddhaol.

Mae adran 42(4) yn pennu diben penodol y caniateir gwneud addasiadau i adran 289 o Ddeddf 1936 ar ei gyfer. Nid oes unrhyw addasiadau wedi'u gwneud at y diben hwnnw, ac nid yw Cadw wedi nodi unrhyw rai y gallai fod eu hangen. Mae'r pŵer hwnnw felly wedi'i hepgor o'r Bil gan nad oes iddo unrhyw ddefnyddioldeb ymarferol. Dylai Nodiadau'r Drafftwy'r fod wedi dyfynnu RhS 26C.2(iii) ar gyfer yr hepgoriad hwn a chânt eu diweddarau maes o law.

²¹¹ OS 1972/1362

²¹² Nodiadau'r Drafftwy'r, tudalen 53

*Mae adran 178 o Ddeddf Cynllunio 1990 yn cynnwys pwerau unfath. Argymhelliad 18-13 yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith Cyfraith Cynllunio yng Nghymru oedd ailddatgan y darpariaethau hynny mewn deddfwriaeth sylfaenol, ac mae'r un mor berthnasol i adran 42 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990.*²¹³

Adran 132(5): Adennill costau cydymffurfio â hysbysiad gorfodi

275. Mae adran 132 yn darparu ar gyfer adennill oddi wrth unrhyw berchennog gostau y mae awdurdod cynllunio yn mynd iddynt yn rhesymol ar ôl arfer y pwerau yn adran 131 a mynd ar dir a chymryd y camau sy'n ofynnol i gydymffurfio â hysbysiad gorfodi. Mae'r adran hefyd yn caniatáu i'r costau y gellir eu hadennill fod yn bridiant tir lleol hyd nes y cânt eu hadennill (isadrannau (5) a (6)).

276. Dywed Nodiadau'r Drafftwyd fod darpariaeth ar gyfer costau gwaith i fod yn dâl ar y tir wedi'i symud o reoliadau i'r Bil, a bod y pŵer i wneud rheoliadau wedi'i hepgor.²¹⁴

277. I ddechrau, gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol egluro pam mae'r pŵer a oedd yn ddewisol yn flaenorol (ac y gellid ei newid) bellach yn cael ei wneud yn barhaol ar wyneb y Bil, ac am ei farn ynghylch a oedd hyn yn gyfystyr â newid polisi. Dywedwyd wrthym:

*"Nid yw adrannau 132(5) a (6) o'r Bil yn ymwneud â newid polisi. Mae rheoliad 15(2) o OS 2012/793 wedi'i symud i mewn i'r Bil at ddibenion cyflawni cydgrynhoi boddhaol. Mae ymdrin â'r mater hwn mewn deddfwriaeth sylfaenol yn gyson ag adran 55(5C) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, a ailddatganwyd yn adran 146(3) o'r Bil."*²¹⁵

278. Yn flaenorol, gallai rheoliadau ddarparu bod y costau yr eir iddynt am gydymffurfio â hysbysiad gorfodi yn bridiant ar y tir - ond nid oedd rheidrwydd i wneud hynny. O ganlyniad i'r Bil, bydd y ddeddfwriaeth sylfaenol yn dweud yn awr mai pridiant ar y tir fydd y costau yr eir iddynt bob amser, ac nid oes unrhyw bŵer i newid hyn mwyach.

279. O'r herwydd, fe wnaethom wedyn ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion a oeddent yn hyderus nad oes angen cadw'r pŵer i newid y sefyllfa hon. Dywedodd Dr George wrthym:

"As you've said, what we've done is move a provision that is currently in regulations onto the face of the Bill. One of the reasons we did that was just to be more consistent. There are other provisions about recovery of costs

²¹³ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 91 i 93

²¹⁴ Nodiadau'r Drafftwyd, tudalen 53

²¹⁵ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraff 94

being a charge on the land that are on the face of primary legislation already, so we wanted to make it a more consistent position. I think more generally, wherever we've left out a regulation-making power in the Bill, that's on the basis that we concluded with Cadw that we can't foresee any need to make regulations in the future. I don't think there's any significant likelihood of the power being used. We can't be 100 per cent certain that that's going to be the case, but I think the general approach has been that if things are well established and we can't foresee any need for change, then we shouldn't be keeping regulation-making powers just in case some need for them might turn up in the future. (...)

It doesn't change the current law, because the regulations do currently do that."²¹⁶

Darparu pwerau newydd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau

280. Pan roddodd y Cwnsler Cyffredinol dystiolaeth inni am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf fe wnaethom ofyn iddo ble yn y Bil y gallwn ddod o hyd i enghreifftiau o bwerau'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru i newid polisi. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

"...generally, I think the overall effect of this consolidation Bill is that we would be relying on subordinate legislation far less than we actually do now. We have, within the Bill, omitted some powers to make subordinate legislation that wasn't considered necessary, and have moved some important material that's currently in subordinate legislation, as has been said, now onto the face of the Bill. And, again, this is obviously one of those areas that the committee will want to look at, and, of course, there might be changes in the future. So, the Bill does include powers to amend some of the provisions in the future, but they're all subject to the affirmative Senedd procedure, even if the existing regulation-making powers are actually subject to the negative procedure. There's a small number of new regulation-making powers in the Bill: a power in section 2 to bring religious buildings within the definition of monument. That power's been included because the scope of the existing ecclesiastical exemption is not completely clear, so it's in case it's necessary to clarify the exemption in the future. So, there are a number of examples like that, and obviously, as the scrutiny process is under way, I'm happy, if any questions

²¹⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [102] a [104]

are raised, to provide further clarification, if there are any from the committee."²¹⁷

281. Aethom ar drywydd y mater hwn pan wnaethom ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol ar ôl sesiwn dystiolaeth mis Gorffennaf a gofyn iddo gadarnhau a oes pwerau newydd wedi'u cynnwys yn y Bil sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud newidiadau polisi. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

*"Mae yna enghreifftiau...yn y Bil lle mae darpariaeth wedi cael ei symud o is-ddeddfwriaeth i'r Bil ond efallai y bydd rhaid gwneud newidiadau yn y dyfodol. Yn yr achosion hynny, mae'r Bil yn cynnwys pwerau i ddiwygio'r darpariaethau. Un enghraifft yw'r pŵer yn Atodlen 3 o'r Bil i newid categorïau cydsyniadau dosbarth; mae Deddf 1979 yn gadael hyn i is-ddeddfwriaeth yn gyfan gwbl. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn cynnwys rhoi pwerau newydd, maent yn cadw'r hyblygrwydd cyfredol sydd ar gael i Weinidogion Cymru wneud addasiadau i'r system a grëwyd gan y Bil."*²¹⁸

282. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd yr enghraifft a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad mewn perthynas ag adran 2(3) o'r Bil.²¹⁹ Nid yw'r pŵer newydd hwn i wneud rheoliadau yn adran 2(3) wedi'i gyfyngu i ddarparu eglurder. Mae'n bŵer i gymhwyso cyfraith amgylchedd hanesyddol i adeiladau (h.y. adeiladau crefyddol) nad ydynt wedi bod yn ddarostyngedig i gyfraith amgylchedd hanesyddol o'r blaen. Gellir defnyddio'r pŵer hefyd i wneud darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed (darllener gydag adran 209(2)). Dywedwyd wrthym fod angen hyblygrwydd i wneud darpariaeth i sicrhau y gellir parhau i warchod adeiladau y dylid eu diogelu, os yw hynny'n briodol.²²⁰

283. Pan ymddangosodd y Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion ger ein bron ar 14 Tachwedd, gofynnwyd eto am gadarnhad bod ein dealltwriaeth o effaith y pŵer newydd yn gywir, a pham ei fod yn gyfystyr â newid bach. Dywedodd Dr George wrthym:

"Yes, this picks up on the answer to the last question, really. We didn't want to keep the doubt about what 'ecclesiastical' meant, so we've adopted a reference to 'religious buildings used for religious purposes', but the effect of that is, potentially, that it has a slightly wider meaning than the current provision. Now, I think Cadw's intention is not to change the policy on this at

²¹⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [121]

²¹⁸ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Awst 2022, paragraff 27

²¹⁹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Awst 2022, paragraffau 24 i 26

²²⁰ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraff 4

all, but the regulation-making power there is in there in case any adjustments are needed in the future. So, if it turned out that, actually, we did need to deal slightly differently with different religious denominations, for example, then the regulation-making power would allow that to be done."²²¹

284. Pan ysgrifennodd y Pwyllgor at y Cwnsler Cyffredinol ym mis Medi, fe wnaethom nodi ei bod yn aneglur inni faint o bwerau dirprwyedig newydd sydd yn y Bil, a gofynnwyd am eglurder a chadarnhad. Mewn ymateb i hynny, dywedwyd wrthym, yn y rhan fwyaf o achosion, nad yw'r pwerau dirprwyedig yn y Bil yn newydd, ond eu bod yn deillio o ddeddfwriaeth bresennol. Dywedwyd wrthym hefyd:

"Mewn rhai achosion, mae cymeriad pwerau dirprwyedig presennol wedi cael ei newid, er enghraifft o gyfarwyddiadau i reoliadau, ond nid ydynt yn bwerau newydd (gweler yr ymateb i gwestiynau 29 i 31). Mewn achosion eraill, mae pwerau dirprwyedig wedi'u newid, wedi'u culhau'n aml, i adlewyrchu bod y darpariaethau bellach wedi'u hymgorffori yn y Bil, yn hytrach na'u gadael i isddeddfwriaeth.

Mae pŵer dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru wedi'i nodi yn y Bil yn adran 2(3); mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru eithrio adeiladau penodedig rhag eithriad cyffredinol i adeiladau crefyddol a ddefnyddir yn grefyddol o'u rhestru (gweler yr ymateb i gwestiwn 1).

Nid oes unrhyw bwerau dirprwyedig newydd wedi'u nodi yn y Bil ar gyfer unrhyw gyrff cyhoeddus eraill. Mewn rhai achosion, mae pwerau gwneud rheoliadau ar gyfer awdurdodau lleol (gan gynnwys awdurdodau Parciau Cenedlaethol) wedi'u newid i bwerau creu isddeddfau."²²²

285. Fe wnaethom hefyd holi'n benodol am bwerau yn adrannau 105, 161, 163 a 209.

286. O ran adran 105(3), dywed Nodiadau'r Drafftwyd fod pŵer cyfredol i reoliadau ei gwneud yn ofynnol i geisiadau gael eu gwneud i Weinidogion Cymru yn cael eu hymestyn i geisiadau gan y Goron, a bod pŵer i ddarparu ar gyfer cyflwyno hysbysiadau gan Weinidogion yn cael ei hepgor.²²³ Gofynnwyd am gadarnhad bod hwn yn estyniad o bŵer dirprwyedig, ac eglurhad pellach ynghylch sut y mae Rheolau Sefydlog 26C.2(ii), (iii) a (iv) ill dau yn berthnasol i'r ddarpariaeth. Dywedwyd wrthym:

²²¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [41]

²²² Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 159 i 161

²²³ Nodiadau'r Drafftwyd, tudalen 44

"Nid yw adran 105(3) o'r Bil yn rhoi pŵer newydd i Weinidogion Cymru nad oes ganddynt o dan adran 82F o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Ond pe bai adran 105(3) yn datgan ei bod yn gymwys i geisiadau gan awdurdodau cynllunio yn unig, byddai hynny'n gamarweiniol gan y gallai awgrymu bod y pŵer o adran 82F yn cael ei gyfyngu (...)

*O ystyried ymhellach, nid ydym o'r farn bod angen dibynnu ar RhS 26C.2(iv) ar gyfer y naill na'r llall o'r newidiadau hyn. Bydd Nodiadau'r Drafftwy'r yn cael eu diweddarau maes o law i hepgor y cyfeiriad at baragraff (iv)."*²²⁴

287. Yn adran 161(2)(c) a (d) o'r Bil, mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud cyfarwyddyd ynghylch esemptio adeiladau o'r gofyniad am gydsyniad wedi'i gyfyngu i achosion sy'n ymwneud ag awdurdodau cynllunio unigol, a'i ddisodli gan bŵer i wneud rheoliadau (yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, drwy adran 209(5)(h)) sy'n rhoi esemptiadau sy'n gymwys yn gyffredinol. Dywed Nodiadau'r Drafftwy'r fod rheoliadau'n cael eu hystyried yn fwy priodol ar gyfer gwneud esemptiadau cyffredinol o ystyried eu heffaith bosibl ar gwmpas y gyfundrefn cydsyniad ardal gadwraeth.²²⁵ Gofynnwyd am esboniad pellach ynghylch y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iv) a gofynnwyd pam yr ystyrir bod rheoliadau yn fwy priodol na phŵer cyffredinol i roi cyfarwyddyd. Mewn ymateb i hynny dywedwyd wrthym:

*"I'r graddau y mae'r pŵer cyfarwyddo presennol yn galluogi gwneud darpariaeth a fydd i bob pwrpas yn newid y drefn ardaloedd cadwraeth ledled Cymru, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn fwy priodol i hynny fod yn destun craffu gan y Senedd. Mae adran 161 yn darparu bod yn rhaid i'r pŵer gael ei arfer yn awr drwy reoliadau. Mae hwn yn newid i'r gyfraith bresennol: mae adran 75(1)(d), (2) a (3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud cyfarwyddiadau cyffredinol (nid rheoliadau). Rydym o'r farn bod hyn yn briodol at ddibenion cyflawni cydgrynhoi boddhaol."*²²⁶

288. Mae adran 163 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chymhwyso Rhan 3 o'r Bil i ardaloedd cadwraeth. Mae adran 163(3) yn rhoi pŵer newydd Harri VIII i Weinidogion Cymru ddiwygio adran 163 i wneud darpariaeth ychwanegol neu wahanol ynghylch cymhwyso Penodau 2, 4 a 6 o Ran 3 mewn perthynas ag adeiladau y mae adran 161 yn gymwys iddynt.

²²⁴ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 75 a 77

²²⁵ Nodiadau'r Drafftwy'r, tudalen 62

²²⁶ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraff 126

289. Dywed Nodiadau'r Drafftwyf fod addasiadau i ddarpariaethau yn Rhan 3 o'r Bil fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chydysyniad ardal gadwraeth wedi'u symud o reoliadau i'r Bil.²²⁷

290. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion wrthym:

"Mae symud addasiadau i ddarpariaethau fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chaniatâd ardal gadwraeth o reoliadau i ddeddfwriaeth sylfaenol yn fân newid i'r gyfraith bresennol; rydym yn ailddatgan addasiadau sydd eisoes wedi'u gwneud. Ond credwn fod y newid hwn yn gwella hygyrchedd yn sylweddol. Mae'r ffaith bod llawer o ddarpariaethau adeiladau rhestredig yn gymwys ar ffurf addasedig i ardaloedd cadwraeth yn fater pwysig, ac mae'n fwy hygyrch i gael yr addasiadau a nodir yn yr ardal gadwraeth yn rhan o'r ddeddfwriaeth sylfaenol na gorfodi darllenwyr i leoli'r addasiadau hynny mewn rheoliadau ar wahân.

*Mae'r newid i weithdrefn gymwys y Senedd yn ganlyniad i symud yr addasiadau presennol i ddeddfwriaeth sylfaenol: er mwyn cadw pŵer Gweinidogion Cymru i wneud addasiadau yn y dyfodol, mae angen darparu pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol."*²²⁸

291. Mae adran 209(2)(b) yn cynnwys y pwerau datganedig i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ategol mewn perthynas â'r holl bwerau i wneud rheoliadau yn y Bil. Mae isadran (2)(b) yn darparu bod pŵer i wneud rheoliadau o dan y Bil yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

292. Dywed Nodiadau'r Drafftwyf fod hyn yn sicrhau bod pwerau i wneud darpariaeth ategol yn cael eu cynnwys gyfer pob pŵer o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 a Deddf Cynllunio 1990 ac er y gall y pwerau hyn fod yn ymhlyg yn gyffredinol, bod y newid yn sicrhau cysondeb.²²⁹ Mae Nodiadau'r Drafftwyf hefyd yn datgan "Byddai cymal 112 o'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio a gyflwynwyd yn Senedd y Deyrnas Unedig ar 11 Mai 2022 yn diwygio'r ddwy Ddeddf i gynnwys pwerau ategol penodol, ond nid yw'r newid hwn yn dibynnu ar basio'r Bil hwnnw".²³⁰

²²⁷ Nodiadau'r Drafftwyf, tudalen 63

²²⁸ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 127 a 128

²²⁹ Nodiadau'r Drafftwyf, tudalen 82

²³⁰ Nodiadau'r Drafftwyf, tudalen 82

293. Gofynnwyd am gadarnhad bod y ddarpariaeth hon yn cynnwys creu pwerau dirprwyedig ehangach i Weinidogion Cymru, yn enwedig o ran y pŵer 'atodol' ychwanegol. Dywedwyd wrthym:

"Nid yw Deddf Cynllunio 1990 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol sy'n rhoi pwerau penodol i orchmynion a rheoliadau wneud darpariaeth ategol, ond mae pwerau o'r fath wedi'u cynnwys mewn rhai adrannau. Mae arfer drafftio modern yn nodi bod pwerau i wneud isddeddfwriaeth yn cynnwys pwerau i wneud darpariaeth ategol, er ei bod wedi'i hen sefydlu hyd yn oed yn absenoldeb darpariaeth o'r fath y gellir awgrymu pwerau ategol lle mae eu hangen: gweler Twrnai Cyffredinol v Great Eastern Rly Co (1880) 5 Ap Cas 473. Yn unol â hynny, gall isddeddfwriaeth o dan Ddeddfau 1990 wneud darpariaeth ganlyniadol, gysylltiedig ac atodol lle bo'n briodol neu'n angenrheidiol.

*Mae cynnwys pwerau atodol datganedig yn adran 209(2)(b) o'r Bil yn egluro bod y pwerau hynny ar gael ac yn osgoi'r angen i ddibynnu ar bwerau ymhlyg. (Yn yr un modd, mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio yn datgan mai diben mewnosod pwerau ategol datganedig yn Neddfau 1990 yw 'i wneud y sefyllfa gyfreithiol yn glir ac yn ddiamwys'.) Byddai'n gamarweiniol ac nid yw o gymorth i adran 209 i ddarparu mai dim ond rhai pwerau yn y Bil oedd yn cynnwys pwerau ategol, gan y gallai hynny awgrymu bod pwerau ategol ar gael mewn rhai achosion ond nid mewn eraill."*²³¹

Ein barn ni

294. Mae ein hystyriaeth a'r drafodaeth uchod, gan gynnwys ar adrannau penodol o'r Bil, yn ein harwain at y casgliadau a'r argymhellion a ganlyn.

Casgliad 3. Rydym yn fodlon yn gyffredinol bod y Bil yn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol yn gywir, neu'n newid ei effaith gyfreithiol o ran sylwedd yn gywir, dim ond i'r graddau a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2.

295. Rydym yn tynnu sylw uchod at y ffaith bod Rheol Sefydlog 26C.2(ii) yn datgan y gall Bil Cydgrynhoi egluro sut y cymhwysir y gyfraith bresennol neu ei heffaith.

²³¹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraffau 157 a 158

296. Yn gyffredinol, un enghraifft o'r hyn y mae'r Bil yn ei wneud yn hyn o beth yw cynnwys cyfraith gyffredin (neu gyfraith achos) yn yr ymarfer cydgrynhoi (fel y caniateir gan Reol Sefydlog 26C.1). Nodwn yr hyn a ddywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion wrthym ar y mater hwn.

297. Fel y nodir yn adran gyntaf y Bennod hon, fe wnaethom ganolbwyntio ar sawl darpariaeth yn y Bil, a materion sy'n berthnasol iddo, er mwyn egluro cymhwysiad neu effaith y gyfraith bresennol.

298. O ran 'diogelu' o gymharu â 'cadwraeth', rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan rai rhanddeiliaid, ac yn croesawu'r ffaith eu bod wedi tynnu ein sylw atynt. Rydym hefyd yn croesawu'r esboniadau manwl a thrylwyr a ddarparwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd. Yn benodol, nodwn, wrth ddrafftio'r Bil, fod arferion a chyfraith achosion wedi'u hystyried. At hynny, nodwn hefyd fod y canllawiau ategol presennol yn amlinellu sut y gellir sicrhau bod arwyddocâd asedau hanesyddol yn cael eu diogelu drwy gadwraeth, ac y bydd hyn yn cael ei ailddatgan (pe bai'r Bil hwn yn mynd yn ei flaen) o fewn y canllawiau a'r cyngor cynllunio perthnasol.

299. O ran adran 76(5) (sy'n ymwneud â'r ddyletswydd i gynnal a chyhoeddi rhestr o adeiladau) unwaith eto rydym yn gwerthfawrogi mewnbwn gan randdeiliaid o ran tynnu ein sylw at broblem bosibl. Rydym yn cydnabod ymrwymiad y Cwnsler Cyffredinol i edrych eto ar y ddarpariaeth hon gyda'r nod o gyflwyno gwelliant (pe bai'r Bil yn mynd yn ei flaen) i fewnosod y gair 'ategol' yn adran 76.

300. Yn yr un modd, o ran adran 97(5) (sy'n ymwneud â'r pŵer i roi caniatâd yn ddarostyngedig i amodau), rydym yn cydnabod ymhellach y bydd y Cwnsler Cyffredinol hefyd yn edrych eto ar y ddarpariaeth hon gyda'r nod o gynnig gwelliannau i'r Bil (pe bai'n mynd yn ei flaen) i liniaru yn erbyn y posibilrwydd o wrthdaro ag arferion cynllunio cyfredol neu eu dyblygu fel yr amlygwyd gan randdeiliaid.

301. Yn unol â Rheol Sefydlog 26C, mae'r broses gydgrynhoi hefyd wedi cynnwys dileu neu hepgor darpariaethau o'r ddeddfwriaeth bresennol lle y maent, ym marn Llywodraeth Cymru, yn anarferedig, yn ddarfodedig neu nad ydynt bellach yn ymarferol ddefnyddiol neu'n ymarferol effeithiol.

302. Rydym yn cydnabod, yn unol â Rheol Sefydlog 26C.2(iii), bod Llywodraeth Cymru yn ildio rhai pwerau gwneud rheoliadau sydd ganddi ar hyn o bryd. Rydym yn cydnabod mai Llywodraeth Cymru sy'n ysgwyddo'r risg o wneud hyn. Yn ystod ein gwaith craffu, ceisiwyd sicrhau bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth briodol ac wedi dilyn proses briodol wrth

wneud penderfyniadau o'r fath. Serch hynny, ar adeg pan fo pryderon wedi'u codi ar draws y seneddau ynghylch cydbwysedd y pŵer yn gwro'n anffafriol tuag at lywodraethau ac oddi wrth ddeddfwrfeydd, rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi nodi'r hyn y mae'n ei ystyried yn bwerau gweithredol diangen.

303. Dywed Rheol Sefydlog 26C.2(iv) y caiff Bil Cydgrynhoi wneud mân newidiadau i'r gyfraith bresennol at ddibenion sicrhau bod y gwaith o gydgrynhoi'r gyfraith yn foddhaol.

304. Unwaith eto, fe wnaethom ganolbwyntio ar sawl darpariaeth yn y Bil sy'n ceisio gwneud newidiadau yn unol â'r Rheol Sefydlog hon, a materion sy'n berthnasol iddo.

305. O ran Atodlen 7, fe wnaethom dynnu sylw'r Cwnsler Cyffredinol at broblem bosibl ynghylch effaith paragraff 2 o Atodlen 7 o ystyried bod adrannau 79(2) ac 83(4) o'r Bil yn eithrio'n benodol y modd y cymhwysir y drosedd adran 118 mewn perthynas ag adeiladau sy'n destun gwarchodaeth interim neu restru dros dro.

306. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol, bod gwall yn y Bil ac na ddylai paragraff 2 o Atodlen 7 sôn am atebolrwydd o dan adran 118, oherwydd nid yw adran 118 yn berthnasol i adeilad sy'n destun gwarchodaeth interim neu restru dros dro. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Cwnsler Cyffredinol i fynd i'r afael â'r mater yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor (os bydd y Bil yn symud ymlaen i'r pwynt hwnnw).

307. Fel y nodwyd yn gynharach yn y Bennod, mae Atodlen 8 i'r Bil yn ymdrin â gweithdrefnau ar gyfer gorchmynion sy'n addasu neu'n dirymu cydsyniad adeilad rhestredig, ac mae Atodlen 10 yn ymdrin â gweithdrefnau ar gyfer gorchmynion terfynu cytundebau partneriaeth adeilad rhestredig. Cawsom dystiolaeth yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Bil i wneud newidiadau i'r gyfraith bresennol fel bod y gallu i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig, yn y ddwy Atodlen, yn cael ei ddarparu fel opsiwn yn ogystal â gwrandawadau personol.

308. Er ein bod yn nodi bod y Cwnsler Cyffredinol yn cefnogi'r awgrym, mae'r Cwnsler Cyffredinol ei hun yn cydnabod y byddai'n newid o'r sefyllfa gyfreithiol bresennol ac yn un y gallai rhai ei ystyried yn fwy na newid technegol bach. O ystyried mai dim ond gan un rhanddeiliad y clywsom yr awgrym hwn, nid ydym yn ystyried ei bod yn briodol inni roi barn na gwneud argymhelliad y dylid mynd ar drywydd gwelliannau o'r fath.

Argymhelliad 7. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol a Llywodraeth Cymru adolygu'r gweithdrefnau a nodir yn Atodlenni 8 a 10 i'r Bil ac asesu a yw'r sylfaen dystiolaeth yn cefnogi newid yn y gyfraith i ganiatáu ar gyfer sylwadau ysgrifenedig yn lle gwrandawadau personol ac, os felly, dylid ystyried y ffordd fwyaf priodol i gyflawni'r amcan hwn.

309. Rydym wedi dod i gasgliad tebyg o ran adran 147 o'r Bil sy'n ymwneud â chatau ar gyfer diogelu adeiladau rhestredig sydd mewn cyflwr gwael. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth a gawsom y dylid dileu'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer hysbysiadau cadw o'r Bil. Ymhellach, nodwn dystiolaeth y Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion ar y mater hwn. Fodd bynnag, nid ydym eto o'r farn ei bod yn briodol inni roi barn gadarn na gwneud argymhelliad ar sail y dystiolaeth gyfyngedig iawn a gawsom a heb i'r mater fod yn destun proses graffu fanylach.

310. O ystyried ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymwybodol ers peth amser o'r canlyniadau anfwriadol posibl sy'n gysylltiedig â chyflwyno hysbysiadau diogelu, nid yw'n glir inni pam na wnaethpwyd gwaith i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Bil hwn gan y byddai wedi bod yn ffordd agored a thryloyw o fynd i'r afael â'r mater hwn.

Argymhelliad 8. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol a Llywodraeth Cymru adolygu'r gyfraith bresennol ac asesu'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi newid yn y gyfraith fel bod darpariaeth ar gyfer hysbysiadau diogelu yn cael ei dileu, a dylai ystyried y ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r amcan hwn.

311. Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi tynnu sylw at nifer o feysydd ble y mae'n bwriadu cyflwyno gwelliannau i fynd i'r afael â materion a nodwyd yn ystod ein Hystyriaeth Gychwynnol, pe bai'r Bil yn mynd ymlaen i'r camau cyflwyno gwelliannau.

312. Rydym yn ymwybodol bod Rheol Sefydlog 26C.82 yn nodi'r meini prawf derbynioldeb ar gyfer gwelliannau i Filiau Cydgrynhoi ac yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw welliannau o'r fath fod, ymhlith pethau eraill, yn berthnasol i'r Bil Cydgrynhoi neu ddarpariaethau'r Bil Cydgrynhoi y byddai'n eu diwygio. Ni ddylai gwelliannau o'r fath ychwaith beri i'r Bil beidio â bod yn Fil Cydgrynhoi.

Argymhelliad 9. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol, wrth gyflwyno gwelliannau i'r Bil, roi esboniad llawn a manwl ynghylch sut, yn ei farn ef, y mae pob gwelliant yn bodloni'r meini prawf a nodir yn Rheol Sefydlog 26C.82.

313. Dylai argymhelliad 9 fod yn berthnasol i bob Bil Cydgrynhoi a gyflwynir yn y Senedd yn y dyfodol.

314. Mae Rheol Sefydlog 26C yn caniatáu i Filiau Cydgrynhoi gynnwys darpariaethau sy'n newid gweithdrefnau craffu ar is-ddeddfwriaeth a nodir eisoes yn y gyfraith bresennol, sy'n symud darpariaethau rhwng is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth sylfaenol, ac sy'n creu pwerau gwneud rheoliadau newydd ar gyfer Gweinidogion Cymru.

315. Rydym yn cydnabod y newidiadau sy'n cael eu gwneud i weithdrefnau craffu ar is-ddeddfwriaeth drwy'r Bil, a symud rhai darpariaethau presennol o is-ddeddfwriaeth i ddeddfwriaeth sylfaenol ac i'r gwrthwyneb.

316. Rydym yn dymuno gwneud sylwadau'n benodol ynglŷn â chreu o fewn y Bil nifer o bwerau newydd i wneud rheoliadau.

317. Fe wnaethom dynnu sylw yn gynharach yn yr Adroddiad at y ffaith bod pŵer gwneud rheoliadau newydd yn adran 2(3) o'r Bil nad yw wedi'i gyfyngu i ddarparu eglurder yn unig. Mae'n bŵer i gymhwyso cyfraith amgylchedd hanesyddol i adeiladau (h.y. adeiladau crefyddol) nad ydynt wedi bod yn ddarostyngedig i gyfraith amgylchedd hanesyddol o'r blaen.

318. Ym Mhennod 4, fe wnaethom dynnu sylw at esboniad Llywodraeth Cymru bod adran 2(3) o'r Bil yn ailddatgan adran 61(8) o Ddeddf 1979 yn y ffordd y mae'n ystyried sydd fwyaf tebygol o gydymffurfio â hawliau dynol a bod y pŵer i wneud rheoliadau yn berthnasol er mwyn sicrhau y gellir nodi eithriadau i'r sefyllfa gyffredinol.

319. Er ein bod yn cydnabod y dystiolaeth a roddwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion mewn perthynas ag adran 2(3), credwn fod angen mwy o eglurder ynghylch y pŵer i wneud rheoliadau.

Argymhelliad 10. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol egluro, cyn y ddadl berthnasol yn y Senedd ynghylch a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi, a fyddai adran 2(3) o'r Bil yn dal i gydymffurfio â hawliau dynol heb y pŵer newydd i wneud rheoliadau ac a fyddai cynnwys pŵer sy'n caniatáu i eithriadau i'r sefyllfa gyffredinol gael eu pennu gan reoliadau yn gyfystyr â newid bach i'r gyfraith bresennol.

320. Rydym yn cydnabod ac yn dymuno tynnu sylw at y ffaith bod adrannau 81 a 163 o'r Bil (sy'n ymdrin ag adolygu penderfyniadau i restru adeiladau a chymhwyso Rhan 3 o'r Bil i ardaloedd cadwraeth, yn y drefn honno) ill dau yn cynnwys pwerau newydd Harri VIII i wneud rheoliadau. Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion ar y ddau fater hyn.

321. Yn olaf, ac o ran adran 105(3), rydym yn cydnabod y bydd Llywodraeth Cymru yn diweddarau Nodiadau'r Drafftwy'r i gadarnhau ei safbwynt diwygiedig nad yw bellach yn credu bod angen dibynnu ar Reol Sefydlog 26C.2(iv) ar gyfer yr un o'r newidiadau a wneir yn yr adran hon o'r Bil.

6. A yw'r Bil yn cydgrynhoi'r gyfraith yn glir ac yn gyson?

Yn unol â Rheol Sefydlog 26C.17(iv) mae ein hystyriaeth o'r Bil wedi cynnwys asesu a yw'n cydgrynhoi deddfwriaeth bresennol yn glir ac yn gyson.

Cyffredinol

322. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio llyfr statud y DU fel un "anhrefnus" ac "enfawr a gwasgaredig", gan nodi bod haenau o ddeddfwriaeth yn gwneud "y sefyllfa o ran deddfwriaeth yn anodd i ddefnyddwyr".²³²

323. Fel yr amlygwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai amcan y Bil cydgrynhoi hwn yw:

*"...ei gwneud yn haws deall a dod o hyd i ddeddfwriaeth ar yr amgylchedd hanesyddol, drwy ddarparu un Ddeddf fodern, ddwyieithog i Gymru. Bydd hynny'n fodd i hyrwyddo cysondeb o ran iaith a ffurf y ddeddfwriaeth, gan helpu i warchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn effeithiol."*²³³

324. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn datgan, wrth baratoi'r Bil,

"...gwnaed pob ymdrech i fynegi cysyniadau cyfreithiol mewn iaith sy'n ddealladwy ac yn hygyrch, ac sy'n adlewyrchu'r arferion cyfredol – o ran drafftio ac o ran gweithredu'r gyfraith. Mae'r dasg honno wedi bod yn gryn her ar adegau ac aed ati i ddisodli rhai termau a oedd wedi hen ennill eu plwyf. Er enghraifft, cyflwynwyd y term - 16 - 'ancient monument' yn y darn cyntaf o ddeddfwriaeth y DU ar yr amgylchedd hanesyddol: Deddf Gwarchod Henebion 1882. Roedd y term hwnnw'n cael ei ddefnyddio'n bennaf i ddisgrifio detholiad bach o henebion cynhanesyddol a oedd yn cael eu gwarchod gan y Ddeddf honno, felly roedd yn un priodol i'w ddefnyddio bryd hynny. Ond mewn Deddfau dilynol, daeth i olygu henebion o unrhyw gyfnod, o'r cyfnod cynhanesyddol pell i gyfnod y Rhyfel Oer. O'r herwydd, nid yw'n

²³² Memorandwm Esboniadol, paragraff 10

²³³ Memorandwm Esboniadol, paragraff 22

gwbl gywir ac, mewn ambell achos, mae'n gamarweiniol; mae'r Bil, felly, yn disodli'r term hwnnw, gan ddefnyddio'r label fwy manwl ac eglurhaol 'heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig' yn ei le."²³⁴

325. Ym mis Gorffennaf fe wnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol egluro beth oedd ystyr y datganiad yn y Memorandwm Esboniadol fod mynegi cysyniadau cyfreithiol mewn iaith ddealladwy a hygyrch wedi bod yn dasg heriol. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym

"...there have been quite a number of challenges, particularly when you come across provisions that are in some of the principal Acts that are relatively rarely used. (...)

I know one of the examples was the use of the term 'owner' in legislation. In litigation, the legislation frequently doesn't make clear whether references mean any owner or every owner, and it can be quite significant. One of the unique parts, again, about this process is the drafters' notes, which set out, or try to establish, a clear and consistent practice in the Bill. So, for example, notices will be served on every owner, but the opportunities to exercise rights when making representations will be available to any owner."²³⁵

326. Ychwanegodd Dr George:

"In this exercise, we've had to look at all of the law on the subject, including all the bits that are very rarely used because they're only there just in case, or they deal with some quite obscure situation. Those are pieces that the lawyers and officials who deal with the areas have far less experience of, and far less knowledge, perhaps, of what was originally intended, especially when we're looking at things that are extremely old. I think that's partly why it's become challenging. For anything that's not at all clear, the exercise of trying to work out what was intended and how the legislation has evolved through multiple consolidations—because most of this has already been consolidated before—has involved quite a lot of digging and working out what words that have been in law for a long time actually mean."²³⁶

327. Yn Nodiadau'r Drafftwy'r sy'n cyd-fynd â'r Bil, mae Llywodraeth Cymru yn datgan:

²³⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraff 27

²³⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [67] i [68]

²³⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [70]

*"Mae'r Bil yn defnyddio nifer o'r un termau â'r ddeddfwriaeth y mae'n ei chydgrynhoi, ac yn benodol mae'n parhau i gyfeirio at henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. Fodd bynnag, mae'n rhoi rhai termau newydd yn lle rhai termau arwyddocaol sy'n cael eu defnyddio yn y ddeddfwriaeth bresennol. Nid yw'r newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith o sylwedd a'r bwriad yw sicrhau bod y derminoleg yn fwy cywir neu ddefnyddiol."*²³⁷

328. Yn Nodiadau'r Drafftwy'r, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn tynnu sylw at y newidiadau sydd wedi'u gwneud drwy'r Bil cyfan o ran:

- perchnogion a meddianwyr tir;
- "am y tro";
- "hwylus" a "priodol";
- "yn ddarostyngedig i" a "heb leihau effaith";
- hawliadau am ddigollediad.²³⁸

329. Mewn perthynas â "hwylus" a "priodol", dywed Nodiadau'r Drafftwy'r:

*"Mae'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi yn rhoi nifer o bwerau a dyletswyddau ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol. Mewn rhai achosion, mae darpariaethau yn galluogi Gweinidogion neu awdurdodau i wneud rhywbeth, neu'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud rhywbeth, pan fônt yn ystyried ei bod yn hwylus ('expedient') neu'n briodol ('appropriate') gwneud hynny. Mae'r ddau air yn cael yr un effaith, ac yn y rhan fwyaf o achosion nid ydynt yn ychwanegu dim at ofynion cyffredinol cyfraith weinyddol i awdurdodau cyhoeddus weithredu yn rhesymol a chan roi sylw i ystyriaethau perthnasol, gan y byddai'n afresymol i awdurdod gymryd camau yr oedd yn eu hystyried yn 'anhwylus' neu'n 'amhriodol'. Hepgorwyd y rhan fwyaf o'r cyfeiriadau at yr hyn sy'n 'hwylus' neu'n 'briodol' felly, ond cadwyd ambell un pan fo'n ymddangos eu bod yn ychwanegu rhywbeth neu pan na fyddai'r darpariaethau yn gwneud synnwyr hebddynt."*²³⁹

²³⁷ Nodiadau'r Drafftwy'r, paragraff 22

²³⁸ Nodiadau'r Drafftwy'r, paragraff 24 i 31

²³⁹ Nodiadau'r Drafftwy'r, paragraff 28

330. Mae Biliau diweddar sy'n diwygio'r gyfraith a gyflwynwyd i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 26 yn cynnwys y geiriau hyn. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol felly roi rhagor o eglurder ynghylch y dull a fabwysiadwyd. Cynigiodd y Cwnsler Cyffredinol esboniad trylwyr yn ei lythyr dyddiedig 17 Awst a dywedodd fod rhai cyfeiriadau at yr hyn y mae awdurdod yn ei ystyried yn "briodol" wedi'u cadw yn y Bil lle mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen y cyfeiriadau oherwydd na fyddai'r darpariaethau dan sylw yn gweithio hebddynt, neu y byddent yn aneglur hebddynt. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn adolygu'r cyfeiriadau hyn.²⁴⁰

331. Yn ystod ei ymddangosiad olaf ger ein bron fe wnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a yw'r adolygiad wedi gwneud i Lywodraeth Cymru ddymuno newid unrhyw un o'r cyfeiriadau presennol at y gair "priodol" yn y Bil. Fe wnaethom hefyd ddarparu dwy enghraifft yn y Bil – yn adran 148(6) ac adran 180(5)(a) – a gofyn pam yr oedd angen cynnwys y gair "priodol" yn yr achosion hyn. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym, yn dilyn adolygiad, fod nifer o gyfeiriadau y gellid o bosibl eu dileu pe bai'r Bil yn mynd rhagddo.²⁴¹ Dywedodd hefyd:

*"I'll give one example of that. Section 192(2) of the Bill requires Welsh Ministers to decide whether it would be appropriate for an entry in the register of historic parks and gardens to include any adjoining buildings, water or land, et cetera. I think the analysis is, really, there's no practical difference between requiring Ministers to decide whether it would be appropriate to include something in a register, and then simply requiring them to decide whether or not they would actually include it. So, removing the reference 'it would be appropriate' would probably achieve the same thing. This is something that I'd like to return to later on in the detailed committee consideration stage."*²⁴²

332. Ychwanegodd Dr George:

"...having counted up, there are about 60 examples of 'appropriate' still in the Bill, because we think they are helpful in some way.

On the examples you mentioned: in section 148 about loans, the reference to an authority being able to make a grant on any conditions it thinks appropriate is really to indicate that it's meant to be a very wide power. And it also introduces a specific example about conditions to do with public

²⁴⁰ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Awst 2022, paragraffau 34 i 38

²⁴¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [17]

²⁴² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [18]

access, which is something that perhaps you might not expect, unless it was mentioned.

*In section 180, the thing about the appropriate proportion of costs is because if you've got somebody like a planning inspector working on an inquiry, there's a standard daily amount per day, and the reference to the appropriate portion is just saying that if somebody works for less than a whole day, they get an appropriate proportion of that standard amount. It is really just to indicate that it's meant to be a reasonable proportion that has some connection to how much work they've done. We just thought, in that context, it was helpful to keep in the words and give that flavour, rather than going into a lot of detail about how you would work out what to pay them."*²⁴³

Effaith Deddf Dehongli 1978 a Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ar y Bil

333. Fel y nodir yn Nodiadau'r Drafftwy, mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn nodi darpariaethau dehongli cyffredinol sy'n gymwys i Ddeddfau'r Senedd a ddeddfwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2020, ac a fydd felly'n gymwys i'r Bil hwn. Mae Nodiadau'r Drafftwy yn amlygu sut y mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn wahanol mewn rhai ffyrdd i *Ddeddf Dehongli 1978* (Deddf 1978), sy'n berthnasol i bron yr holl ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi (ac eithrio rhai darpariaethau a gymerwyd o is-ddeddfwriaeth ddiweddar). Er enghraifft, mae Nodiadau'r Drafftwy yn amlinellu sut y mae'r rhestrau o ddiffiniadau a gymhwysir yn gyffredinol yn Atodlen 1 i bob Deddf ddehongli ychydig yn wahanol "sy'n golygu nad oes angen diffinio yn y Bil hwn rai o'r termau a ddiffinnir yn y Deddfau presennol a bod angen diffinio yn y Bil hwn dermau eraill nad ydynt wedi eu diffinio yn y Deddfau presennol". Yn ôl Nodiadau'r Drafftwy mae'r Bil wedi'i ddrafftio i ystyried y gwahaniaethau hyn.²⁴⁴

334. Mae Nodiadau'r Drafftwy hefyd yn nodi sut y mae cymhwyso i'r Goron yn wahanol rhwng Deddfau 1978 a 2019, ac yn amlygu sut y deddfwyd y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi yn y Bil yng nghyd-destun y rhagdybiaeth o dan y gyfraith gyffredin nad yw deddfwriaeth yn rhwymo'r Goron. Dywed Nodiadau'r Drafftwy:

"Nid yw Deddf 1979 yn rhwymo'r Goron yn gyffredinol, er ei bod yn gwneud rhai addasiadau i'r sefyllfa ddiofyn. Mae Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn

²⁴³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [20] i [22]

²⁴⁴ Nodiadau'r Drafftwy, paragraff 14

rhwymo'r Goron yn gyffredinol, yn ddarostyngedig i eithriadau ac addasiadau penodol, o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed gan Ddeddf 2004.

Gwrthdrowyd y sefyllfa ddiofyn ar gyfer Deddfau gan Senedd Cymru o ran cymhwyso i'r Goron gan adrannau 4 ac 28 o'r Ddeddf Deddfwriaeth, drwy ddarparu bod y Deddfau hynny yn rhwymo'r Goron oni bai y gwneir darpariaeth benodol i'r gwrthwyneb. Mae adran 28(3) o'r Ddeddf Deddfwriaeth yn ei gwneud yn eglur nad yw'r newid hwn yn gosod atebolrwydd troseddol ar y Goron. Mae'r newid yn gymwys i Ddeddfau sy'n cael y Cydsyniad Brenhinol ar neu ar ôl 1 Ionawr 2020."²⁴⁵

335. Yn ddiweddarach, mae Nodiadau'r Drafftwyd yn nodi:

"Mae'r Bil hwn wedi ei ddrafftio i fod yn gymwys i'r Goron i'r un graddau â'r deddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi, ond mae rhai o'r darpariaethau sy'n ofynnol i gyflawni'r canlyniad hwnnw bellach yn wahanol o ganlyniad i'r newid yn y sefyllfa ddiofyn. Er enghraifft, ar y cyfan nid ailddatgenir adran 82A(1) a (2) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, sy'n darparu bod y Goron yn cael ei rhwymo gan ddarpariaethau'r Ddeddf honno ac eithrio'r adrannau sy'n creu troseddau, oherwydd y cyflawnir yr un canlyniad eisoes gan adran 28 o'r Ddeddf Deddfwriaeth."²⁴⁶

336. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a fyddai'n rhoi rhagor o fanylion am effaith Deddfau 1978 a 2019 ar y Bil. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol y bydd y Bil yn destun "destun darpariaethau dehongli ychydig yn wahanol gan bron bob deddfwriaeth y mae'n ei chydgrynhoi".²⁴⁷ Ychwanegodd:

*"Mae prif oblygiadau'r newid hwn wedi'u disgrifio ym mharagraffau 14 i 17 o Nodiadau'r Drafftwyd, a rhoir enghreifftiau penodol yn y cofnodion ar gyfer adrannau 2, 3, 74, 160, 161 a 205 o'r Bil a'r cofnod ar gyfer hepgor adran 91(4) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Cyhoeddodd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ganllawiau cyffredinol hefyd ar effaith y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Deddfwriaeth 2020: **<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-baratoi-deddfwriaeth-cymru>***

Mae'r Atodlenni o ddiffiniadau cymwys cyffredinol yn y ddwy Ddeddf ychydig yn wahanol. Yn benodol, nid yw'r diffiniad o 'Gymru' yn y Ddeddf

²⁴⁵ Nodiadau'r Drafftwyd, paragraff 15 i 16

²⁴⁶ Nodiadau'r Drafftwyd, paragraff 17

²⁴⁷ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Awst 2022, paragraff 31

Ddehongli'n cynnwys y môr tiriogaethol tra bod y Ddeddf Deddfwriaeth yn ei gynnwys. Mae hyn yn golygu gwahanol oblygiadau ar gyfer gwahanol Rannau o'r Bil. Yn Rhan 2, rydym wedi hepgor darpariaethau o Ddeddf 1979 sy'n rhoi'r ystyr ehangach i 'Gymru', gan nad oes eu hangen mewn Bil a fydd yn destun y Ddeddf Deddfwriaeth. Yn Rhan 3, rydym wedi ychwanegu darpariaeth i roi ystyr y Ddeddf Dehongli i 'Gymru'; mae hyn yn cadw'r effaith o dawelwch yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 am ystyr 'Cymru' (sy'n golygu bod diffiniad y Ddeddf Ddehongli'n berthnasol)."²⁴⁸

Statws is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau sy'n cael eu cydgrynhoi

337. Mae'r Bil yn cydgrynhoi Deddfau presennol y mae is-ddeddfwriaeth wedi'i gwneud oddi tanynt gan Weinidogion y DU a Chymru ers blynyddoedd lawer. At hynny, mae'r Bil yn cydgrynhoi rhywfaint o'r gyfraith bresennol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd mewn is-ddeddfwriaeth.

338. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol beth fydd statws is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau sy'n cael eu cydgrynhoi, a darparwyd enghraifft fel a ganlyn. Ar hyn o bryd mae Rheoliad 4 o Reoliadau Henebion Cofrestredig (Adolygu Penderfyniadau Cofrestru) (Cymru) 2017²⁴⁹ yn nodi dwy sail dros adolygu penderfyniadau penodol a wneir gan Weinidogion Cymru. Dim ond un o'r seiliau hynny sydd wedi'i hymgorffori yn y Bil, yn adran 9(2), ac felly gofynnwyd beth fydd statws y sail arall a nodir yn rheoliad 4.

339. Ymateb cychwynnol y Cwnsler Cyffredinol oedd bod rhaglen Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yn ymrwmo i brosiect sy'n ystyried pecyn o is-ddeddfwriaeth i weithredu'r Bil hwn pe bai'n cael ei basio, ac y bydd yr holl is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys y Rheoliadau y soniasom amdanynt, yn cael eu hystyried fel rhan o'r prosiect hwn.²⁵⁰

340. Dewisodd y Pwyllgor fynd â'r mater hwn ymhellach, a phan ymddangosodd y Cwnsler Cyffredinol ger ein bron ar 14 Tachwedd fe wnaethom ofyn eto pam mai dim ond un sail adolygu yn rheoliad 4 o Reoliadau Henebion Cofrestredig (Adolygu Penderfyniadau Cofrestru) (Cymru) 2017 sy'n cael ei chydgrynhoi ac a fydd y sail nad yw'n cael ei chydgrynhoi yn parhau'n gyfraith. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

²⁴⁸ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Awst 2022, paragraffau 32 i 33

²⁴⁹ [OS 2017/643](#)

²⁵⁰ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraff 162

*"I think in terms of the grounds of appeal, what the Bill actually does is bring them together. Our intention to provide a ground of appeal against this kind of decision was really for reviews to occur solely on the basis of whether a newly scheduled part of a monument was of national importance, and that's how regulation 4(b) in the Bill has been applied; it's understood to come into force. So, the approach adopted in the Bill reflects upon intention at the time of the 2017 regulations, when they were drafted, and current regulation 4(b) provides a ground of review that covers a material amendment to expand a scheduled area. The Bill in section 9(2) goes on to state that the ground for review is that a scheduled monument is part of, or a part of it, is not of national importance. So, this encompasses the regulation 4(b), and I think it means that the Bill is able to refer just to the single ground of review."*²⁵¹

Ein barn ni

341. Mae ein hystyriaeth a'n trafodaeth a nodir uchod yn ein harwain i'r casgliadau a'r argymhellion a ganlyn.

Casgliad 4. Rydym yn fodlon ar y cyfan bod y Bil yn cydgrynhoi deddfwriaeth bresennol yn gywir ac yn gyson, yn unol â Rheol Sefydlog 26C.17(iv).

342. Rydym yn cydnabod barn a nod Llywodraeth Cymru y dylai'r Bil wella hygyrchedd deddfwriaeth amgylchedd hanesyddol Cymru, drwy ddarparu un Ddeddf ddwyieithog a fydd yn hybu cysondeb o ran iaith, ffurf a gweithrediad y ddeddfwriaeth.

343. O ran cysondeb yr iaith a ddefnyddir, rydym yn croesawu camau gweithredu Llywodraeth Cymru i adolygu cynnwys y gair "priodol" yn y Bil, ac yn cydnabod ymrwymiad y Cwnsler Cyffredinol i gyflwyno gwelliannau (pe bai'r Bil yn mynd rhagddo) i ddileu cyfeiriadau at "priodol" lle y bernir eu bod bellach yn ddiangen.

344. Mewn perthynas â statws is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau sy'n cael eu cydgrynhoi, credwn fod angen rhagor o wybodaeth ac eglurder. Yn benodol, rydym yn dal yn ansicr ynghylch sut y mae'r ddwy sail dros adolygu yn rheoliad 4 o reoliadau 2017 wedi'u cymhwyso'n ymarferol, a sut y mae'r arfer hwnnw wedi'i adlewyrchu yn y Bil.

345. Ein dealltwriaeth ni o'r esboniad a ddarparwyd yw mai bwriad gwreiddiol rheoliadau 2017 oedd i adolygiadau gael eu gwneud dim ond ar y sail bod heneb o bwysigrwydd cenedlaethol, ac mae'n ymddangos mai dyna sut y mae'r rheoliadau wedi'u cymhwyso'n ymarferol. Fodd

²⁵¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [25]

bynnag, byddem yn croesawu eglurder ynghylch hynny, o ystyried bod rheoliadau 2017 yn nodi dwy sail glir, ac yn ôl pob golwg dwy sail wahanol, ar gyfer adolygu.

Argymhelliad 11. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol egluro sut y mae Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Adolygu Penderfyniadau Cofrestru) (Cymru) 2017 wedi'u cymhwyso'n ymarferol a chadarnhau a yw ein dealltwriaeth o'r sefyllfa, fel y nodir ym mharagraff 345 o'n hadroddiad, yn gywir.

346. Yn olaf, rydym yn cydnabod effaith Deddf 1978 a Deddf 2019 ar y Bil.

7. Gweithredu, codau cyfraith Cymru, gwerthuso llwyddiant a phrosiectau cydgrynhoi yn y dyfodol

Fel rhan o'n hystyriaeth o'r Bil rydym wedi edrych ar gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r Bil (os caiff ei ddeddfu) a chynlluniau ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer codau cyfraith Cymru. Rydym hefyd wedi ystyried y ffordd orau i Lywodraeth Cymru werthuso llwyddiant y Bil Cydgrynhoi cyntaf hwn yng nghyd-destun ei chynlluniau tymor hwy i gydgrynhoi meysydd eraill o gyfraith Cymru.

Gweithredu

Amserlenni ac adnoddau

347. Mae Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r gwariant ychwanegol amcangyfrifedig a'r costau trosiannol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil, pe bai'r Senedd yn ei basio a'i ddeddfu.

348. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn disgrifio'r cyfnod gweithredu fel 2023 i 2026.²⁵²

349. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn nodi nifer o bartneriaid a fydd yn gyfrifol am roi'r Bil ar waith. Er enghraifft:

- Awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol: Bydd angen i awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ddarparu sesiynau ymglyfarwyddo ar gyfer aelodau'r cyngor a swyddogion perthnasol eraill, a Cadw fydd yn darparu'r deunyddiau craidd ar gyfer y sesiynau hynny. Amcangyfrifir y bydd angen rhyw bedwar diwrnod o amser staff ar bob awdurdod, am gost o ryw £17,500, a fydd yn cael ei ysgwyddo yn ystod y cyfnod gweithredu.²⁵³
- Cyrff y trydydd sector / cymdeithasau amwynder: Ar hyn o bryd mae cyrff y trydydd sector a chymdeithasau amwynder yn lledaenu gwybodaeth am sut y mae'r

²⁵² Memorandwm Esboniadol, paragraff 56

²⁵³ Memorandwm Deddfwriaethol, paragraffau 41 i 43

ddeddfwriaeth bresennol yn cael ei gweithredu, felly bydd angen iddynt ddiweddarau'r wybodaeth honno er mwyn adlewyrchu'r newidiadau. Bydd Cadw yn darparu gwybodaeth wedi'i diweddarau i gyrff o'r fath ac mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif mai bach iawn fydd y baich o ddiweddarau gwefannau unigol, ac mae'n debyg mai amser rhyw un person am ddiwrnod y bydd ei angen.²⁵⁴

- Cwmnïau cyfraith preifat a sefydliadau cynghori: Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad yw'n hysbys faint o gwmnïau cyfraith preifat neu sefydliadau cynghori fel Cyngor ar Bopeth sy'n ymhél â deddfwriaeth ar yr amgylchedd hanesyddol, ond nid ydynt yn debygol o orfod ysgwyddo unrhyw gostau uniongyrchol. Noda'r Memorandwm Esboniadol y byddant yn cael eu hannog i fod yn ymwybodol o'r newidiadau a'r ddeddfwriaeth newydd. Cadw fydd yn darparu'r wybodaeth graidd sydd ei hangen ac, ar sail yr amcangyfrif o'r gost sy'n gysylltiedig â gwneud hynny ar gyfer sefydliadau eraill, credir y gallai gymryd dwy awr i unigolion ddarllen y deunydd perthnasol a fydd ar gael ar wefan Cadw. Bydd pobl hefyd yn cael eu cyfeirio at yr wybodaeth drwy Gymdeithas y Cyfreithwyr, Newyddion Cymru'r Gyfraith, a sefydliadau a chyhoeddiadau cynrychioliadol eraill.²⁵⁵

350. Gan gyfeirio at y bwriad i weithredu'r Bil, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

*"...the Bill will not come immediately into force on the day of Royal Assent, because there's still a certain amount of work that needs to be done in respect of subordinate legislation that will need to be made. I think guidance and the websites will need to be updated, and there will probably need to be a certain amount of awareness raising to make people aware of the consolidation. As normal, I think, that engagement will take place with all of the partners—so, the courts, the Crown Prosecution Service and even, I think, the police as well."*²⁵⁶

351. Cododd RTPI Cymru bryderon gyda ni ynghylch goblygiadau amserlen dangosol y Bil, a thynnodd sylw'n benodol at amcangyfrifon Llywodraeth Cymru o ran cyrff y trydydd sector a chymdeithasau amwynder. Dywedodd:

"We believe that this timescale is significantly underestimated given the extent of the legislation/new terminology/ new guidance which will need to

²⁵⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraff 44

²⁵⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 48

²⁵⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [91]

be read, understood and embedded, at a time where resources and capacity are stretched in many sectors."²⁵⁷

352. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol am ei farn ar bryderon RTPI Cymru. Dywedodd wrthym:

*"I'm not sure that should be an issue, because, with the consolidation process, we're not actually changing the law, or organisations or anything; it's not actually reforming the law. So, nothing should actually change in terms of what actually happens. There will be, of course, some changes, I suppose, in terms of forms, in terms of some of the terminology, and the same in terms of some of the guidance. I said early on, didn't I, that the intention is to, obviously, keep the expertise there for the purpose of an implementation strategy that would take place in 2023-26. I think, within that context, that's reasonable, so I don't share those concerns."*²⁵⁸

353. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd ei fod yn rhywbeth y byddai Llywodraeth Cymru yn cadw llygad arno yn ystod y broses weithredu, ond nad oedd yn achosi unrhyw bryder sylweddol iddo nac unrhyw angen i newid y strategaeth sydd eisoes yn bodoli.²⁵⁹

354. Ychwanegodd Mr Gwilym Hughes fod Cadw eisoes yn ymgysylltu'n weithredol. Dywedodd:

*"We've had an open invitation to stakeholders to just be briefed on the process, both the content of what we're doing and the timetable, both for this process and for the implementation, should it proceed. So, that process is already under way. We've had several, actually, workshops and invitations to provide briefings for key stakeholders. The general response has been very warm and very welcoming to the process. And, obviously, after the process has been completed, there will be a programme of support for the sector to acclimatise to the new terminology. But we don't envisage it to be a particularly challenging exercise. There'll be other things, like—I've already referred to this—updating guidance and advice with the new terminology to restate, to make sure that it still sits within the current management framework that we have for the historic environment."*²⁶⁰

²⁵⁷ Llythyr gan RTPI Cymru

²⁵⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [181]. Gweler hefyd Lythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Awst 2022, paragraff 48

²⁵⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [181]

²⁶⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [183]. Gweler hefyd Lythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Awst 2022, paragraffau 42 i 44

Yr is-ddeddfwriaeth y bydd ei hangen

355. Yn y Bennod flaenorol, fe wnaethom dynnu sylw at ddatganiad y Cwnsler Cyffredinol a oedd yn nodi y bydd yr holl is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r Bil yn cael ei hystyried fel rhan o'r prosiect y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w gynnal fel rhan o'i rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.²⁶¹

356. Gwnaeth Mr Paines CB sylw cyffredinol am is-ddeddfwriaeth berthnasol a dywedodd wrthym: "When you're rationalising the primary legislation, it seems a good idea then to turn your attention to the secondary legislation, and rationalise that as well".²⁶²

357. Darparodd Dr Mynors farn na fydd angen gwneud llawer o newidiadau i is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r ymarfer cydgrynhoi hwn, ac eithrio disodli'r cyfeiriadau at Ddeddfau 1979 a 1990 gyda'r Bil hwn (os a phan gaiff ei ddeddfu). Dywedodd:

*"But it's possible that this line of thinking arises from the comment by the Counsel General in the Senedd when, in outlining his programme of codification legislation, he said, in relation to planning, 'There will be, hopefully, new regulations for about four or five of the principal long-outdated pieces of secondary legislation, which are crying out to be updated.' So, hopefully, they will follow soon. I don't think, with the notable exception of tree preservation orders, which have to be done at the same time, the others will be sorted out because of the consolidation [correction: solely because of the consolidation]. It would obviously be sensible, at the same time [correction: at around the same time], to sort them out generally, and I think the intention is, as I understand it, to do that, although I also of course understand that there are resource constraints. So, it will happen, no doubt, over the next five years or whatever. So, I think though that, planning, there will be a number of new bits of secondary legislation over the following five years. Historic environment—I wouldn't expect there to be any of any consequence at all, other than the obvious tidying-up references."*²⁶³

358. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol faint o amser y bydd yn ei gymryd i ystyried a chyflwyno'r pecyn is-ddeddfwriaeth sydd ei angen i roi'r Bil ar waith. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

²⁶¹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, paragraff 162

²⁶² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [196]

²⁶³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [197]

*"...that is something that will be worked on. Work has already begun on the necessary analysis in terms of subordinate legislation and, of course, what's important is maintaining the continuity and expertise to enable that to happen, and I hope that's a stream in terms of all legislation that we bring forward. So, the majority of the work will be taking place after the Bill is passed, but during the implementation period, really: 2023 to 2026."*²⁶⁴

Ymgysylltu â'r system gyfiawnder

359. Mae'r asesiad o'r effaith ar gyfiawnder yn y Memorandwm Esboniadol yn dweud nad yw'r effaith ar y system gyfiawnder yn debygol o fod yn sylweddol. Mae hefyd yn dweud y bydd angen i'r rhai yn y system gyfiawnder ymgysylltu â'r ddeddfwriaeth newydd.²⁶⁵

360. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd wedi bod yn trafod y Bil gyda'r farnwriaeth ac ymarferwyr cyfreithiol yng Nghymru. Roedd y Cwnsler Cyffredinol yn cydnabod ei bod yn bwysig bod y farnwriaeth a'r cyfreithwyr yn gwybod ac yn deall y newidiadau a ddaw yn sgil y Bil. Dywedodd wrthym:

"...we notified the Lord Chief Justice's office; we informed them of the Bill. We've sent a copy of the justice impact assessment. That, I think, happened around 28 April, in accordance with our standard practice of engaging with the judiciary. We've also updated the Lord Chief Justice's office regarding the introduction of the Bill, and I think as we get closer to a coming-into-force date we will liaise with Her Majesty's Courts and Tribunals Service and, indeed, with the Judicial College—the judicial training college—to make them aware of the changes and allow them to update their guidance and instructions. (...)

*I've written to or been in touch with the Lord Chief Justice's office. We've not yet had a response, but that engagement will continue and we'll keep the Lord Chief Justice's office updated as necessary."*²⁶⁶

361. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod y bydd angen i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi weithio i ddiweddarau eu systemau i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd.²⁶⁷ Fe wnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Gwasanaeth Llysoedd a

²⁶⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [26]

²⁶⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 64

²⁶⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [90] a [91]

²⁶⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 45

Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ac a oeddent yn cytuno y byddai newidiadau o'r fath yn cael eu gwneud fel rhan o'u busnes arferol. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

*"Mae Llywodraeth Cymru wedi dilyn y gweithdrefnau cytunedig i sicrhau bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwybodol o'r Bil. Cyflwynwyd ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd wedi cadarnhau na fydd y Bil yn cael unrhyw effaith neu effaith fach iawn ar y system gyfiawnder. Yn ogystal, cyflwynwyd gwybodaeth i'r Arglwydd Brif Ustus ac ni nodwyd unrhyw faterion a fydd yn effeithio ar Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM na'r Coleg Barnwrol."*²⁶⁸

Codau Cyfraith Cymru, a newidiadau posibl i Reolau Sefydlog y Senedd yn y dyfodol

362. Mae adran 1 o'r Bil yn rhoi trosolwg o'r Bil ac, yn isadran (1), mae'n datgan y bydd y Bil (os a phryd y caiff ei ddeddfu) yn rhan o god cyfraith sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol.

363. Yn y Memorandwm Esboniadol, dywed Llywodraeth Cymru y bydd y Bil (os a phryd y caiff ei ddeddfu) ynghyd ag is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tano, yn ffurfio cod cyfraith Cymru ar yr Amgylchedd Hanesyddol, a bod arwyddocâd deublyg i hyn:

*"Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi pob deddfiad sy'n rhan o'r Cod gyda'i gilydd. Yn ail, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhagweld y bydd, yn amodol ar gytundeb y Senedd, yn newid Rheolau Sefydlog y Senedd er mwyn ceisio sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir yn y dyfodol i gyfraith sy'n rhan o God yn cael eu gwneud drwy ddiwygio neu ddisodli'r deddfiadau yn hytrach na gwneud darpariaethau gwahanol, 'annibynnol', a fyddai unwaith eto'n arwain at gymhlethdod wrth amlhau cyfreithiau."*²⁶⁹

Codau cyfraith Cymru

364. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu rhagor o fanylion am ei gynlluniau ar gyfer cod cyfraith Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol, a dywedodd wrthym:

"The intention is that this Bill will be the main piece of historic environment primary legislation, and any future drafting, changes or reforms would be to

²⁶⁸ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Awst 2022, paragraff 39

²⁶⁹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 22

this Act as a stand-alone piece of legislation. We want to keep as much of the law as is possible in one place. So, basically, you're talking about a historic environment code.

What will the code consist of? Well, I suppose it'll consist of this Bill, or it will be an Act when it is passed and then implemented, and any secondary or tertiary legislation under it. So, where it's necessary to introduce secondary legislation or further legislation, that will form part of the code. So, if you want to know anything about the historic environment, you go to the historic environment code, and there it is: the legislation and any other supporting or secondary legislation that is relevant that you would need to know about in order to have an understanding of what the legal position is.

I think another impact of this as well, of course, is that, certainly for those who have to make the legislation available to people so that they can understand it and have to publish it, it makes it a lot easier for them as well, because again it's all there, it's all in that one place, et cetera. You don't have to have all the usual sub-notes and references and so on, because it's all in that piece of legislation."²⁷⁰

365. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol ein dealltwriaeth y bydd pob un o godau cyfraith Cymru, i bob pwrpas, yn storfeydd cyfraith sy'n dechrau gyda'r un darn o ddeddfwriaeth sylfaenol gyfunol, a bydd unrhyw ddeddfwriaeth ddirprwyedig a wneir o ganlyniad i'r brif ddeddfwriaeth sylfaenol, ynghyd â'r holl ganllawiau perthnasol, yn eistedd o fewn y storfa.²⁷¹ Ychwanegodd y Cwnsler Cyffredinol:

"Ni fydd deddfwriaeth sy'n diwygio'r Deddfau sylwedd hynny yn ffurfio rhan o'r Cod nac yn cael eu cynnwys yn y datganiad. Eu diben yw bod yn gyfrwng ar gyfer cyflawni'r diwygiadau, sef y ddeddfwriaeth a gydgrynhowyd yn yr achos hwn.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gywir i ddweud y bydd y Cod (neu'r 'storfa') yn cynnwys deddfwriaeth a chanllawiau dirprwyedig. Bydd y rheoliadau sylwedd yn cynnwys datganiad eu bod yn ffurfio rhan o'r Cod. Ac eto, ni fydd y rheoliadau diwygiedig yn rhan o'r Cod ond bydd eu heffeithiau yn digwydd o fewn y Cod."²⁷²

²⁷⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [93] i [95]

²⁷¹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Awst 2022, paragraff 15

²⁷² Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Awst 2022, paragraffau 16 i 17

366. Fel rhan o'n cylch gwaith cyffredinol, rydym yn ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth. Un agwedd ar y cyfrifoldeb eang hwn yw ystyried yr holl **femoranda cydsyniad deddfwriaethol** a osodwyd gerbron y Senedd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Biliau Llywodraeth y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd).

367. Mae ein rhaglen waith ers dechrau'r Chweched Senedd wedi ymwneud yn bennaf â chraffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol a memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol, ac rydym wedi gweld cynnydd sylweddol mewn deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig yn cael ei wneud gan Senedd y DU yn hytrach na Senedd Cymru.

368. Yn y cyd-destun hwn, fe wnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol sut yr oedd yn ymateb i bryderon bod Llywodraeth Cymru, drwy fynd ar drywydd darpariaethau ym Miliâu'r DU i'r fath raddau, yn tanseilio ei rhaglen bwysig ei hun i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Dywedodd wrthym:

*"It is something, within the context of everything that is happening and with UK Government legislative programmes, that you have to continually monitor and keep an eye on in terms of what's happening. (...) I don't see that as being something that's going to impact in respect of our own consolidation programme. I think there's one area where possibly some issues have arisen or may arise; it's in respect of the levelling-up legislation, which may have some reference into and impact upon Welsh legislation or legislation that we might want to consolidate. What it won't do, though, is change the consolidation process and presentation itself."*²⁷³

369. Ychwanegodd Mr Dylan Hughes mewn perthynas â'r **Bil Ffyniant Bro ac Adfywio**:

*"There is a technical issue there that might need us to change some of the consequential amendments that we've drafted, but that's something that we're talking to the UK Government about."*²⁷⁴

370. O ran Llywodraeth y DU yn deddfu mewn maes datganoledig o'r gyfraith sydd eisoes wedi'i gydgrynhoi, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

"...because we will create a historic environment code, and you will have within that this principal consolidation Act plus any subsequent secondary

²⁷³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [74]

²⁷⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [87]

legislation or guidance, if there were to be something that came through that changed the law in this area, then it would need to actually change the principal legislation, the consolidated legislation itself. That is, it wouldn't mean that there was additional legislation in another place. So, whatever happened, for whatever reason and whatever judgments there are over what might happen, what might be consented to, what might be imposed as opposed to consented et cetera, it shouldn't change, and we would want to ensure that, in the way in which we are changing the law through its codification of consolidated legislation, bringing everything into one place, that would not happen. (...)

*...we would want to resist any external legislation that would go in any way contrary to that.*²⁷⁵

371. Ychwanegodd Mr Dylan Hughes:

"Just to say that, usually, we would be discussing small issues. If the UK Government were to do something more significant, and if the Government would be willing to agree to that... Our first view would be to expect them to reform Welsh law and to do it bilingually, and there are plenty of examples of that happening already. But, if we had to, there would be a way for us then to re-address the consolidation process, and do it in the way that we're doing now. The sort of situation that could be difficult is a situation where the UK Government is preparing a law that applies to the whole of the UK, for example, on a specific matter, and perhaps that would make it more difficult for them to do that by reforming our legislation, rather than creating legislation that stands alone. But, we don't see that that is likely to happen."²⁷⁶

372. Gofynnwyd hefyd a oedd unrhyw beth yn rhaglen deddfwriaethol Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar sy'n peri pryder i Lywodraeth Cymru o ran y gallai effeithio ar y Bil Cydgrynhai hwn. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym nad oedd yn ymwybodol o unrhyw beth a oedd yn cael ei gyflwyno a oedd yn debygol o effeithio ar y Bil ond ei fod yn sefyllfa sy'n newid yn barhaus.²⁷⁷ Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd:

²⁷⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [75] a [76]. Gweler hefyd Gofnod y Trafodion [78]

²⁷⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [81]. Gweler hefyd Gofnod y Trafodion [82] a [83]

²⁷⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [85]

"I think it's worth mentioning also, of course, that I am required to provide an annual report on accessibility, and I think things that might emerge that would impact in any way on our accessibility programme—obviously, incorporating the consolidation programme—would be things that I would want to refer to in that report and bring to the attention of the Senedd in any event. But, for the purpose, I think, of your work—the work of this committee and this scrutiny—I'm not aware of anything. (...)

*Of course, there will, from time to time, be minor consequential amendments that don't impact on the substance of legislation, and that's, again, one of those things to be made aware of as and when they might emerge."*²⁷⁸

373. O ystyried yr ymatebion hyn i'n cwestiynau, fe aethom ar drywydd nifer o bwyntiau pan wnaethom ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol ym mis Gorffennaf, gan ofyn a fyddai ef a'i swyddogion yn fodlon rhoi ystyriaeth bellach i nifer o faterion, gan gynnwys sut y gallai Llywodraeth Cymru sicrhau y bydd gwelliannau a gynigir gan Lywodraeth y DU i gyfraith gyfunol Cymru yn cadw'r gwaith cydgrynhoi hwnnw ac a fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried unrhyw effeithiau ar gydgrynhoi cyfraith Cymru pan fydd yn trafod deddfwriaeth berthnasol gyda Llywodraeth y DU.

374. Yn ei ymateb, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol ei fod yn deall ac, i raddau, yn rhannu ein pryderon. Ychwanegodd:

"Mae swyddogion yn Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol wedi trafod rhaglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru gyda'u swyddogion cyfatebol yn swyddfeydd drafftio eraill y DU. Mae hyn yn cynnwys esbonio ein huchelgeisiau ar gyfer cynnal y gyfraith unwaith iddi gael ei chydgrynhoi a'i chodeiddio. Mae'r swyddfeydd drafftio hynny eisoes yn ymwybodol o'n polisi sy'n bodoli'n barod bod yn rhaid i ddiwygiadau i gyfraith gyfredol Cymru gan ddeddfwriaethau eraill wneud newidiadau yn nhestun y ddwy iaith. Mae digon o enghreifftiau o hynny'n digwydd eisoes.

Fel yr esboniwyd yn y dystiolaeth i'r Pwyllgor, pe bai Llywodraeth y DU yn deddfu ar gyfer Gymru ar fater y cydgrynhowyd y gyfraith arno eisoes yna byddai disgwyl i Fil y DU ddiwygio'r gyfraith a gydgrynhowyd. Pe bai'r sefyllfa'n codi o gwbl, y dull o weithio yw y byddai ein swyddogion yn esbonio a thrafod â'r swyddogion polisi, cyfreithiol a drafftio perthnasol ar y pryd.

²⁷⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [86] ac [88]

Pe bai hyn yn digwydd rhywbryd, credaf y byddai'n briodol tynnu sylw'r Senedd i'r dull drafftio a fabwysiedir gan Lywodraeth y DU yn eu cynigion deddfwriaethol fel rhan o broses y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol."²⁷⁹

Newidiadau i Reolau Sefydlog y Senedd yn y dyfodol

375. O ystyried y datganiadau yn y Memorandwm Esboniadol am newidiadau i Reolau Sefydlog y Senedd, gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol roi manylion am ei feddylfryd ac am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes. Dywedodd wrthym:

"There will be a need for discussions. My intention is to certainly explore the ways in which the Senedd Standing Orders can be, I suppose, put into good effect, used to promote good practice. Because what we need to ensure as well is that the process of legislation that takes place, changing the law, has to actually support the process of codification. What we don't want to see is that we codify the law now, and we consolidate the legislation, but then you lose all discipline in that area and you start legislating as we have done in the past. So, I think there'll need to be a review of Standing Orders to look at that.

It could be, for example, a form of requirement for Members who introduce Bills before the Senedd to have to ensure that the drafting takes place within a particular format, a particular process, one that is supportive of the code. So, if you were bringing a piece of legislation forward and we're much further down the road of codification, it would have to be by amendment of the code rather than a completely stand-alone piece of legislation. So, if, for example, there was an individual Members Bill that had something to do with historic environment, it wouldn't be a completely separate piece of legislation, it would be basically an amendment to the code. So, I think we have to look at how that might work in practice, because obviously the Senedd has its own empowerment in terms of legislation and those processes. But, equally, what we do want is to create a framework, a fairly disciplined framework, that actually maintains and supports the codification process."²⁸⁰

376. Cydnabu'r Cwnsler Cyffredinol fod Biliau Aelodau Unigol yn perthyn i'r Aelodau ac i'r Senedd ei hun ac, yn hynny o beth, mae'n anochel y bydd yn rhaid ymgysylltu â'r aelodau a'r

²⁷⁹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Awst 2022, paragraffau 11 i 14

²⁸⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [97] a [98]

pleidiau o fewn y Senedd mewn perthynas ag unrhyw newidiadau yn y Rheolau Sefydlog a rhaid cael cydsyniad ar gyfer y newidiadau hynny.²⁸¹

377. Yn dilyn hynny, gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu mwy o fanylion, yn enwedig o ran ei sylwadau y byddai newidiadau o'r fath yn cael effaith ar gynigion preifat Aelodau i gyflwyno Biliau i'r Senedd. Gofynnwyd iddo a oedd wedi ystyried ymgynghori'n uniongyrchol ag Aelodau meinciau cefn y Senedd a Grwpiau'r Pleidiau ar ei gynigion, yn ogystal ag unrhyw waith casglu tystiolaeth y gallai'r Pwyllgor Busnes ei wneud ei hun. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

"Mae'r Senedd a'r Pwyllgor hwn wedi cydnabod y risgiau, ac - efallai y gellid dadlau – y difrod, i hygyrchedd cyfraith sydd wedi'i chydgrynhoi oherwydd darnio ac ymlediad dilynol os na wneir diwygiadau i'r Deddfau sylwedd. Dyna pam mae angen dod o hyd i ffordd o helpu i sicrhau bod yn rhaid i'r Senedd ei hun gytuno ar unrhyw gynigion deddfwriaethol yn y dyfodol nad ydynt yn gwneud unrhyw beth mwy na diwygio Cod. Nid wyf yn meddwl y gallwn ddweud na fyddai byth reswm da pam allai hyn ddigwydd, ond rwy'n credu y gallwn ddweud fod yn rhaid i'r Senedd fod yn fodlon pe bai hynny'n cael ei gynnig.

Mae'n ymddangos i mi mai'r ffordd orau o ddiogelu'r egwyddor hon yw cynnwys darpariaeth ar hyn yn y Rheolau Sefydlog perthnasol ar gyfer Biliau (ac is-ddeddfwriaeth hefyd efallai pe bai'r Senedd yn ystyried bod angen hynny).

*Bydd y Trefnydd a minnau'n codi hyn gyda'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes unwaith y byddwn yn gwybod beth y bwriadau'r Senedd ar gyfer y Bil hwn, fel y gellir sefydlu dull addas o ymgysylltu ag Aelodau a Grwpiau Pleidiau ar y mater hwn. I ailadrodd y pwynt a wnes yn y sesiwn dystiolaeth, mae hwn yn fater y dylai pob Aelod ei ystyried a bod yn fodlon ag ef - gan fod Pwyllgorau, Aelodau unigol a'r Comisiwn yn gallu cyflwyno cynigion deddfwriaethol, nid dim ond y Llywodraeth."*²⁸²

378. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol yn ddiweddarach y byddai Llywodraeth Cymru yn teimlo ei bod yn briodol dechrau'r gwaith hwn gyda Phwyllgor Busnes y Senedd cyn toriad yr haf 2023.²⁸³

²⁸¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [128]

²⁸² Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Awst 2022, paragraffau 21 i 23

²⁸³ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 84

379. Gofynnwyd i gynrychiolwyr Comisiwn y Gyfraith am eu barn ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer codau cyfraith Cymru ac a oes risgiau ar gyfer cynnal strwythur y gyfraith gyfunol heb wneud cynnydd o ran datblygu'r codau.

380. Dywedodd Mr Paines CB wrthym:

*"...when we reported on the form and accessibility, we proposed codes. We had a slightly different understanding of them from the way the Welsh Government's taken matters forward, but that's not an issue. (...) Internally, we called them code disciplines. What we meant by that is that, when you've got a code in place, if you want to change the law, you amend that code; you don't legislate in parallel. I don't think that's as yet covered by Standing Orders, but we recommended that there should be a Standing Order, if I recall accurately, to the effect that, if you're the Member presenting legislation that's going to sit alongside a code, you've got to give a reason. And I think we also recommended that, from time to time, if, in an emergency legislation is enacted alongside a code because there's a desire to get it in place quickly, there may need to be a mopping-up operation afterwards, and the subject matter should be brought into the code as soon as possible. I think we still feel, collectively, at the Law Commission, that those areas do need to be dealt with in Standing Orders."*²⁸⁴

381. Ychwanegodd Syr Nicholas Green fod egwyddor sylfaenol o dryloywder a sicrwydd cyfreithiol wrth wraidd y mater hwn a dywedodd:

*"If you're going to have a code, it should remain comprehensive, so that people know that there is only one document they need to look to, to determine what the law is. And the moment that discipline begins to fail and you have two, three, four, five pieces of legislation, you rather undermine the very rationale for having a code in the first place."*²⁸⁵

382. Felly, nododd Dr Mynors bwysigrwydd adran 1(1) o'r Bil. Dywedodd y gallai hwn ymddangos yn ddatganiad diniwed ond ei fod yn:

"...very important, because it is saying that this is actually not just another piece of legislation, this is actually a code. And it may be hoped that we will see a similar statement at the front, section 1(1), of the code on whatever it

²⁸⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [199]

²⁸⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [200]

*may be, on education or housing or whatever the next code is coming down the line, in each case. So, it's a signal to those who need to know these things, 'Wake up, this is the code; this is not just an ordinary Act.'*²⁸⁶

Gwerthuso llwyddiant a phrosiectau cydgrynhoi yn y dyfodol

383. Yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Gorffennaf 2022, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrth Aelodau'r Senedd o ran y Bil Cydgrynhoi, bod yn "rhaid gwerthuso ei llwyddiant drwy gyfeirio at y graddau y mae'n gwella strwythur ac eglurder y gyfraith bresennol, gan gadw ei heffaith gyfreithiol."²⁸⁷

384. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gwerthuso llwyddiant neu fethiant y Bil. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym y byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried cynlluniau ar gyfer gwerthuso ar ôl i'r darn hwn o ddeddfwriaeth gael ei gwblhau a'i weithredu. Ychwanegodd:

*"We have already begun to collect bits of informal feedback from, for example, members of the task and finish group amongst the Cadw staff and so on. We have had, again, some positive feedback on that, and this is the sort of work that needs to carry on, particularly from those who are experts in this field or who are engaged in this. The first step is getting a certain amount of informal responses from people to the legislation to evaluate that. I think, once the legislation is bedded in, what we plan to do is to collect opinions of users on the legislation's success, and of course that will take some time, and I suppose you'll have a number of stages. The first one is those engaged in the field who will have their views on their understanding of the new legislation in a consolidated format as to how it was previously, so that will give us a certain amount of feedback. I think secondly is where, in practice, the legislation has to be used and what the responses from the users of that are—whether it is found to be more effective, easier, better to understand. So, there's work on that and progress is on the way."*²⁸⁸

385. O ran ymarferion cydgrynhoi yn y dyfodol, gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol amlinellu sut yr oedd yn gweld y broses wrth symud ymlaen. Dywedodd wrthym:

"...the issue of statute repeals is the more likely imminent one. But the big project, which is based on the work that the Law Commission has done, is in respect of planning law consolidation. That is certainly something that is

²⁸⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [201] i [203]

²⁸⁷ Cyfarfod Llawn, 5 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [199]

²⁸⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [125]

*considered will have very considerable advantages. It's a considerably difficult and complex area, but, again, I think a very important next step of substantial consolidation to take place."*²⁸⁹

Ein barn ni

386. Fe wnaethom nodi ar ddechrau'r Bennod fod ein hystyriaeth o'r Bil wedi cynnwys edrych ar gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r Bil (os caiff ei ddeddfu) a chynlluniau ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer codau cyfraith Cymru. Rydym hefyd wedi ystyried y ffordd orau i Lywodraeth Cymru werthuso llwyddiant y Bil Cydgrynhoi cyntaf hwn yng nghydestun ei chynlluniau tymor hwy i gydgrynhoi meysydd eraill o gyfraith Cymru.

387. Dywedwyd ym Mhennod 2 ein bod yn llwyr gydnabod pwysigrwydd cydgrynhoi cyfraith Cymru, oherwydd yr effaith ymarferol a gaiff ar argaeledd cyfraith ddwyieithog i Gymru a'r potensial i wella hygyrchedd i'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yn sylweddol.

388. Felly, mae gweithredu'r Bil (os a phryd y caiff ei ddeddfu) yn amlwg yn hanfodol i weld a fydd manteision posibl cydgrynhoi yn cael eu cyflawni.

389. Yn hyn o beth, nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi pennu dyddiad targed terfynol o 2026, gan gynnwys ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth angenrheidiol ddilynol.

390. Bydd hyn felly'n golygu y bydd wedi cymryd pedair blynedd i gwblhau'r broses lawn o gydgrynhoi deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Nid yw hyn yn ystyried y blynyddoedd lawer sydd eu hangen i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Bil Cydgrynhoi i'r Senedd. Rydym yn tynnu sylw at hyn oherwydd bod yr amgylchedd hanesyddol yn faes cymharol fach o gyfraith Cymru. Mae hyn hefyd yn amlygu pa mor arwyddocaol fydd darn o waith i gydgrynhoi cyfraith cynllunio, sy'n faes llawer mwy o'r gyfraith.

391. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym fod gwaith eisoes wedi dechrau ar y dadansoddiad angenrheidiol o'r is-ddeddfwriaeth ond y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn digwydd os a phan fydd y Bil yn cael ei basio.

Argymhelliad 12. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu, cyn gynted â phosibl, gynllun manwl yn ymwneud â'r amserlenni tebygol a maint yr is-ddeddfwriaeth a fydd yn ofynnol fel rhan o weithrediad llawn yr ymarfer cydgrynhoi hwn o gyfraith yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol.

²⁸⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022, Cofnod y Trafodion [124]

392. Rydym yn cydnabod y pryderon a glywsom gan randdeiliaid am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth hon. Er ein bod yn nodi bod Cadw wedi dechrau proses o ymgysylltu gweithredol a'n bod yn croesawu ymrwymiad y Cwnsler Cyffredinol i "gadw llygad" ar y broses weithredu, rhaid mynd i'r afael â phryderon rhanddeiliaid.

Casgliad 5. Er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl o'r ymarfer cydgrynhoi hwn, dylai Llywodraeth Cymru a Cadw sicrhau bod cyfathrebu ac ymgysylltu llawn a phriodol yn digwydd gyda rhanddeiliaid perthnasol a defnyddwyr allweddol y ddeddfwriaeth.

393. Mae'r Bil – a chynlluniau ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer codau cyfraith Cymru – yn eistedd o fewn cyd-destun eang y cynnydd ym Miliâu'r DU sy'n darparu ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig.

394. Yn ein Hadroddiad Blynyddol diweddar ar gyfer 2021/22²⁹⁰ fe wnaethom dynnu sylw at ein pryder bod gormod o ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig yn cael ei gwneud yn Senedd y DU, sydd nid yn unig yn osgoi swyddogaethau craffu deddfwriaethol y Senedd ond hefyd o bosibl yn arwain at danseilio'r Senedd fel deddfwrfa ac egwyddorion sylfaenol datganoli.

395. Pryder sylweddol arall yw bod deddfwriaeth o'r fath a wneir yn y DU yn uniaith ac yn ychwanegu at y llyfr statud 'anhrefnus, enfawr a gwasgaredig' y mae Llywodraeth Cymru wedi dweud sydd wedi ysgogi'r angen iddi ganolbwyntio ei hymdrechion ar gydgrynhoi cyfraith Cymru.

396. Ym Mhennod 2 nodwyd bod y Cwnsler Cyffredinol wedi dweud nad yw'r dasg sydd o'n blaenau i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yn un hawdd ond mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru "gychwyn yn rhywle, a chychwyn fel y bwriadwn barhau". Rydym yn llwyr gefnogi Llywodraeth Cymru yn yr ymdrech hon. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y bydd penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru o ran defnyddio Biliau'r DU i wneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig yn tanseilio'r nod gwerth chweil hwn.

397. Yn gysylltiedig â hyn, rydym yn cydnabod barn y Cwnsler Cyffredinol y dylai'r Senedd ystyried ei Rheolau Sefydlog ei hun fel y gellir gwneud ymdrech briodol i sicrhau nad yw ymdrechion i gydgrynhoi cyfraith Cymru yn cael eu dadwneud wedi hynny, a'u dadwneud yn anfwriadol.

398. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Cwnsler Cyffredinol i ddechrau ymgysylltu â'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes y flwyddyn nesaf (pan fydd bwriadau'r Senedd o ran y Bil yn hysbys). Rydym

²⁹⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2021/22

hefyd yn croesawu cydnabyddiaeth y Cwnsler Cyffredinol y gall Aelodau unigol o'r Senedd, Pwyllgorau'r Senedd a Chomisiwn y Senedd, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, gyflwyno cynigion deddfwriaethol yng Nghymru. Am y rheswm hwnnw, rydym yn cytuno bod angen i adolygiad o Reolau Sefydlog y Senedd fod yn gwbl dryloyw a chynhwysol. Dylai unrhyw adolygiad o'r fath gael ei lywio gan ddealltwriaeth glir a llawn o sut y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y dylai codau cyfraith Cymru weithredu a chael eu rheoli.

Argymhelliad 13. Dylai'r Pwyllgor Busnes, wrth gynnal unrhyw adolygiad o Reolau Sefydlog y Senedd sy'n ymwneud â gofynion neu gyfyngiadau newydd ar y ffordd y mae'r Senedd yn ystyried cynigion deddfwriaethol yng nghyd-destun maes cyfun o'r gyfraith, ymgynghori ag Aelodau'r Senedd, Pwyllgorau'r Senedd a Chomisiwn y Senedd.

399. O ran Rheol Sefydlog 26C y Senedd ar gyfer Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd, rydym yn ymwybodol bod y Pwyllgor a'n rhagflaenodd wedi dweud²⁹¹, wrth roi sylwadau ar y Rheolau Sefydlog drafft ar gyfer Biliau Cydgrynhoi, y dylid adolygu'r broses i sicrhau bod y Rheolau Sefydlog yn addas at y diben y'u bwriadwyd. Rydym yn cytuno â'r farn honno.

Argymhelliad 14. Dylai'r Pwyllgor Busnes adolygu Rheol Sefydlog 26C ar ôl i'r ddau Fil Cydgrynhoi arfaethedig cyntaf gael eu hystyried gan y Senedd.

400. Rydym yn nodi o adroddiad blynyddol cyntaf Llywodraeth Cymru (ar gyfer 2021-2022) sy'n ymwneud â rhaglen Dyfodol Cyfraith Cymru ar gyfer 2021 i 2026 fod Llywodraeth Cymru yn parhau i baratoi Bil i gydgrynhoi cyfraith cynllunio, a chredwn mai hwn fydd yr ail fil cydgrynhoi i'w gyflwyno i'r Senedd. Rydym hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi datgan "gan fod y Bil yn debyg o fod yn rhyw 400 tudalen o hyd (800 tudalen yn y ddwy iaith), mae'n brosiect enfawr sy'n cymryd llawer iawn o amser".²⁹²

401. Rydym yn cydnabod bod y gorchwyl o baratoi Bil Cydgrynhoi gan Lywodraeth Cymru yn cymryd llawer o amser ac yn golygu cryn dipyn o waith manwl. Yn yr un modd, mae craffu ar bob darpariaeth mewn Bil Cydgrynhoi i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog yn orchwyl sylweddol. Credwn fod ein hystyriaeth o'r Bil wedi dangos yr angen am yr amser priodol a'r wybodaeth fanwl er mwyn ymgymryd â gwaith craffu priodol ar ymarfer cydgrynhoi, a gwerth hynny. Fel mater o drefn, ni fyddai byth yn fwriad inni geisio llesteirio amserlen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Serch hynny, nid ydym yn credu y gellir nac y dylid rhuthro proses graffu dda. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried ein barn wrth gynnig amserlen ar gyfer Ystyriaeth Gychwynnol i'r Bil, ac nid oes gennym unrhyw

²⁹¹ Llythyr at y Llywydd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bumed Senedd, 4 Rhagfyr 2019

²⁹² Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021–2026 – Adroddiad blynyddol 2021-2022

amheuaeth y bydd yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Credwn y bydd hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y sylwadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud am y Bil Cydgrynhai ar gyfer y maes cynllunio a'i fod yn debygol o fod yn fwy na dwbl maint y Bil Cydgrynhai cyntaf hwn.

402. Yn olaf, credwn ymhellach fod ein hystyriaeth o'r Bil wedi darparu mwy o dystiolaeth i gefnogi angen cyffredinol i Bwyllgorau'r Senedd ymgymryd â gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar Filiau a basiwyd gan y Senedd.

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar [wefan y Pwyllgor](#).

Dyddiad	Enw a Sefydliad
11 Gorffennaf 2022	Mick Antoniw AS Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad Dylan Hughes Prif Gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru Dr James George Uwch Gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru
26 Medi 2022	Yr Arglwydd Ustus Green Cadeirydd Comisiwn y Gyfraith Nicholas Paines CB Comisiynydd y Gyfraith yng Nghymru Charles Mynors Prosiect Cyfraith Cynllunio yng Nghymru
14 Tachwedd 2022	Mick Antoniw AS Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad Gwilym Hughes Pennaeth Cadw a Dirprwy Gyfarwyddwr, Llywodraeth Cymru Dr James George Uwch Gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Gohebiaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol yn dilyn ein cyfarfod ar 11 Gorffennaf 2022

Mick Antoniw AS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

19 Gorffennaf 2022

Annwyl Mick

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), 11 Gorffennaf 2022

Diolch am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 11 Gorffennaf a rhoi tystiolaeth ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (y Bil). Roedd ein trafodaethau ar y Bil cydgrynhoi cyntaf hwn yn gynhyrchiol a bydd yn helpu ein hystyriaeth ddilynol o'r Bil.

Mae nifer o faterion yr hoffem eu trafod ymhellach. Mae rhai materion hefyd na chawsom y cyfle i'w codi yn ystod y cyfarfod.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymatebion i'r cwestiynau yn yr Atodiad erbyn 17 Awst 2022 (mae cyfeiriadau at Gofnod y Trafodion ar gyfer y sesiwn dystiolaeth wedi'u darparu lle bo angen).

Rydym hefyd wedi bod yn ystyried y ffordd orau y gallwn, yn ystod ein hystyriaeth o'r Bil, godi unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud yn benodol ag arddull drafftio a nodiadau'r Drafftwy'r sy'n cyd-fynd â'r Bil. Gofynnais ichi yn ystod ein cyfarfod a fydddech chi a'r drafftwy'r yn Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn fodlon i'r drafftwy'r eu hunain siarad â ni pe bai angen. Fel y dywedais yn y cyfarfod, byddem, wrth gwrs, yn parchu ffiniau'r hyn sy'n briodol i'w ofyn gan swyddogion y llywodraeth. Hoffwn ddiolch ichi eto am eich ymateb cadarnhaol. Bydd y Clercod yn cysylltu â'r drafftwy'r i nodi dyddiad ac amser addas, os bydd angen.

A gaf i hefyd achub ar y cyfle i'ch gwahodd yn ffurfiol i'n cyfarfod ddydd Llun 14 Tachwedd (pm).

Bydd hwn yn gyfle inni drafod y materion sydd wedi codi gyda chi yn ystod ein hystyriaeth lawn o'r Bil, gan gynnwys unrhyw fater y mae'r rhanddeiliaid yn ei godi gyda ni.



Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd



Atodiad

1. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth gwnaethom ofyn ichi a oedd penderfyniadau wedi'u gwneud i eithrio deddfwriaeth berthnasol o'r ymarfer cydgrynhoi ac a oedd unrhyw eithriadau o'r fath oherwydd pryderon ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol (Cofnod y Trafodion, paragraffau 14-22). Darparwyd rhai enghreifftiau gennych chi a'ch swyddogion - sef *Deddf Diogelu Llongddrylliadau 1973*, *Deddf Eglwysi ac Adeiladau Crefyddol Eraill Diangen 1969*, *Deddf Diogelu Gweddillion Milwrol 1986*, a *Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979*. Fel y trafodwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth, byddem yn ddiolchgar pe baech yn darparu manylion ynghylch y rhesymau llawn pam y mae darpariaethau yn y Deddfau hyn wedi'u heithrio o'r ymarfer cydgrynhoi, ynghyd â manylion am unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall sydd wedi'i heithrio'n fwriadol o'r fersiwn o'r Bil a gyflwynwyd i'r Senedd.
2. Yn ystod y sesiwn, gofynnwyd ichi hefyd beth fyddai'n digwydd pe bai Llywodraeth y DU yn deddfu mewn maes cyfreithiol datganoledig sydd wedi'i gydgrynhoi. Awgrymwyd inni y byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Lywodraeth y DU ddiwygio'r gyfraith a'i wneud yn ddwyieithog (Cofnod y Trafodion, paragraffau 73-81). Awgrymwyd hefyd y gallai'r sefyllfa hon fod yn anodd lle mae Llywodraeth y DU yn paratoi deddf sy'n berthnasol i'r DU gyfan, er enghraifft, ar fater penodol ond nad yw Llywodraeth Cymru yn "gweld bod hynny'n debygol o ddigwydd." (Cofnod y Trafodion, paragraff 81). Byddwch yn gwybod bod sawl enghraifft wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf lle mae Llywodraeth y DU wedi ceisio deddfu ar sail y DU gyfan, gyda neu heb fewnbwn Llywodraeth Cymru neu gydsyniad y Senedd. O'r herwydd, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn ystyried y mater hwn ymhellach ac yn cadarnhau'r canlynol:
 - a yw trafodaethau eisoes wedi dechrau gyda chymheiriaid perthnasol yn Llywodraeth y DU ynghylch rhaglen cydgrynhoi'r gyfraith Llywodraeth Cymru – a'r Bil hwn yn benodol – a disgwyliad Llywodraeth Cymru y bydd unrhyw gyfraith a gynigir gan Lywodraeth y DU mewn maes sydd wedi bod (neu sy'n cael ei gydgrynhoi) yn cael ei wneud yn ddwyieithog ac y bydd unrhyw welliannau gofynnol yn cael eu gwneud i gyfraith Cymru fel y'i cydgrynhoir;
 - sut y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y gallai sicrhau bod unrhyw welliannau a gynigir gan Lywodraeth y DU i gyfraith Cymru sydd wedi'u cydgrynhoi yn cael eu gwneud mewn ffordd a fydd yn diogelu'r cydgrynhoi;
 - a fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried unrhyw effeithiau ar gydgrynhoi cyfraith Cymru mewn unrhyw drafodaeth a gaiff â Llywodraeth y DU ar ddarn perthnasol o ddeddfwriaeth a sut y byddai'n tynnu sylw'r Senedd at unrhyw effeithiau posibl o'r fath?

3. Gwnaethom hefyd ofyn a fydddech yn darparu rhagor o fanylion am eich cynlluniau ar gyfer cod cyfraith Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol a nodwyd gennych y bydd y cod yn cynnwys y Ddeddf (os a phryd y caiff y Bil ei basio ac yna ei roi ar waith) ac unrhyw is-ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth drydyddol oddi tano (Cofnod y Trafodion, paragraffau 92-95). A allwch gadarnhau ein dealltwriaeth o'r canlynol:
- i bob pwrpas, bydd 'codau cyfraith Cymru' yn storfeydd cyfraith sy'n dechrau gyda'r un darn o ddeddfwriaeth sylfaenol sydd wedi'i chydgrynhoi, ac o fewn y storfa bydd unrhyw ddeddfwriaeth ddirprwyedig a wneir o ganlyniad i'r brif ddeddfwriaeth sylfaenol, ynghyd â'r holl ganllawiau perthnasol;
 - yn ymarferol, bydd gwelliannau yn y dyfodol, i bob pwrpas, yn cael eu gwneud i gyfraith benodol o fewn cod.
4. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r Archifau Gwladol ynghylch arddull deddfwriaeth fel codau ar legislation.gov.uk a'r angen i'w diweddarau'n gyflym?
5. Gwnaethom ofyn ichi ddarparu rhagor o fanylion am eich ffordd o feddwl o ran newidiadau i Reolau Sefydlog y Senedd er mwyn sicrhau bod Biliau a gwelliannau yn y dyfodol yn cael eu gwneud o fewn cod cyfraith Cymru. Gwnaethoch gadarnhau y byddai newidiadau o'r fath yn effeithio ar gynigion preifat Aelodau i gyflwyno Biliau i'r Senedd (Cofnod y Trafodion, paragraffau 96-98). O'r herwydd, gwnaethom ofyn a oeddech wedi ystyried ymgynghori'n uniongyrchol ag Aelodau'r meinciau cefn o'r Senedd a Grwpiau'r Pleidiau ynghylch eich cynigion, yn ogystal ag unrhyw waith casglu tystiolaeth y gallai'r Pwyllgor Busnes ei wneud ei hun. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn rhoi eglurhad a chadarnhad o'ch bwriadau ar y mater hwn.
6. A oes unrhyw bwerau newydd wedi'u cynnwys yn y Bil sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud newidiadau polisi?
7. Mae adran 209 o'r Bil yn ymwneud â rheoliadau y caniateir eu gwneud o dan y Bil, ar ôl ei ddeddfu. Mae adran 209(6) yn darparu ar gyfer israddio gweithdrefnau craffu – o gadarnhaol i negyddol – ar gyfer rheoliadau penodol sy'n ymwneud â chytundebau partneriaeth. A allwch egluro sut, yn eich barn chi, y mae hyn yn cyd-fynd â Rheol Sefydlog 26C.2(iv)?
8. A allwch egluro beth fu effaith **Deddf Dehongli 1978** a **Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019** - y mae'r ddau yn berthnasol i gyfraith Cymru - ar y Bil?
9. Mae newidiadau wedi'u gwneud drwy'r Bil i gyd o ran lle mae Deddfau presennol yn defnyddio'r geiriau "expedient" ac "appropriate", ac mae'r rhan fwyaf o'r cyfeiriadau at yr hyn sy'n "expedient" neu'n "appropriate" wedi'u hepgor o'r Bil. Yn Nodiadau'r Drafftwy'r dywedir wrthym fod gan y ddau air yr un effaith, ac yn y rhan fwyaf o achosion nad ydynt yn ychwanegu dim at ofynion cyffredinol cyfraith weinyddol i awdurdodau cyhoeddus weithredu'n rhesymol. Rydym yn ymwybodol bod Biliau diwygio'r gyfraith diweddar a

gyflwynwyd i'r Senedd yn cynnwys y geiriau hyn. A allwch felly gynnig mwy o eglurder ac eglurhad ar y mater hwn.

10. Rydych wedi cydnabod y bydd angen i Wasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wneud gwaith i ddiweddarau eu systemau i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd. Pa drafodaethau a gawsoch gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac a yw'n cytuno y bydd newidiadau o'r fath yn cael eu gwneud fel rhan o'r busnes arferol?
11. Mae'r Bil yn gwneud newidiadau i bwerau dedfrydu Llysoedd Ynadon. Yn Nodiadau'r Drafftwyrs y'n cyd-fynd â'r Bil rydych yn tynnu sylw at y ffaith bod adran 13 o'r *Adolygiad Barnwrol a Deddf Llysoedd 2022* yn diwygio ymhellach *Ddeddf Dedfrydu 2022* fel y gall yr Arglwydd Ganghellor newid y 'terfyn cymwys' o 12 mis i 6 mis ac yn ôl eto. Rydych yn nodi bod y cosbau am droseddau neillffordd wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r newidiadau hyn ar y ddealltwriaeth y bydd adran 13 yn dod i rym cyn y Bil hwn. Beth yw eich dealltwriaeth o ran pryd y daw adran 13 o'r Ddeddf honno i rym? Pa effaith a fydd ar y Bil os na fydd adran 13 mewn grym cyn y Bil hwn, a pha gamau y bydd angen ichi eu cymryd?
12. Yn y Memorandwm Esboniadol rydych yn nodi bod amrywiaeth o gyngor a chanllawiau yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth bresennol, gan gynnwys **Nodyn Cyngor Technegol 24**.
 - A oes cynlluniau i ddiweddarau'r canllawiau hyn o ganlyniad i'r Bil hwn?
 - Pa gynnydd sydd wedi'i wneud gyda gwefan Cyfraith Cymru?
13. Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd ystyried na chytuno ar benderfyniad ariannol ar gyfer Biliau cydgrynhai. Amcangyfrifir mai cyfanswm y costau trosiannol ar gyfer y Bil yw tua £50,000, i'w lledaenu dros gyfnod gweithredu o dair blynedd. Mae'r ffigur hwnnw'n uwch na'r amcangyfrifon cost ar gyfer Biliau diwygio'r gyfraith eraill a gyflwynwyd i'r Senedd lle'r oedd angen penderfyniad ariannol, er enghraifft **Bil Indemnïadau'r GIG (Cymru)**, lle'r oedd y costau amcangyfrifedig yn £30,000. Mae'n bwysig bod yr amcangyfrifon cost yn gywir, yn gadarn ac yn gyfiawnadwy. A allwch egluro sut y cyfrifwyd costau'r Bil, a darparu manylion am y costau trosiannol penodol dan sylw?
14. Mae paragraff 43 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai'r costau amcangyfrifedig fesul awdurdod lleol neu awdurdod Parc Cenedlaethol fydd tua £17,500, tua phedwar diwrnod o waith fesul awdurdod. Ar ba sail yr ydych wedi amcangyfrif y bydd yn bedwar diwrnod o waith i awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol roi'r ddeddfwriaeth ar waith ac a ymgynghorwyd â'r awdurdodau ynghylch yr amcangyfrifon o'r costau posibl?
15. A allwch egluro na fydd unrhyw gostau i berchnogion tir nac unigolion preifat?
16. Mae paragraff 44 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y costau ar gyfer cyrff y trydydd sector a chymdeithasau amwynder yn fach iawn ac yn ôl pob tebyg tua un person am un diwrnod ond ni ddarperir unrhyw gostau gwirioneddol. A allwch egluro pam?



17. A allwch egluro a yw'r gost o £1,400 a amcangyfrifwyd ar gyfer cynnal gweithdai ymgyfarwyddo ar gyfer swyddogion troseddau treftadaeth yn cynnwys y costau i Cadw a'r costau i heddluoedd?
18. Mae paragraffau 50 a 52 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r costau ar gyfer Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Ar ba sail y cyfrifwyd y costau hyn ac a ymgynghorwyd â'r Ymddiriedolaethau a'r Comisiwn Brenhinol ar y costau hyn?





Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Huw Irranca-Davies, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17th Awst 2022

Annwyl Huw

BIL YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf 2022 yn dilyn fy sesiwn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 11 Gorffennaf. Roedd dull y Pwyllgor o ymdrin â'r sesiwn honno yn ddefnyddiol iawn ac rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i ddarparu rhagor o wybodaeth a manylion drwy ein gohebiaeth.

Deddfwriaeth a eithriwyd o'r Bil

1. Cafodd darpariaeth o adran 53 o Ran 3 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 ei hepgor am resymau cymhwysedd deddfwriaethol. Dyma'r ddarpariaeth yn adran 53(4) am gyflwyno achosion mewn mannau eraill ym Mhrydain am droseddau a gyflawnwyd yn y môr tiriogaethol cyfagos i Gymru. O ganlyniad i gyfyngiadau cymhwysedd y Senedd o ran gweithredu unrhyw newidiadau i'r gyfraith, ni fyddem wedi gallu ailddatgan effaith adran 53(4) yn y Bil.
2. Nid yw Rhan 2 o'r Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 yn cael ei hailddatgan yn y Bil. Gwnaed y penderfyniad i beidio ailddatgan am wahanol resymau o'i gymharu â'r enghreifftiau eraill o ddeddfwriaeth y sonioch amdanynt yn eich cwestiwn. Mae Rhan 2 o Ddeddf 1979 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ardaloedd archaeolegol, ond nid yw wedi'i chael ei defnyddio i ddynodi ardaloedd yng Nghymru erioed. Nid oes gan y Rhan ddefnydd nac effaith ymarferol, felly mae'r Bil yn cyflwyno diwygiadau i Ran 2 fel na fydd yn berthnasol mwyach i Gymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3. Yn y Deddfau eraill sydd wedi'u hailddatgan yn llawn neu'n rhannol yn y Bil, mae gwahanol ddarpariaethau wedi'u hepgor o'r cydgrynhoi o dan Reol Sefydlog 26C.2(iii) gan nad ydynt yn cael eu hystyried yn angenrheidiol bellach. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u nodi yn Nodiadau'r Drafftwy'r.
4. Fodd bynnag, cafodd un ddarpariaeth o'r math hwn ei hepgor trwy amryfusedd o Nodiadau'r Drafftwy'r, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gywiro'r diofalwch hwnnw. Mae Adran 54 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn galluogi gorchymyn datblygu o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i nodi achosion lle mae gofyn i berson yr ymgynghorwyd ag ef am gais ddarparu ymateb. Byddai hyn yn cynnwys ceisiadau am gydsyniad adeiladau rhestredig a chydsyniad ardaloedd cadwraeth, ond ni ddefnyddiwyd y pŵer erioed mewn perthynas â'r ceisiadau hynny ac mae Cadw yn ystyried na fydd yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol. Felly, o ganlyniad, gan ddibynnu ar Reol Sefydlog 26C.2(iii) nid yw'r Bil yn diwygio adran 54 i gwmpasu ceisiadau o dan y Bil, sy'n golygu na fydd yn berthnasol i geisiadau cydsyniad adeiladau rhestredig a chydsyniad ardaloedd cadwraeth yng Nghymru.
5. Bydd Nodiadau'r Drafftwy'r yn cael eu diweddarau i gynnwys y cyfeiriad hwn pan fydd cyfle i wneud hynny.
6. Nid yw Nodiadau'r Drafftwy'r yn cynnwys cyfeiriad at adran 49 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ychwaith, gan y bydd yr adran honno yn parhau i fod yn berthnasol i Gymru ar ôl y cydgrynhoi. Yn ein barn ni, byddai'n fwy priodol i adran 49 fod gyda'r gyfraith gyffredinol am iawndal ar gyfer prynu tir yn orfodol, yn hytrach na gyda'r gyfraith ar warchod yr amgylchedd hanesyddol, ac am y rheswm hwnnw nid ydym yn credu y dylai gael ei gynnwys yn y Bil hwn.
7. O'r enghreifftiau eraill o ddeddfwriaeth yr ydych yn eu crybwyll yn eich Atodiad, yr unig un arall a allai'n realistig gael ei gynnwys yn y Bil oedd y ddarpariaeth am longau drylliedig yn Neddf 1973.
8. O ran Deddfau 1969 ac 1986, roeddem o'r farn fod y Deddfau yn ymylol i bwnc y cydgrynhoi ac na ddylid eu cynnwys yn y Bil am y rheswm hwnnw. Yn achos Deddf 1969, mae'r prif ddarpariaethau sy'n dal mewn grym yn ymwneud â phwerau elusennau a'r Comisiwn Elusennau mewn cysylltiad â gwaredu tir, yn hytrach nag am warchod yr amgylchedd hanesyddol fel y cyfryw. Yn yr un modd, mae Deddf 1986 yn ymwneud ag atal ymyriadau ag awyrennau milwrol sydd wedi cwmpo a llongau sydd wedi suddo. Pe baem wedi cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil, credwn y byddai wedi cael effaith negyddol ar hygyrchedd y ddeddfwriaeth a ailddatganwyd.
9. Fel yr awgrymwyd uchod, roedd y sefyllfa ynghylch Deddf 1973 yn wahanol, ac mae'r ddeddfwriaeth yn diogelu rhai llongau drylliedig y credir eu bod o bwys hanesyddol, archaeolegol neu artistig. Y drafferth gyda Deddf 1973 yw ei bod wedi'i phasio fel deddfwriaeth "llenwi bwlc" ar y pryd hwnnw, gan greu mecanwaith y bwriadwyd iddi fod dros dro ar gyfer dynodi a rheoli safleoedd llongau drylliedig.
10. Byddai cynnwys y Ddeddf yn y Bil wedi gofyn am nifer o ddarpariaethau newydd i'w chysoni ag arferion modern (nid yw'r ddarpariaeth gyfredol yn cynnwys fawr iawn o fanylion am sut mae'r system a sefydlwyd gan y Ddeddf yn gweithredu), ac ni ddefnyddiwyd y ddeddfwriaeth ers 20 mlynedd (dim ond chwe safle sydd wedi'u dynodi erioed yng Nghymru). Mae'n berthnasol hefyd, wrth gwrs, i safleoedd ar y môr yn hytrach nag ar y tir. O ganlyniad, nid oedd Deddf 1973 yn cael ei hystyried yn flaenoriaeth, yn rhannol oherwydd y gellid cyfiawnhau ei hepgor ac yn rhannol oherwydd nad yw'n rhan arwyddocaol o'r system ar gyfer gwarchod yr amgylchedd hanesyddol.

Deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y DU

11. Rwy'n deall, ac yn rhannu i raddau, bryderon y Pwyllgor – nod yr holl brosiectau cydgrynhoi yw gwella hygyrchedd cyfraith Cymru, ac rydym am sicrhau bod popeth yn cael ei wneud i gynnal y gwelliant hwnnw. Ond nid yw hynny'n golygu na ellir cyflwyno newidiadau dilynol i ddeddfwriaeth sydd wedi'i chydgrynhoi. Yn amlwg, gellir gwneud hynny. Yr hyn rydym am ei sicrhau yw bod y newidiadau hynny'n cael eu gwneud fel diwygiadau i'r cydgrynhoed, nid fel cynigion deddfwriaeth annibynnol ar wahân.
12. Mae swyddogion yn Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol wedi trafod rhaglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru gyda'u swyddogion cyfatebol yn swyddfeydd drafftio eraill y DU. Mae hyn yn cynnwys esbonio ein huchelgeisiau ar gyfer cynnal y gyfraith unwaith iddi gael ei chydgrynhoi a'i chodeiddio. Mae'r swyddfeydd drafftio hynny eisoes yn ymwybodol o'n polisi sy'n bodoli'n barod bod yn rhaid i ddiwygiadau i gyfraith gyfredol Cymru gan ddeddfwriaethau eraill wneud newidiadau yn nhestun y ddwy iaith. Mae digon o enghreifftiau o hynny'n digwydd eisoes.
13. Fel yr esboniwyd yn y dystiolaeth i'r Pwyllgor, pe bai Llywodraeth y DU yn deddfu ar gyfer Gymru ar fater y cydgrynhowyd y gyfraith arno eisoes yna byddai disgwyl i Fil y DU ddiwygio'r gyfraith a gydgrynhowyd. Pe bai'r sefyllfa'n codi o gwbl, y dull o weithio yw y byddai ein swyddogion yn esbonio a thrafod â'r swyddogion polisi, cyfreithiol a drafftio perthnasol ar y pryd.
14. Pe bai hyn yn digwydd rhywbryd, credaf y byddai'n briodol tynnu sylw'r Senedd i'r dull drafftio a fabwysiedir gan Lywodraeth y DU yn eu cynigion deddfwriaethol fel rhan o broses y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Codau Cyfraith Cymru

15. Mae'r Pwyllgor wedi deall y bwriadau ar gyfer Codau cyfraith Cymru'n gywir. I addasu'ch geiriad chi, dyma storfeydd y gyfraith. Byddant mwy na thebyg yn dechrau gydag un darn o ddeddfwriaeth sylfaenol wedi'i chydgrynhoi. Ond gallent hefyd ddechrau gyda'r datganiad sylwedd o'r gyfraith a nodwyd drwy Ddeddf a oedd yn diwygio ac ailddatgan y gyfraith ar bwnc (felly trwy Fil Seneddol a weithredir drwy Reol Sefydlog 26). Gall deddfwriaeth sylwedd sylfaenol ddilynol fod yn rhan o God hefyd. Er enghraifft, yn sgil y swm o ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig, gallai Cod cyfraith Cymru ar addysg - fel y dywedwyd mewn tystiolaeth flaenorol - gynnwys nifer o Ddeddfau yn ymwneud â gwahanol agweddau ar gyfraith addysg (e.e. ysgolion, addysg bellach, addysg uwch). Os bwriadwyd i Ddeddf fod yn rhan o God, bydd datganiad i'r diben hwnnw'n cael ei gynnwys ynddo - fel y gwnaed yn adran 1(1) o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) fel rheol.
16. Ni fydd deddfwriaeth sy'n diwygio'r Deddfau sylwedd hynny yn ffurfio rhan o'r Cod nac yn cael eu cynnwys yn y datganiad. Eu diben yw bod yn gyfrwng ar gyfer cyflawni'r diwygiadau, sef y ddeddfwriaeth a gydgrynhowyd yn yr achos hwn.
17. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gywir i ddweud y bydd y Cod (neu'r 'storfa') yn cynnwys deddfwriaeth a chanllawiau dirprwyedig. Bydd y rheoliadau sylwedd yn cynnwys datganiad eu bod yn ffurfio rhan o'r Cod. Ac eto, ni fydd y rheoliadau diwygiedig yn rhan o'r Cod ond bydd eu heffeithiau yn digwydd o fewn y Cod.

18. Er bod yr Archifau Cenedlaethol yn ymwybodol o raglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, nid ydym yn gweld bod angen chwilio am arddull ychwanegol neu wahanol ar legislation.gov.uk ar gyfer deddfwriaeth sy'n rhan o God. Y rheswm am hyn yw nad yw'n fath newydd o ddeddfwriaeth (bydd y Deddfau'n parhau i fod yn Ddeddfau Senedd Cymru, er enghraifft).
19. Rydym yn bwriadu defnyddio gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales i amlinellu cynnwys Codau cyfraith Cymru. Byddwn yn creu tudalen bwrpasol ar gyfer pob Cod, a bydd defnyddwyr yn gallu cael gafael ar ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth o'r dudalen hon, yn ogystal â dolenni i ganllawiau. Bydd Argraffydd y Frenhines yn parhau i fod yn gyfrifol am gyhoeddi'r ddeddfwriaeth (y copïau swyddogol a'r fersiynau argraffedig) a bydd legislation.gov.uk yn parhau i gyhoeddi fersiynau digidol o'r ddeddfwriaeth (sydd ar gael wedyn o dan y Drwydded Agored y Llywodraeth i gyhoeddwy'r masnachol ac eraill ei haildefnyddio).
20. Byddaf yn diweddarau'r Senedd yn ddiweddarach eleni ar y cynnydd rhagorol a wnaed gyda legislation.gov.uk ar ehangu swyddogaeth y wefan er mwyn gallu diweddarau testunau Cymraeg cyfraith Cymru. Ond cyn hyn gallaf sicrhau'r Pwyllgor bod trefniadau'n cael eu gwneud i sicrhau y bydd diwygiadau i Ddeddfau ac OSau sy'n rhan o God cyfraith Cymru yn y dyfodol yn cael eu diweddarau'n fuan ar legislation.gov.uk.

Newidiadau posibl i Reolau Sefydlog

21. Mae'r Senedd a'r Pwyllgor hwn wedi cydnabod y risgiau, ac - efallai y gellid dadlau – y difrod, i hygyrchedd cyfraith sydd wedi'i chydgrynhoi oherwydd darnio ac ymlediad dilynol os na wneir diwygiadau i'r Deddfau sylwedd. Dyna pam mae angen dod o hyd i ffordd o helpu i sicrhau bod yn rhaid i'r Senedd ei hun gytuno ar unrhyw gynigion deddfwriaethol yn y dyfodol nad ydynt yn gwneud unrhyw beth mwy na diwygio Cod. Nid wyf yn meddwl y gallwn ddweud na fyddai byth reswm da pam allai hyn ddigwydd, ond rwy'n credu y gallwn ddweud fod yn rhaid i'r Senedd fod yn fodlon pe bai hynny'n cael ei gynnig.
22. Mae'n ymddangos i mi mai'r ffordd orau o ddiogelu'r egwyddor hon yw cynnwys darpariaeth ar hyn yn y Rheolau Sefydlog perthnasol ar gyfer Biliau (ac is-ddeddfwriaeth hefyd efallai pe bai'r Senedd yn ystyried bod angen hynny).
23. Bydd y Trefnydd a minnau'n codi hyn gyda'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes unwaith y byddwn yn gwybod beth y bwriadau'r Senedd ar gyfer y Bil hwn, fel y gellir sefydlu dull addas o ymgysylltu ag Aelodau a Grwpiau Pleidiau ar y mater hwn. I ailadrodd y pwynt a wnes yn y sesiwn dystiolaeth, mae hwn yn fater y dylai pob Aelod ei ystyried a bod yn fodlon ag ef - gan fod Pwyllgorau, Aelodau unigol a'r Comisiwn yn gallu cyflwyno cynigion deddfwriaethol, nid dim ond y Llywodraeth.

Pwerau newydd Gweinidogion Cymru

24. Mae Adran 2(3) o'r Bil yn cynnwys pŵer newydd i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer eithriadau i'r rheol gyffredinol nad yw adeiladau crefyddol a ddefnyddir at ddibenion crefyddol yn henebion at ddibenion Rhan 2 o'r Bil.
25. Mae'r pŵer hwn wedi'i gynnwys oherwydd ansicrwydd am ystyr geiriau agoriadol adran 61(8) o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979. Mae'r adran honno'n atal adeiladau eglwysig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion eglwysig ar hyn o bryd rhag cael eu trin fel "henebion".

26. Wrth ailddatgan y ddarpariaeth hon yn adran 2(3) o'r Bil roeddem yn ansicr a fwriadwyd i'r eithriad gwreiddiol fod yn berthnasol i Eglwys Loegr yn unig, ac yn ansicr ynghylch ystyr y geiriad yng nghyd-destun gweithredu adran 3 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (mae adran 3 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarllen a gweithredu deddfwriaeth mewn ffordd sy'n gydnaws â hawliau Siarter Hawliau Dynol Ewrop, cyn belled ei bod hi'n bosibl gwneud hynny). Gweithredwyd y ddarpariaeth i bob rhanbarth ar y dechrau, gan ein bod ni'n credu mai dyma'r dehongliad a oedd yn debygol o fod fwyaf cydnaws â'r Siarter, ond rydym wedi cadw rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i unrhyw newid mewn amgylchiadau yn y dyfodol.
27. Mae yna enghreifftiau eraill yn y Bil lle mae darpariaeth wedi cael ei symud o is-ddeddfwriaeth i'r Bil ond efallai y bydd rhaid gwneud newidiadau yn y dyfodol. Yn yr achosion hynny, mae'r Bil yn cynnwys pwerau i ddiwygio'r darpariaethau. Un enghraifft yw'r pŵer yn Atodlen 3 o'r Bil i newid categorïau cydsyniadau dosbarth; mae Deddf 1979 yn gadael hyn i is-ddeddfwriaeth yn gyfan gwbl. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn cynnwys rhoi pwerau newydd, maent yn cadw'r hyblygrwydd cyfredol sydd ar gael i Weinidogion Cymru wneud addasiadau i'r system a grëwyd gan y Bil.

Adran 209(6) o'r Bil

28. Cyflwynwyd y newid hwn yng nghyd-destun newid yn y dull a fabwysiadwyd gan y Bil i'r hyn sy'n cael ei gwmpasu ar wyneb y ddeddfwriaeth sylfaenol. Rydym wedi ailddatgan llawer mwy ar wyneb y Bil am faterion allweddol sy'n berthnasol i gytundebau partneriaeth na'r hyn sy'n ymddangos ar hyn o bryd ar wyneb Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Er enghraifft, mae darpariaeth am derfynu cytundebau partneriaeth wedi'i chwmpasu'n gyfan gwbl gan y Bil ac nid gan reoliadau (fel yw'r achos ar hyn o bryd).
29. Mae'r gwahaniaeth hwn mewn dull yn cyfiawnhau gweithdrefn wahanol yn ein barn ni, ac rydym yn credu bod hyn wedi'i ganiatáu gan Reol Sefydlog 26C.2. Y materion rydym yn eu gadael i reoliadau yn amodol ar weithdrefn negyddol yw'r mathau o faterion gweithdrefnol sydd hefyd yn cael eu gadael i reoliadau negyddol mewn mannau eraill o'r Bil; er enghraifft, yn y ddarpariaeth ar gyfer ceisiadau am gydsyniad heneb restredig.
30. Mae'n werth nodi y byddai unrhyw reoliadau sy'n addasu effaith Rhan 2 o'r Bil i gytundebau partneriaeth yn dal i fod yn destun y weithdrefn gadarnhaol. Mae hyn yn gyson â pholisi'r Llywodraeth ar benderfynu ar y weithdrefn addas i'w defnyddio gydag is-ddeddfwriaeth.

Effaith Deddf Dehongli 1978 a Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ar y Bil

31. Mae Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i'r holl Ddeddfau sydd wedi'u cydgrynhoi yn y Bil a'r is-ddeddfwriaeth a wnaed cyn 2020. Mae Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn berthnasol i is-ddeddfwriaeth fwy diweddar a bydd yn berthnasol i'r Bil. Bydd y Bil felly'n destun darpariaethau dehongli ychydig yn wahanol gan bron bob deddfwriaeth y mae'n ei chydgrynhoi.
32. Mae prif oblygiadau'r newid hwn wedi'u disgrifio ym mharagraffau 14 i 17 o Nodiadau'r Drafftwyd, a rhoir enghreifftiau penodol yn y cofnodion ar gyfer adrannau 2, 3, 74, 160, 161 a 205 o'r Bil a'r cofnod ar gyfer hepgor adran 91(4) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Cyhoeddodd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ganllawiau cyffredinol hefyd ar effaith y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Deddfwriaeth 2020; gweler <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-baratoi-deddfwriaeth-cymru>

33. Mae'r Atodlenni o ddiffiniadau cymwys cyffredinol yn y ddwy Ddeddf ychydig yn wahanol. Yn benodol, nid yw'r diffiniad o "Gymru" yn y Ddeddf Ddehongli'n cynnwys y môr tiriogaethol tra bod y Ddeddf Deddfwriaeth yn ei gynnwys. Mae hyn yn golygu gwahanol oblygiadau ar gyfer gwahanol Rannau o'r Bil. Yn Rhan 2, rydym wedi hepgor darpariaethau o Ddeddf 1979 sy'n rhoi'r ystyr ehangach i "Gymru", gan nad oes eu hangen mewn Bil a fydd yn destun y Ddeddf Deddfwriaeth. Yn Rhan 3, rydym wedi ychwanegu darpariaeth i roi ystyr y Ddeddf Dehongli i "Gymru"; mae hyn yn cadw'r effaith o dawelwch yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 am ystyr "Cymru" (sy'n golygu bod diffiniad y Ddeddf Ddehongli'n berthnasol).

Y defnydd o 'hwylus' a 'briodol'

34. Ein hagwedd yw na ddylid cynnwys cyfeiriadau at beth sy'n "hwylus" neu'n "briodol" oni bai fod hynny'n angenrheidiol. Mae hyn yn adlewyrchu'n dull cyffredinol o hepgor geiriad diangen. I'r gwrthwyneb, wrth gwrs, ni ddylid hepgor geiriad pan *mae'n* angenrheidiol.

35. Pan fydd darpariaeth yn rhoi pŵer ar awdurdod cyhoeddus i wneud rhywbeth, fel arfer nid oes angen i'r awdurdod ystyried bod gwneud y peth hwnnw yn "hwylus" neu'n "briodol" gan fod y gyfraith eisoes yn gofyn i gyrff cyhoeddus weithredu mewn ffordd resymol. Mae'n bosib bod y sefyllfa honno yn llai clir pan gafodd rhai o ddarpariaethau'r Bil a ailddatganwyd eu deddfu am y tro cyntaf (amser maith yn ôl mewn rhai achosion), a gallai hyn esbonio pam roedd hyn yn cael ei wneud. Ond ni fyddai Bil modern yn cynnwys geiriad i ddweud bod rhaid i gorff cyhoeddus weithredu mewn ffordd resymol, ac mae'r cyfeiriadau sydd wedi'u hepgor o'r Bil yn rhai o'r math hwn yn bennaf.

36. Mae rhai cyfeiriadau at yr hyn mae awdurdod yn ei ystyried yn "briodol" wedi'u cadw yn y Bil. Dyma ble rydym yn credu bod y cyfeiriadau'n angenrheidiol gan na fyddai'r darpariaethau dan sylw yn gweithio, neu byddent yn aneglur, hebddynt. Ond rydym yn adolygu'r cyfeiriadau hyn a byddem yn fodlon edrych ar unrhyw rai y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried fel rhai diangen.

37. Pan mae'r Bil yn defnyddio'r gair "briodol", dylai'r cyfeiriadau berthyn i'r categorïau canlynol:

- a. Mae darpariaethau am ymgynghori neu hysbysu yn aml yn gofyn i Weinidogion hysbysu neu ymgynghori â phersonau penodedig ac unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn briodol. Mae enghreifftiau o hyn yn adrannau 5(3), 78(2), 194(7) a 196(4) a pharagraff 3(5) o Atodlenni 4 a 5, a darpariaethau tebyg am bwy allai fod yn barti i gytundeb partneriaeth yn adrannau 25(2) a 113(2) a (4) o'r Bil. Byddai cyfeirio at "personau eraill" yn unig yn aneglur ac efallai y byddai'n cael effaith wahanol.
- b. Mae rhai darpariaethau'n galluogi neu'n gofyn i awdurdod cyhoeddus gymryd camau gweithredu y mae'n eu hystyried yn "briodol" at ddibenion penodol neu dalu sylw i ystyriaethau penodol. Mae'r cyfeiriadau at yr hyn mae'r awdurdod yn ei ystyried yn briodol yn datgan y cysylltiad rhwng y cam gweithredu a'r dibenion neu'r ystyriaethau'n glir. Mae enghreifftiau o hyn yn adrannau 35(1), 123(1) a 134(1) a pharagraff 2(7) o Atodlen 9.
- c. Mae rhai darpariaethau'n datgan y gall awdurdod cyhoeddus wneud unrhyw beth mae'n ei ystyried yn briodol, er mwyn ei gwneud yn glir bod y pŵer yn un eang iawn. Gall hyn fod yn bwysig pe bai'r cyd-destun yn awgrymu fel arall y gallai'r pŵer fod yn gulach. Mae enghraifft o hyn yn adran 184(6).

- d. Mae rhai darpariaethau'n cyfeirio at yr hyn sy'n "briodol" am gymysgedd o resymau b. a c., h.y. i'w gwneud yn glir bod gan awdurdod cyhoeddus bŵer ehangach i wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn briodol at ddiben penodol. Mae enghreifftiau o hyn yn 9(5), 42(3), 81(5), 135(3) a 143.
38. Efallai fod yna resymau eraill dros gynnwys y gair "priodol" mewn deddfwriaeth. Er enghraifft, mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn Ddeddf ddiweddar sy'n cynnwys y gair "priodol" mewn sawl lle. Cafodd rhai o'r cyfeiriadau hyn eu cynnwys am resymau nad ydynt yn berthnasol i'r Bil cyfredol:
- a. Mae adrannau 12, 14, 16 a 51 o'r Ddeddf honno yn rhoi pwerau i gyrff addysg wneud gwahanol bethau os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny. Mae'r pwerau hyn yn ymddangos yn syth ar ôl pwerau i wneud pethau eraill dim ond os yw'r gyrff yn ystyried bod angen gwneud hynny. Mae angen y cyfeiriadau at beth sy'n "briodol" yn y cyd-destunau hyn i'w gwneud yn glir nad y prawf yw'r peth angenrheidiol.
- b. Mae adrannau 33(4), 45(5) a 46(3) yn rhoi pwerau i gorff gyfeirio person arall i gymryd y cam gweithredu y mae'n ei ystyried yn briodol. Mae'r geiriad wedi'i gynnwys i'w gwneud yn glir mai'r corff sy'n rhoi'r cyfarwyddyd sy'n penderfynu pa gam gweithredu sy'n briodol i'w gymryd.

Ymgysylltu â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

39. Mae Llywodraeth Cymru wedi dilyn y gweithdrefnau cytunedig i sicrhau bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwybodol o'r Bil. Cyflwynwyd ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd wedi cadarnhau na fydd y Bil yn cael unrhyw effaith neu effaith fach iawn ar y system gyfiawnder. Yn ogystal, cyflwynwyd gwybodaeth i'r Arglwydd Brif Ustus ac ni nodwyd unrhyw faterion a fydd yn effeithio ar Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM na'r Coleg Barnwrol.

Deddf Adolygiad Barnwrol a Llysoedd 2022

40. Daeth Adran 13 o Ddeddf Adolygiad Barnwrol a Llysoedd 2022 i rym yn llawn ar 13 Gorffennaf 2022 drwy reoliad 3 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (Rhif Cychwyn 34) a Rheoliadau Deddf Adolygiad Barnwrol a Llysoedd 2022 (Rhif Cychwyn 1) 2022 (OS 2022/816).
41. Nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw newidiadau i bwerau dedfrydu Llysoedd Ynadon ond mae'n cynnwys newidiadau gwirioneddol a darpar newidiadau i'r cosbau am droseddau amgylchedd hanesyddol sy'n cael eu gwneud gan ddeddfwriaeth arall. Yr unig newid i bŵer dedfrydu a wnaed gan y Bil yw yn adran 198, sy'n hepgor y pŵer i gyflwyno dedfryd o garchar ar euogfarn ar dditiad sy'n cael ei ddarparu gan adran 330(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd. (Gweler y cofnod ar gyfer adran 198 yn Nodiadau'r Drafftwyd).

Diweddarau TAN24

42. Fel rhan o'r cam gweithredu a ragwelir mewn perthynas â'r Bil, bydd canllawiau a chynghor a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys Nodyn Cynghor Technegol 24, yn cael eu diweddarau. Newidiadau i'r testun fydd y rhain i ddiweddarau'r cyfeiriadau at deitl y ddeddfwriaeth neu rifau adrannau – bydd y cynghor polisi yn y dogfennau yn aros yr un fath.

43. Mae Atodlen 14 i'r Bil yn gwneud darpariaethau trosiannol, fel bod unrhyw gyfeiriad at ddarpariaeth neu ddeddf a ddiddymwyd yn cael ei ddarllen fel cyfeiriad at y ddarpariaeth gyfatebol yn y Bil.
44. Fel rwy'n ei nodi uchod, byddaf yn diweddarau'r Senedd yn ddiweddarach eleni ar y cynnydd o dan raglen hygyrchedd y Llywodraeth, yn cynnwys mewn perthynas â Cyfraith Cymru. Ond rwy'n gobeithio bod fy sylwadau cynharach ar fwriadau cyhoeddi'r Codau ar y wefan honno yn nodi sut y bydd canllawiau'n cael eu cynnwys.

Costau sy'n gysylltiedig â gweithredu

45. Rwy'n nodi eich sylwadau ar ddeddfwriaeth arall, ond mae'n rhaid i ni fod yn glir nad yw'r ffaith nad yw deddfwriaeth arall yn destun costau ar yr un lefel â'r Bil hwn yn golygu bod y costau hyn yn sylweddol neu'n ddiffygiol o ran cywirdeb neu gadernid. I gyfrifo costau'r Bil hwn, cafodd y rhannau o'r sector amgylchedd hanesyddol a fyddai'n cael eu heffeithio gan y ddeddfwriaeth newydd eu nodi gan Cadw, ac ystyriwyd hefyd y gwaith a fyddai'n angenrheidiol. Roedd y rhain yn sail i amcangyfrifon costau seiliedig ar wybodaeth, a oedd hefyd yn ystyried cymariaethau â deddfwriaeth ddiweddar a graddau cyflogau'r gwasanaeth sifil.
46. Roedd mwyafrif llethol y costau a nodwyd yn gostau staff a oedd yn gysylltiedig â diweddarau gwefannau, canllawiau a ffurflenni fel eu bod yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth gywir. Bydd angen amser ar staff i ymgyswrtu â'r ddeddfwriaeth newydd hefyd. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, costau 'cyfle' yw'r rhain nid costau 'gwirioneddol' – ychydig iawn o gostau gwirioneddol (wedi'u nodi yn y Memorandwm Esboniadol) a nodwyd.
47. Er fy mod yn deall pam mae'r Pwyllgor yn gofyn am esboniad ar unrhyw fater a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, dylwn ddatgan yn glir nad yw'r Llywodraeth yn bwriadu cwblhau'r asesiadau effaith rheoleiddiol llawn mewn perthynas â Biliau cydgrynhoi fel rydym ni'n ei wneud ar gyfer Biliau diwygio'r gyfraith, lle bo'n berthnasol. Yn unol â Rheolau Sefydlog, mae gofyn i'r Llywodraeth nodi'r amcangyfrifon gorau ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol. Wrth ddatblygu'r rhain, pe bai'n ystyried y byddai'r costau'n sylweddol, byddai hyn yn awgrymu na allai'r cynigion barhau fel Bil cydgrynhoi ac y dylai'r llywodraeth ystyried a yw am fwrw ymlaen ai peidio drwy gyflwyno Bil diwygio. A byddai Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn yn cael ei gynnal ar y pwynt hwn.
48. Ond ar y pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor, gallaf gadarnhau:

a) Costau i Awdurdodau Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol

Mae'r amcangyfrif o amser yn adlewyrchu'r gwaith a ragwelir er mwyn diweddarau gwefannau a deunyddiau eraill i gynnwys cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth newydd a sicrhau bod staff allweddol yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth. Ni fydd llawer o'r wybodaeth y bydd awdurdodau lleol yn ei darparu yn newid gan y bydd effaith y gyfraith yn parhau i fod yr un fath. Gallant wirio, er enghraifft, ddolenni sy'n mynd â'r darlennydd i wefan Cadw i sicrhau eu bod yn gywir, yn ogystal ag i ddiweddarau cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth gywir. Mae'n debyg y bydd hyn yn cael ei wneud am gost debyg gan staff mewn graddau tebyg i Lywodraeth Cymru ac mae'r costau wedi'u hamcangyfrif ar y sail hon. Er na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol, mae trafodaethau gydag awdurdodau cynllunio ar effaith y Bil a beth fydd angen ei wneud cyn iddo ddechrau, wedi llywio'n hamcangyfrifon costau.

b) Costau i dirfeddianwyr ac unigolion preifat

Ni fydd unrhyw gostau i dirfeddianwyr nac unigolion preifat gan nad oes unrhyw newid i effaith y gyfraith.

c) Costau i gyrff trydydd sector a chymdeithasau amwynder

Mae'n anodd mesur hyn gan y bydd rhai sefydliadau'n cynnwys dolenni ar eu gwefan sy'n cyfeirio'r darllenydd i'r ddeddfwriaeth berthnasol neu ddeunydd cysylltiedig a fydd yn cymryd ychydig funudau i'w ddiweddarau. Mae sefydliadau eraill yn cynnwys testun mwy esboniadol a bydd angen i hwnnw adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd felly gallai hynny gymryd mwy o amser i'w ddiweddarau. Nid yw'n bosibl pennu cost ar yr amser y gallai hyn ei gymryd gan y bydd gan bob sefydliad wahanol lefelau tâl.

d) Gweithdai ymglyfarwyddo ar gyfer swyddogion troseddau treftadaeth

Er bod gan awdurdodau heddlu eu mecanweithiau eu hunain ar gyfer nodi deddfwriaeth newydd, mae rhwydwaith o swyddogion yn bodoli sy'n ymdrin â throseddau treftadaeth yn benodol. Mae gan Gymru bedwar swyddog cyswllt troseddau treftadaeth, un ar gyfer pob llu, gydag un ohonynt yn bwynt cyswllt unigol cyffredinol sy'n arwain ar droseddau treftadaeth yng Nghymru. Bydd y sesiwn ymglyfarwyddo yn cael ei chynnal fel rhan o gyfarfodydd rheolaidd Cadw â'r swyddogion cyswllt troseddau treftadaeth. Mae'r costau a nodwyd yn cynnwys costau Cadw, costau cyfleoedd ar gyfer amser y swyddogion cyswllt troseddau treftadaeth i fynychu'r sesiwn ac unrhyw amser sydd ei angen i ddiweddarau unrhyw lawlyfrau neu gyfarwyddiadau desg.

e) Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Mae Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru'n gyfrifol am Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru. '[Archwilio](#)' yw'r system fynediad ar-lein i'r cofnodion hyn ac mae'n cynnwys gwybodaeth ar gyfer Cymru gyfan; bydd gofyn diweddarau rhywfaint i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd. Mae Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru hefyd yn cyflawni rôl allweddol o ran rheoli a hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol ac rydym yn disgwyl iddynt ddarparu cymorth gwerthfawr i godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth newydd ac is-ddeddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig. Yn ogystal, bydd angen iddynt sicrhau bod eu gwefannau'n cynnwys y wybodaeth ddiwygiedig gywir.

Bydd y prif gostau ar gyfer y Comisiwn Brenhinol yn gysylltiedig â chael staff i ymglyfarwyddo â'r Bil. Bydd angen i'r Comisiwn adolygu ei wefannau a chronfeydd data hefyd i nodi newidiadau a allai fod yn ofynnol i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd.

Nid ydym wedi cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y costau amcangyfrifedig, ond mae trafodaethau ag Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru a'r Comisiwn Brenhinol yn awgrymu y bydd y gwaith hwn yn gofyn am isafswm o weithgarwch gan y ddau, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn yr amcangyfrifon costau.

Edrychaf ymlaen at drafodaethau pellach y Pwyllgor ar y Bil, ac rwy'n hapus i gadarnhau y byddaf yn dychwelyd i ddarparu rhagor o dystiolaeth ar 14 Tachwedd.

Yn gywir,



Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Atodiad C: Gohebiaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar faterion yn ymwneud yn bennaf â Nodiadau'r Drafftswyr

Mick Antoniw AS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y
Cyfansoddiad

20 Medi 2022

Annwyl Mick

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Yn dilyn ein cyfarfod cynhyrchiol ar 11 Gorffennaf 2022, pan wnaethom ddechrau ein gwaith craffu ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (y Bil), erbyn hyn mae gennym restr arall o gwestiynau yr hoffem eu trafod â chi. Daw'r rhestr o gwestiynau yn yr Atodiad yn bennaf o faterion o ddiddordeb i ni yn Nodiadau'r Drafftwy'r. Mae'r rhestr hefyd yn cynnwys rhai cwestiynau sy'n ymwneud â themâu ehangach, yn ogystal â rhai cwestiynau dilynol mewn perthynas â'ch ymateb (ar 17 Awst 2022) i'n llythyr ar 19 Gorffennaf 2022.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb i'n cwestiynau erbyn 18 Hydref 2022.

Cofion cynnes,

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd



HENEBION O DDIDDORDEB HANESYDDOL ARBENNIG

1. **Adran 2(3)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn disgrifio'r newid fel "Ailfframio'r esemptiad ar gyfer adeiladau eglwysig" ac yn nodi ychwanegu pŵer gwneud rheoliadau newydd (gweithdrefn gadarnhaol ddrafft) i bennu eithriadau. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod "effaith bresennol y ddarpariaeth yn ansicr" a bod y pŵer gwneud rheoliadau yno am resymau hyblygrwydd rhag ofn y bydd angen rhagor o eglurhad yn y dyfodol.
 - a. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iv).
 - b. Pam y mae effaith y ddarpariaeth bresennol yn *Neddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979* (Deddf 1979) yn ansicr?
 - c. Mae'r pŵer gwneud rheoliadau newydd (gweithdrefn gadarnhaol ddrafft) yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid polisi. Nid yw'r pŵer yn gyfyngedig i ddarparu eglurder – mae'n bŵer i gymhwyso cyfraith amgylchedd hanesyddol i adeiladau (h.y. adeiladau crefyddol) nad ydynt wedi bod yn ddarostyngedig i gyfraith amgylchedd hanesyddol o'r blaen. Gellir defnyddio'r pŵer hefyd i wneud darpariaeth gysylltiedig, atodol ac ati (darllener gydag adran 209(2)). Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder ynghylch pam y mae angen yr hyblygrwydd.
2. **Yn berthnasol i adran 5** - Hepgor y pŵer i wneud rheoliadau i ychwanegu at y rhestr o ymgylgoreion. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y profiad o weithredu diwygiadau a wnaed gan *Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016* (Deddf 2016) wedi dangos bod y pŵer yn ddiangen, a bod Cadw yn ystyried bod y rhestr o ymgylgoreion yn yr adran eisoes yn gynhwysfawr.
 - a. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iii).
 - b. Byddem hefyd yn croesawu cadarnhad nad oes pŵer dirprwyedig arall ar gael i Weinidogion Cymru y gellid ei ddefnyddio i ychwanegu at y rhestr o ymgylgoreion.
 - c. Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch a fu cwynion erioed gan bobl sy'n dweud y dylid bod wedi ymgynghori â hwy.
3. **Adran 14(2), (4), (5)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod rhannau pwysig o'r broses ar gyfer gwneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig wedi'u symud o bŵer gwneud rheoliadau i'r Bil, oherwydd bod y rhain yn "elfennau sefydlog o'r broses ar gyfer gwneud

cais" ac yn annhebygol o newid yn y dyfodol. Byddem yn croesawu eglurder ynghylch y rheswm "annhebygol o newid" yn Nodiadau'r Drafftwy'r.

4. **Atodlen 6, paragraff 3** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod newid wedi'i wneud i "sicrhau cysondeb" yn y Rhan gyfan hon o'r Bil o ran costau yr eir iddynt gan Weinidogion. Mae'r gyfundrefn gostau ar hyn o bryd yn gymwys i ymchwiliadau lleol, ond nid gwrandawiadau. Mae'r Bil yn cymhwyso'r gyfundrefn gostau i ymchwiliadau a gwrandawiadau.
 - a. Byddem yn croesawu eglurder ynghylch ar bwy y bydd y newid hwn yn effeithio, yn benodol, pwy fydd yn gorfod talu mwy o gostau neu lai o gostau yn y pen draw.
 - b. Byddem hefyd yn croesawu eglurder ynghylch pam yr ystyrir y "[c]ollwyd" diwygiad canlyniadol i baragraff 4(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 1979, yn hytrach na'i fod yn hepgoriad bwriadol.
5. **Yn berthnasol i adran 21(5)** – Hepgor pŵer i bennu eithriadau drwy reoliadau. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan nad yw adran 7(4A) o Ddeddf 1979 mewn grym eto, a bod y profiad ers 2016 yn awgrymu na fyddai'r pŵer byth yn cael ei ddefnyddio.
 - a. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iii).
 - b. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder ynghylch y rheswm "n[a] fyddai'r pŵer byth yn cael ei ddefnyddio" a nodir yn Nodiadau'r Drafftwy'r, o gofio y cafodd y pŵer i bennu eithriadau ei gynnwys yn Neddf 2016.
6. **Adran 30(7)(b)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y gofyniad bod gwybodaeth yn bodoli cyn i waith gael ei wneud wedi'i hepgor. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod yr hepgoriad hwn yn cywiro gwall wrth yng ngwaith drafftio adran 2(8A) o Ddeddf 1979 mewn perthynas ag achosion lle y cyflawnir y drosedd yn ddiweddarach. Mae'n ymddangos bod yr hepgoriad yn newid yr elfennau o amddiffyniad troseddol mewn achosion troseddol penodol. Byddem yn croesawu cadarnhad bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried y newidiadau i'r amddiffyniad yn fanwl.
7. **Adran 31(5)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod cyfeiriadau wedi'u hychwanegu at bersonau sy'n caniatáu gwaith a meddianwyr fel rhai a allai gael hysbysiad stop dros dro.
 - a. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iii).

- b. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ynglŷn â diffyg eglurder effaith y gyfraith bresennol y mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio ati, h.y. yng nghyd-destun ychwanegu cyfeiriadau at feddianwyr.
8. **Adran 39(2)(c)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod darpariaeth ynghylch sicrhau diogelwch neu iechyd drwy waith atgyweirio neu waith ategu neu gysgodi dros dro wedi'i hepgor. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod y sail dros apêl yn adran 9ZE(3)(c) o Ddeddf 1979 yn atgynhyrchu darpariaeth gyfatebol ar gyfer adeiladau rhestredig ond "mae'n ymddangos ei bod wedi ei chynnwys drwy gamgymeriad yn adran 9ZE."
- a. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iv).
- b. Byddem yn croesawu eglurder o ran y rhesymu a gynigir yn Nodiadau'r Drafftwy'r bod darpariaeth yn Neddf 1979 "yn ymddangos ei bod wedi ei chynnwys drwy gamgymeriad". Rydym yn nodi y cafodd adran 9ZE ei mewnosod yn Neddf 1979 gan Ddeddf 2016.
9. **Adran 46(3)** – Mae'r cyfeiriad at berson a 'gyflogir' fel gofalwr wedi'i hepgor. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan ei bod yn "ansicr beth yw ystyr "employed as" yn y cyd-destun hwn", a bod yr hepgoriad "yn osgoi'r amwysedd". Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran:
- y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(ii) a (iv);
 - y rhesymeg a gynigir yn Nodiadau'r Drafftwy'r ynghylch osgoi amwysedd;
 - a yw hyn yn ehangu'r categori o ofalwyr a geir yn adran 46(3) o'r Bil, o'i gymharu ag adran 12(10) o Ddeddf 1979.
10. **Adran 47(4)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y gwaith drafftio newydd yn darparu eglurhad y caiff gwarcheidwaid ei gwneud yn ofynnol talu tâl mewn cysylltiad ag unrhyw ddefnydd o heneb. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod hyn yn adlewyrchu arferion sefydledig; er enghraifft, mae Cadw yn codi tâl am briodasau a gynhelir ar henebion neu gerllaw iddynt.
- a. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iii).
- b. Pa anawsterau sydd wedi codi yn y gorffennol o ran codi tâl o'r fath, gan gynnwys y pŵer i godi tâl? Os nad yw anawsterau wedi codi, pam y mae angen eglurhad?
- c. Ble y mae'r pŵer ar hyn o bryd sy'n caniatáu i warcheidwaid godi tâl?

- d. Er ei bod yn bosibl bod tystiolaeth o arferion sefydledig, byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ynghylch a yw'r gwaith drafftio newydd yn gyfystyr â newid polisi ai peidio.
11. **Adran 49(5)(a)** – Mae Nodiadau'r Drafftwyd yn datgan bod hyn yn rhoi eglurhad bod y pŵer i reolaethu a rheoli tir yng nghyffiniau heneb yn llawn yn caniatáu codi tâl am unrhyw ddefnydd o'r tir. Mae Nodiadau'r Drafftwyd hefyd yn datgan bod hyn yn adlewyrchu arferion sefydledig; er enghraifft, mae Cadw yn codi tâl am briodasau a gynhelir ar henebion neu gerllaw iddynt.
- a. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iii).
- b. Pa anawsterau sydd wedi codi yn y gorffennol o ran codi tâl o'r fath, gan gynnwys y pŵer i godi tâl? Os nad yw anawsterau wedi codi, pam y mae angen eglurhad?
- c. Ble y mae'r pŵer ar hyn o bryd sy'n caniatáu i warcheidwaid godi tâl?
- d. Er ei bod yn bosibl bod tystiolaeth o arferion sefydledig, byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ynghylch a yw'r gwaith drafftio newydd yn gyfystyr â newid polisi ai peidio.
12. **Adran 55(4)** – Mae Nodiadau'r Drafftwyd yn nodi bod newid wedi'i wneud i'r sefyllfa gyfreithiol bresennol fel nad yw pŵer awdurdodau lleol i reolaethu amseroedd mynediad y cyhoedd yn arferadwy drwy reoliadau mwyach, a bod y newid hwn yn "adlewyrchu arferion sefydledig". Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder:
- o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(ii) a (iv);
 - ynghylch a yw hyn yn dileu pŵer gwneud rheoliadau presennol;
 - o dan ba awdurdod cyfreithiol y cyflawnwyd yr "arferion sefydledig".
13. **Adran 55(5)** – Mae Nodiadau'r Drafftwyd yn nodi bod newid wedi'i wneud i'r sefyllfa gyfreithiol bresennol fel nad yw pŵer awdurdodau lleol i atal y cyhoedd rhag cael mynediad yn ddarostyngedig mwyach i ofyniad ar gyfer cydsyniad Gweinidogol, a bod y newid hwn yn "adlewyrchu arferion sefydledig". Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran:
- y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(ii) a (iv).
 - o dan ba awdurdod cyfreithiol y mae awdurdodau lleol wedi bod yn rheolaethu mynediad heb gydsyniad Gweinidogol?
14. **Adran 55(5)(c)** – Mae Nodiadau'r Drafftwyd yn datgan bod y newid i'r sefyllfa gyfreithiol bresennol yn egluro y caniateir rheolaethu mynediad y cyhoedd mewn cysylltiad â

digwyddiadau neu weithgareddau eraill, a bod y newid hwn yn “adlewyrchu arferion sefydledig”. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran:

- y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(ii).
 - o dan ba awdurdod cyfreithiol y cyflawnwyd yr “arferion sefydledig”.
15. **Adran 55(6)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y newid i'r sefyllfa gyfreithiol bresennol yn egluro y caniateir rheolaethu mynediad y cyhoedd mewn cysylltiad â digwyddiadau neu weithgareddau eraill, a bod y newid hwn yn “adlewyrchu arferion sefydledig”. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran:
- y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(ii).
 - o dan ba awdurdod cyfreithiol y cyflawnwyd yr “arferion sefydledig”.
16. **Adran 56(1)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y pŵer presennol i wneud rheoliadau mewn cysylltiad â mynediad y cyhoedd i henebion sydd o dan reolaeth gyhoeddus wedi'i gulhau. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan nad yw'r pŵer presennol i wneud rheoliadau wedi'i arfer a bod y pŵer “wedi ei gyfyngu i'r hyn y mae Cadw yn ei ystyried yn ofynnol”. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran:
- y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(ii) a (iv); a'r
 - rhesymeg a gynigir yn Nodiadau'r Drafftwy'r ynghylch yr hyn y mae Cadw yn ei ystyried yn ofynnol.
17. **Adran 62(6)** – Mae'r cyfeiriad at berson a 'gyflogir' fel gofalwr wedi'i hepgor. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan ei bod yn “ansicr beth yw ystyr “employed as” yn y cyddestun hwn”, a bod yr hepgoriad “yn osgoi'r amwysedd”. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran:
- y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(ii) ac a yw'r sail yn (iv) hefyd yn gymwys;
 - y rhesymeg a gynigir yn Nodiadau'r Drafftwy'r ynghylch osgoi amwysedd;
 - a yw hyn yn ehangu'r categori o ofalwyr a geir yn adran 62(6) o'r Bil, o'i gymharu ag adran 24(5) o Ddeddf 1979.
18. **Adran 64(1) i (3)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y pwerau presennol sydd ar gael i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwariant gan awdurdodau lleol ar ymchwiliad archaeolegol wedi'u hepgor. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan mai'r

arfer yw defnyddio pwerau cyffredinol sydd ar gael o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).

- a. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iii).
- b. Byddem yn croesawu eglurder o ran sut y penderfynodd Llywodraeth Cymru pa ddarpariaethau i'w cynnwys yn y Bil a pha rai i'w hepgor oherwydd y gellid ymdrin â hwy o dan Ddeddf 2006.

ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNIOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

19. **Yn berthnasol i adran 76(1)** – Hepgor cyfeiriadau at Weinidogion yn llunio (“compiling”) rhestr o adeiladau ac yn cymeradwyo rhestrau a luniwyd gan eraill. Mae Nodiadau'r Drafftwyd yn datgan nad yw'r pŵer i gymeradwyo rhestrau a luniwyd gan eraill erioed wedi'i ddefnyddio a bod “Cadw yn ystyried nad yw'n debygol o gael ei ddefnyddio”. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran:
 - y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iii).
 - y rheswm bod “Cadw yn ystyried nad yw'n debygol o gael ei ddefnyddio” a nodir yn Nodiadau'r Drafftwyd.
20. **Yn berthnasol i adran 76(1)** – Mae Nodiadau'r Drafftwyd yn datgan mai ychwanegu gofyniad syml yw hyn i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr gyfredol o adeiladau y maent yn ystyried eu bod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, yn hytrach na gofyniad iddynt roi copïau ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt. Gan ddibynnu ar Reol Sefydlog 26C.2(ii), y cyfiawnhad yw bod hyn yn adlewyrchu arferion sefydledig, a bod y rhestr gyfredol wedi'i chyhoeddi ar-lein ar ran o wefan Cadw. Mae'r gofynion cyhoeddi gwreiddiol wedi'u nodi yn adrannau 1(1) a 2(4) o *Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990* (Deddf Adeiladau Rhestredig 1990), sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi'r rhestr ar gael i'r cyhoedd edrych arni, yn rhad ac am ddim ar oriau rhesymol mewn man cyfleus.
 - a. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iii).
 - b. Mae adran 76(1) yn nodi sut y mae Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyhoeddi yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 ar hyn o bryd. Byddem yn croesawu eglurder ynghylch a yw hynny yr un fath â “gwneud cymhwysiad neu effaith y gyfraith bresennol yn fwy eglur” at ddibenion Rheol Sefydlog 26C.2(ii), pan nad yw'r



ddarpariaeth newydd yn cynnwys yr un o'r gofynion mynediad penodol a nodir gan y gyfraith bresennol. Ai newid mewn polisi yw hyn?

- c. Pam nad yw'r gofyniad cyfatebol ar awdurdodau cynllunio yn adran 76(4) a (5) wedi'i symleiddio yn yr un modd?
 - d. Byddem yn croesawu eglurder ynghylch a oes rhyngweithio â hawliau mynediad at wybodaeth eraill?
 - e. Sut y bydd pobl heb gysylltiad rhyngrwyd dibynadwy yn cael mynediad at y rhestr?
 - f. Pam nad yw'r gofyniad cyfatebol ar awdurdodau cynllunio yn adran 76(4) a (5) wedi'i symleiddio yn yr un modd?
21. **Yn berthnasol i adran 78** – Hepgor y pŵer presennol i wneud rheoliadau sy'n diwygio'r rhestr o bersonau i ymgynghori â hwy ynghylch cynigion i restru neu ddadrestru adeiladau. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y profiad o weithredu Deddf 2016) "wedi dangos bod y pŵer yn ddiangen", a bod Cadw yn ystyried bod y rhestr yn yr adran eisoes "yn gynhwysfawr". Byddem yn croesawu:
- eglurder ynghylch a oes pŵer dirprwyedig arall y gellid ei ddefnyddio i ychwanegu at y rhestr o ymgynghoreion (gweler hefyd hepgor pŵer presennol sy'n berthnasol i adran 5);
 - rhagor o esboniad ynglŷn â'r rheswm "Cadw yn ystyried" a nodir yn Nodiadau'r Drafftwy'r ac eglurder ar sut y mae hyn yn gwneud y ddarpariaeth yn anarferedig, yn ddarfodedig neu nad yw'n ymarferol ddefnyddiol neu'n ymarferol effeithiol bellach fel bod Rheol Sefydlog 26C.2(iii) yn briodol.
22. **Atodlen 7, paragraff 2** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y ddarpariaethau presennol yn Atodlen 1A, paragraff 2 ac Atodlen 2, paragraff 2 i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 sy'n parhau ag atebolrwydd troseddol ar ôl diwedd gwarchodaeth interim neu restru dros dro wedi'u hestyn i gwmpasu'r drosedd o ddifrodi adeilad rhestredig yn fwriadol o dan adran 118 o'r Bil. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod hyn yn "Dileu anghysondeb, gan y dylai'r ddarpariaeth fod yn gymwys i bob trosedd sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig".
- a. Mae'n ymddangos bod adrannau 79(2) a 83(4) yn eithrio'n benodol gymhwyso'r drosedd adran 118 mewn perthynas ag adeiladau sy'n ddarostyngedig i warchodaeth interim neu restru dros dro. Byddem yn croesawu eglurder ynghylch sut y bydd paragraff 2 o Atodlen 7 yn cymryd effaith.
 - b. Mae'r newid yn ceisio estyn yr amgylchiadau pan ganiateir erlyn trosedd bresennol. O gofio difrifoldeb euogfarnau a chosbau troseddol, byddem yn croesawu rhagor o

eglurhad ac eglurder o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iv), yn enwedig rhagor o resymeg o ran sut mai "mân" newid i'r gyfraith yw hyn.

23. **Adran 81(2) a (6)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y sail bresennol ar gyfer adolygiad wedi'i symud o reoliadau i'r Bil "gan symleiddio'r geiriad" a bod hyn yn ddarostyngedig i bŵer newydd i ddiwygio'r sail. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod y newid yn "Sicrhau bod yr adran yn ymdrin â'r mater pwysig hwn, gan gadw hyblygrwydd ar gyfer unrhyw newidiadau yn y dyfodol". Yn flaenorol, rhoddodd adran 2D(6)(a) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 y pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi seiliau mewn rheoliadau. Yn y Bil, mae'r seiliau wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth sylfaenol gyda phŵer Harri'r Wythfed i ddiwygio'r rhestr honno (gweithdrefn gadarnhaol). Byddem yn croesawu cadarnhad ac eglurder ynghylch sut y mae'r pŵer gwneud rheoliadau newydd hwn o fewn cwrpas Rheol Sefydlog 26C.2(iv).
24. **Adran 81(3) a (4)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y gofyniad i gynnal adolygiadau a gwneud penderfyniadau yn adran 2D(3)(a) a (b) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 wedi'i ailddatgan i adlewyrchu'r gofyniad mewn rheoliadau (OS 2017/644, rheoliad 3) i bob adolygiad gael ei gynnal gan bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru, a bod y pŵer gwneud rheoliadau presennol i bennu eithriadau yn cael ei gadw. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan am y sefyllfa o dan y rheoliadau presennol "na ddisgwylir iddi newid" ac y "gall adran 2D(3) fod yn gamarweiniol".
- a. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ynghylch pam na ddisgwylir i'r sefyllfa newid.
- b. O dan adran 2D o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, y sefyllfa ddiofyn yw bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gynnal yr adolygiad, yn ddarostyngedig i eithriadau a nodir mewn rheoliadau. Er mai effaith OS 2017/644 yw ei gwneud yn ofynnol i'r holl geisiadau gael eu trin fel eithriadau, byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ynghylch sut y mae gwrthdroi'r sefyllfa bresennol mewn deddfwriaeth sylfaenol yn gyfystyr â "mân" newid yn y gyfraith.
25. **Adran 90(1)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y Bil bellach yn cynnwys cyfeiriadau at ddarpariaethau ychwanegol a all ei gwneud yn ofynnol i geisiadau gael eu gwneud i Weinidogion Cymru yn hytrach na'r awdurdod cynllunio, ar y sail bod y rhestr bresennol o ddarpariaethau yn anghyflawn a bod y cyfeiriadau ychwanegol yn "egluro'r effaith". Byddem yn croesawu cadarnhad bod pob darpariaeth a restrir yn adran 90(1) (neu ei darpariaeth wreiddiol pan fo'n berthnasol) eisoes yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig, hyd yn oed os na chyfeirir yn benodol ato yn adran 10(1) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990.
26. **Adran 90(2)(c)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y Bil bellach yn cynnwys ychwanegu cyfeiriad at allu Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael

ei chynnwys mewn cais, sy'n "adlewyrchu sut y deellir y ddarpariaeth yn ymarferol". Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad i ategu'r datganiad bod hyn yn 'adlewyrchu sut y deellir y ddarpariaeth yn ymarferol'.

27. **Adran 90(3)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y Bil bellach yn cynnwys ychwanegu darpariaeth i'r rheoliadau bennu cynnwys ceisiadau a'i gwneud yn ofynnol defnyddio ffurflenni a ddyroddir gan Weinidogion Cymru neu eraill. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod hyn yn egluro materion y deellir eu bod o fewn cwmpas y pŵer presennol. Byddem yn croesawu eglurder ynghylch rhychwant y ddarpariaeth bresennol, ac yn gofyn am esboniad manylach o'r sail ar gyfer y ddealltwriaeth bod y cwmpas yn cynnwys y pŵer i ragnodi ffurflenni.
28. **Adran 92(1)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y Bil bellach yn cynnwys ychwanegu cyfeiriadau at bob darpariaeth na chaiff awdurdod cynllunio ystyried cais a wneir iddo oddi tani. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod hyn yn "Llenwi bylchau" gan fod adran 10(1) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn "anghyflawn gan nad yw'n cyfeirio at adran 81A o'r Ddeddf honno nac adran 327A o Ddeddf Cynllunio 1990 [*Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*]". Byddem yn croesawu cadarnhad nad yw ychwanegu darpariaethau at yr adran hon yn newid effaith bresennol y gyfraith.
29. **Adran 92(2)(b), (3) a (4)** – Mae'r pŵer i roi cyfarwyddydau hysbysu wedi ei gyfyngu i osod gofynion ar awdurdodau cynllunio unigol, a rhoddir yn ei le reoliadau ar gyfer gofynion sy'n gymwys yn gyffredinol. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod "rheoliadau yn briodol ac nad oes angen i ofynion cyffredinol gael eu gosod gan gyfarwyddydau". Byddem yn croesawu esboniad manylach o ran pam yr ystyrir bod rheoliadau yn fwy priodol ar gyfer gofynion sy'n gymwys yn gyffredinol.
30. **Adran 95(4) a (5)(a)** – Mae cyfarwyddydau sy'n eithrio'r gofyniad i hysbysu Gweinidogion Cymru cyn rhoi cydsyniad wedi eu cyfyngu i awdurdodau cynllunio unigol, a rhoddir yn eu lle reoliadau ar gyfer gwneud eithriadau sy'n gymwys yn gyffredinol. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod "rheoliadau yn briodol ac nad oes angen i ofynion cyffredinol gael eu gosod gan gyfarwyddydau". Byddem yn croesawu esboniad manylach o ran pam yr ystyrir bod rheoliadau yn fwy priodol ar gyfer eithriadau sy'n gymwys yn gyffredinol.
31. **Adran 95(7)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y ddarpariaeth newydd hon yn nodi ffyrdd y caniateir i reoliadau neu gyfarwyddydau bennu disgrifiad o geisiadau. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod hyn yn egluro'r cwmpas y deellir sydd gan y pŵer gwneud cyfarwyddydau presennol, a rhoi enghreifftiau. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion o ran sut y mae'r ddarpariaeth newydd hon yn egluro cwmpas y pwerau a'r hyn y mae'n ei ychwanegu at y gyfraith bresennol.

32. **Adran 98(1) a (2)** – Hepgor diwygiadau i adran 18 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 a fyddai'n lleihau'r cyfnod diofyn ar gyfer dechrau gwaith i 3 blynedd ond yn ei estyn yn achos her gyfreithiol. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan nad yw'r diwygiadau wedi'u dwyn i rym a bod "Cadw yn ystyried nad ydynt yn debygol o gael eu dwyn i rym". Byddem yn croesawu rhagor o eglurder o ran:
- y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iii);
 - rhagor o esboniad ynghylch y rheswm "Cadw yn ystyried" a nodir yn Nodiadau'r Drafftwy'r.
33. **Adran 98(3)(b)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y darpariaethau sy'n golygu nad yw adran 18 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn gymwys i gydsyniad a roddir gan gytundeb partneriaeth wedi'u symud o reoliadau i'r Bil gan "ei bod yn newid cymhwysiad yr adran". Byddem yn croesawu rhagor o fanylion o ran y rhesymau dros symud y ddarpariaeth o is-ddeddfwriaeth i ddeddfwriaeth sylfaenol.
34. **Adran 99(3)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y rhestr bresennol o ddarpariaethau sy'n gymwys i geisiadau i amrywio neu ddileu amodau wedi'i diwygio i eithrio'r gofyniad ar gyfer datganiad o'r effaith ar dreftadaeth ond cynnwys y pŵer i wrthod ceisiadau tebyg. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod y newid yn sicrhau bod darpariaethau sy'n briodol ar gyfer ceisiadau i amrywio a dileu amodau yn cael eu cymhwyso, ac nad yw darpariaethau nad ydynt yn briodol yn cael eu cymhwyso.
- a. Byddem yn croesawu rhagor o eglurder ynghylch y newid hwn, ac esboniad o ran y gwahaniaeth rhwng y darpariaethau presennol a'r rhai newydd.
 - b. Byddem yn croesawu rhagor o esboniad o ran pam nad yw dileu'r gofyniad ar gyfer datganiad o'r effaith ar dreftadaeth yn gyfystyr â newid polisi.
35. **Yn berthnasol i adran 99** – Hepgor diwygiad sy'n mewnosod adran 19(5) newydd yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 a fyddai'n atal amodau rhag cael eu hamrywio i estyn y cyfnod y mae rhaid i'r gwaith ddechrau ynddo. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan nad yw'r diwygiad wedi'i ddwyn i rym a bod "Cadw yn ystyried nad yw'n debygol o gael ei ddwyn i rym". Byddem yn croesawu rhagor o esboniad ynghylch y rheswm "Cadw yn ystyried" a nodir yn Nodiadau'r Drafftwy'r.
36. **Yn berthnasol i adran 100(4)** – Hepgor y ddarpariaeth yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 sy'n pennu'r cyfnod penderfynu ar gyfer ceisiadau i gymeradwyo manylion, fel y bydd cyfnodau penderfynu ar gyfer pob cais y mae'r adran yn gymwys iddo yn cael eu gosod gan reoliadau. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan mai diben y newid yw "[g]wella cysondeb drwy sicrhau bod pob cyfnod yn cael ei nodi mewn un man", sef rheoliadau,



gan mai "manylyn gweithdrefnol yw'r mater hwn a all newid o bryd i'w gilydd". Byddem yn croesawu eglurder fel a ganlyn.

- a. A oes pŵer presennol sy'n caniatáu i'r cyfnod penderfynu a nodir yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 gael ei newid?
 - b. A yw'r cyfnod penderfynu wedi'i newid ers 1990?
 - c. Os nad yw'r cyfnod penderfynu wedi newid ers dros 30 mlynedd, a ddylai'r gallu i newid y cyfnod fod yn destun trafodaeth ehangach / ymgynghoriad (h.y. pam y dylid ei wneud drwy Fil cydgrynhoi)?
37. **Adran 102(2)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod darpariaeth ar gyfer ymgynghori pellach wedi'i symud o reoliadau (Gweithdrefn negyddol – gweler adran 93(3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990) i'r Bil a'i haralleirio i egluro y bydd unrhyw ofyniad ar gyfer ymgynghori pellach yn cael ei osod gan Weinidogion Cymru drwy gyfarwyddydau. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan nad oes angen pŵer gwneud rheoliadau "ond mae'r is-adran yn egluro sut y byddai ymgynghori pellach yn ofynnol".
- a. Byddem yn croesawu eglurder ynghylch pa aralleiriad penodol sydd wedi digwydd.
 - b. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn nodi Rheol Sefydlog 26C.2(ii) a (iv) - pa rannau o'r ddarpariaeth sy'n eglurhad a pha rai sy'n fân newid(iadau)?
 - c. Byddem yn croesawu eich barn ynghylch a yw'r newid o reoliadau (negyddol) i gyfarwyddydau yn lleihau neu'n dileu posibilrwydd gwaith craffu gan y Senedd.
38. **Yn berthnasol i adran 105** – Hepgor y pŵer i addasu darpariaethau penodol ynghylch adeiladau rhestredig mewn perthynas â thir awdurdodau cynllunio. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan nad yw'r pŵer wedi'i ddefnyddio a bod "Cadw yn ystyried nad yw'n debygol o gael ei ddefnyddio". Byddem yn croesawu rhagor o eglurder o ran:
- y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iii);
 - rhagor o esboniad ynghylch y rheswm "Cadw yn ystyried" a nodir yn Nodiadau'r Drafftwy'r.
39. **Adran 105(1) a (2)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y pwerau presennol i addasu deddfwriaeth mewn perthynas â cheisiadau gan awdurdodau cynllunio a'r Goron wedi'u "Cyfuno, [eu] symleiddio a[’u c]ysoni". Mae'r mathau o geisiadau y maent yn gymwys iddynt hefyd wedi'u "[he]gluro". Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y rhestr o ddarpariaethau y caniateir eu diwygio yn adran 82(3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn "anghywir" tra bo'r rhestr yn adran 82F yn "ymddangos yn rhy eang". Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan "N[a]d yw'n hollol glir i ba geisiadau y mae'r

pwerau yn gymwys, ond nid oes rheswm dros eithrio unrhyw fath o gais y mae'r Ddeddf yn darparu ar ei gyfer". Byddem yn croesawu rhagor o fanylion fel a ganlyn:

- a. Beth yn benodol sydd wedi'i newid sy'n gyfystyr ag 'eglurhad'?
 - b. Pa ddeddfwriaeth y caniateir ei haddasu?
 - c. Drwy gyfuno pwerau, a yw hyn wedi golygu bod pŵer dirprwyedig presennol yn destun israddio o ran gweithdrefn graffu?
 - d. Os nad yw'r sefyllfa bresennol yn "hollol glir" sut y gellir dweud bod y darpariaethau presennol yn "anghywir" ac yn "rhy eang"?
 - e. A yw'r pŵer bellach yn ehangach nag o dan adran 82(2) a (3) o Ddeddf Cynllunio Adeiladau Rhestredig 1990 (unrhyw ddarpariaeth yn hytrach na rhestr benodedig yn unig) ac, os felly, beth yw'r cyfiawnhad dros hyn.
40. **Yn berthnasol i adran 105(3)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod pŵer presennol i reoliadau ei gwneud yn ofynnol i geisiadau gael eu gwneud i Weinidogion Cymru yn cael ei estyn i geisiadau gan y Goron, a bod pŵer i ddarparu ar gyfer cyflwyno hysbysiadau gan Weinidogion wedi'i hepgor. Byddem yn croesawu'r canlynol:
- cadarnhad bod hyn yn estyniad o bŵer dirprwyedig;
 - eglurhad o ran pam nad oes angen pŵer i ddarparu i Weinidogion gyflwyno hysbysiadau;
 - eglurhad ynghylch y rhesymeg "adlewyrchu'r effaith y deallir y mae'r pwerau eisoes yn ei chael" a ddarperir yn Nodiadau'r Drafftwy'r;
 - esboniad o sut y mae Rheol Sefydlog 26C.2(ii), (iii) a (iv) yn gymwys i'r ddarpariaeth.
41. **Adran 109(6)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y gofynion i anwybyddu datblygiad y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer a gwaith y mae angen cydsyniad ar ei gyfer wedi'u hegluro a'u cysoni, tra bo cyfeiriad at Atodlen 3 i Ddeddf Cynllunio 1990 wedi'i hepgor. Yn ôl Nodiadau'r Drafftwy'r, mae'r newid yn "Dileu anghysondebau nad oes rheswm wedi ei nodi ar eu cyfer; [yn] egluro effaith y ddarpariaeth; [yn] hepgor cyfeiriad nad yw'n cael effaith ymarferol ac y dylid bod wedi ei ddiddymu". Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(ii), (iii) a (iv), a gofynnwn am gadarnhad a yw'r anghysondebau/eglurhad yn ymwneud â geiriad y ddarpariaeth yn unig, neu a oes rhywbeth arall sydd wedi newid.
42. **Atodlen 9, paragraff 1(7)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod darpariaeth wedi'i hychwanegu fel na chaiff awdurdod dynnu'n ôl hysbysiad i drafod telerau a drinnir fel pe bai wedi ei gyflwyno yn rhinwedd derbyn hysbysiad prynu. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r



hefyd yn datgan bod hyn yn "Cywiro gwall ymddangosiadol. Roedd y ddarpariaeth gyfatebol yn adran 208 o *Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971* [Deddf 1971] yn gymwys i hysbysiadau prynu adeiladau rhestredig, ac mae'n ymddangos mai camgymeriad oedd ei hepgor o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990". Byddem yn croesawu eglurder na allai dim rheswm fod pam y gall yr hepgoriad o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 fod wedi bod yn fwriadol.

43. **Atodlen 9, paragraff 4(7)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod darpariaeth wedi'i hychwanegu fel na chaiff awdurdod dynnu'n ôl hysbysiad i drafod telerau a drinnir fel pe bai wedi ei gyflwyno yn sgil cadarnhau hysbysiad prynu. Yn yr un modd â'r ddarpariaeth newydd yn Atodlen 9, paragraff 1(7), mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod hyn yn "Cywiro gwall ymddangosiadol" am yr un rhesymeg. Byddem yn croesawu eglurder na allai dim rheswm fod pam y gall yr hepgoriad o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 fod wedi bod yn fwriadol.
44. **Adran 113(6) a (7)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod effaith y geiriad presennol ynghylch cytundebau sy'n rhoi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau wedi'i hegluro, a bod y disgrifiad o fathau o amod wedi'i hepgor. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod y geiriad presennol yn awgrymu disgrisiwn ynghylch pa un ai i gynnwys amodau mewn cytundeb, ac nad felly y deallir y ddarpariaeth yn ymarferol.
- a. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth ynghylch pam y mae anghysondeb rhwng sut y deallir y ddarpariaeth bresennol yn ymarferol a sut y mae'r ddarpariaeth wedi'i geirio mewn gwirionedd.
- b. Byddem yn croesawu rhagor o esboniad o ran y newid o'r disgrisiwn i gynnwys amodau mewn cytundebartneriaeth (Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 a.26L(6)(b)) i'r rhwymedigaeth orfodol i gynnwys unrhyw amodau (a.113(7)).
45. **Adran 125(4)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y ddarpariaeth newydd yn egluro nad yw gofyniad hysbysu ond yn gymwys pan fo hysbysiad gorfodi wedi'i gyflwyno, sy'n nodi'r effaith y deallir y mae'r gyfraith bresennol eisoes yn ei chael. Byddem yn croesawu:
- esboniad manylach ynghylch sut y mae'r ddarpariaeth newydd yn nodi effaith y gyfraith bresennol;
 - esboniad o oblygiadau o ran y rhyngweithio rhwng adran 124 (cyflwyno a chymryd effaith) ac adran 125(4) a (5);
 - cadarnhad a oes senario lle nad yw'r hysbysiad wedi'i gyflwyno ond y byddai'n dal i fod yn briodol rhoi hysbysiad o amrywio neu dynnu'n ôl.

46. **Yn berthnasol i adran 128(3)(b)** – Hepgor y cyfeiriad at ryddhau (h.y. dileu) cyfyngiad (“limitation”) ar gydsyniad adeilad rhestredig. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y cyfeiriad wedi'i ddileu gan nad yw'r term “limitation” yn unman arall yn y darpariaethau.
- Byddem yn croesawu eglurder ynghylch ystyr “limitation” ac effaith ei ddileu;
 - A yw Llywodraeth Cymru yn gwybod pam y cafodd “limitation” ei gynnwys yn wreiddiol yn yr adrannau hyn os nad oes iddo ystyr penodol o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990?
47. **Adran 130** – Hepgor pŵer i gymhwyso adran 289 o *Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936* (Deddf 1936) gydag addasiadau, ac ailddatgan adran 289 (fel y'i haddaswyd) yn y Bil.. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y darpariaethau wedi'u symud “oherwydd pwysigrwydd y ddarpariaeth a chan nad yw sut y mae adran 289 yn gymwys wedi newid ers amser hir iawn (ers o leiaf OS 1972/1362)”. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan yr argymhellwyd y newid hwn gan Gomisiwn y Gyfraith ar gyfer y pwerau cyfatebol yn Neddf Cynllunio 1990. Byddem yn croesawu:
- rhagor o eglurder ynghylch yr hepgoriadau hyn a'r addasiadau hyn;
 - rhagor o esboniad o ran cymhwyso argymhelliad Comisiwn y Gyfraith a oedd yn ymwneud â Deddf Cynllunio 1990 i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990.
48. **Adran 132(2), (3), (7) ac (8)** – Hepgor pwerau i gymhwyso adrannau 276 a 294 o Ddeddf 1936 gydag addasiadau, ac ailddatgan adrannau 276 a 294 (fel y'u haddaswyd) yn y Bil. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y darpariaethau wedi'u symud “oherwydd pwysigrwydd y darpariaethau a chan nad yw sut y maent yn gymwys wedi newid ers amser hir iawn (ers o leiaf OS 1972/1362)”, ac yr argymhellwyd y newid hwn gan Gomisiwn y Gyfraith ar gyfer y pwerau cyfatebol yn Neddf Cynllunio 1990. Byddem yn croesawu:
- rhagor o eglurder ynghylch yr hepgoriadau hyn a'r addasiadau hyn.
 - rhagor o esboniad o ran cymhwyso argymhelliad Comisiwn y Gyfraith a oedd yn ymwneud â Deddf Cynllunio 1990 i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990.
49. **Adran 132(5)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod darpariaeth i gostau gwaith fod yn bridiant ar y tir wedi'i symud o reoliadau i'r Bil, a bod y pŵer gwneud rheoliadau wedi'i hepgor. Byddem yn croesawu eglurder o ran pam y mae'r pŵer a oedd yn ddewisol yn flaenorol (ac y gellid ei newid) bellach yn cael ei wneud yn barhaol ar wyneb y Bil. A yw hyn yn gyfystyr â newid polisi?
50. **Adran 132(7) ac (8)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan mai ailddatgan adran 276 o Ddeddf 1936 yw hyn, ond ei fod yn hepgor is-adran (3) sy'n darparu nad yw'r adran yn gymwys i sbwriel (“refuse”) a symudir ymaith gan awdurdod lleol. Yn ôl Nodiadau'r

Drafftwyd, "Mae'n ymddangos mai bwriad eithrio sbwriel oedd osgoi unrhyw wrthdaro rhwng adran 276 a darpariaethau eraill yn Neddf 1936 sy'n caniatáu i wastraff gael ei werthu. Nid yw'n ymddangos yn berthnasol nac yn angenrheidiol pan fo awdurdod yn cyflawni gwaith sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi".

- a. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion ynghylch y datganiadau bod pethau'n "ymddangos" mewn ffordd arbennig.
 - b. Byddem hefyd yn croesawu eglurder o ran pam na chafodd is-adran (3) o adran 276 o Ddeddf 1936 ei datgymhwyso gan reoliad 15 o OS 2012/793 os yw'n amherthnasol.
 - c. Byddem yn croesawu eich barn ynghylch a ellid egluro adran 132(8)(b) ymhellach, er mwyn ei gwneud yn glir pa gostau (os o gwbl) sy'n adenilladwy gan berchennog y deunyddiau nad yw hefyd yn berchennog y tir?
51. **Yn berthnasol i adran 136(4)** – Hepgor yr addasiad o Ran 1 o *Ddeddf Prynu Gorfodol 1965* (Deddf 1965) mewn perthynas â thir a gaffaelir gan Weinidogion neu ymgwymerwyr statudol. Mae Nodiadau'r Drafftwyd yn datgan ei bod yn ymddangos mai gwall oedd cynnwys yr addasiad hwn mewn cydgrynoadau cynharach. Byddem yn croesawu eglurder ynghylch sut y penderfynwyd mai "gwall" oedd cynnwys yr addasiad mewn cydgrynoadau cynharach.
52. **Adran 151(2) paragraff (a) o'r diffiniad o "adeilad perthnasol"** - Mae cyfeiriad at adeilad o ddiddordeb eithriadol ("outstanding") yn cael ei newid i gyfeiriad at ddiddordeb "arbennig". Mae Nodiadau'r Drafftwyd yn datgan bod y newid hwn wedi'i wneud er "cysondeb ac eglurder" ac nad "ystyrir bod y profion o ddiddordeb "arbennig" ac "eithriadol" yn wahanol yn ymarferol". Byddem yn croesawu eglurder a chadarnhad fel a ganlyn:
- â phwy yr ymgynghorwyd ynghylch a yw'r ddau derm yr un peth yn ymarferol?
 - a oedd cytundeb unfrydol?
53. **Adran 152(4)** – Mae Nodiadau'r Drafftwyd yn datgan bod pŵer wedi'i ychwanegu i fynd ar dir i benderfynu a ddylai hysbysiad stop dros dro gael ei ddyroddi, a hepgor pŵer i wneud hynny i ystyried hawliad am ddigollediad sy'n ymwneud â hysbysiad stop dros dro. Mae Nodiadau'r Drafftwyd hefyd yn datgan bod hyn yn cywiro bwlch yn y ddarpariaeth. Byddem yn croesawu eglurder a chadarnhad fel a ganlyn:
- ai pŵer mynediad newydd yw hyn?
 - pam y mae'n briodol gwneud y newid hwn drwy Fil cydgrynhoi?



- sut y mae hyn yn gyfystyr â “mân” newid i'r gyfraith bresennol?
54. **Adran 152(9)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod darpariaeth newydd wedi'i mewnosod i'r perwyl bod y pŵer i gynnal arolwg o dir yn cynnwys penderfynu a oes mwynau yn bresennol. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod y newid yn cysoni'r sefyllfa â'r sefyllfa ar gyfer henebion o dan adran 43(3) o Ddeddf 1979 ac yn “[c]ywiro anghysondeb”. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn ychwanegu'r canlynol: “Yn wreiddiol, roedd adran 88(6) [o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990] yn cyfeirio at fwynau ond diddymwyd y cyfeiriad gan *Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991* [Deddf 1991]. Mae'n aneglur pam, gan y gallai presenoldeb mwynau fod yn berthnasol i ddigollediad o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990”. Byddem yn croesawu rhagor o esboniad ac eglurder o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iv), yn benodol:
- sut y mae'n briodol ailfeynosod darpariaeth drwy ddefnyddio Bil cydgrynhai a ddiddymwyd gan Senedd y DU pan basiodd Ddeddf 1991?
 - sut y mae hyn yn gyfystyr â “mân” newid i'r gyfraith bresennol?
55. **Adran 155(5)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan yr ychwanegir terfyn amser ar gyfer hawlio digollediad am ddifrod. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod hyn yn cywiro bwlch ac yn cysoni'r sefyllfa â'r sefyllfa ar gyfer henebion, yn seiliedig ar OS 2017/641, rheoliad 2(1)(e).
- a. Byddem yn croesawu eglurder ynghylch beth yw'r ddealltwriaeth o'r terfyn amser presennol.
 - b. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iv), a sut a pham nad yw hyn yn gyfystyr â newid mewn polisi.
56. **Adran 156(1)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y sefyllfa ddiofyn yn y gyfraith bresennol wedi'i gwrthdroi, fel na fydd adeiladau crefyddol yn esempt ond i'r graddau a ddarperir mewn rheoliadau, yn hytrach na bod yn esempt oni bai bod rheoliadau yn cyfyngu ar yr esemptiad neu yn ei eithrio. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod hyn yn “adlewyrchu yn well y sefyllfa bresennol o dan OS 2018/1087, sy'n dileu'r esemptiad yn llwyr ond wedyn yn ailesemptio rhai adeiladau”.
- a. Â phwy yr ymgynghorwyd ar y mater hwn ac a yw'n cytuno?
 - b. Sut y mae gwrthdroi'r sefyllfa ddiofyn bresennol yn gyfystyr ag 'eglurhad'?
57. **Yn berthnasol i adran 156(3)(e)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y pŵer i ddiwygio Deddf Cynllunio 1990 wedi'i hepgor oherwydd nad yw “wedi ei defnyddio ac n[a]d oes angen amdano wedi ei nodi”. Byddem yn croesawu rhagor o esboniad o ran y

ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iii) a rhagor o eglurder a manylion ar y rhesymeg a nodir yn Nodiadau'r Drafftwy'r.

58. **Adran 157** – Cynnwys awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn y diffiniad o “awdurdod lleol”. Byddem yn croesawu eglurhad a chadarnhad fel a ganlyn:
- a. A yw rhwymedigaethau, dyletswyddau, pwerau ac ati awdurdodau Parciau Cenedlaethol yr un fath yn y Bil ag yn y darpariaethau gwreiddiol?
 - b. A oes darpariaethau yn y Bil sy'n gymwys mewn perthynas ag awdurdodau lleol na ddylai fod yn gymwys mewn perthynas ag awdurdodau Parciau Cenedlaethol?

ARDALOEDD CADWRAETH

59. **Yn berthnasol i adran 158** – Hepgor darpariaeth sy'n gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau cynllunio i adolygu achosion blaenorol o arfer swyddogaethau dynodi, pŵer Gweinidogion Cymru i ddynodi ardaloedd cadwraeth, a'r gofynion i Weinidogion Cymru ymgynghori a rhoi hysbysiad o ddynodiadau. Mae adrannau 69(2) a (3) a 70(3) a (6) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 wedi'u hepgor o'r ailddatganiad. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan nad yw adran 69(2) wedi'i hailddatgan er mwyn osgoi dyblygu ag ailddatgan adran 69(1); nid yw adran 69(3) wedi'i hailddatgan oherwydd nad yw Gweinidogion Cymru erioed wedi defnyddio'r pŵer sydd ynddi; ac mae adran 70(3) a (6) wedi'u hepgor o'r ailddatganiad o ganlyniad i beidio ag ailddatgan adran 69(3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990.
- a. Byddem yn croesawu rhagor o eglurder o ran pam y mae adran 69(2) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn cael ei hepgor oherwydd ei bod yn ymhlyg, tra bo adrannau eraill o'r Bil yn nodi'r pwerau sy'n ymhlyg ar hyn o bryd (er enghraifft, adran 158(2)). Beth yw sail y dulliau gwahanol hyn?
 - b. Byddem hefyd yn croesawu rhagor o esboniad ynglŷn â'r ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iii) i ddileu darpariaeth ddarfodedig nad yw wedi'i defnyddio neu na fu ei hangen hyd yn hyn, a rhagor o wybodaeth ynghylch pam nad yw'r pŵer erioed wedi'i ddefnyddio ac nad oes ei angen.
60. **Yn berthnasol i adran 161** – Hepgor yr esemptiad eglwysig o'r gofyniad am gydsyniad yn adran 75(1)(b) a (5), a'r pwerau i gyfyngu, eithrio neu addasu'r esemptiad yn is-adrannau (7) i (9). Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod yr esemptiad wedi'i ddileu gan erthygl 5 o OS 2018/1087 ac “N[a] ddisgwylir iddo gael ei ailgymhwyso”. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan y byddai dymchweliad bron iawn bob amser yn anghyson â defnydd parhaus o adeilad at ddibenion crefyddol, a phan na all defnydd crefyddol barhau ar ôl y gwaith, na all yr esemptiad fod yn gymwys.



Byddem yn croesawu rhagor o eglurder o ran y canlynol am y datganiadau yn Nodiadau'r Ddrafftwyd:

- ni ddisgwylir i'r eithriad gael ei ailgymhwyso;
 - bod dymchweliad "bron iawn bob amser" yn anghyson â defnydd parhaus at ddibenion crefyddol. Oni all defnydd crefyddol barhau mewn adeilad newydd ar y safle?
61. **Adran 161(2)(c) a (d)** – Mae pŵer gwneud cyfarwyddydau Gweinidogion Cymru ynghylch esemptio adeiladau rhag y gofyniad am gydsyniad wedi'i gyfyngu i achosion sy'n ymwneud ag awdurdodau cynllunio unigol, ac yn ei le rhoddir pŵer newydd i wneud rheoliadau (gweithdrefn gadarnhaol – gweler adran 209(5)(h)) sy'n rhoi esemptiadau sy'n gymwys yn gyffredinol. Mae Nodiadau'r Ddrafftwyd yn datgan yr "ystyrir bod rheoliadau yn fwy priodol i wneud esemptiadau cyffredinol o ystyried eu heffaith bosibl ar gwmpas y gyfundrefn cydsyniad ardal gadwraeth".
- a. Byddem yn croesawu rhagor o esboniad ac eglurder o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iv) a'r rhesymeg a nodir yn Nodiadau'r Ddrafftwyd.
 - b. Pam yr ystyrir bod rheoliadau yn fwy priodol na phŵer rhoi cyfarwyddydau cyffredinol?
62. **Adran 163 (yr adran gyfan)** – Mae Nodiadau'r Ddrafftwyd yn datgan bod addasiadau o ddarpariaethau yn Rhan 3 o'r Bil fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chydsyniad ardal gadwraeth wedi'u symud o reoliadau i'r Bil, gan gadw pŵer Gweinidogion Cymru i wneud addasiadau eraill neu eithriadau yn y dyfodol. Mae Nodiadau'r Ddrafftwyd hefyd yn datgan bod materion allweddol sy'n ymwneud â chydsyniad ardal gadwraeth wedi'u nodi gyda'i gilydd yn y Bil erbyn hyn, yn hytrach na gadael i reoliadau eithrio neu addasu darpariaethau. Mae'r newid o'r ddarpariaeth wreiddiol i'r ddarpariaeth sy'n cael ei hailddatgan yn ddigon sylweddol i'w gwneud yn ofynnol newid gweithdrefn gymwys y Senedd. A yw hynny'n awgrymu mwy na mân newid i'r gyfraith bresennol?
63. **Adran 163(1)(c)(i) a (2)(d)** – Mae Nodiadau'r Ddrafftwyd yn datgan bod darpariaethau wedi'u hychwanegu sy'n cymhwyso pwerau mynediad at ddibenion cydsyniad ardal gadwraeth, yn ddarostyngedig i eithriadau. Mae Nodiadau'r Ddrafftwyd hefyd yn datgan bod hyn yn "Egluro bod rhaid i bwerau mynediad penodol yn adrannau 152 i 155 fod yn gymwys at ddibenion cydsyniad ardal gadwraeth, gan eithrio eraill sy'n amherthnasol, i adlewyrchu sut y deallir y mae'r pwerau presennol yn gymwys. Cywiro'r hyn sy'n ymddangos yn amryfusedd".
- a. Byddem yn croesawu eglurder a chadarnhad ynghylch yr esboniad yn Nodiadau'r Ddrafftwyd ynghylch 'cywiro'r hyn sy'n ymddangos yn amryfusedd'.



- b. Mae pwerau mynediad yn ymwthiol ac yn debygol o ymwneud â hawliau dynol. A yw'n briodol estyn y math hwn o bŵer drwy Fil cydgrynhoi?
64. **Yn berthnasol i adran 165(1)** – Hepgor y ddarpariaeth y caniateir rhoi grantiau yn ddarostyngedig i amodau. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan "Ei hepgor gan mai afraid yw dweud hynny".
- a. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iii).
 - b. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion ynghylch pam "mai afraid yw dweud hynny" y gallai'r grant fod yn ddarostyngedig i amodau.
 - c. Byddem hefyd yn croesawu rhagor o eglurder ynghylch pam y mae angen i adran 148(6) egluro y gallai grant fod yn ddarostyngedig i amodau, os nad oes angen darpariaeth o'r fath yma.
65. **Yn berthnasol i adran 166(3)** – Hepgor y ddarpariaeth y caniateir rhoi grantiau cytundeb ardal gadwraeth yn ddarostyngedig i amodau. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan "Ei hepgor gan mai afraid yw dweud hynny".
- a. Byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ac eglurder o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(iii).
 - b. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion ynghylch pam mai afraid yw dweud y gall y grant fod yn ddarostyngedig i amodau.

DARPARIAETH ATODOL YNGHYLCH ADEILADAU O DDIDDORDEB ARBENNIG AC ARDALOEDD CADWRAETH

66. **Adran 169(6)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod swyddogaethau y mae darpariaethau'n gymwys iddynt wedi'u hestyn i gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud â digolledu, hysbysiadau prynu a chytundebau partneriaethau adeiladau rhestredig. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod y newid yn "Llenwi bylchau anghyson yn y darpariaethau [ac yn cywiro] amryfusedd yn y ffordd y drafftwyd OS 2021/1177".
- a. Byddem yn croesawu rhagor o eglurder ynghylch yr esboniad yn Nodiadau'r Drafftwy'r bod y newid yn "Llenwi bylchau anghyson".
 - b. Byddem yn croesawu esboniad ynghylch yr amryfusedd yn y ffordd y drafftwyd offeryn statudol a wnaed y llynedd.
67. **Adran 171(3)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan y diwygiad y ddarpariaeth bresennol i ddileu mân wahaniaethau rhwng rhestrau o swyddogaethau a gwmpesir gan bwerau

Gweinidogion Cymru i wneud cyfraniadau a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau eraill wneud cyfraniadau. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod y gwahaniaethau rhwng y rhestrau o ddarpariaethau yn adran 90(1) a (3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn fach ac nad oes "rheswm wedi ei nodi ar eu cyfer". Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan ei bod yn "ymddangos hefyd fod y rhestrau yn cynnwys gwallau". Byddem yn croesawu eglurder ynghylch beth yw'r gwahaniaethau a beth yw'r gwallau a nodwyd.

68. **Adran 174(7)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y Bil bellach yn golygu bod y ddeddfwriaeth yn cwmpasu ceisiadau brys gan y Goron am gydsyniad. (Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod hyn yn "Cywiro gwall. Amryfusedd oedd hepgor ceisiadau brys gan y Goron o adran 88E o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn OS 2014/2773."
- a. Byddem yn croesawu eglurder ynghylch sut y cadarnhawyd mai amryfusedd oedd yr hepgoriad o OS 2014/2773 ac nid gweithred fwriadol?
- b. Pa weithdrefn graffu sydd wedi'i chymhwyso i geisiadau brys gan y Goron ers offeryn statudol 2014, os gwnaed rhai?
69. **Adran 184(2)(a)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod geiriad wedi'i ychwanegu i'w gwneud yn glir nad yw'r hawl i apelio o dan yr adran hon yn gymwys i benderfyniadau i roi cydsyniad neu ddileu amodau (sy'n ddarostyngedig i adolygiad statudol – gweler adrannau 182 a 183). Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod hyn yn egluro bod yr hawliau i apelio a gwneud cais am adolygiad statudol yn cau ei gilydd allan. Sut y gallwn fod yn sicr na fwriadwyd i hawliau i apelio fod yn gymwys i benderfyniadau i roi cydsyniad neu ddileu amodau?

DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

70. **Adran 197(3)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod darpariaethau ynghylch y cyfnod y mae rhaid rhoi gwybodaeth ynddo wedi'u cymhwyso i Ran 2 o'r Bil. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan "Ar hyn o bryd, n[a]d yw adran 57 o Ddeddf 1979 yn dweud dim am y mater hwn" a bod y newid "cysoni'r sefyllfa â'r sefyllfa o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990". Byddem yn croesawu esboniad ynghylch pam y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried nad gweithred fwriadol oedd bod Ddeddf 1979 yn "dweud dim am y mater hwn".
71. **Yn berthnasol i adran 200** – Hpgor darpariaeth sy'n datgymhwyso adran 331 o Ddeddf Cynllunio 1990 mewn perthynas â'r drosedd o ddifrodi adeilad rhestredig o dan adran 59 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 (yn adran 89(2) o'r Ddeddf honno). Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan y "Parhaodd adran 89(2) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 â gwall". Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan y "Crëwyd trosedd adran 59 gyntaf gan Ddeddf Amwynderau Dinesig 1967 [Deddf 1967], tra deddfwyd adran 331 o Ddeddf



Cynllunio 1990 gyntaf yn *Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968* [Deddf 1968]. Mae'n ymddangos y methwyd yr angen i'w chymhwyso i'r drosedd hon." Byddem yn croesawu esboniad ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu nad gweithred fwriadol oedd hepgor y drosedd.

72. **Adran 201 (yr adran gyfan)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer sancsiynau sifil yn gyfatebol i'r hyn a ganiateir gan Ran 3 o *Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008* (Deddf 2008) wedi'i estyn i gwmpasu pob trosedd o dan y Bil. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod y pwerau yn Rhan 3 o *Ddeddf 2008* yn gymwys i droseddau perthnasol ("relevant offences") a oedd yn bodoli yn union cyn y diwrnod y pasiwyd y *Ddeddf* (gweler 2008, a. 37(2) a 38(2)). Mae adran 201 yn cadw effaith Rhan 3 o *Ddeddf 2008* mewn perthynas â throseddau perthnasol a ailddatgenir yn y Bil, ond hefyd yn cynnwys troseddau a ychwanegwyd at *Ddeddf 1979* a *Deddf Adeiladau Rhestredig 1990* gan *Ddeddf 2016*, ynghyd â rhai troseddau o *Ddeddf Cynllunio 1990* a *Deddf 1972* sydd wedi eu cynnwys yn yr ailddatganiad. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan yr "Ystyrir hyn yn briodol i osgoi bylchau a sicrhau cysondeb. Mae'r troseddau a ychwanegir i gyd yn debyg iawn i droseddau a oedd eisoes yn droseddau perthnasol at ddibenion *Deddf 2008*. Diwygiad canlyniadol a gollwyd oedd y methiant i estyn *Deddf 2008* i droseddau a fewnosodwyd gan *Ddeddf 2016*." Byddem yn croesawu rhagor o esboniad ac eglurder o ran y ddibyniaeth ar Reol Sefydlog 26C.2(ii) a (iv), yn enwedig o ran cymhwyso'r gyfundrefn sancsiynau sifil i fwy o droseddau sydd eisoes yn bodoli.
73. **Adran 203(1) a (2)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod pwerau i reoliadau ddarparu ar gyfer eithriadau ac addasiadau yn *Neddf Adeiladau Rhestredig 1990* a *Deddf Cynllunio 1990* wedi'u hepgor oherwydd nad ydynt "wedi cael eu defnyddio ac nid oes angen amdanynt wedi ei nodi". Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod "eu hepgor hefyd yn gyson â'r sefyllfa o dan *Ddeddf 1979* (nad yw'n cynnwys pwerau cyfatebol)."
- a. Byddem yn croesawu eglurder ynghylch dileu pwerau gwneud rheoliadau presennol, gan gynnwys cadarnhad o ran sefyllfa 'beth os' lle y darganfyddir yn ddiweddarach bod angen y pŵer mewn gwirionedd.
- b. Byddem hefyd yn croesawu cadarnhad ai oherwydd bod pwerau dirprwyedig eraill y gallid eu defnyddio yn y dyfodol nad oes angen y pwerau gwneud rheoliadau.
74. **Adran 207(3)** – Mae'r pŵer i bennu buddiannau ychwanegol fel buddiannau'r Goron wedi'u hepgor o'r ailddatganiad. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan nad oes pŵer cyfatebol yn *Neddf 1979* ac "n[a]d yw'r pŵer yn adran 82C(3)(c) wedi ei ddefnyddio mewn perthynas ag unrhyw dir yng Nghymru, ac nid yw Cadw yn credu bod ei angen". Byddem

yn croesawu eglurder ynghylch dileu pŵer presennol, gan gynnwys cadarnhad o ran sefyllfa 'beth os' lle y darganfyddir yn ddiweddarach bod angen y pŵer.

75. **Adran 207(3), (6)(c) a (9)(a)** – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y cyfeiriad at fuddiant yn hawl ystadau preifat Ei Mawrhydi¹ wedi'i gymhwyso i henebion. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan bod y newid er cysondeb ag adeiladau rhestredig ac "N[a]d yw adran 50(4) o Ddeddf 1979 yn dweud dim am y mater hwn ar hyn o bryd, ond nid oes rheswm i dir y Goron fod ag ystyron gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r Bil."
- a. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â Llywodraeth y DU ar faterion yn ymwneud â'r Goron, ac a godwyd pryderon?
- b. Byddem yn croesawu rhagor o esboniad o effaith y newid, gan gynnwys cadarnhad o ran pa ystadau preifat y bydd adran 207 yn eu cynnwys.
76. **Adran 208(3)** – Mae'r ddarpariaeth ynghylch talu a defnyddio digollediad wedi'i hestyn i gymhwyso i bob digollediad o dan y Bil. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod hyn yn "Dileu bylchau" ac "Ar hyn o bryd, n[a]d yw adran 86(3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn gymwys i bob digollediad sy'n daladwy o dan y Ddeddf, ond mae'n ymddangos mai gwall yw hynny". Byddem yn croesawu eglurder o ran yr esboniad yn Nodiadau'r Drafftwy'r ynghylch dileu bylchau yn y gyfraith bresennol ac ymestyn y darpariaethau ynghylch digollediad.
77. **Adran 209(2)(b)** – Mae'r pwerau penodol i wneud darpariaeth ategol wedi'u cynnwys ar gyfer pob rheoliad o dan y Bil. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod hyn yn "Sicrhau bod pwerau i wneud darpariaeth ategol yn cael eu cynnwys ar gyfer pob pŵer o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 a Deddf Cynllunio 1990. Gall y pwerau hyn fod yn ymhlyg yn gyffredinol, ond mae'r newid yn sicrhau cysondeb." Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan y "Byddai cymal 112 o'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio a gyflwynwyd yn Senedd y Deyrnas Unedig ar 11 Mai 2022 yn diwygio'r ddwy Ddeddf i gynnwys pwerau ategol penodol, ond nid yw'r newid hwn yn dibynnu ar basio'r Bil hwnnw am y rhesymau a roddir uchod".
- a. Byddem yn croesawu cadarnhad bod hyn yn creu pwerau dirprwyedig ehangach i Weinidogion Cymru (yn enwedig o ran y pŵer 'atodol' ychwanegol).

¹ Mae'r cyfeiriad hwn yn ymwneud â Nodiadau'r Drafftwy'r a osodwyd gerbron y Senedd ym mis Gorffennaf 2022, a chyn marwolaeth ddiweddar Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II.

- b. Byddem yn croesawu rhagor o esboniad ynghylch y datganiad y "Gall y pwerau hyn fod yn ymhlyg yn gyffredinol".

MATERION ERAILL

78. Mae'n aneglur faint o bwerau dirprwyedig newydd sbon sydd yn y Bil. Byddem yn croesawu rhagor o eglurder a chadarnhad.
79. Mae achosion yn y Bil pan fo pwerau presennol yn cael eu colli neu eu culhau. Er enghraifft: Adran 56(3) – Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan bod y pŵer presennol i reoleiddio mynediad y cyhoedd am unrhyw reswm mewn cysylltiad â mynediad y cyhoedd i henebion sydd o dan reolaeth gyhoeddus yn cael ei "ailfframio fel pŵer i wneud is-ddeddfau" a'i "[g]ulhau". Mae Nodiadau'r Drafftwy'r hefyd yn datgan nad yw'r pŵer presennol i wneud rheoliadau wedi'i arfer ac y bydd y pŵer i wneud is-ddeddfau yn "denu darpariaeth berthnasol o *Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012*." Byddem yn croesawu cadarnhad bod Llywodraeth Cymru yn fodlon colli/culhau pwerau o ganlyniad i'r Bil.
80. Beth fydd statws is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau sy'n cael eu cydgrynhoi? Er enghraifft, mae rheoliad 4 o Reoliadau Henebion Cofrestredig (Adolygu Penderfyniadau Cofrestru) (Cymru) 2017 ar hyn o bryd yn nodi dwy sail ar gyfer adolygu penderfyniadau penodol a wneir gan Weinidogion Cymru. Ymgorfforwyd un o'r seiliau hynny yn y Bil yn adran 9(2). Beth fydd statws y sail arall a nodir yn rheoliad 4?
81. Hepgor darpariaeth sy'n dibynnu ar Reol Sefydlog 26C.2(iii) – y ddarpariaeth a hepgorir yw adran 81B o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 (adran nad yw mewn grym) sy'n cynnwys pŵer i awdurdod cynllunio wrthod penderfynu cais tra bo cais tebyg o dan ystyriaeth. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn datgan "N[a]d yw mewnosod adran 81B gan Ddeddf 2004 wedi ei ddwyn i rym yng Nghymru, ac mae Cadw yn ystyried nad yw'n debygol o gael ei ddwyn i rym".
- a. Byddem yn croesawu rhagor o esboniad ynghylch y rheswm "Cadw yn ystyried" a nodir yn Nodiadau'r Drafftwy'r.
- b. Mae adrannau 16 a 93 o'r Bil yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wrthod ystyried ceisiadau tebyg. Mae'r ddarpariaeth a hepgorir yn bŵer heb ei gychwyn i awdurdodau cynllunio lleol wneud yr un fath. Byddem yn croesawu eglurder o ran pam y mae'r pŵer gan Weinidogion Cymru ond na fydd gan yr awdurdodau cynllunio.
82. Byddem yn croesawu cadarnhad ynghylch a fydd ymgynghoriad cyn cyflwyno Llywodraeth Cymru a'i gwaith gyda rhanddeiliaid (neu grynodeb o'r gwaith hwnnw/canfyddiadau) ar gael i'r cyhoedd?



YN DILYN Y LLYTHYR AR 17 AWST

83. Paragraff 6 mewn ymateb i gwestiwn 1 yn llythyr y Pwyllgor ynghylch deddfwriaeth sydd wedi'i heithrio o'r Bil:
- a. Byddem yn croesawu rhagor o eglurder ac esboniad ynghylch pam nad yw adran 49 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 wedi'i hailddatgan yn y Bil.
 - b. Mae adran 50 o Ddeddf 1990, sydd hefyd yn ymwneud â swm y digollediad mewn perthynas â phrynu gorfodol, wedi'i chynnwys yn y Bil yn adrannau 140 a 141. Byddem yn croesawu eglurder a mwy o fanylion ynghylch pam y tynnwyd y llinell rhwng adrannau 49 a 50.
84. Paragraff 23 mewn ymateb i gwestiwn 5 yn llythyr y Pwyllgor ynghylch newidiadau posibl i'r Rheolau Sefydlog – mae'r llythyr yn datgan "unwaith y byddwn yn gwybod beth y[w] bwriadau'r Senedd ar gyfer y Bil hwn". A yw hyn yn golygu os/pan fydd y Senedd yn cytuno y caiff y Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi neu os/pan gaiff y Bil ei basio?
85. Paragraff 26 mewn ymateb i gwestiwn 6 yn llythyr y Pwyllgor ynghylch pwerau newydd Gweinidogion Cymru - mae'r llythyr yn datgan y canlynol "rydym wedi cadw rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i unrhyw newid mewn amgylchiadau yn y dyfodol". Byddem yn croesawu eglurder ynghylch pa fath o newidiadau yn y dyfodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhagweld.





Huw Irranca-Davies, Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17 Hydref 2022

Annwyl Huw,

BIL YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Medi 2022. O ystyried natur dechnegol nifer o'r pwyntiau a godwyd, mae Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol wedi paratoi ymateb manwl ac amgaeaf hwy fel Atodiad.

Mae llond dwrn o faterion yr wyf yn ymateb iddynt yn uniongyrchol:

- Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am dynnu sylw at gamgymeriad, drwy gwestiwn 22, ym mharagraff 2 o Atodlen 7. Mae hyn yn cadw unrhyw atebolrwydd troseddol sy'n codi o dan adrannau penodol o'r Bil tra bod adeilad yn destun rhestru dros dro neu amddiffyniad dros dro. Ni ddylai paragraff 2 Atodlen 7 grybwyll atebolrwydd o dan adran 118, oherwydd nid yw adran 118 yn gymwys i adeilad sy'n amodol ar restru dros dro neu amddiffyniad dros dro. Mae hwn yn fater y byddaf yn ceisio mynd i'r afael ag ef yn Ystyriaeth y Pwyllgor Manwl os bydd y Bil yn cyrraedd y pwynt hwnnw.
- Yng nghwestiwn 79, rydych wedi gofyn am yr effaith ar bwerau presennol; gallaf gadarnhau bod y Llywodraeth yn fodlon â'r effaith a gyflawnwyd gan y Bil yn hyn o beth.
- Fe wnaeth cwestiwn 82 ofyn am wybodaeth am ymgynghoriad cyn cyflwyno. Gweithiodd Cadw gyda grŵp gorchwyl a gorffen yn cynnwys unigolion o bob rhan o'r sector amgylchedd hanesyddol. Natur y rhyngweithio oedd bod cwestiynau penodol neu'r drafftio yn cael eu rhannu gyda'r grŵp i bwysu dealltwriaeth o sut roedd y darpariaethau'n gweithio'n ymarferol neu i ba raddau yr oedd effaith y gyfraith yn aros heb ei newid. Ni fwiadwyd i'r cyfnewidiadau gael eu cyhoeddi erioed.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Yn olaf, ar gwestiwn 84, ni fwriadwyd i baragraff 23 o'm llythyr ar 17 Awst gyfeirio at ddyddiad absoliwt, ond yn hytrach tuag at gyfnod pan oedd y Llywodraeth yn teimlo y byddai'n briodol ceisio cytundeb i newidiadau pellach i Reolau Sefydlog. Mae'r ddwy amserlen a awgrymir gennych, yn pwyntio tuag at ymdrin â'r peth cyn toriad yr haf.

Hyderaf fod gweddill eich cwestiynau yn cael eu hateb yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, reading 'Mick Antoniw'. The signature is stylized with a large 'M' and a long, sweeping underline.

Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

ATODIAD A BARATOWYD GAN SWYDDFA'R CWNSLER DEDDFWRIAETHOL

Henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig

Cwestiwn 1: adran 2(3)

1. Mae pŵer yn adran 2(3) o'r Bil yn ganlyniad i'r newid a wnaed wrth ailddatgan geiriau agoriadol adran 61(8) Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (Deddf 1979), sy'n ymddangos yng ngeiriau agoriadol adran 2(3) o'r Bil.
2. Rydym yn ansicr a yw "eglwysig" yn adran 61(8) yn gymwys mewn perthynas ag Eglwys Loegr yn unig. Gallai fod ag ystyr ehangach fel bod adran 61(8) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw adeilad crefyddol a ddefnyddir at ddibenion crefyddol.
3. Mae "Eglwysig" yn fynegiant a ddefnyddir mewn mannau eraill yn Neddf 1979 mewn cyd-destun lle mae'n ymddangos yn glir ei fod wedi'i gyfyngu i Eglwys Loegr – gweler adran 51, sy'n ymdrin ag eiddo eglwysig. Ond rydym o'r farn nad yw hyn yn bendant o ran ailddatgan adran 61(8) yn gywir mewn cyd-destun lle mae'n rhaid darllen y ddeddfwriaeth hyd y gellir mewn modd sy'n gydnaws â'r hawliau a geir yn yr ECHR. Mae'n wir hefyd bod adran 60 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (Deddf Adeiladau Rhestredig 1990) yn defnyddio'r mynegiant mewn ffordd sy'n ymddangos yn glir ei fod wedi ei fwriadu i fynd y tu hwnt i Eglwys Loegr.
4. Mae adran 2(3) o'r Bil yn ailddatgan adran 61(8) yn y ffordd yr ydym o'r farn ei bod yn fwyaf tebygol o fod yn cydymffurfio â'r Confensiwn (er mwyn osgoi potensial gwahaniaethu na ellir ei gyfiawnhau), yn amodol ar bŵer ar gyfer eithriadau i'r sefyllfa gyffredinol gael eu pennu gan reoliadau. Ni ddaethom o hyd i gyfraith achos perthnasol ar y pwynt penodol hwn, felly roedd y sefyllfa a gyrhaeddwyd yn y Bil yn cynnwys rhywfaint o ddyfalu ar ein rhan. Yn *AG ex rel Cyngor Sir Swydd Bedford v Howard United Reformed Church Trustees* (1976) (a oedd yn ymwneud ag adeiladau rhestredig), canfu Tŷ'r Arglwyddi ei fod yn ddiangen ac yn annoeth penderfynu a oedd "adeiladau eglwysig" wedi'i gyfyngu i adeiladau Cristnogol. Yn ymarferol, mae adeiladau a allai fod wedi'u rhestru fel arall ond nad ydynt ar ôl ystyried adran 61 o Ddeddf 1979 i gyd yn rhai Cristnogol. Mae angen cael hyblygrwydd i wneud darpariaeth er mwyn sicrhau bod adeiladau a ddylai gael eu gwarchod yn gallu parhau i gael eu gwarchod, os yw hynny'n briodol.
5. Mae Rheol Sefydlog (RhS) 26C.2(iv) yn caniatáu ychwanegu'r math hwn o fesurau diogelu: mae canllawiau'r Llywydd ar RhS 26C yn crybwyll yn benodol yr ECHR yng nghyd-destun y math o newidiadau i'r gyfraith y gallai fod angen eu gwneud mewn Bil cydgrynhoi.
6. Mae'r pŵer i wneud darpariaeth atodol ac ati yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn gweithredu'n effeithiol ac yn cwmparu darpariaeth ar gyfer mân fanylion cysylltiedig. Gweler hefyd yr ymateb i gwestiwn 77.

Cwestiwn 2: adran 5

7. Rydym wedi dewis peidio ag ailddatgan adran 1AA(6) o Ddeddf 1979 i osgoi cynnwys darpariaeth na fyddai byth yn cael ei defnyddio. Caniateir y math hwn o hepgor gan

RhS 26C.2(iii) ar y sail nad yw'r ddarpariaeth o unrhyw gyfleustod neu effaith ymarferol. Nid ydym yn credu bod yr asesiad hwn yn cael ei effeithio gan y ffaith bod adran 1AA(6) wedi'i hychwanegu at Ddeddf 1979 trwy welliant yn 2016.

8. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw bŵer arall i ddiwygio'r rhestr o ymgynghorwyr.
9. Nid oes gan Cadw gofnodion o unrhyw gwynion gan bobl sy'n dweud y dylen nhw fod wedi ymgynghori ynglŷn â threfnu neu restru arfaethedig. Mae hysbysiadau o ymgynghori ar restru a rhestrau arfaethedig yn cael eu rhoi ar wefan Cadw.

Cwestiwn 3: adran 14(2), (4) a (5)

10. Wrth ailddatgan darpariaeth am ymgeisio am ganiatâd heneb gofrestredig, y farn yw bod y cydbwysedd yn y gyfraith gyfredol rhwng yr hyn y dylid mynd i'r afael â hi ar wyneb y ddeddfwriaeth sylfaenol a'r hyn sy'n cael ei adael i reoliadau gael ei newid. Mae'n ddefnyddiol i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth yn y dyfodol i weld mwy o ofynion hanfodol y system yn y ddeddfwriaeth sylfaenol, yn lle gorfod edrych yn rhywle arall. Roedd yr amcan hwn yn tywys ein hymdriniaeth tuag at adrannau 14(2), (4) a (5). Er enghraifft, byddai'r wybodaeth benodol a grybwyllir yn adran 14(2) bob amser yn hanfodol i gais caniatâd llawn (yn hytrach na chais am fân weithiau o dan adran 14(4) a (5)) ac mae'n ymddangos yn well dweud hynny yn y Bil, yn hytrach nac mewn rheoliadau. Mae hyn hefyd yn cynnig mwy o gysondeb â'r deunydd sy'n ofynnol am gais am ganiatâd adeilad rhestredig yn adran 90.
11. Mae Adrannau 14(4) a (5) yn perthyn i broses ganiatáu wedi'i symleiddio a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (y Ddeddf 2016). Mae'r darpariaethau hyn yn gweithio'n dda ond efallai y bydd gweinyddiaethau'r dyfodol yn dymuno nodi achosion ychwanegol lle mae'r broses wedi'i symleiddio yn gymwys.

Cwestiwn 4: Atodlen 6, paragraff 3

12. Bydd y newid yn effeithio ar gyfranogwyr mewn ymchwiliad neu wrandawriad lleol a gynhelir cyn pennu cais am ganiatâd heneb gofrestredig, neu addasiad neu ddirymiad i ganiatâd a roddwyd. Ni fydd costau yn cael eu caniatáu oni bai bod y person wedi ymddwyn yn afresymol yn ystod ymchwiliad neu wrandawriad a bod yr ymddygiad hwnnw wedi achosi i barti arall fynd i wariant diangen neu wastraffus. Gallai'r costau hyn gael eu dyfarnu yn erbyn unrhyw gyfranogwr, gan gynnwys Cadw, os yw'r ymddygiad yn cael ei ystyried yn afresymol.
13. Yn ei ffurflen Rhan 1 Atodlen 1 ddiwygiedig i'r Ddeddf 1979, o'i ystyried ar ei golwg, nid yw'n gwneud unrhyw ddarpariaeth am dystiolaeth a chostau mewn ymchwiliadau lleol a achoswyd i'w cynnal gan Weinidogion Cymru. Credwn fod hyn yn amlwg yn amryfusedd, oherwydd yn absenoldeb darpariaeth am y materion hyn, gallai effeithiolrwydd yr ymchwiliadau hynny gael eu tanseilio. Pe bai hyn yn ddewis bwriadol, byddai hefyd yn gadael ymchwiliadau o dan Ran 1 y Ddeddf 1979 fel yr unig enghraifft o ymchwiliad yn y Ddeddf honno lle nad oedd darpariaeth ar gyfer y materion hyn wedi'i wneud. Dylai Paragraff 4(1) fod wedi'i gymhwyso mewn perthynas â'r ddarpariaeth newydd a fewnosodwyd gan y Ddeddf 2016.

Cwestiwn 5: adran 21 (5)

14. Mae Adran 7 Deddf 1979 yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu iawndal ar wrthod caniatâd heneb gofrestredig o dan amgylchiadau penodol. Darparodd Adran 7(4) Deddf 1979 yn wreiddiol y byddai person â'r hawl i dderbyn iawndal am wrthod caniatâd heneb gofrestredig, hyd yn oed pe byddai'r gweithiau arfaethedig yn cynnwys dinistr llwyr neu rannol o heneb, pe bai'r gweithiau hynny at ddefnydd heneb at ddibenion amaethyddiaeth neu goedwigaeth. Cyflwynwyd Adran 7(4A) gan Ddeddf 2016 gan na chafwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi triniaeth ffafriol ar gyfer amaethyddiaeth neu goedwigaeth o dan Adran 7(4). Nid oes unrhyw gofnod yng Nghymru o unrhyw hawliadau o'r fath am iawndal yn gysylltiedig â gweithiau amaethyddol neu goedwigaeth. Cynigiwyd y pŵer yn adran 7(4A) i gymryd lle adran 7(4) yng Nghymru rhag ofn y byddai sail i wahaniaethu rhwng yr hawl i iawndal at unrhyw ddiben. Yn y cyfnod cyfamserol, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi dod i law i nodi gwrthod caniatâd heneb gofrestredig ar gyfer dinistrio heneb yn llwyr neu'n rhannol o dan yr amgylchiadau a amlinellir yn adran 21(3)(b) neu (c) y Bil sy'n gwarantu iawndal.
15. Nid oes golwg y bydd adran 10 y Ddeddf 2016, sy'n cynnwys diwygiad arfaethedig i adran 7 o'r Ddeddf 1979 yn cael ei dwyn i rym am y rhesymau a amlinellir uchod. Mae'r amgylchiadau hyn yn golygu ei fod yn newid a ganiateir gan RhS 26C.2(iii), ac nid yw adran 7(4A) wedi'i hailddatgan ar y sail honno.

Cwestiwn 6: adran 30(7)(b)

16. Wrth ailymweld ag adran 2(8A) Deddf 1979 ac wrth ddrafftio ei rhagflaenydd – adran 2(8) – daeth yn amlwg bod y newidiadau a wnaed gan Ddeddf 2016 wedi newid effaith yr amddiffyniad gwreiddiol yn anfwriadol. Yng nghyd-destun adran 2, a'r amddiffyniad penodol hwn, dim ond mewn perthynas â gorfod profi bod camau wedi'u cymryd gyda'r bwriad o ganfod a oedd tir yn cynnwys heneb gofrestredig y mae gwybodaeth person cyn i waith gael ei wneud yn berthnasol. Dylai cwestiwn ar wahân am wybodaeth neu gred person fod yn ffactor perthnasol drwy gydol y broses o gynllunio a gwneud gwaith at ddibenion argaeledd yr amddiffyniad (fel yr oedd yn glir cyn i adran 2(8) gael ei diwygio). Mae'r safbwynt arall yn groes i'r buddiant polisi cyhoeddus a ddiogelir gan y troseddau yn adran 2, oherwydd y gallai o bosibl gynnig amddiffyniad i berson a gafodd wybodaeth am safle heneb gofrestredig ar ôl i'r gwaith a ddifrododd yr heneb ddechrau.

Cwestiwn 7: adran 31(5)

17. Yn ymarferol, byddai Cadw yn dewis cyflwyno copïau o hysbysiad stop dros dro i feddianwyr heneb gofrestredig, er na fyddai pob meddiannydd o reidrwydd yn cael ei ystyried â buddiant yn yr heneb neu'r tir at ddibenion adran 9ZI o Ddeddf 1979.
18. Mae adran 171E(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Deddf Cynllunio 1990), sy'n ymwneud â hysbysiadau stop dros dro mewn perthynas â thorri rheolaeth gynllunio, yn darparu ar gyfer cyflwyno hysbysiadau i feddiannydd yn ogystal ag i berson â buddiant yn y tir. Nid yw'r darpariaethau a fewnosodwyd gan Ddeddf 2016 yn Neddf 1979 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer gwasanaeth i feddianwyr. Y rheswm am hynny oedd y credid bod cyfeiriadau at feddianwyr yn ddiangen, yn hytrach nag adlewyrchu bwriad na ddylai meddianwyr

gael eu gwasanaethu. Am y rhesymau a roddir uchod, rydym bellach o'r farn y dylid bod wedi cynnwys cyfeiriadau penodol at feddianwyr.

19. Mae RhS 26C.2.(ii) yn berthnasol yn y cyd-destun hwn, oherwydd ei fod yn caniatáu eglurhad o'r ffordd y mae'r gyfraith yn gweithredu'n ymarferol. Hefyd yn berthnasol yw sicrhau cysondeb ar draws y Bil rhwng ddarpariaethau cyfatebol, gan gynnwys ddarpariaeth a fydd yn cael ei hailddatgan yn y prosiect cydgrynhoi cynllunio sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae adran 206 o'r Bil (ynghlŷn â chyflwyno dogfennau) yn gwahaniaethu rhwng meddianwyr a phersonau sydd â buddiant mewn henebion, adeiladau neu dir arall.

Cwestiwn 8: adran 39(2)(c)

20. Mae adran 9ZE(3)(c)(i) o Ddeddf 1979 yn groes i'r gwaharddiad yn adran 2 ar wneud gwaith sy'n effeithio ar heneb gofrestredig (mae hyn yn gwahardd gwaith atgyweirio neu addasu). Mae hynny oherwydd ei fod yn awgrymu y byddai gwaith atgyweirio neu ddarparu cymorth dros dro yn cael ei ganiatáu heb ganiatâd. Er bod amddiffyniad yn adran 2(9) sy'n ymwneud â gwaith a wneir ar gyfer iechyd a diogelwch sy'n torri adran 2(1) neu (6), nid yw hyn yn cyfeirio at y posibilrwydd o wneud atgyweiriadau neu gymorth dros dro. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa o dan adran 8 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 mewn perthynas ag adeiladau rhestredig. Credwn fod y ddarpariaeth a gynhwyswyd yn adran 9ZE(3) wedi ailadrodd y sefyllfa ar gyfer adeiladau rhestredig ar gam.
21. Nid yw'r llinell rannu rhwng y gwahanol gategoriâu o newid a ganiateir gan RhS 26C bob amser yn glir. Yn yr achos hwn, mae RhS 26C.2(iv) yn berthnasol oherwydd bod y Bil yn cywiro'r hyn sy'n ymddangos yn anomaledd/camgymeriad clir yn y ddarpariaeth sy'n cael ei hailddatgan.

Cwestiynau 9 a 17 – adran 46(3) a 62(6)

22. Nid yw'n glir ar unwaith o Ddeddf 1979 a yw'r ymadrodd "*cyflogi fel/employed as*" yn cyfeirio at y sail gytundebol y mae person yn gweithredu fel gofalwr arni, neu a yw'n gyfystyr â "*wedi cysylltu fel/engaged as*" neu "*gweithredu fel/acting as*".
23. Yr hyn sy'n ymddangos yn bwysig at ddibenion Deddf 1979 yw a yw person yn meddiannu heneb yn rhinwedd ei swydd fel gofalwr, nid a yw'n gwneud hynny o dan drefniant cytundebol penodol. Mae hyn yn cyd-fynd â'n dealltwriaeth o sut mae'r ddarpariaeth hon wedi'i deall yn ymarferol (lle mae'r trefniadau ar gyfer gofalwyr yn amrywio). Nid ydym yn meddwl bod hepgor y geiriad yn ehangu'r ddarpariaeth.
24. Credwn fod y newid yn egluro cymhwysiad y gyfraith bresennol drwy ddileu amwysedd a dyna pam yr ydym wedi dibynnu ar RhS 26C.2(ii) a (iv).

Cwestiynau 10 ac 11: adrannau 47(4) a 49(5)(a)

25. Rydym o'r farn bod y ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys ar godi tâl yn egluro'r sefyllfa bresennol ond nad yw'n ei newid (gan ddibynnu felly ar RhS 26C.2(ii)). Yn rhinwedd cael ei benodi'n warcheidwad heneb neu dir cysylltiedig, mae gan berson reolaeth lwyr dros yr heneb neu'r tir. Nid ydym yn credu bod unrhyw amheuaeth bod

hyn yn cynnwys y pŵer i godi tâl am ddefnydd penodol o'r heneb, fel y byddai'n wir yn achos pobl eraill sy'n rheoli mangre benodol am resymau eraill.

26. Er bod Cadw ac awdurdodau lleol wedi dibynnu ar reolaeth lawn ar henebion sydd dan warcheidiaeth yn ôl Deddf 1979, gall y berthynas â rhydd-ddeiliaid henebion gwarcheidiaeth fod yn gymhleth. Felly, mae mwy o eglurder ynghylch y pwerau ynghylch codi tâl am ddefnyddio henebion yn ddymunol.

Cwestiynau 12 i 15: adran 55(4), 55(5), 55(5)(c) a 55(6)

27. Ar adran 55(4):

- a. Mae'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol o dan adran 19 o Ddeddf 1979 i ddeddfu wedi'u hailddatgan ar ffurf addasedig: maent wedi'u hailddatgan fel pwerau i wneud isddeddfau, nid rheoliadau. Mae hefyd yn wir fod y pwerau wedi'u culhau o ran yr ystod o bethau y gallent eu cwmpasu. Mae hyn yn cynnwys dileu'r gofyniad bod amserau arferol mynediad cyhoeddus i henebion yn cael eu rheoli gan reoliadau, felly bydd pob awdurdod lleol yn mynd i'r afael â'r mater yn weinyddol. Gellid ystyried y culhau hwn ar y pŵer presennol fel dileu pŵer i wneud rheoliadau.
- b. Mae'r newid yn un bychan sy'n ymwneud â mater o ffurf; mae'n adlewyrchu'r ffordd y mae'r rheolau ar gael mynediad i henebion wedi'u cymhwyso'n ymarferol ac mae'n gyson ag arferion drafftio modern (mae'n anarferol iawn i isddeddfwriaeth fynd i'r afael â mater o'r natur hon).
- c. Fel y cyfryw, mae Nodiadau'r Drafftwyr yn cyfeirio at Reol Sefydlog 26C.2(ii) a (iv).

28. Adran 55(5) – mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r ddarpariaeth yn adran 19 wedi'i chymhwyso'n ymarferol, sy'n fath o newid a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C. Cyfeiriasom at baragraff (iv) i gydnabod y ffaith ein bod yn newid y gyfraith bresennol.

29. Adran 55(5)(c) a 55(6) – nid ydym yn ystyried y newidiadau drafftio i'r sefyllfa bresennol; mae'n egluro'r hyn sydd eisoes wedi'i ganiatáu, yn ein barn ni, yn rhinwedd y ffaith bod gan Weinidogion Cymru neu awdurdod lleol reolaeth ar heneb. Nid yw'r sefyllfa yn Neddf 1979 yn glir, serch hynny, oherwydd absenoldeb cydnabyddiaeth o'r cysylltiad hwn o adran 19(2) o'r Ddeddf. Mae'r drafftio yn y Bil wedi'i gynnwys i egluro ar ba sail y mae arfer presennol yn cael ei weithredu, ac mae hwn yn newid a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2(ii).

30. Byddai rheolaethau ar fynediad cyhoeddus yn cael eu harfer ar sail perchnogaeth, gwarcheidiaeth neu bwerau cyffredinol megis adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (DLIC 2006) neu bwerau cyfatebol mewn pwerau llywodraeth leol.

Cwestiwn 16: adran 56(1)

31. O dan Ddeddf 1979, roedd amrywiaeth o faterion yn amodol ar reoliadau o dan adrannau 19(3) a (4) a byddai torri amodau yn drosedd a fyddai'n arwain at ddirwy. Yn ymarferol, ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o'r fath oni bai y

byddent yn gwahardd neu'n rheoleiddio ymddygiad a fyddai'n niweidio'r heneb neu'n tarfu ar fwynhad y cyhoedd. Mae aildatgan y ddarpariaeth yn y modd hwn yn rhoi tryloywder ac eglurder ynghylch ei bwriad.

32. Mae'r pwerau a aildatganwyd o adran 19 yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r system a grëwyd gan Ddeddf 1979 wedi'i chymhwyso'n ymarferol. Mae absenoldeb unrhyw reoliadau a wneir ar gyfer Cymru o dan yr adran honno yn awgrymu nad oes angen y pŵer yn ei ffurf bresennol yn y Bil. Mae hwn yn newid yr ystyrir ei fod yn cael ei ganiatáu gan Reol Sefydlog 26.2(ii), ond mae'r cyfeiriad yn y Nodiadau Drafftwyd i Reol Sefydlog 26C.2(iv) yn gydnabyddiaeth o newid i'r gyfraith bresennol.

Cwestiwn 18: adran 64(1) i (3)

33. Mae Deddf 1979 yn rhagflaenu datganoli yng Nghymru, ac mae pwerau ar gael ar hyn o bryd i Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf sy'n gorgyffwrdd yn gyfan gwbl â'r pwerau cyffredinol sydd ar gael i Weinidogion o dan Ran 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ein dull o aildatgan adran 45 oedd hepgor unrhyw bwerau lle'r oedd y gorgyffwrdd hwnnw'n bodoli. Mae hyn yn gyson â RhS 26C.2(iii) – gan hepgor darpariaeth ddiangen.
34. Ein hymagwedd gyffredinol at bwerau Gweinidogion Cymru yw hepgor darpariaeth o'r aildatganiad dim ond lle y gellid cyflawni'r un effaith drwy ddefnyddio pwerau cyffredinol, gan ystyried unrhyw reolaethau dros y ffordd y mae'r pwerau yn Neddf 1979 yn arferadwy. Pan fo arfer pwerau yn amodol ar fodloni rhai profion penodol neu'n amodol ar gyfyngiadau penodol eraill, caiff y pwerau yn y Bil eu haildatgan yn hytrach na dibynnu ar y swyddogaethau a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig

Cwestiwn 19: adran 76(1)

35. Gosodwyd y ddyletswydd naill ai i lunio rhestrau o adeiladau neu gymeradwyo rhestrau a luniwyd gan eraill yn gyntaf gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947, ond yn ymarferol mae rhestrau o adeiladau yng Nghymru bob amser wedi'u llunio gan Weinidogion neu ar eu rhan.
36. Oherwydd bod y rhestr o adeiladau eisoes wedi'i llunio a bod ailarolwg systematig o Gymru wedi'i gwblhau yn 2006, nid oes angen cymeradwyo rhestrau a luniwyd gan eraill. Mae'r mwyafrif helaeth o restrau Cadw bellach yn 'rhestrau yn y fan a'r lle' unigol sy'n cael eu hysgogi gan geisiadau gan y cyhoedd. Er y gellir comisiynu adroddiadau ar categorïau penodol o adeiladau sy'n briodol i'w rhestru o bryd i'w gilydd, byddai adeiladau sy'n ymgeisio bob amser yn cael eu hasesu'n llawn gan swyddogion Cadw cyn eu cynnwys yn y rhestr. O dan yr amgylchiadau, nid oes unrhyw ddefnydd ymarferol bellach i'r pŵer i gymeradwyo rhestrau o adeiladau a luniwyd gan eraill.

Cwestiwn 20: adran 76(1)

37. Pan ddeddfwyd adran 2(4) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 am y tro cyntaf fel adran 11 o Ddeddf Mwynderau Dinesig 1967, cadwyd rhestrau a diwygiadau ar bapur,

ond cedwir rhestr adeiladau yn electronig bellach. Nid oes fersiwn copi caled o'r rhestr gyfan, sy'n cynnwys dros 30,000 o adeiladau.

38. Bwriad disodli'r ddyletswydd i sicrhau bod copïau ar gael i'w harchwilio â dyletswydd i gyhoeddi'r rhestr yw adlewyrchu'r hyn y deallir bod y ddyletswydd yn ei olygu o ganlyniad i newidiadau technolegol ers 1967. Gellid ei ddisgrifio hefyd fel un sy'n hepgor gofynion sydd wedi dyddio nad oes ganddynt bellach unrhyw ddefnyddioldeb nac effaith ymarferol.
39. Mae awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu mynediad at gofnodion rhestr fel y disgrifir yn adran 77(4) a (5) o'r Bil. Os nad oes gan bobl fynediad i'r rhynggrwyd, gallant gael cofnodion rhestr yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol perthnasol neu ar gais gan Cadw. Gallant hefyd gael mynediad i'r gronfa ddata ar-lein mewn llyfrgelloedd lleol.
40. Mae'r trefniadau hyn yn ychwanegol at unrhyw hawliau mynediad eraill i weld gwybodaeth a allai fod gan berson. Ond mae gwybodaeth gyhoeddedig yn debygol o gael ei heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ar y sail ei bod eisoes yn rhesymol hygyrch i'r person drwy ddulliau eraill.

Cwestiwn 21: adran 78

41. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw bŵer arall i ddiwygio'r rhestr o ymgynghorwyr.
42. Mae'r darpariaethau ymgynghori hyn wedi bod mewn grym ers 2017. Ers hynny, nid yw Cadw wedi nodi unrhyw reswm pam y gallai fod angen diwygio'r rhestr o ymgynghoreion, gan ei bod eisoes yn cynnwys yr holl bobl y byddai'n briodol ymgynghori â hwy. Mae'r pŵer wedi'i hepgor o dan RhS 26C.2(iii) oherwydd nad oes iddo unrhyw ddefnyddioldeb ymarferol. Gweler hefyd yr ymateb i gwestiwn 2.

Cwestiwn 23: adran 81(2) a (6)

43. Y prif newid yma yw symud y seiliau dros adolygiadau o reoliadau i'r Bil, i adlewyrchu pwysigrwydd y darpariaethau. Mae cadw'r pŵer i'w diwygio (gyda gweithdrefn Senedd uwch oherwydd y byddai unrhyw reoliadau bellach yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) yn cadw'r hyblygrwydd sydd eisoes yn bodoli. Effaith gyfunol y newidiadau hyn yw gwneud y darpariaethau yn fwy cydlynol a hygyrch heb newid eu heffaith ymarferol yn sylweddol. Mae'n briodol gwneud y newidiadau at ddibenion cyflawni cydgrynhoi boddhaol.

Cwestiwn 24: adran 81(3) a (4)

44. Mae adran 81 o'r Bil yn adlewyrchu effaith rheoliad 3 o OS 2017/644, gyda phŵer i wneud eithriadau sy'n deillio o baragraff 1(2) o Atodlen 1B i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Nid yw hyn yn newid y gyfraith sylwedd ond mae'n adlewyrchu effaith bresennol paragraff 1 Atodlen 1B a rheoliad 3. Yr unig newid yw statws y ddarpariaeth i bob adolygiad gael ei gynnal gan bersonau penodedig, sydd wedi'i symud o isddeddfwriaeth i ddeddfwriaeth sylfaenol. Ystyrir bod hyn yn briodol i gyflawni darn mwy cydlynol o ddeddfwriaeth.

45. Gan mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am restru adeiladau, mae defnyddio person penodedig mewn adolygiadau o ddynodiadau yn sicrhau rhywfaint o annibyniaeth a thryloywder, ac nid yw'r angen yn debygol o newid yn y dyfodol.

Cwestiwn 25: adran 90(1)

46. Wedi'i gadarnhau.

Cwestiwn 26: adran 90(2)(c)

47. Gellid darllen Adran 10 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 fel petai'n cymryd bod pob cais yn cael ei wneud i'r awdurdod cynllunio lleol. Mae drafftio adran 90 o'r Bil, ar y llaw arall, yn ei gwneud yn glir bod rhai ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig yn cael eu gwneud i Weinidogion Cymru.
48. Yn union fel y gall fod yn rhaid i awdurdodau cynllunio fynd yn ôl at ymgeiswyr am wybodaeth i wneud yn siŵr bod ganddynt yr holl ddeunydd perthnasol at ddibenion penderfyniad, felly hefyd Gweinidogion Cymru. Rydym o'r farn bod yn rhaid darllen y darpariaethau presennol fel rhai sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru fynnu gwybodaeth bellach pan wneir cais iddynt, ac mae'n fwy defnyddiol nodi hynny fel pŵer datganedig yn y Bil.

Cwestiwn 27: adran 90(3)

49. Mae adran 10(3)(a) i (ab) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn nodi y caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y ffurf a'r modd y mae ceisiadau i'w gwneud, manylion y materion hynny sydd i'w cynnwys mewn ceisiadau o'r fath, a'r dogfennau neu ddeunyddiau eraill a ddylai gyd-fynd â cheisiadau o'r fath. Mae Gweinidogion Cymru a'u rhagflaenwyr wedi darparu ffurflenni at y diben hwn ers amser maith, ac fe'u defnyddir bob amser yn ymarferol. Mae OS 2012/793 yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig i awdurdod cynllunio lleol ar ffurflen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (neu ffurflen sydd i raddau helaeth i'r un effaith). Ar hyn o bryd gwneir cais ar-lein gan ddefnyddio'r 1App neu drwy ddefnyddio copi o ffurflen gais a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

Cwestiwn 28: adran 92(1)

50. Wedi'i gadarnhau.

Cwestiynau 29 a 30: adrannau 92 a 95

51. Mae'r Pwyllgor a'i ragflaenwyr wedi argymhell darpariaethau mewn amrywiol Filiau'r Senedd sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau gael eu disodli gan bwerau i wneud gorchmynion neu reoliadau ar ffurf offerynnau statudol sy'n amodol ar weithdrefn y Senedd. (Er enghraifft, argymhellion 8, 18 a 19 o adroddiad y Pwyllgor ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru).) Nid yw Llywodraeth Cymru bob amser wedi cytuno â'r argymhellion, er enghraifft os yw'r cyfarwyddiadau dan sylw yn berthnasol i gyrff neu achosion penodol yn unig, neu os nad yw eu heffaith ond yn fach ac yn dechnegol. Fodd bynnag, derbynnir yn dda'r egwyddor y dylai pwerau deddfu cyffredinol a roddir i Weinidogion Cymru fod yn arferadwy drwy offeryn statudol, gyda lefel briodol o reolaeth gan y Senedd.

52. Pan fo Bil cydgrynhai yn ailddatgan darpariaethau sy'n rhoi pwerau i wneud darpariaeth gyffredinol o natur ddeddfwriaethol ar ffurf cyfarwyddiadau, gall fod yn briodol disodli'r pwerau hynny â phwerau i wneud rheoliadau drwy offeryn statudol. Mae canllawiau'r Llywydd i gefnogi gweithrediad RhS 26C yn rhoi hyn fel enghraifft o'r math o newid y gellir ei wneud i sicrhau cydgrynhoad boddhaol o dan RhS 26C.2(iv).
53. Mae angen barnu a ddylid gwneud newid o'r fath fesul achos, gan ystyried natur a chwmpas y ddarpariaeth y gellir ei gwneud yn y cyfarwyddiadau ac unrhyw anawsterau ymarferol y gallai'r newid eu hachosi. Yn achos y pwerau a ailddatganwyd yn adrannau 92 a 95 o'r Bil, mae'r pwerau i roi cyfarwyddiadau ymgeisio cyffredinol wedi'u disodli â phwerau i wneud rheoliadau ac nid yw ystyriaethau gwrthbwysol o blaid cadw cyfarwyddiadau wedi'u nodi.

Cwestiwn 31: adran 95(7)

54. Mae'r enghreifftiau yn adran 95(7) yn rhoi syniad o rai o'r mathau mwy arwyddocaol o ddarpariaeth y gellid eu gwneud (ac sydd eisoes wedi'u gwneud) mewn cyfarwyddiadau. Maent yn rhoi eglurhad defnyddiol trwy ei gwneud yn haws i'r darllenydd ddeall sut mae'r pŵer yn debygol o gael ei ddefnyddio.

Cwestiwn 32: adran 98

55. Byddai Adran 51 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Deddf 2004) yn newid y cyfnod rhagosodedig ar gyfer dechrau datblygu a awdurdodwyd gan ganiatâd cynllunio a gwaith a awdurdodwyd gan ganiatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth. Nid yw'r newid wedi dod i rym yng Nghymru. Fe'i deddfwyd ar gyfer Cymru a Lloegr gan Ddeddf Senedd y DU a basiwyd cyn i'r Senedd gael pwerau deddfwriaethol; nid oedd tystiolaeth bod angen lleihau'r amserlen yng Nghymru, ac nid oes angen unrhyw ostyngiad ers 2004.
56. Ar gyfer caniatâd cynllunio, cafodd y newidiadau a wnaed gan adran 51 eu gwrthdroi gan adran 35 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (a wnaeth newidiadau eraill i'r gyfraith hefyd) oherwydd nad oeddent bellach yn cael eu hystyried yn briodol.
57. Rydym o'r farn nad yw adran 51 o Ddeddf 2004 yn ddefnyddiol bellach at ddibenion RhS 26C.2(iii).

Cwestiwn 33: adran 98(3)(b)

58. Mae'r ddarpariaeth a symudwyd o OS 2021/1177 i'r ailddatgan adran 18 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn pennu math o gydsyniad nad yw adran 18 yn gymwys iddo. Mae'n ddarpariaeth sy'n culhau effaith deddfwriaeth sylfaenol, ac mae'n briodol iddi ymddangos yn y ddeddfwriaeth sylfaenol.
59. Mae adran 18(3) eisoes yn pennu math arall o gydsyniad nad yw'r adran yn gymwys iddo. Mae symud y ddarpariaeth o Reoliadau 2021 i'r adran yn golygu bod y darpariaethau hyn yn ymddangos mewn un man, gan roi datganiad mwy cydlynol o'r gyfraith.

Cwestiwn 34: adran 99(3)

60. Mae adran 99(3) yn ailddatgan adran 19(3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 gyda dau newid i'r rhestr o ddarpariaethau sy'n gymwys i geisiadau i amrywio neu ollwng amodau caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth:
- a. Yn gyntaf, mae adran 99(3) yn cymhwyso adran 93 o'r Bil, sy'n ailddatgan adran 81A o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 ynghylch gwrthod ceisiadau tebyg. Mewnosodir adran 81A gan adran 43 o Ddeddf 2004, nad yw'n diwygio adran 19 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 i gymhwyso adran 81A i geisiadau i amrywio neu ollwng amodau. Mae hyn yn ymddangos yn anghyson o ystyried bod yr holl ddarpariaethau eraill ynghylch ymdrin â cheisiadau am ganiatâd yn cael eu cymhwyso i geisiadau i amrywio neu ddileu amodau, a gallai geiriad adran 20(2)(aa) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 (hefyd wedi'i fewnosod gan adran 43 o'r Ddeddf) awgrymu y credir bod adran 81A yn gymwys i'r ceisiadau hynny. Ni nodwyd unrhyw reswm dros beidio â chymhwyso adran 81A. Mae'n bosibl iddo gael ei anwybyddu oherwydd nad oedd angen i'r diwygiadau cyfatebol adran 43 a wnaed i Ddeddf Cynllunio 1990 ymdrin â cheisiadau i amrywio neu ddileu amodau (mae amodau cynllunio yn cael eu hamrywio neu eu dileu drwy wneud cais am ganiatâd cynllunio newydd).
 - b. Yn ail, mae adran 99(3) yn eithrio'r darpariaethau yn adran 90 sy'n ymwneud â datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth. Nid yw datganiadau o'r fath yn cael eu darparu gyda cheisiadau i amrywio neu ddileu amodau. Mae adran 99(3) o'r Bil yn newid pwerau Gweinidogion Cymru, drwy hepgor y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i ddatganiad gael ei ddarparu gyda chais o dan yr adran honno. Ni fyddai byth angen datganiad gyda chais i amrywio neu ddileu amodau, oherwydd ni fydd cais o'r fath yn cael unrhyw effaith ar gynnwys datganiad o'r effaith ar dreftadaeth.

Cwestiwn 35: adran 99

61. Gwnaed y gwelliant hwn hefyd gan Ddeddf 2004. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod hwn yn fater yng Nghymru yr oedd angen i ddeddfwriaeth fynd i'r afael ag ef.

Cwestiwn 36: adran 100(4)

62. Mae'r cyfnod y caniateir i apêl gael ei dwyn ar ei ôl o dan adran 20(2) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 wedi'i nodi mewn mannau gwahanol ar gyfer achosion gwahanol yn anghyson. Mae cael gwared ar y gwahaniaeth hwnnw yn arwain at ddeddfwriaeth fwy cydlynol.
63. Mae pennu'r cyfnod y caniateir i apêl gael ei gwneud ar ei ôl mewn rheoliadau yn gyson â'r dull ar gyfer apeliadau cynllunio yn adran 78(2) o Ddeddf Cynllunio 1990, ac â'r ffaith bod y cyfnod ar gyfer dwyn apeliadau wedi'i bennu gan isddeddfwriaeth o dan y ddwy Ddeddf 1990. Mae cysondeb rhwng y ddwy Ddeddf yn arbennig o ddymunol oherwydd bod angen caniatâd cynllunio hefyd ar gyfer y rhan fwyaf o waith y mae angen caniatâd adeilad rhestredig arno hefyd; yn aml mae angen ceisiadau o dan y ddwy Ddeddf.

64. Nid oes pŵer ar hyn o bryd i ddiwygio'r cyfnod o 8 wythnos ar gyfer penderfynu ar gais am ganiatâd a nodir yn adran 20(3)(b) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, felly nid yw wedi newid. Mae'r cyfnod o 8 wythnos a ragnodir o dan adran 20(3)(a) wedi'i nodi ar hyn o bryd yn rheoliad 3(5) o OS 2012/793 (pennwyd yr un cyfnod yn rheoliad 3(4) o OS 1990/1519).
65. Er nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i newid y cyfnodau a osodwyd gan OS 2012/793, mae'n bosibl y gellir ystyried newidiadau yn y dyfodol. Yn y cyd-destun cynllunio, caiff y cyfnod penderfynu o 8 wythnos ei ymestyn os caiff cais ei ddiwygio (gweler erthygl 22 o OS 2012/801). Mae cyfnodau penderfynu gwahanol wedi'u pennu ar gyfer ceisiadau sy'n gofyn am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (gweler rheoliad 61 o OS 2017/567) ac ar gyfer mathau amrywiol eraill o geisiadau yn Lloegr (gweler erthygl 34 o OS 2015/595). Byddai unrhyw gynnig i wneud rheoliadau o dan adran 100(4) o'r Bil i newid y cyfnod penderfynu ar gyfer unrhyw fath o gais yn destun ymgynghoriad.

Cwestiwn 37: adran 102(2)

66. Mae adran 21(4B) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau ddarparu ar gyfer cais sy'n cael ei amrywio "*i fod yn destun unrhyw ymgynghoriad pellach y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn briodol*". Gwnaed rheoliad 12B(2) o OS 2012/793 o dan y pŵer hwn ac mae'n ailadrodd geiriad y pŵer heb ychwanegu dim. Mae'r gofyniad wedi'i symud ymlaen i wyneb y Bil, yn hytrach na chael ei adael i reoliadau, er mwyn osgoi'r dyblygu diangen hwn; mân newid a wneir i gyflawni cydgrynhoad boddhaol o dan RhS 26C.2(iv).
67. Nid yw'n gwbl glir o eiriad y darpariaethau presennol sut y mae Gweinidogion Cymru yn nodi pa ymgynghoriad y maent yn ei ystyried yn briodol, na phwy fydd yn ei gynnal. Bwriad y ddarpariaeth i Weinidogion Cymru "*gyfarwyddo*" ymgynghori pellach yw rhoi blas cliriach o sut mae'r ddarpariaeth yn gweithredu'n ymarferol, gan ddibynnu ar RhS 26C.2(ii).
68. Nid yw'r naill na'r llall o'r newidiadau hyn yn golygu disodli'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 21(4B) â phŵer i roi cyfarwyddiadau.

Cwestiwn 38: adran 105

69. Nid oes unrhyw addasiadau wedi'u gwneud erioed o dan adran 82(1) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, ac nid yw Cadw wedi gallu nodi unrhyw addasiadau y gallai fod angen eu gwneud. Mae'r pŵer yn cael ei hepgor ar y sail nad oes ganddo unrhyw ddefnyddioldeb ymarferol.

Cwestiwn 39: adran 105(1) a (2)

70. Mae adrannau 82 ac 82F o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn cynnwys geiriad sy'n aneglur, yn anghywir ac yn rhy eang. Mae'r diffyg eglurder yn ymwneud â'r mathau o geisiadau y mae'r adrannau'n berthnasol iddynt; mae'r geiriad anghywir a rhy eang yn ymwneud â'r darpariaethau y gellir eu haddasu oddi tanynt.
71. Y prif eglurhad a wneir yn adran 105 yw bod isadran (2) yn rhestru'r mathau o geisiadau y mae'n gymwys iddynt, gan fabwysiadu'r derminoleg a ddefnyddir mewn

mannau eraill yn Rhan 2 o'r Bil. Mae adran 82(2) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn cyfeirio at geisiadau "*sy'n ymwneud â gwneud gwaith i ddymchwel, addasu neu ymestyn adeiladau rhestredig,*" sy'n gofyn am fwy o ymdrech i ddatrys pa geisiadau sy'n cael eu cynnwys. Dim ond ceisiadau am ganiatâd y mae adran 82F o'r Ddeddf yn eu crybwyll, ond mae'n rhaid iddo hefyd fod wedi'i fwriadu i fod yn berthnasol i geisiadau i amrywio neu ddileu amodau neu gael cymeradwyaeth dan ganiatâd. Mae adran 105(2) o'r Bil yn gwneud y safbwynt hwn yn glir.

72. Mae'r rhestr o ddarpariaethau y gellir eu haddasu yn adran 82(3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn anghywir. Rhaid i addasiadau o dan adran 82(2) ymwneud â cheisiadau, ond mae'r rhestr o ddarpariaethau yn adran 82(3) yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ymwneud â cheisiadau heb gynnwys rhai adrannau ynghylch ceisiadau (megis adrannau 81A ac 88E, a ychwanegir gan ddeddfwriaeth ddiweddarach nad oedd yn diwygio adran 82). Mae'r pŵer yn adran 82F yn rhy eang. Mae'n caniatáu addasiadau i ddarpariaethau "*sydd wedi'u cynnwys o fewn neu sy'n cael effaith o dan unrhyw ddeddfiad*" ond mae'r darpariaethau ynghylch ceisiadau i gyd yn cael eu gwneud o fewn neu o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 a Deddf Cynllunio 1990 ac maent i gyd wedi'u hailddatgan yn y Bil. Mae adran 105(1) yn osgoi'r problemau hyn drwy roi pŵer i eithrio neu addasu "*unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan y Ddeddf hon*". Bydd yn rhaid i'r addasiadau ymwneud â cheisiadau, felly ni fydd y rheoliadau ond yn gallu effeithio ar ddarpariaethau sy'n berthnasol i geisiadau.
73. Nid oes unrhyw newid i weithdrefnau craffu'r Senedd. Mae rheoliadau o dan adrannau 82 ac 82F o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn amodol ar weithdrefn negyddol (gweler adran 93(3) o'r Ddeddf honno). Mae rheoliadau o dan adran 105 o'r Bil yn amodol ar weithdrefn negyddol (gweler adran 209(6)).

Cwestiwn 40: adran 105(3)

74. Mae adrannau 82 ac 82F o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 ill dau yn rhoi pwerau eang i addasu darpariaethau. Mae adran 82(4) yn rhoi dwy enghraifft o addasiadau penodol y gellir eu gwneud ond nid yw adran 82F yn gwneud hynny. Serch hynny, rydym o'r farn y byddai'r ddau fath o addasiad o fewn y pŵer a roddir gan adran 82F.
75. Nid yw adran 105(3) o'r Bil yn rhoi pŵer newydd i Weinidogion Cymru nad oes ganddynt o dan adran 82F o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Ond pe bai adran 105(3) yn datgan ei bod yn gymwys i geisiadau gan awdurdodau cynllunio yn unig, byddai hynny'n gamarweiniol gan y gallai awgrymu bod y pŵer o adran 82F yn cael ei gyfyngu.
76. Gallai darpariaeth i Weinidogion Cymru benderfynu ar gais o dan adran 82(4)(a) o'r Ddeddf gynnwys darpariaeth iddynt roi hysbysiadau sy'n ymwneud â'r cais a fyddai fel arall yn cael eu rhoi gan yr awdurdod cynllunio. Ni allwn nodi unrhyw ffordd arall y gellid defnyddio'r pŵer i ddarparu i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiadau yn adran 82(4)(b) mewn perthynas â cheisiadau. Mae wedi'i hepgor o dan RhS 26C.2(iii) fel un nad yw'n cael unrhyw effaith ymarferol na defnyddioldeb.
77. O ystyried ymhellach, nid ydym o'r farn bod angen dibynnu ar RhS 26C.2(iv) ar gyfer y naill na'r llall o'r newidiadau hyn. Bydd Nodiadau'r Drafftwyd yn cael eu diweddarau maes o law i hepgor y cyfeiriad at baragraff (iv).

Cwestiwn 41: adran 109(6)

78. Mae adran 32(4) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn ei gwneud yn ofynnol, wrth benderfynu a yw adeilad neu dir yn gallu cael ei ddefnyddio'n rhesymol at ddefnydd buddiol, na ddylid ystyried defnydd arfaethedig sy'n ymwneud â mathau penodol o ddatblygiad tir neu unrhyw waith sy'n gofyn am ganiatâd adeilad rhestredig.
79. Mae adran 32(4) yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnydd gael ei anwybyddu pe byddai'n golygu datblygiad "*ac eithrio unrhyw ddatblygiad a bennir ym mharagraff 1 neu 2 o Atodlen 3 i'r brif Ddeddf*". Mae'r datblygiad a bennir yn Atodlen 3 i Ddeddf Cynllunio 1990 yn cynnwys ailddatblygu ac isrannu adeiladau yn unig. Gwneir darpariaeth bron yn union yr un fath gan adran 138 o Ddeddf Cynllunio 1990 mewn perthynas â hysbysiadau prynu o dan y Ddeddf honno.
80. Mae'r llysoedd wedi ystyried effaith y cyfeiriad at Atodlen 3 yn adran 138 o Ddeddf Cynllunio 1990, ac wedi barnu bod Atodlen 3 yn amherthnasol i'r cwestiwn a oes gan dir unrhyw ddefnydd rhesymol buddiol: gweler *Gavaghan v yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd* (1988) 59 P&CR 124, [1989] 1 PLR 88; *Hudscott Estates (East) Ltd v Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau* (2001) 82 P&CR 8, [2001] 2 PLR 11; a pharagraff P138.03 o'r *Encyclopedia of Planning Law and Practice*.
81. Y defnyddiau tir sydd i'w hanwybyddu o dan adran 138 yw'r rhai sydd angen caniatâd cynllunio: gweler *R (Cyngor Bwrdeistref Stafford) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol* [2011] EWHC 936 (Gweinyddol).
82. Mae adran 109(6) o'r Bil yn ailddatgan adran 32(4) ar sail y gyfraith achosion mewn perthynas ag adran 138.
83. Mae'r newidiadau hyn yn egluro'r effaith y mae'r llysoedd wedi dal adran 138 i'w chael, gan ymddiried ar RhS 26C.2(ii). Gellid hefyd disgrifio dileu'r cyfeiriad at Atodlen 3 i Ddeddf Cynllunio 1990 fel un sy'n hepgor geiriad nad yw bellach yn cael unrhyw effaith ymarferol o dan RhS 26C.2(iii).
84. Mae adran 32(4) yn cyfeirio at achosion lle bu ymgymeriad i roi caniatâd adeilad rhestredig ond nid at achosion pan roddwyd ymgymeriad i roi caniatâd cynllunio. Ni allwn nodi unrhyw reswm dros y gwahaniaeth hwn. Mae adran 109(6) yn dileu'r anghysondeb hwn drwy gynnwys cyfeiriad at ymgymeriad i roi caniatâd cynllunio, gan ddibynnu ar RhS 26C.2(iv).

Cwestiynau 42 a 43: Atodlen 9, paragraffau 1(7) a 4(7)

85. Ni allwn nodi unrhyw reswm pam y byddai Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 wedi newid y sefyllfa o ran tynnu hysbysiadau i drafod telerau yn ôl yn fwriadol. Y newidiadau a wnaeth y Ddeddf yn fwriadol oedd y rhai a argymhellwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei *Adroddiad ar Gydgrynhai Deddfau Penodol sy'n Ymwneud â Chynllunio Gwlad a Thref* (Cm 958, Chwefror 1990). Nid oedd yr adroddiad yn awgrymu unrhyw newidiadau mewn perthynas â thynnu hysbysiadau trin yn ôl.

Cwestiwn 44: adran 113(6) a (7)

86. Mae adran 26L(6) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn datgan y gall cytundeb *"gynnwys darpariaeth ... sy'n rhoi caniatâd adeilad rhestredig ... ac sy'n pennu unrhyw amodau y mae'r caniatâd yn amodol arnynt"*. Y darlleniad mwyaf amlwg a synhwyrol o'r ddarpariaeth yw bod yn rhaid cynnwys unrhyw amodau yn y cytundeb, oherwydd fel arall ni fyddant yn cael eu cofnodi. Dyma sut y deallir y ddarpariaeth yn ymarferol, ond mae'r geiriad wedi'i addasu yn adran 113(7) o'r Bil i osgoi unrhyw amheuaeth.

Cwestiwn 45: adran 125(4)

87. Mae adran 125(4) o'r Bil yn nodi'n glir yr hyn sydd eisoes ymhlyg yn adran 38(6) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Mae adran 38(6) yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad ynghylch tynnu'n ôl neu amrywio hysbysiad gorfodi gael ei gyflwyno i bob person y cyflwynwyd copi o'r hysbysiad iddo neu a fyddai, pe bai'r hysbysiad yn cael ei ailgyhoeddi, yn cael ei gyflwyno â chopi. Yn ein barn ni, mae hyn yn golygu bod adran 38(6) yn berthnasol dim ond os yw'r hysbysiad gorfodi wedi'i gyflwyno, ac mae'r cyfeiriad at bobl a fyddai'n cael eu cyflwyno pe bai'r hysbysiad yn cael ei ailgyhoeddi yn ymwneud ag achosion lle mae perchnogaeth neu feddiannaeth yr adeilad wedi newid ers cyflwyno copïau o'r hysbysiad. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw senario lle byddai angen cyflwyno hysbysiad tynnu'n ôl neu amrywio pe na bai copïau o'r hysbysiad gorfodi gwreiddiol wedi'u cyflwyno.
88. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw faterion yn ymwneud â'r rhyngweithio rhwng y darpariaethau ynghylch pryd y daw hysbysiadau gorfodi i rym a'r pwerau i'w hamrywio neu eu tynnu'n ôl.

Cwestiwn 46: adran 128(3)(b)

89. Ni allwn ddweud beth mae *"cyfyngiad"* yn ei olygu yn adran 41(6)(b) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, oherwydd nid oes darpariaeth i ganiatâd adeilad rhestredig gael ei roi yn amodol ar gyfyngiadau. Mae Deddf Cynllunio 1990 yn cyfeirio at amodau a chyfyngiadau caniatâd cynllunio, ond hyd yn oed yn y Ddeddf honno mae'r gwahaniaeth yn broblematic. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi argymhell ei ddileu (*Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*, argymhelliad 8-9).
90. Credwn mai camgymeriad oedd y cyfeiriad at *"cyfyngiadau"* yn adran 41(6)(b) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, ac unig effaith cywiro'r camgymeriad yw dileu geiriad diangen. Yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971, roedd adran 88 ynghylch apelïadau yn erbyn hysbysiadau gorfodi cynllunio yn cyfeirio at amodau a chyfyngiadau, tra bod adran 97 ynghylch apelïadau yn erbyn hysbysiadau gorfodi adeilad rhestredig yn cyfeirio at amodau yn unig. Mae'r cyfeiriad gwallus at gyfyngiadau yn y darpariaethau ynghylch hysbysiadau gorfodi adeiladau rhestredig yn deillio o Atodlen i Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynllunio (Diwygio) 1981, a ddisodlodd adrannau 88 a 97 o Ddeddf 1971 â darpariaethau newydd. Mae'n bosibl bod y darpariaethau ynghylch achosion adeiladau rhestredig wedi'u drafftio drwy addasu'r darpariaethau ynghylch achosion cynllunio, ond na wnaethpwyd yr holl addasiadau angenrheidiol.

Cwestiynau 47 a 48: adrannau 130 a 132(2), (3), (7) ac (8)

91. Mae adran 42(3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn rhoi pŵer i gymhwyso adrannau penodol o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 (Deddf 1936) gydag addasiadau.

Gwneir hynny ar hyn o bryd gan reoliad 15 o OS 2012/793. Er mwyn deall y sefyllfa, rhaid i ddarllenydd felly ymgynghori ag adran 42, rheoliad 15 a Deddf 1936. Yn y Bil, mae adran 130 yn ailddatgan effaith y darpariaethau hynny mewn un lle, at ddibenion cyflawni cydgrynhoi boddhaol.

92. Mae adran 42(4) yn pennu diben penodol y caniateir gwneud addasiadau i adran 289 o Ddeddf 1936 ar ei gyfer. Nid oes unrhyw addasiadau wedi'u gwneud at y diben hwnnw, ac nid yw Cadw wedi nodi unrhyw rai y gallai fod eu hangen. Mae'r pŵer hwnnw felly wedi'i hepgor o'r Bil gan nad oes iddo unrhyw ddefnyddioldeb ymarferol. Dylai Nodiadau'r Drafftwyd fod wedi dyfynnu RhS 26C.2(iii) ar gyfer yr hepgoriad hwn a chânt eu diweddarau maes o law.
93. Mae adran 178 o Ddeddf Cynllunio 1990 yn cynnwys pwerau unfath. Argymhelliad 18-13 yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* oedd ailddatgan y darpariaethau hynny mewn deddfwriaeth sylfaenol, ac mae'r un mor berthnasol i adran 42 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990.

Cwestiwn 49: adran 132(5)

94. Nid yw adrannau 132(5) a (6) o'r Bil yn ymwneud â newid polisi. Mae rheoliad 15(2) o OS 2012/793 wedi'i symud i mewn i'r Bil at ddibenion cyflawni cydgrynhoi boddhaol. Mae ymdrin â'r mater hwn mewn deddfwriaeth sylfaenol yn gyson ag adran 55(5C) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, a ailddatganwyd yn adran 146(3) o'r Bil.

Cwestiwn 50: adran 132(7) a (8)

95. Mae adran 276(3) o Ddeddf 1936 yn ddarpariaeth sy'n peri syndod oherwydd mae'n anodd gweld pam y dylai'r pŵer i werthu deunyddiau, neu'r ddyletswydd i roi cyfrif i'r perchennog am enillion y gwerthiant, fod yn amodol ar eithriad ar gyfer "*sbwriel/refuse*" (y byddem bellach yn ei alw yn "*wastraff/waste*"). Credwn fod yr eithriad yn gwneud synnwyr yng nghyd-destun Deddf 1936 fel y'i deddfwyd yn wreiddiol ac y gallai fod yn berthnasol o hyd mewn perthynas â chasglu gwastraff, ond nid yw'n cyd-fynd â'r cyd-destun lle mae adran 276 yn cael ei chymhwyso at ddibenion Deddfau eraill.
96. Rhoddodd adrannau 72 a 73 o Ddeddf 1936 swyddogaethau i awdurdodau lleol i gasglu sbwriel domestig a masnach. Rhoddodd adran 76(2) bŵer iddynt werthu sbwriel a dynnwyd ganddynt, heb unrhyw ddyletswydd i roi cyfrif am yr enillion. Dywed adran 276 o Ddeddf 1936 ei bod yn gymwys pryd bynnag y bydd awdurdod yn symud unrhyw ddeunyddiau o unrhyw fangre ac mae'n cynnwys dyletswydd i roi cyfrif i'r perchennog yn adran 276(2). Mae adran 276(3) yn gwneud darpariaeth ar gyfer y berthynas rhwng adrannau 76(2) a 276(2).
97. Nid yw'r mater hwn yn codi pan fydd awdurdod cynllunio yn mynd ar dir i wneud gwaith sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi. Felly mae cyfiawnhad dros hepgor adran 276(3) o dan baragraff (iii) neu (iv) o RhS 26C.2.
98. Roedd OS 2012/793 yn dilyn y dull a ddefnyddiwyd mewn rheoliadau cynharach. Efallai yr ystyriwyd ei bod yn ddiangen datgymhwyso adran 276(3) yn benodol neu efallai mai amryfusedd ydoedd.

99. Daethom i'r casgliad nad oeddem yn gallu ychwanegu unrhyw eiriau at adran 132(8)(b) i egluro pa gostau y gellir eu hadennill oddi wrth berchennog deunyddiau, na sut y gellir eu hadennill. Gallai unrhyw newid i sefyllfa perchnogion deunyddiau nad ydynt yn berchen ar y tir hefyd godi cwestiynau polisi y byddai angen eu hystyried ymhellach.

Cwestiwn 51: adran 136(4)

100. Mae adran 52(1) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau cynllunio gaffael adeiladau drwy gytundeb. Dywed isadran (2)(b) ei bod yn gymwys i gaffaeliadau o dan isadran (1), ond mae'n honni ei bod yn addasu Deddf Prynu Gorfodol 1965 ar gyfer y sefyllfa pan fo tir yn cael ei gaffael gan Weinidogion neu ymgymeryddys statudol. Mae honno'n sefyllfa gwbl wahanol na all godi o dan isadran (1).
101. Ailddatganodd adran 52(2)(b) adran 132(4)(c) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971. Mae hon yn ddarpariaeth gyffredinol sy'n addasu Deddf 1965 mewn perthynas â'r holl achosion y'i cymhwyswyd iddynt gan Ran 6 o Ddeddf 1971, a oedd yn cynnwys ystod ehangach o bwerau i gaffael tir (gan gynnwys y pwerau a ailddatganwyd yn Rhan 9 o Ddeddf Cynllunio 1990 yn ogystal â'r rhai a ailddatganwyd ym Mhennod 5 o Ran 1 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990). Hyd yn oed os oedd adran 132(4)(c) yn berthnasol i gaffaeliadau o dan unrhyw un o'r pwerau eraill hynny, nid oedd yn berthnasol i'r pŵer i awdurdodau lleol penodol gaffael adeiladau rhestredig drwy gytundeb a dylai fod wedi'i hepgor o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990.
102. Cyn belled ag y mae'n cyfeirio at ymgymeryddys statudol, ni ddylai'r ddarpariaeth fod wedi'i hailddatgan yn Neddf 1971 ychwaith. Er bod Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1962 wedi cynnwys darpariaethau y gellid awdurdodi ymgymeryddys statudol i brynu tir oddi tanynt, diddymwyd y darpariaethau hynny gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968.

Cwestiwn 52: adran 151

103. Rhannwyd y drafftio gyda grŵp gorchwyl a gorffen Cadw ac ni chodwyd unrhyw faterion. Mae diddordeb 'arbennig' adeilad rhestredig yn ystyriaeth sydd wedi'i hen sefydlu wrth asesu ei arwyddocâd, tra nad yw 'eithriadol' yn derm a ddefnyddir yn rheolaidd mewn gwerthusiadau o'r fath.

Cwestiwn 53: adran 152(4)

104. Diwygiodd Deddf 2016 Ddeddf 1979 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 i fewnosod pwerau i roi hysbysiadau stop dros dro, gyda phwerau mynediad cysylltiedig. Roedd y pwerau a fewnosodwyd yn Neddf 1979 yn cynnwys yn adran 9ZJ(a) bŵer datganedig i fynd ar dir i ganfod a ddylid cyflwyno hysbysiad stop dros dro, tra nad oedd y rhai a fewnosodwyd yn adran 88(3A) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn gwneud hynny. Mae ailddatgan y ddwy set o ddarpariaethau mewn un Bil wedi canolbwyntio sylw ar y gwahaniaeth drafftio hwn ac ar y cwestiwn a fwriadwyd pwerau gwahanol. Nid oes unrhyw reswm i'r pwerau fod yn wahanol, a chredir bod y methiant i gynnwys yr un pŵer yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 ag yn Neddf 1979 wedi bod yn amryfusedd.

105. Mae pwerau eisoes yn y ddwy Ddeddf (sydd hefyd wedi'u hailddatgan yn y Bil) i fynd ar dir i ymchwilio i weld a yw gwaith yn cael ei wneud heb ganiatâd neu'n torri amod caniatâd. Gellid defnyddio'r pwerau hynny i asesu a oedd yr amod cyntaf ar gyfer rhoi hysbysiad stop dros dro wedi'i fodloni, ond nid i ystyried yr ail amod, sef a ddylai gwaith ddod i ben ar unwaith. Rydym o'r farn bod ychwanegu pŵer penodol sy'n cwmpasu'r ail amod hwnnw yn fân newid y mae'n briodol ei wneud er mwyn sicrhau cydgrynhoad boddhaol.
106. Diwygiodd Deddf 2016 y ddwy Ddeddf i fewnosod pwerau datganedig i fynd ar dir i ystyried hawliadau am iawndal yn ymwneud â hysbysiadau stop dros dro, ond mae'r ddwy Ddeddf hefyd yn cynnwys pwerau cyffredinol i fynd ar dir i'w arolygu neu ei brisio mewn cysylltiad â hawliad am iawndal (yn adran 43 Deddf 1979 ac adran 88(4) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, a ailddatganwyd hefyd yn y Bil). Mae'r pwerau penodol yn dyblygu'r rhai cyffredinol ac maent wedi'u hepgor o'r Bil fel rhai diangen.

Cwestiwn 54: adran 152(9)

107. Fel yr eglurwyd yn Nodiadau'r Drafftwyd, arweiniodd y diddymiad a wnaed gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991 at wahaniaeth rhwng y pwerau i fynd ar dir yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 (nad ydynt yn cynnwys pŵer i gloddio i bennu presenoldeb mwynau) a'r rhai yn y Deddfau cynllunio eraill a Deddf 1979 (sy'n gwneud hynny). Ymddengys mai anghysondeb yw'r gwahaniaeth ac nid ydym wedi gallu nodi unrhyw reswm drosto.
108. Diwygiodd Atodlen 3 i Ddeddf 1991 Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 drwy fewnosod darpariaethau manylach ynghylch arfer pwerau mynediad, yn ogystal â diddymu'r cyfeiriad at fwynau yn adran 88(6). Ychwanegwyd yr Atodlen honno at y Bil Cynllunio ac Iawndal heb unrhyw ddadl yn y Senedd.
109. Nid ydym yn meddwl bod adfer y cyfeiriad at fwynau yn estyniad sylweddol i'r pwerau yn adran 88 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, sydd eisoes yn cynnwys tyllu i bennu natur yr isbridd.

Cwestiwn 55: adran 155(5)

110. Nid oes terfyn amser wedi'i bennu ar gyfer hawlio iawndal o dan adran 88B(7), gan adael y sefyllfa'n aneglur, ond ni all fod yn wir fod yr hawl i wneud hawliad yn para am byth. Rhaid gwneud hawliadau iawndal am ddifrod sy'n gysylltiedig ag arfer pwerau mynediad mewn modd amserol fel y gellir cyflwyno tystiolaeth o ddifrod.
111. Mae adran 9 o Ddeddf Cyfyngiadau 1980 yn gosod cyfnod cyfyngu o 6 blynedd ar gyfer hawlio unrhyw "*swm adenilladwy yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad*". Gall y cyfnod cyfyngu hwnnw fod yn gymwys i iawndal o dan adran 88B(7) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, ac mae'n amlwg yn wahanol iawn i'r cyfnodau cyfyngiad o 6 mis ar gyfer pob hawliad arall am iawndal o dan y ddeddfwriaeth a gydgrynhoir yn y Bil.
112. Mae methiant Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 i ddarparu ar gyfer terfyn amser ar gyfer hawlio iawndal o dan adran 88B(7) yn amlwg yn anghysondeb – ac mae'n ddiddorol nodi nad oes gan Cadw unrhyw gofnodion o hawliad yn cael ei wneud. Roedd terfyn amser o 6 mis wedi'i gynnwys yn adran 155(5) o'r Bil er cysondeb â'r darpariaethau iawndal eraill, er mwyn sicrhau cydgrynhoad boddhaol. Nid yw hyn yn

newid polisi ond mae'n ymwneud â chywiro anghysondeb drwy ddwyn hawliadau o dan adran 155(5) o fewn yr un polisi cyffredinol sy'n berthnasol i bob terfyn amser ar gyfer hawliadau iawndal o dan y Bil.

Cwestiwn 56: adran 156(1)

113. Rhannwyd y drafftio â grŵp gorchwyl a gorffen Cadw, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o enwadau eithriedig ac awdurdodau lleol, ac ni chodwyd unrhyw faterion. Mae'r sefyllfa gyfreithiol bresennol, a nodir yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 ac OS 2018/1087, wedi'i beirniadu gan ddefnyddwyr fel un cymhleth a dryslyd.
114. Mae adran 60 o'r Ddeddf yn rhoi'r camagraff bod pob adeilad eglwysig a ddefnyddir at ddibenion eglwysig wedi'i eithrio, pan mai effaith OS 2018/1087 yw eithriad cymharol gyfyng. Os caiff y sefyllfa ddiofyn mewn deddfwriaeth sylfaenol ei gwrthdroi a bod rheoliadau'n cael eu gwneud sy'n rhoi'r un eithriad â OS 2018/1087, y canlyniad fydd deddfwriaeth gliriach a symlach. Yn hynny o beth, mae adran 156 o'r Bil yn helpu i egluro'r gyfraith o dan RhS 26C.2(ii).
115. Gellid ystyried bod y newid dull yn adran 156 hefyd yn symud y ddarpariaeth gyffredinol nad yw adeiladau eglwysig wedi'u heithrio, a nodir ar hyn o bryd yn erthygl 3 o OS 2018/1087, i wyneb y Bil. Gellid disgrifio symud y ddarpariaeth o is-ddeddfwriaeth i ddeddfwriaeth sylfaenol fel newid bach sy'n briodol i'w wneud at ddibenion cydgrynhai'n foddhaol o dan RhS 26C.2(iv).

Cwestiwn 57: adran 156(3)(e)

116. Nid oes unrhyw addasiadau i Ddeddf Cynllunio 1990 yn OS 2018/1087, nac yn OS 1994/1771 yr oedd yn ei ddisodli. At hynny, mae'r rhan fwyaf o ddarpariaethau Deddf Cynllunio 1990 sy'n berthnasol i gydsyniad adeilad rhestredig wedi'u hailddatgan yn y Bil a gellid eu haddasu o hyd o dan adran 156(3)(e). I'r graddau y mae adran 60 yn rhoi pŵer i addasu darpariaethau eraill Deddf Cynllunio 1990, nid yw bellach o ddefnydd ymarferol.

Cwestiwn 58: adran 157

117. Mae'r diffiniad o "*awdurdod lleol/local authority*" yn adran 157 o'r Bil yn gymwys i'r cyfeiriadau yn adrannau 144 i 147, 152(6), 170, 171, 177(4), 183(7)(c), 197 ac Atodlen 9. (Mae darpariaethau eraill yn rhoi swyddogaethau i ystod gulach o awdurdodau lleol neu i awdurdodau cynllunio.) Pan fo'r darpariaethau hynny'n rhoi swyddogaethau i awdurdodau lleol, mae gan awdurdodau Parciau Cenedlaethol y swyddogaethau i'r un graddau ag o dan y ddeddfwriaeth wreiddiol.
118. Lle bynnag y mae Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn cyfeirio at awdurdod lleol ac yn dibynnu ar y diffiniad cyffredinol o'r term hwnnw yn Neddf Cynllunio 1990, mae awdurdodau Parciau Cenedlaethol hefyd wedi'u cynnwys, yn rhinwedd darpariaethau a fewnosodwyd gan baragraffau 32(11) a 33 o Atodlen 10 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 neu ddarpariaethau glosio ym mharagraff 2(4) o Atodlen 8 a pharagraff 13 o Atodlen 9 i Ddeddf 1995.
119. Mae adran 177 o'r Bil yn ailddatgan darpariaethau o adran 250 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ynghylch tystiolaeth mewn ymchwiliadau lleol. Maent yn cynnwys

darpariaeth na all fod yn ofynnol i berson ddangos teitl tir nad yw'n perthyn i awdurdod lleol. Yn Neddf 1972, nid yw "*awdurdod lleol/local authority*" yn cynnwys awdurdod Parc Cenedlaethol, ond gan fod awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn arfer holl swyddogaethau awdurdodau cynllunio ac awdurdodau lleol mewn perthynas ag adeiladau hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth, nid yw'n ymddangos yn briodol eu trin yn wahanol i awdurdodau eraill yn y cyd-destun hwn, felly mae adran 177 yn dibynnu ar y diffiniad cyffredinol o "*awdurdod lleol/local authority*" yn adran 157.

Ardaloedd cadwraeth

120. Mae'n werth ailadrodd bod y Llywodraeth wedi ceisio ailddatgan y ddeddfwriaeth bresennol er mwyn 'adrodd y stori' yn y ffordd gliriaf, fwyaf sicr. Wrth wneud hynny, gwnaed dyfarniadau ynghylch pa faterion y mae angen eu nodi'n benodol a pha rai y gellir eu tybio. Mewn rhai achosion, mae dyfarniadau gwahanol wedi'u gwneud i ddrafftwyd y ddeddfwriaeth bresennol, er enghraifft oherwydd nad yw darpariaethau presennol yn adlewyrchu arfer drafftio modern. Fodd bynnag, cadwyd y dull o gymhwyso darpariaethau adeiladau rhestredig gydag addasiadau er mwyn osgoi ailadrodd a niweidio hygyrchedd cyffredinol y ddeddfwriaeth.

Cwestiwn 59: adran 158

121. Y rheswm dros hepgor adran 69(2) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yw nad yw'n ymhlyg. Mae wedi'i hepgor oherwydd, yn hytrach na mynegi'n glir yr hyn y mae adran 69(1) yn ei awgrymu, credwn ei fod yn dyblygu'r hyn y mae adran 69(1) eisoes wedi'i ddweud yn benodol mewn geiriau gwahanol, sef bod y ddyletswydd i ddynodi yn un barhaus. Mewn achos o'r fath mae dyblygu yn arwain at ddryswch ynghylch ystyr y darpariaethau priodol.
122. Mewn cyferbyniad, mae cynnwys adran 158(2) o'r Bil yn llenwi bwlch cronolegol yn y stori: mae'n ddefnyddiol nodi y caiff awdurdodau cynllunio amrywio neu ganslo dynodiadau cyn pennu bod rhaid i awdurdodau hysbysu Gweinidogion Cymru pan fyddant wedi gwneud yr amrywio neu'r canslo.
123. Hepgorir adran 69(3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 gan nad yw Gweinidogion Cymru erioed wedi defnyddio eu pŵer i ddynodi ardaloedd cadwraeth. Mae awdurdodau cynllunio, trwy eu gwybodaeth leol, mewn gwell sefyllfa i arfer y swyddogaeth hon. Nid oes unrhyw reswm i feddwl y bydd hyn yn newid yn y dyfodol.

Cwestiwn 60: adran 161

124. Nid oes disgwyl i'r eithriad eglwysig gael ei ailgymhwyso mewn perthynas â chaniatâd ardal gadwraeth. Byddai'r achosion y byddai'r eithriad, o'i ailgymhwyso, yn gallu bod yn berthnasol iddynt yn brin (oherwydd byddai dymchwel bron bob amser yn anghyson â defnydd parhaus o adeilad at ddibenion crefyddol, a lle na all defnydd crefyddol barhau ar ôl y gwaith, ni all yr eithriad fod yn berthnasol).
125. Ar ail ran y cwestiwn efallai y byddai defnydd crefyddol yn gallu parhau mewn adeilad newydd ar y safle, ond ni fyddai hynny'n berthnasol i'r eithriad eglwysig (pe bai'n cael ei ailgymhwyso yn y dyfodol).

Cwestiwn 61: adran 161(2)(c) a (d)

126. I'r graddau y mae'r pŵer cyfarwyddo presennol yn galluogi gwneud darpariaeth a fydd i bob pwrpas yn newid y drefn ardaloedd cadwraeth ledled Cymru, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn fwy priodol i hynny fod yn destun craffu gan y Senedd. Mae adran 161 yn darparu bod yn rhaid i'r pŵer gael ei arfer yn awr drwy reoliadau. Mae hwn yn newid i'r gyfraith bresennol: mae adran 75(1)(d), (2) a (3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud cyfarwyddiadau cyffredinol (nid rheoliadau). Rydym o'r farn bod hyn yn briodol at ddibenion cyflawni cydgrynhoi boddhaol. Gweler hefyd yr ymateb i gwestiynau 29 a 30 uchod.

Cwestiwn 62: adran 163

127. Mae symud addasiadau i ddarpariaethau fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chaniatâd ardal gadwraeth o reoliadau i ddeddfwriaeth sylfaenol yn fân newid i'r gyfraith bresennol; rydym yn ailddatgan addasiadau sydd eisoes wedi'u gwneud. Ond credwn fod y newid hwn yn gwella hygyrchedd yn sylweddol. Mae'r ffaith bod llawer o ddarpariaethau adeiladau rhestredig yn gymwys ar ffurf addasedig i ardaloedd cadwraeth yn fater pwysig, ac mae'n fwy hygyrch i gael yr addasiadau a nodir yn yr ardal gadwraeth yn rhan o'r ddeddfwriaeth sylfaenol na gorfodi darllenwyr i leoli'r addasiadau hynny mewn rheoliadau ar wahân.

128. Mae'r newid i weithdrefn gymwys y Senedd yn ganlyniad i symud yr addasiadau presennol i ddeddfwriaeth sylfaenol: er mwyn cadw pŵer Gweinidogion Cymru i wneud addasiadau yn y dyfodol, mae angen darparu pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.

Cwestiwn 63: adran 163(1)(c)(i) a (2)(d)

129. Nid oes unrhyw fwriad i roi pwerau mynediad newydd. Yn hytrach, y bwriad yw datgan yn gliriach y pwerau mynediad y credwn fod yn rhaid iddynt fod yn gymwys eisoes mewn perthynas â chaniatâd ardal gadwraeth. Ni allwn feddwl am reswm pam y byddai gan y Senedd bwerau mynediad arfaethedig i fod yn gymwys yng nghydestun y drefn caniatâd adeilad rhestredig ond nid y drefn caniatâd ardal gadwraeth; a chredwn y byddai'r cyfeiriadau yn adran 88 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 at adrannau eraill o'r Ddeddf honno yn cael eu darllen fel pe baent yn cynnwys cyfeiriadau at yr adrannau hynny fel y'u cymhwysir gan adran 74(3). Ond byddai crybwyll adrannau 88 i 88C yn adran 74(3) wedi ei gwneud yn gliriach y bwriedir iddynt fod yn gymwys mewn perthynas â chaniatâd ardal gadwraeth. Dyna'r pwynt sydd bellach wedi'i egluro yn adran 163(1)(c)(i) a (2)(d) o'r Bil.

Cwestiynau 64 a 65: adrannau 165(1) a 166(3)

130. Er bod rhywfaint o ddeddfwriaeth bresennol yn cynnwys pwerau penodol i wneud grantiau yn amodol ar amodau, rydym o'r farn bod darpariaethau o'r fath yn adlewyrchu'r sefyllfa a fyddai'n bodoli yn absenoldeb darpariaeth benodol. Pan fo gan awdurdod cyhoeddus y pŵer i roi grantiau, rhaid iddo ddilyn bod pŵer i gynnwys amodau mewn cytundeb grant, ac mae'n anodd dychmygu grant yn cael ei roi heb unrhyw amodau. Fel y cyfryw nid oes angen dweud y gall y grant gael ei roi yn amodol ar amodau, ac mae'r darpariaethau i'r perwyl hwnnw wedi'u hepgor gan

ddibynnu ar RhS 26C.2(iii). Yn ogystal, mae adrannau 165 a 166 ill dau yn gwneud darpariaeth ynghylch effaith torri amodau grant, felly mae'n amlwg y gellir gosod amodau. Ar y llaw arall, yn adran 148(6) roedd yn briodol datgan yn fwy uniongyrchol y gellid cynnwys amodau, i gyflwyno enghraifft benodol o amodau yn ymwneud â mynediad cyhoeddus.

Darpariaeth atodol am adeiladau o ddiddordeb arbennig ac ardaloedd cadwraeth

Cwestiynau 66: adran 169(6)

131. Mae'r rhestr o swyddogaethau y mae paragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn berthnasol iddynt yn cynnwys holl swyddogaethau awdurdodau cynllunio sy'n ymwneud â rhestru dros dro a chaniatâd adeilad rhestredig, ond dim ond rhai swyddogaethau sy'n ymwneud â gorfodi a dim yn ymwneud â chytundebau partneriaeth dreftadaeth. Credwn fod hyn oherwydd na chafodd y rhestr o swyddogaethau ei diweddarau'n gywir pan ddiwygiwyd y Ddeddf gan ddeddfwriaeth ddilynol.
132. Mae paragraff 7 (o Atodlen 4) yn gymwys i swyddogaethau o dan adrannau 38 a 42 sy'n ymwneud â chyhoeddi hysbysiadau gorfodi a gwneud gwaith sy'n ofynnol gan yr hysbysiadau hynny. Mae hefyd yn cyfeirio at swyddogaethau o dan adran 44D, fel y'u mewnosodwyd gan Ddeddf 2016, sy'n ymwneud ag iawndal am golled a achosir gan hysbysiad stop dros dro. Yn y cyd-destun, mae'n amlwg y dylai'r cyfeiriad fod wedi bod at y pŵer i roi hysbysiad stop dros dro o dan adran 44B. Nid yw paragraff 7 yn sôn am swyddogaeth gwneud cais am waharddeb o dan adran 44A, a fewnosodwyd gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, ond ni allwn nodi unrhyw reswm pam y dylai fod yn berthnasol i bob swyddogaeth orfodi ac eithrio'r un honno. Yr esboniad mwyaf tebygol yw bod yr angen i ychwanegu cyfeiriad at adran 44A wedi'i fethu wrth ddrafftio Deddf 1991.
133. Dylai paragraff 7 fod yn gymwys i swyddogaethau awdurdod sy'n ymwneud â chytundebau partneriaeth dreftadaeth, yn union fel y mae'n gymwys i'w swyddogaethau sy'n ymwneud â cheisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig, oherwydd gall cytundebau partneriaeth dreftadaeth roi caniatâd adeilad rhestredig. Ystyriwyd y cwestiwn o sut y dylid addasu Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 mewn perthynas â chytundebau partneriaeth dreftadaeth wrth ddrafftio OS 2021/1177, ond methwyd yr angen i gymhwyso paragraff 7 o Atodlen 4.

Cwestiynau 67: adran 171(3)

134. Mae adran 90(1) a (3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 ill dau yn gymwys pan fo iawndal yn cael ei dalu gan awdurdod lleol oherwydd pethau a wneir o dan y darpariaethau ym Mhenodau 1 i 4 o Ran 1 o'r Ddeddf honno ynghylch rhestru, cydsyniad, hysbysiadau prynu a gorfodi. Mae isadran (1) yn sôn yn benodol am Atodlen 3 (ynghlŷn â phenderfynu ar apeliadau), tra nad yw isadran (3). Mae'n anodd gweld beth y gallai awdurdod lleol ei wneud o dan Atodlen 3 a allai arwain at hawliad am iawndal; a beth bynnag dylai Atodlen 3 gael ei chynnwys eisoes gan y cyfeiriadau at Benodau 2 a 4 o Ran 1 o'r Ddeddf.

135. Mae'r ddwy isadran yn sôn am bethau a wneir o dan adran 60 (yr esemptiad eglwysig), er mai dim ond adrannau eraill y mae'r adran honno'n eu datgymhwyso yn hytrach na rhoi unrhyw swyddogaethau i awdurdodau lleol.
136. Mae isadran (3) yn cyfeirio at bethau a wneir o dan adran 56, nad yw'n rhoi unrhyw swyddogaethau ar wahân i ddyletswydd i ystyried a ddylid arfer swyddogaethau eraill, ac o dan adran 59, nad yw'n rhoi unrhyw swyddogaethau o gwbl. Mae hefyd yn cyfeirio at adran 66(1), sy'n ddyletswydd i roi sylw i faterion penodol wrth arfer swyddogaethau o dan Ddeddf Cynllunio 1990, sy'n cynnwys ei darpariaethau ariannol ei hun. Ac mae'n cyfeirio at adrannau 67, 68 a 73, nad ydynt wedi'u hailddatgan yn y Bil.
137. Mewn geiriau eraill, lle bynnag y mae'r naill isadran neu'r llall yn cyfeirio at ddarpariaeth nas crybwyllir yn yr isadran arall, mae'r cyfeiriad naill ai'n anghywir neu'n ddiangen.

Cwestiwn 68: adran 174(7)

138. Ar hyn o bryd mae bwlch yn y darpariaethau ar gyfer ceisiadau brys i'r Goron. Mae adran 82B(11) yn darparu bod adran 12(4) yn gymwys i gais brys i'r Goron yn yr un modd ag y mae'n gymwys pan roddir cyfarwyddyd o dan adran 12, a oedd yn golygu'n wreiddiol fod gan y ceisydd a'r awdurdod cynllunio hawl i gael gwrandawriad gan berson penodedig. Ond mae OS 2014/2773 wedi diwygio adran 12 fel nad yw isadran (4) yn gymwys yng Nghymru mwyach.
139. Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw gofnod o fod wedi ymdrin â chais sy'n ymwneud â gwaith brys ar dir y Goron.

Cwestiwn 69: adran 184(2)

140. Mae adran 62(1) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn darparu na all y penderfyniadau a restrir yn isadran (2) gael eu cwestiynu mewn unrhyw achos cyfreithiol ac eithrio fel y darperir yn adran 63. Mae'r penderfyniadau hynny'n cynnwys penderfyniad ar apêl gorfodi sy'n rhoi caniatâd adeilad rhestredig neu'n cyflawni amod caniatâd. Mae adran 62(1) yn golygu mai dim ond drwy wneud cais am adolygiad statudol o dan adran 63 ac nid drwy apelio o dan adran 65 y gellir herio penderfyniad o'r fath.
141. Wrth ystyried darpariaethau cyfatebol Deddf Cynllunio 1990, mae'r llysoedd wedi cynnal her i benderfyniad ar apêl gorfodi sy'n rhoi caniatâd cynllunio, neu'n cyflawni amod neu gyfyngiad caniatâd, rhaid gwneud cais am adolygiad statudol, ond rhaid i herio unrhyw benderfyniad arall ar apêl o'r fath gael ei wneud drwy wneud apêl i'r Uchel Lys (*Jarmain v Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau* [2002] 1 PLR 105; *R (Cyngor Bwrdeistref Wandsworth) v Ysgrifennydd Gwladol dros Ddrafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau* [2004] JPL 291; *Cyngor Dinas Rhydychen v Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol* [2007] 2 P&CR 29).

Darpariaethau cyffredinol

Cwestiwn 70: adran 197(3)

142. Nid ydym wedi penderfynu a oedd y dull a fabwysiadwyd ar gyfer y mater gan Ddeddf 1979 yn fwriadol, ond mae absenoldeb terfyn amser clir yn ymddangos yn annymunol yng nghyd-destun trosedd o fethu â rhoi gwybodaeth. Oherwydd ein bod wedi rhesymoli pwerau tebyg ond ychydig yn wahanol i fynnu gwybodaeth o Ddeddfau ar wahân yn un Bil, bu'n rhaid llunio barn ynghylch sut i fynd i'r afael ag anghysondebau rhwng y ddeddfwriaeth berthnasol. Yn yr achos hwn, nid yw'r distawrwydd yn Neddf 1979 ar y pwynt hwn yn gyson ag arfer drafftio modern ac mae'n annymunol am y rheswm a roddir uchod ynghylch troseddoli methiannau i gydymffurfio â hysbysiad.

Cwestiwn 71: adran 200

143. Mae'r mater hwn yn codi oherwydd bod y troseddau yn adran 59 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn bodoli'n wreiddiol y tu allan i'r Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref, yn adran 3 o Ddeddf Mwynderau Dinesig 1967. Gwnaeth Deddf 1967 rai diwygiadau i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1962, ond roedd adran 3 yn ddarpariaeth annibynnol. Nid oedd Deddf 1962 na Deddf 1967 yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ynghylch y sefyllfa lle cyflawnir trosedd gan gorfforaeth. Gwnaeth Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968 ddarpariaeth ynghylch y sefyllfa honno, ond dim ond ar gyfer troseddau o dan Ddeddf 1962 a Deddf 1968, nid y troseddau yn adran 3 o Ddeddf 1967.

144. Mae cydgrynhoi dilynol wedi cadw'r sefyllfa hon, ond ni allwn nodi unrhyw reswm pam na ddylai'r ddarpariaeth ynghylch troseddau a gyflawnwyd gan gorfforaethau yn Neddf 1968 fod wedi'i chymhwyso i'r troseddau yn adran 3 o Ddeddf 1967. Credwn y dylai fod wedi'i gymhwyso i'r troseddau hynny, o ystyried ei fod yn berthnasol i'r holl droseddau statudol eraill sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig. Mae'n ymddangos yn debygol bod y methiant i'w gymhwyso yn amryfusedd wrth ddrafftio Deddf 1968.

Cwestiwn 72: adran 201

145. Y troseddau newydd a fewnosodwyd i Ddeddfau presennol gan Ddeddf 2016 oedd y troseddau o dorri hysbysiad gorfodi heneb gofrestredig a thorri hysbysiad stop dros dro (mewn perthynas â heneb gofrestredig neu adeilad rhestredig). Roedd y drosedd o dorri hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig eisoes wedi'i chynnwys yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 ac felly roedd yn "*drosedd berthnasol/relevant offence*" at ddibenion Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (Deddf 2008), fel pob un arall o'r troseddau sy'n ymwneud â gwaith anawdurdodedig ac achosi difrod i henebion cofrestredig neu adeiladau rhestredig. Fel yr eglurwyd yn y Nodiadau i Ddrafftwyd, methwyd yr angen i gymhwyso Rhan 3 o Ddeddf 2008 i'r troseddau newydd a fewnosodwyd gan Ddeddf 2016 yn ystod drafftio Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2015.

146. Y troseddau eraill yn y Bil presennol nad yw Rhan 3 o Ddeddf 2008 eisoes yn gymwys iddynt yw'r rheini yn adrannau 177 a 197 a pharagraff 2 o Atodlen 6 sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth. Unwaith eto, byddai'n ymddangos yn afreolaidd eithrio'r troseddau hynny o adran 201 o ystyried bod yr holl droseddau eraill a ailddatgenir yn y Bil, gan gynnwys troseddau sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth gyda cheisiadau am gydsyniad, yn "*droseddau perthnasol/relevant offences*" at ddibenion Rhan 3 o Ddeddf 2008.

147. Gwneir y newidiadau hyn at ddibenion cyflawni cydgrynhoad boddhaol o dan RhS 26C.2(iv). O ystyried ymhellach, nid yw RhS 26C.2(ii) yn berthnasol a bydd y Nodiadau Drafftwyd yn cael eu diweddarau maes o law.

Cwestiwn 73: adran 203

148. Mae adran 31(4) a (5) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn amodol ar *“ddarpariaethau unrhyw reoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon,”* ond nid yw’n gwbl glir a yw hyn yn cyfeirio at reoliadau o dan bwerau a nodir mewn mannau eraill yn y Ddeddf, neu ei fod yn rhoi pwerau ar wahân i addasu’r isadrannau hynny. Beth bynnag, nid oes unrhyw reoliadau wedi’u gwneud i gyfyngu ar weithrediad adran 31(4) a (5) na’i eithrio, ac ni allwn ragweld unrhyw senario lle y byddent yn cael eu gwneud. I’r graddau y mae adran 31(4) a (5) yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau ar wahân, nid ydynt bellach o unrhyw ddefnydd ymarferol at ddibenion RhS 26C.2(iii).
149. Mae’n bosibl defnyddio rheoliadau o dan adran 28 neu 116 o’r Bil sy’n addasu’r darpariaethau ynghylch iawndal am derfynu cytundeb partneriaeth i wneud addasiadau canlyniadol i adran 203 o’r Bil, er na allwn feddwl am unrhyw reswm pam y byddai hynny’n angenrheidiol. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw bwerau dirprwyedig eraill y gellid eu defnyddio i addasu adran 203; a phe bai unrhyw bwerau o’r fath yn bodoli, ni fyddai angen i adran 203 gyfeirio atynt.

Cwestiwn 74: adran 207(3)

150. Ni allwn ragweld unrhyw sefyllfa lle byddai angen diwygio diffiniad *“buddiant y Goron”* yn y Bil. Mae buddiannau’r Goron a’r Ddugaeth mewn tir a gwmpesir gan adran 207(3) a (4) o’r Bil yr un fath â’r rhai a gwmpesir gan ddiffiniadau mewn llawer o Ddeddfau eraill (gweler, er enghraifft, adran 10(2) o Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020). Nid ydym yn credu bod unrhyw fuddiannau eraill y Goron mewn tir y gellid eu hychwanegu.
151. Yr unig orchymyn a wneir o dan adran 82C(3)(c) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yw OS 2006/1469, sy’n ymwneud â dau Dŷ’r Senedd ac nad yw’n berthnasol i Gymru. Ymdrinnir â’r Senedd yn wahanol, mewn gorchymyn o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 y mae ei heffaith wedi’i hymgorffori yn adran 207 o’r Bil.
152. Yn yr achos annhebygol y byddai’n angenrheidiol diwygio’r diffiniad o *“buddiant y Goron”* oherwydd newid deddfwriaethol, byddem yn disgwyl i’r ddeddfwriaeth berthnasol wneud unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i adran 207. Pe bai angen gwelliant am ryw reswm arall, mae’n debygol y byddai angen Bil Senedd.

Cwestiwn 75: adran 207(3), (6)(c) a (9)(a)

153. Nid oes unrhyw drafodaethau wedi’u cynnal gyda Llywodraeth y DU yn benodol ar dir sy’n ymwneud â’r Goron. Rydym wedi cysylltu â Llywodraeth y DU ar y Bil yn fwy cyffredinol ac nid oes unrhyw bryderon wedi’u codi mewn perthynas â thir sy’n ymwneud â’r Goron.
154. Mae’r dull a fabwysiadwyd ar gyfer y buddiannau hyn yn golygu y gallai tir y mae’r buddiannau hyn yn bodoli ynddo fod yn amodol ar Ran 2 o’r Bil, fel y’i cymhwysir gan adran 74. Nid ydym yn meddwl bod hyn yn arwyddocaol oherwydd bod adran 74

yn caniatáu ymyrraeth â'r tir hwnnw dim ond i'r graddau nad yw buddiannau'r Goron yn cael eu heffeithio, ac nid yw'n effeithio ar bethau a wneir gan neu ar ran y Goron. Ac fel yr awgrymir yn Nodiadau'r Drafftwy'r, nid ymddengys fod cyfiawnhad dros ailddatgan yr anghysondeb presennol rhwng y ddwy brif Ddeddf. Byddai'r drafftio'n cynnwys unrhyw fuddiannau mewn tir a ddelir yn hawl ystadau preifat Ei Fawrhydi.

Cwestiwn 76: adran 208(3)

155. Mae adran 208(3) o'r Bil yn ailddatgan adran 51(3) o Ddeddf 1979 ac adran 86(3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Mae adran 51(3) yn gymwys i bob iawndal o dan Ddeddf 1979. Mae adran 86(3) yn gymwys i iawndal am golled a achosir gan hysbysiad cadw adeilad (hynny yw, rhestru dros dro) neu derfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Nid yw'n gymwys i iawndal am golledion a achosir gan warchodaeth dros dro, dirymiad neu addasu cydsyniad, hysbysiad stop dros dro neu arfer pŵer mynediad, er bod adran 51(3) o Ddeddf 1979 yn gymwys i'r iawndal am y colledion cyfatebol o dan y Ddeddf honno.
156. Ni allwn nodi unrhyw reswm dros y gwahaniaethau hyn. Diwygiodd Deddf 2016 adran 51(3) o Ddeddf 1979 i gynnwys iawndal yn ymwneud ag amddiffyniad dros dro a hysbysïadau stop dros dro, ac roedd y methiant i wneud diwygiadau cyfatebol i adran 86(3) o Ddeddf 1990 yn amryfusedd. Credwn y dylai Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991 hefyd fod wedi cymhwyso adran 86(3) o Ddeddf 1990 i iawndal o dan adran 88B(7) sy'n ymwneud â phwerau mynediad. Mae'r ffaith nad yw adran 86(3) yn gymwys i iawndal am ddirymu neu addasu caniatâd yn deillio o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968, a gyflwynodd ganiatâd adeilad rhestredig gyntaf. Ni allwn ddweud a oedd hynny'n ddewis bwriadol neu'n amryfusedd, ond mae'n anghysondeb arall y dylid ei gywiro at ddibenion cyflawni cydgrynhoi boddhaol.

Cwestiwn 77: adran 209(2)(b)

157. Nid yw Deddf Cynllunio 1990 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol sy'n rhoi pwerau penodol i orchmynion a rheoliadau wneud darpariaeth ategol, ond mae pwerau o'r fath wedi'u cynnwys mewn rhai adrannau. Mae arfer drafftio modern yn nodi bod pwerau i wneud isddeddfwriaeth yn cynnwys pwerau i wneud darpariaeth ategol, er ei bod wedi'i hen sefydlu hyd yn oed yn absenoldeb darpariaeth o'r fath y gellir awgrymu pwerau ategol lle mae eu hangen: gweler *Turnai Cyffredinol v Great Eastern Rly Co* (1880) 5 Ap Cas 473. Yn unol â hynny, gall isddeddfwriaeth o dan Ddeddfau 1990 wneud darpariaeth ganlyniadol, gysylltiedig ac atodol lle bo'n briodol neu'n angenrheidiol.
158. Mae cynnwys pwerau atodol datganedig yn adran 209(2)(b) o'r Bil yn egluro bod y pwerau hynny ar gael ac yn osgoi'r angen i ddibynnu ar bwerau ymhlyg. (Yn yr un modd, mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio yn datgan mai diben mewnosod pwerau ategol datganedig yn Neddfau 1990 yw "*i wneud y sefyllfa gyfreithiol yn glir ac yn ddiamwys*".) Byddai'n gamarweiniol ac nid yw o gymorth i adran 209 i ddarparu mai dim ond rhai pwerau yn y Bil oedd yn cynnwys pwerau ategol, gan y gallai hynny awgrymu bod pwerau ategol ar gael mewn rhai achosion ond nid mewn eraill.

Materion eraill

Cwestiwn 78: pwerau dirprwyedig newydd

159. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r pwerau dirprwyedig yn y Bil yn newydd, ond maent wedi deillio o ddeddfwriaeth bresennol. Mewn rhai achosion, mae cymeriad pwerau dirprwyedig presennol wedi cael ei newid, er enghraifft o gyfarwyddiadau i reoliadau, ond nid ydynt yn bwerau newydd (gweler yr ymateb i gwestiynau 29 i 31). Mewn achosion eraill, mae pwerau dirprwyedig wedi'u newid, wedi'u culhau'n aml, i adlewyrchu bod y darpariaethau bellach wedi'u hymgorffori yn y Bil, yn hytrach na'u gadael i isddeddfwriaeth.
160. Mae pŵer dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru wedi'i nodi yn y Bil yn adran 2(3); mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru eithrio adeiladau penodedig rhag eithriad cyffredinol i adeiladau crefyddol a ddefnyddir yn grefyddol o'u rhestru (gweler yr ymateb i gwestiwn 1).
161. Nid oes unrhyw bwerau dirprwyedig newydd wedi'u nodi yn y Bil ar gyfer unrhyw gyrrff cyhoeddus eraill. Mewn rhai achosion, mae pwerau gwneud rheoliadau ar gyfer awdurdodau lleol (gan gynnwys awdurdodau Parciau Cenedlaethol) wedi'u newid i bwerau creu isddeddfau.

Cwestiwn 80: statws isddeddfwriaeth

162. Ymrwymodd rhaglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, *Dyfodol Cyfraith Cymru*, i brosiect sy'n ystyried pecyn o isddeddfwriaeth i roi'r Bil hwn ar waith pe bai'n cael ei basio. Bydd yr holl isddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys OS 2017/643, yn cael ei hystyried fel rhan o'r prosiect hwn.

Cwestiwn 81: hepgor adran 81B o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990

163. Yn ei adroddiad, *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*, gwnaeth Comisiwn y Gyfraith argymhellion (8-5 ac 8-6) ynghylch gallu awdurdod cynllunio i wrthod penderfynu ar geisiadau tebyg. Argymhellodd ailddatgan adrannau 70A a 78A o Ddeddf Cynllunio 1990 ond hepgor adran 70B. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhellion hyn. Y darpariaethau Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 sy'n cyfateb i adrannau 70A, 70B a 78A yw adrannau 81A, 81B a 20A yn y drefn honno.
164. Mae adegau pan gyflwynir ceisiadau am ganiatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig ochr yn ochr, felly nid yw'n synhwyrol cael systemau gwahanol ar waith. Felly, cafodd adrannau 20A ac 81A o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 eu cynnwys yn y cydgrynhoi a chafodd adran 81B ei hepgor.

Cwestiynau dilynol

Cwestiwn 83: deddfwriaeth sydd wedi'i heithrio o'r Bil

165. Mae adran 50 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn ymwneud yn benodol â chaffaeliadau gorfodol a wneir o dan adran 47 o'r Ddeddf honno. Mae adran 47 o Ddeddf 1990 wedi'i hailddatgan yn y Bil (yn adran 137) ac felly mae adran 50 wedi'i hailddatgan hefyd. Mae cwmpas adran 50 yn wahanol i adran 49, sy'n ymwneud ag unrhyw gaffaeliad gorfodol o dir, nid yn unig y caffaeliadau hynny y darperir ar eu

cyfer o dan y Bil. Rydym wedi dod i'r farn na fyddai ei ailddatgan yn y Bil hwn, nad yw'n ymdrin â phob caffaeliad gorfodol o'r fath, yn gwella hygyrchedd.

Cwestiwn 85: pwerau newydd

166. Gweler yr ymateb i Gwestiwn 1.

Atodiad D: Gohebiaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar eithrio cyfraith forol

Mick Antoniw AS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y
Cyfansoddiad

7 Hydref 2022

Annwyl Mick

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Yn ein cyfarfod ar 3 Hydref 2022, gwnaethom drafod gohebiaeth a gawsom gan randdeiliaid allanol mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (gweler papurau 17 i 21). Bydd y safbwyntiau arbenigol a gafodd eu cynnig gan y sefydliadau a'r unigolion hynny yn cael eu codi gyda chi pan fyddwch yn dod i'n cyfarfod ar 14 Tachwedd. Fodd bynnag, cyn y sesiwn honno, byddem yn ddiolchgar pe baech yn adolygu'r sylwadau a wnaed gan Dr Hayley Roberts ac eraill ynghylch eithrio'r amgylchedd morol o'r Bil. Er ein bod yn cydnabod bod y mater hwn wedi'i drafod yn flaenorol – ar 11 Gorffennaf 2022 ac yn eich gohebiaeth atom dyddiedig 17 Awst 2022 – byddem yn croesawu eich sylwadau ar y pwyntiau penodol a godwyd gan Dr Roberts.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ateb erbyn 4 Tachwedd 2022.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd





Huw Irranca-Davies, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

28 Hydref 2022

Annwyl Huw,

BIL YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Hydref 2022 yn gofyn i mi adolygu'r dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor gan Dr Hayley Roberts ar eithrio deddfwriaeth amgylchedd hanesyddol morol o'r Bil ar hyn o bryd.

Yn amlwg nid oes unrhyw raniadau absoliwt rhwng y pynciau yn y gyfraith a bydd cysylltiadau rhwng materion a gynhwysir mewn Bil cydgrynhoi ac eraill lle nad oes.

Llongddrylliadau yw nodweddion mwyaf adnabyddus amgylchedd hanesyddol morol Cymru, ond mae'n cynnwys tirweddau boddedig, arteffactau wedi'u gwasgaru ar wely'r môr a thystiolaeth o ganrifoedd o fanteisio ar yr amgylchedd morol hefyd. Mae nifer o statudau'n darparu gwe gymhleth o amddiffyniad i'r amgylchedd hanesyddol morol ar hyn o bryd, yn enwedig:

- Deddf Diogelu Llongddrylliadau 1973 (Deddf 1973),
- Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (Deddf 1979),
- Deddf Diogelu Olion Milwrol 1986,
- Deddf Llongau Masnach 1995,
- Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Mae'r prif ddarpariaethau ar gyfer diogelu'r amgylchedd hanesyddol morol wedi'u cynnwys yn Neddfau 1973 a 1979.

Mae adran 1 o Ddeddf 1973 yn darparu amddiffyniad i longddrylliadau a ddynodwyd ar sail eu pwysigrwydd hanesyddol, archaeolegol neu artistig, neu ar sail unrhyw wrthrychau sydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

(neu a fu) ynddynt. Gwaherddir deifio mewn safleoedd llongddrylliadau dynodedig yng Nghymru oni bai bod Cadw wedi rhoi trwydded briodol.

Mae adran 2 o Ddeddf 1973 yn darparu amddiffyniad i longddrylliadau sydd wedi'u dynodi'n beryglus oherwydd eu cynnwys. Mae pwnc adran 2 yn fater a gedwir yn ôl o dan baragraff 120 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 felly ni fyddai'n bosibl ei gynnwys yn y Bil.

Mae Dr Roberts yn codi'r cwestiwn a fyddai modd diogelu llongddrylliadau drwy eu cofrestru o dan Ddeddf 1979 yn hytrach na Deddf 1973, a bod y Bil yn hytrach yn diddymu adran 1 o Ddeddf 1973 i Gymru. Mae'n bosibl cofrestru llongddrylliadau a safleoedd tanddwr eraill o fewn terfyn 12 milltir forwrol o ddyfroedd tiriogaethol yn ogystal â'r rhai hyd at y penllanw ac uwchlaw hynny. Fodd bynnag, mae'r systemau diogelu a gynigir gan y ddwy Ddeddf yn wahanol. Os yw llongddrylliad wedi'i gofrestru, nid oes gofyniad i gael trwydded i ddeifio ar safle; caniateir mynediad i'r cyhoedd ar sail 'edrych ond dim cyffwrdd'. Mae achlysuron lle na fyddai rhestru'n briodol. Er enghraifft, gallai safle llongddrylliad anghysbell, sy'n agored i achub neu chwilio am drysor heb reolaeth, neu sy'n arbennig o fregus, gael ei ddiogelu'n well trwy ei ddynodi fel llongddrylliad gwarchodedig. Mae hyn yn golygu bod cyn lleied o darfu â phosibl yn digwydd ar y safle, gan leihau'r risg o ddifrod. Er gwaethaf diffygion cydnabyddedig Deddf 1973, byddai Cadw yn amharod i golli'r gallu i ddynodi llongddrylliad o dan Ddeddf 1973 pe bai hynny'n cael ei ystyried fel yr amddiffyniad mwyaf priodol.

Fel yr eglurwyd yn fy llythyr ar 17 Awst, byddai ymgorffori adran 1 o Ddeddf 1973 yn y Bil yn gofyn am nifer o ddarpariaethau newydd i'w gwneud yn gyson ag arferion modern. Er enghraifft, nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal proses ffurfiol o ymgynghori cyn dynodi neu gyfle i adolygu penderfyniadau i ddynodi neu wrthod trwydded i ddeifio. Os cymharir y darpariaethau â'r rheini, er enghraifft, yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf 1979, mae'r diffyg manylder yn y gweithdrefnau'n amlwg. Byddai llenwi'r bylchau hyn yn golygu cyflwyno mwy na mân newidiadau i ddeddfwriaeth.

Mae tri statud arall yn effeithio ar reoli a diogelu'r amgylchedd hanesyddol morol hefyd:

- Yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Deddf 2009) mae gofyniad i gael cynllun morol cenedlaethol i Gymru. Mae gofyniad ynddi hefyd am drwyddedau morol ar gyfer sawl math o weithgareddau islaw penllanw cymedrig y gorllanw. Wrth ystyried ceisiadau, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried amryw o ffactorau, gan gynnwys effaith unrhyw weithgaredd arfaethedig ar yr amgylchedd hanesyddol morol. Dim ond un o nifer o faterion sy'n cael sylw yn Neddf 2009 yw'r amgylchedd hanesyddol morol ac ni fyddai'n briodol ei gynnwys yn y Bil.
- Mae Deddf Diogelu Olion Milwrol 1986 (Deddf 1986) yn ei gwneud yn drosedd i ymyrryd heb drwydded â gweddillion unrhyw awyren neu long ddynodedig filwrol sydd wedi cael gwrthdrawiad, wedi suddo neu fynd yn sownd. Nid yw hyn yn ystyried a gollwyd bywydau neu a ddigwyddodd y golled yn ystod cyfnod o heddwch neu adeg rhyfel. Nid oes unrhyw un o swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y Ddeddf wedi'i ddatganoli i Weinidogion Cymru. Yn ymarferol, y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n gyfrifol am ddynodi rhywle fel lle gwarchodedig neu fel safle a reolir. Nid yw dibenion y Ddeddf wedi'u cyfyngu i'r amgylchedd hanesyddol, ac nid yw'n berthnasol i'r llongau a'r safleoedd hynaf oll, felly ni fyddai'n briodol ar gyfer y Bil cydgrynhoi hwn.
- O dan Ddeddf Llongau Masnach 1995 rhaid rhoi gwybod i'r Derbynnnydd Llongddrylliadau am bob deunydd sy'n gysylltiedig â llongddrylliad — waeth beth fo'i oedran, ei faint neu ei bwysigrwydd neu werth ymddangosiadol — a adferir o

ddyfroedd tiriogaethol y DU. Er bod Deddf 1995 yn rhoi rheolaethau ar waith sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol morol mae ei destun yn fater a gedwir yn ôl o dan baragraff 120 o Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Er bod hygyrchedd y gyfraith ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol morol yn broblem heb os, mae dadleuon da y dylai cysylltiad priodol Deddf 1973 fod gyda deddfwriaeth ar gyfer yr amgylchedd morol, lle gellid trin rheoli ac amddiffyniad yn fwy cyfannol. Daeth y pwynt hwn i'r amlwg yn nhystiolaeth Comisiwn y Gyfraith i'r Pwyllgor hefyd.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, reading "Mick Antoniw". The signature is stylized with a large 'M' and a long horizontal line at the end.

Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Atodiad E: Gohebiaeth gan randdeiliaid

Ymatebodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn i'n llythyr yn gofyn am farn ar yr ymarfer cydgrynhoi. Gellir gweld yr holl ymatebion ar **wefan y Pwyllgor**.

Cyfeirnod	Sefydliad
01	Tai Hanesyddol (Cymru)
02	Cyfoeth Naturiol Cymru
03	Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol
04	Dr Hayley Roberts - Prifysgol Bangor
05	Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol
06	Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
07	Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg

